



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyrol 8: 9900-10075

BCW-9900 / [REDACTED] / Llanrhos

Rwy'n cytuno gyda chynnig y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer Aberconwy.

Rwy'n credu bod y newidiadau'n adlewyrchu hen Etholaeth Conwy a oedd yn cynnwys Bangor a Llandudno. Mae'n wir hefyd fod Llandrillo-yn-rhos a Bae Penrhyn wedi'u cysylltu'n naturiol.

Er ei bod ar wasgar yn naturiol, bydd y cynigion ar gyfer yr etholaeth yn cynnwys llawer o ardaloedd sydd â daearyddiaeth debyg (yr arfordir) yn ogystal â diwylliannau tebyg.

Mae ardaloedd etholaeth mwy yn golygu hefyd bod yr AS presennol yn gallu cyrraedd poblogaeth ehangach a chymhwyso llwyddiant rhaglenni i fwy o bobl.

Felly, rwy'n cytuno gyda'r cynigion.

[REDACTED]

BCW-9901 / [REDACTED] / Caerffili

Nid oes angen y cynnig hwn ac mae'n gwbl afresymol, ar sail hanes, daearyddiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth a chymunedol.

BCW-9902 / [REDACTED] / Conwy

Nid oes angen newid ein ffiniau

BCW-9903 / Andrew RT Davies AS / Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 13:07

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynrychiolaethau - Andrew RT Davies AS

Annwyl Syr neu Fadam

Fe gewch isod gynrychiolaethau gan Andrew RT Davies AS ynghylch Arolwg 2023 y Comisiwn o Ffiniau'r Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

[REDACTED]

Swyddfa Andrew RT Davies AS

Annwyl Syr neu Fadam

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas a newidiadau arfaethedig y Comisiwn i ffiniau'r etholaethau seneddol yng Nghymru fel rhan o arolwg 2023. Gwnaf y cynrychiolaethau hyn yn rhinwedd fy swydd fel Aelod Rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer Canel De Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi cynnig niter o newidiadau i'r ffiniau seneddol yn fy rhanbarth etholiadol yng Nghanol De Cymru. O ran etholaeth arfaethedig Rhondda, rwy'n cefnogi cynigion y Comisiwn yn llwyr. O ran yr hell etholaethau eraill yng Nghanol De Cymru, cynigiau y dylid gwneud rhai newidiadau i gynigion dram y Comisiwn i adlewyrchu'r cysylltiadau cymunedol yn yr etholaethau hynny yn well.

Rwyf wedi amlinellu fy ngwrthgynigion mewn perthynas a'r etholaeth hyn isod:

Bro Morgannwg

Er fy mod yn cefnogi penderfyniad y Comisiwn i gadw etholaeth Bro Morgannwg, yn gyffredinol, rwy'n poeni'n fawr bod ward Dinas Powys wedi'i throsglwyddo i etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Mae preswylwyr Dinas Powys yn troi at y Barri a Gwenf6 am wasanaethau, yn hytrach nag at ddinas Caerdydd a thref Penarth. Nid oes unrhyw gysylltiad tren uniongyrchol rhwng Dinas Powys a Phenarth, er enghraifft, felly mae preswylwyr yn mynd i'r Barri yn anochel am wasanaethau. Yn yr un modd, mae gwasanaethau allweddol y cyngor yn Dinas Powys wedi'u lleoli o gwmpas Gwenf6 a'r Barri.

Felly, rwy'n cynnig y dylid cadw ffiniau presennol etholaeth Bro Morgannwg. Yr etholaeth bresennol yw'r unig un yng Nghymru sydd a niter etholwyr sydd o fewn y cwota. Felly, dylai ward Dinas Powys barhau'n rhan o etholaeth Bro Morgannwg.

Gogledd Caerdydd

Nid wyf yn cefnogi cynnwys ward Ffynnon Taf yn etholaeth Gogledd Caerdydd. Rwyf o'r farn y dylai barhau yn etholaeth Pontypridd, sydd wedi'i lleoli yn ardal cyngor Rhondda Cynon Taf. Er fy mod yn derbyn bod rhaid i etholaethau groesi ffiniau seneddol ambell waith, dylid osgoi hyn lle bo hynny'n bosibl.

Yn yr un modd, credaf y byddai ward Gogledd Llandaf yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn well pe byddai'n cael ei chynnwys yn etholaeth Gorllewin Caerdydd. Mae cysylltiad agosaf cymuned Gogledd Llandaf â chymuned Llandaf. Maent yn rhannu llawer o gysylltiadau lleol. Byddai'r cysylltiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu'r well pe byddai'r ddwy gymuned wedi'u lleoli yn etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Canol Caerdydd

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gynnwys wardiau Llanrhymni a Thredelerch yn etholaeth Canol Caerdydd. Byddai cysylltiadau cymunedol yn cael eu hadlewyrchu'n well pe byddai Tredelerch yn aros yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, a Llanrhymni'n cael ei throsglwyddo i etholaeth Gogledd Caerdydd. Bydd y Comisiwn yn ymwybodol bod etholaeth Canol Caerdydd yn un drefol ei natur, ac yn cynnwys craidd trefol y ddinas a llawer o ardaloedd dinas fewnol. Mae cymunedau Llanrhymni a Thredelerch ar gyrion y ddinas ac nid ydynt yn rhannu cysylltiadau â chymunedau mwy metropolitan Cathays, Plasnewydd, Cyncoed, Y Rhath a Phenylan. Rwyf hefyd yn cynnig y dylid cynnwys ward Riverside yn etholaeth Canol Caerdydd. Mae'r gymuned hon yn un drefol ei natur ac mae'n gyfagos at ardal fusnes ganolog y ddinas. Mae'n cynnwys llawer o dai amlfeddiannaeth, yn debyg i ward gyfagos Cathays.

De Caerdydd a Phenarth

Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, rwy'n cynnig rhai mân newidiadau i etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Dylai ward Tredelerch aros yn ei hetholaeth, gan fy mod o'r farn bod hyn yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yn well.

Yn yr un modd, nid wyf yn credu ei bod yn briodol cynnwys ward Dinas Powys yn yr etholaeth hon. Yn hytrach, dylai aros yn etholaeth Bro Morgannwg, a fyddai'n adlewyrchu ei chysylltiadau â Gwenfô a'r Barri yn well.

Gorllewin Caerdydd

Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, rwy'n gwrthgynnig rhai mân newidiadau i etholaeth gorllewin Caerdydd. Mae ward Riverside yn rhannu mwy o nodweddion lleol â ward gyfagos Cathays, gyda'r ddwy ohonynt yn ffurfio rhan o graidd trefol Caerdydd. Mae ward gyfagos Llandaf yn un maestrefol ei natur ac, yn hytrach, mae'n rhannu mwy o nodweddion â ward Gogledd Llandaf.

Felly, rwy'n gwrthgynnig y dylid cynnwys ward Gogledd Llandaf yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, ac y dylid trosglwyddo ward Riverside i etholaeth Canol Caerdydd.

Merthyr Tudful ac Aberdâr

Rwy'n cefnogi creu etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr, yn gyffredinol. Er bod yr etholaeth arfaethedig hon yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, mae trefi Merthyr Tudful ac Aberdâr yn rhannu llawer o gysylltiadau lleol.

Yn fwyaf amlwg, mae'r ddwy dref yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau trên Trafnidiaeth Cymru ar hyd rheilffordd Merthyr, ar ôl i gangen Aberdâr gael ei hadfer dros 3 degawd yn ôl. I'r gwrthwyneb, nid yw etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni yn rhannu unrhyw gysylltiadau tebyg. Yn wir, byddai taith ar drên o Ferthyr i Rymni yn cymryd dros ddwy awr, ac mae'n ofynnol i deithwyr o'r naill dref sydd eisiau teithio i'r llall deithio i Gaerdydd yn gyntaf i ddal trên cysylltiol.

Fodd bynnag, rwy'n cynnig rhai gwrthgynigion i'r rhai a awgrymwyd gan y Comisiwn. Nid wyf o'r farn bod wardiau Nelson a Chwmbach yn adlewyrchu cysylltiadau lleol, ac rwy'n awgrymu y dylid tynnu'r rhain. Fodd bynnag, byddwn yn cynnwys wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman, sydd â chysylltiadau cryf iawn â thref Aberdâr.

Pontypridd

Rwy'n gwrthgynnig rhai mân newidiadau i etholaeth Pontypridd. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, rwy'n cynnig y dylid cynnwys wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Rwyf hefyd yn cynnig y dylid cynnwys wardiau Ffynnon Taf a Chwmbach yn etholaeth Pontypridd. Mae pob un o'r wardiau hyn wedi'u lleoli yn ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, ac felly mae fy ngwrthgynnig yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yn well.

Diolch i chi am roi o'ch amser i ystyried fy nghynrychiolaethau.

Cofion gorau,

Andrew RT Davies AS

Aelod Rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer Canol De Cymru

BCW-9905 / [REDACTED] / St Andrews Major

Oddi Wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 November 2021 13:29

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Eithrio Dinas Powys o'r Fro

Annwyl Syr/ Madam

Roedd hi'n siom fawr clywed am y posibilrwydd y gallai Saint Andras gael ei gwahanu oddi wrth Gymuned y Fro. Mae gan fy musnes a minnau'n bersonol gysylltiad cryf â'r Fro ac felly rwy'n gwrthwynebu cael fy nghysylltu gyda'r Trefoli cynyddol sy'n agosáu'n gyson at ein pentrefi gwledig. Yn draddodiadol, mae Dinas Powys a Saint Andras wedi gweld y Barri a Gwenfô fel estyniad o'u cymuned ac mae Penarth wedi ymddangos erioed fel bod ganddi gysylltiad naturiol â Chaerdydd, gyda'r naill le a'r llall yn amlwg yn Gymunedau Trefol gydag ethos gwahanol iawn i bentref Dinas Powys a phentrefan gwledig Saint Andras, sydd wedi bod â chysylltiad balch erioed â'r gymuned ffermio ehangach yn y Fro. Mawr obeithio y byddwch yn ailystyried symud y Ffiniau, a fyddai'n sicr yn arwain at fwy o straen ac anawsterau yn sgil y pandemig Covid-19.

Yn gywir

[REDACTED]

BCW-9906 / [REDACTED] / Casnewydd

Oddi Wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 November 2021 13:57

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Gwrthwynebiad i gynnig cychwynnol i newid ffin etholaeth Dwyrain Casnewydd

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau fy ngwrthwynebiad i gynnig cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i gynnwys rhan o etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd (Castell Caldicot, Llanddewi, Green Lane, Mill, Rogiet, Hafren, Elms a West End) i mewn i ffin etholaeth Trefynwy.

Y rhesymau dros fy ngwrthwynebiad:

Trwy wneud y newid hwn, bydd y bobl yn yr ardaloedd uchod yn Caldicot yn perthyn i ddwy etholaeth wahanol: yn San Steffan (Trefynwy) ac yn y Senedd (Dwyrain Casnewydd). Mae hyn yn peri dryswch diangen.

Mae'r ffin bresennol yr etholaeth wedi bod yn ei lle ers 1983. Mae newidiadau i ffiniau wedi digwydd yn y gorffennol ond nid ers cyflwyno'r Senedd. Fel gyda'r pwynt blaenorol, mae gwneud y newid nawr fod y Senedd yn ei lle yn peri dryswch diangen.

Rwy'n deall bod y Comisiwn angen adolygu ffiniau etholaethol ond mae'n ymddangos bod y newidiadau'n adlewyrchu tuedd ddwyreiniol gydag etholaethau dwyreiniol presennol yn cael eu hymestyn i gynnwys wardiau etholaethol i'r gorllewin.

Cynnig amgen.

Gohirio'r cynnig hwn ac ymgynghori â'r Senedd. Ystyried ateb i'r ddwy lywodraeth ar y cyd ar gyfer ffiniau etholaethol Cymru er mwyn sicrhau cysondeb ac atal dryswch diangen.

Cofion

[REDACTED]

BCW-9907/ Simon Baynes AS/ De Clwyd

SIMON BAYNES AS
De Clwyd



HOUSE OF COMMONS
LLUNDAIN SWIA OAA

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL

2nd November 2021

2 Tachwedd 2021

Dear Sir/Madam,

Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf atoch fel yr Aelod Seneddol dros Dde Clwyd.

Er fy mod yn siomedig bod fy etholaeth wedi cael ei rhannu rhwng 3 etholaeth, deallaf fod y gofyniad i leihau 8 sedd yng Nghymru yn golygu bod angen newid sylweddol.

Hoffwn gynnig rhai meddyliau ynglŷn â'r ffordd rydych wedi dyrannu'r wardiau yn fy etholaeth.

Yn gyntaf, rydych wedi awgrymu bod wardiau Brymbo a'r Mwynglawdd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn gysylltiedig â wardiau Sir y Fflint yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Nid yw'r un o'r wardiau yn fy etholaeth yn Sir y Fflint ar hyn o bryd ac anghytunaf â'ch cynnig i wahanu'r ddwy ward hyn oddi wrth wardiau eraill ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n golygu y byddai'n rhaid i Fwrdeistref Sirol Wrecsam ddelio â 3 AS yn hytrach na 2, a byddai Alun a Glannau Dyfrdwy yn cynnwys 2 awdurdod lleol yn hytrach nag 1.

Mae nifer o'm hetholwyr yn y 2 ward hyn wedi dweud eu bod yn siomedig ynglŷn â'r cynnig hwn ac y byddai'n well o lawer ganddynt gael eu cysylltu â wardiau eraill Wrecsam. Mae'r wardiau hyn yn edrych tuag at Wrecsam ac mae ganddynt gysylltiadau agos â'u wardiau cymdogol fel Coedpoeth, Bryn Cefn a Gwenfro. Felly, awgrymaf fod y 2 ward hyn yn cael eu cynnwys yn etholaeth Wrecsam.

Byddai hyn yn galluogi Pant, Johnstown a'r rhan o ward Ponciau yng nghymuned Rhosllannerchrugog i gael eu haduno â Rhiwabon, y mae ganddynt gysylltiadau lleol cryf â hi. Mae cysylltiad agos iawn rhyngddynt ac maen nhw'n cael llawer o'u gwasanaethau o Riwabon.

Mae cymuned Llangollen yn rhannol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a Sir Ddinbych ac mae'n gwneud synnwyr i'w chyfuno yn sedd arfaethedig Sir Drefaldwyn. Fodd bynnag, mae


wardiau Corwen a Llandrillo yn Sir Ddinbych yn fwy ar wahân a gellid eu cysylltu â wardiau eraill Sir Ddinbych i'r gogledd.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud a'r enw Sir Drefaldwyn a Glyndwr. Nid wyf yn credu bod Glyndwr yn disgrifio'r wardiau sydd wedi'u hychwanegu at etholaeth Sir Drefaldwyn yn gywir. Mae holl wardiau'n dod o'm hetholaeth i, a byddai De Clwyd yn ddisgrifiad gwell a fyddai'n sicrhau bod enw'r etholaeth bresennol honno'n cael ei gadw.

Rwy'n ddiolchgar i chi am ystyried fy nghymychiolaethau a gobeithiafy bydd eich cynigion diwygiedig yn gwneud y newidiadau a awgrymwyd.

Cofion cynnes,

Kind regards,



Simon Baynes MP/AS

Member of Parliament for Clwyd South / Aelod Seneddol dros Dde Clwyd



BCW-9908 / Geraint Davies AS / Abertawe

Ysgrifennaf atoch fel AS Gorllewin Abertawe ers yr 11 mlynedd diwethaf i wneud gwrthgynnig i gynnig y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) ar gyfer etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr ac etholaeth Canol a Gogledd Abertawe.

Mae cynnig presennol CFfG yn torri ôl troed trefol canolog Gorllewin Abertawe yn ei hanner, i bob pwrpas, ac yn rhoi rhan wledig o Gŵyr ar ben un hanner. Mae hyn yn rhannu cymunedau trefol yn yr etholaeth bresennol ac, yn lle hynny, yn uno hanner yr ôl troed trefol ag ardal wledig anghysylltiedig o Gŵyr.

Mae etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe yn mynd tua'r gorllewin o Afon Tawe gydag ôl troed trefol ar hyd yr arfordir sy'n ymestyn i mewn i Gŵyr.

Felly, mae'r gwrthgynnig isod yn ceisio ailgysylltu cysylltiadau lleol a chyfleustra, adlewyrchu'r ddaearyddiaeth a pharchu ffiniau presennol.

I grynhoi, mae hyn yn cynnwys:-

1. Cadw'r pedair ward yn sedd wreiddiol Gŵyr – Pontarddulais (4,954), Mawr (1,438), Llangyfelach (3,946) a Phenllergaer (2,553), sy'n cynnwys 12891 o bleidleiswyr – o fewn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn lle eu symud i Ganol a Gogledd Abertawe
2. Symud dwy ward a oedd yn etholaeth Gorllewin Abertawe yn wreiddiol – Sgeti (11,304) a Mayals (2,148) sy'n cynnwys 13452 o bleidleiswyr – i ailymuno ag Uplands yng Nghanol a Gogledd Abertawe
3. Symud Treforys (12,105) o Ganol a Gogledd Abertawe i Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn gyfnewid am Fon-y-maen (5391) a St Thomas (5514).
4. Byddai hyn yn rhoi 74653 o bleidleiswyr i etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr (75214 – 13452 o Sgeti/Mayals + 12891 o Bontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phenllergaer)
5. A byddai gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 75,560 o bleidleiswyr (76199 -13452 +1289 -12,105 + 5391+5514)

Byddai hyn yn arwain at y goblygiadau canlynol i'r ffactorau statudol a fydd yn cael eu hystyried:-

Ystyriaethau daearyddol arbennig

Yn wahanol i gynnig presennol CFfG, nid yw'r gwrthgynnig yn cymryd rhan wledig o etholaeth wledig sefydledig Gŵyr a'i rhoi ar ben ardal drefol; nid yw ychwaith yn torri rhan o etholaeth drefol sefydledig Gorllewin Abertawe a'i rhoi mewn ardal wledig gyda llinell yn rhannu ôl troed trefol parhaus mewn ffordd a fyddai'n anodd i bobl leol ei deall.

Mae'r arfordir ac Afon Tawe yn ffiniau naturiol ar gyfer etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. I'r gorllewin o Afon Tawe, mae wardiau Castell, Uplands, Sgeti a Mayals yn cysylltu â'i gilydd yn ddidrafferth ac yn cydffiniol yn ddaearyddol ar hyd yr arfordir. Felly, dylent aros yn gysylltiedig â'i gilydd o fewn yr un etholaeth. Byddai ychwanegu St Thomas a Bon-y-maen yn parhau â'r blaen arfordirol i'r dwyrain o Afon Tawe.

Ffiniau presennol

Felly, mae'r gwrthgynnig yn parchu ffiniau etholaethau presennol a sefydledig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn fwy trwy ddychwelyd wardiau a gyfnewidiwyd rhyngddynt. Mae'r holl wardiau'n dod o fewn awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe.

Cysylltiadau lleol

Mae Mayals yn rhan o Sgeti yn ei hanfod, ac mae Sgeti wedi'i hintegreiddio'n agos ag Uplands a Chastell ar gyfer gwaith, hamdden, siopa a llwybrau a chysylltiadau trafndiaeth.

Mae campws Prifysgol Abertawe yn Sgeti ac mae ei phoblogaeth fyfyrwyr yn byw yn wardiau Uplands a Chastell yn bennaf. Felly, mae myfyrwyr a chymunedau eraill yn croesi ffin Sgeti/Uplands bob dydd ar gyfer gwaith, astudio, hamdden ac addoli.

Mae poblogaeth Fwslimaidd Abertawe wedi'i chrynhof yng Ngorllewin Abertawe, a hynny yn Sgeti, Uplands a Chastell i raddau helaeth, felly mae addolwyr Mosg Abertawe yn cael eu cynrychioli gan un AS yn bennaf. Yn yr un modd, mae cynulleidfaoedd eglwysi'n mudo'n ddidrafferth ar draws Uplands a Sgeti.

Felly, gallai gwahanu Sgeti oddi wrth Uplands a Chastell achosi dryswch a thanseilio cysylltiadau lleol ar draws cymunedau sefydledig.

Yn yr un modd, mae cymunedau ym Mhontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phenllergaer, sydd yng Ngŵyr ar hyn o bryd, yn wledig a lled-wledig, ac nid ydynt yn ystyried eu hunain yn rhan o'r canol dinas trefol ar gyfer hunaniaeth gymunedol ond yn hytrach yn edrych tuag at Lanelli, Castell-nedd a Gŵyr.

Anghyfleustra

Mae'n dilyn o'r uchod y byddai cynnig CFfG heb ei ddiwygio yn creu anghyfleustra y gellid ei osgoi trwy rannu'r gymuned fyfyrwyr, y gymuned Fwslimaidd a chymunedau eraill.

Byddai anghyfleustra'n codi yn sgil holli ardal drefol mewn un etholaeth yn ddwy yn ddiangen, a rhoi hanner mewn etholaeth wledig a chysylltu'r hanner arall â wardiau gwledig sydd wedi'u gwahanu oddi wrth yr etholaeth wledig honno.

Felly, mae'r gwrthgynnig hwn yn well o ran cyfleustra.

Cefnogaeth leol i'r dewis amgen

Bydd y gwrthgynnig yn denu mwy o gefnogaeth gyffredinol gan gymunedau a grwpiau ffydd, yn enwedig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â chanol y ddinas a busnesau, y gymuned brifysgol, ac yn yr un modd cymunedau gwledig ar hyn o bryd nad ydynt yn ystyried bod ganddynt gysylltiadau agos â'r ddinas.

Amrediad Etholwyr Statudol

Byddai'r etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a wrthgynigir yn cynnwys 74,653 o bleidleiswyr, a byddai etholaeth Gogledd a Chanol Abertawe yn cynnwys 75,560 o bleidleiswyr. Byddai'r ddwy o fewn amrediad CFfG o 69,724- 77,062.

I gloi, mae'r gwrthgynnig hwn yn cynnal cyfanrwydd cymunedol a daearyddol yn fwy effeithiol ar yr un pryd â pharchu ffiniau presennol, felly fe'i hargymhellaf i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Geraint Davies

AS Llafur a Chydweithredol dros Orllewin Abertawe

BCW-9909 / [REDACTED] / Y Bontfaen

Oddi Wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: [REDACTED] 14:19

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newid Ffiniau Bro Morgannwg - Eithrio Dinas

PowysAt bwy bynnag sy'n berthnasol

Mae fy mhrofiad bywyd a gwaith wedi cadarnhau'n glir i mi fod pobl a diddordebau cyffredin eang yn ymgynnull mewn ardaloedd daearyddol penodol yn aml.

Pan ddechreuais i weithio yn y De ddeugain mlynedd yn 61, roedd y Cymoedd, Ardaloedd Metropolitan Caerdydd ac Abertawe a Bro Morgannwg yn wahanol yn wleidyddol ac yn ystyried eu hunain fel llefydd ar wahan. Sefyllfa sydd wedi datblygu fod yn fwy felly dros amser, yn enwedig ym Mro Morgannwg a'r Cymoedd.

Yn aches y Fro, mae hyn yn wir i'r fath raddau nes bod yr ardal y cael ei hystyried ynetholaeth arwyddocaol sy'n rhoi syniad o'r duedd wleidyddol gyffredinol yn y DU a'r blaid sy'n debygol o ffurfio Llywodraeth.

Yr unig gafeat i'r arsylwadau hyn yw ei bod yn ymddangos bod eithrio Penarth o'r Fro yn ymddangos yn rhyfedd gan ei bod yn perthyn yn fwy amlwg yn ddaearyddol ym Mro Morgannwg. Fedd bynnag, mae'n amlwg fod perthynas cymdeithas Penartha Chaerdydd yn gwrthddweud hyn. Heb os nid yw hyn yn wir yn aches Dinas Powys lie mae'r cysylltiad gwleidyddol, cymdeithasol a daearyddol yn amlwg gyda Bro Morgannwg.

Yn sgil hynny, ac eithrio rhyw reswm haniaethol mympwyol yn ymwneud a fformiwlau rwy'n ystyried nad oes unrhyw werth na chyfiawnhad o gwbl drosdrosglwyddo ardal Dinas Powys o etholaeth wledig i etholaeth fetropolitan.

Yn gywir

[REDACTED]

BCW-9910 / [REDACTED] / Aberystwyth

Mae hyn yn cynrychioli dosbarthiad tecach o'r boblogaeth mewn etholiadau felly rwyf yn cefnogi'r newid hwn i'w wneud yn decach ac yn fwy democrataidd.

BCW-9911 / [REDACTED] / Caerffili

Fel preswilydd yng Nghaerffili, rwyf wedi fy synnu a'm drysu gan y cynnig i gysylltu rhannau o Gaerffili gyda Chasnewydd. Bydd unrhyw un sy'n adnabod ac yn deall y dref yn gwybod bod gan bobl Caerffili gysylltiad llawer agosach â Chaerdydd na Chasnewydd. Rwyf wedi siarad â llawer o'm cymdogion am y mater ac maent yn gweld y penderfyniad yn hurt.

Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn edrych eto ar y cynnig afresymegol hwn.

Yn hytrach, dylai'r Comisiwn lunio cynigion newydd sy'n adlewyrchu dymuniadau'r gymuned leol yn fwy cywir, sy'n creu cysylltiad â Chaerdydd nid Casnewydd oherwydd cysylltiadau trafndiaeth.

BCW-9912/ [REDACTED] / Aberystwyth

Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn cynrychioli dosbarthiad teg o'r boblogaeth yn yr etholaeth.

BCW-9913/ [REDACTED] / Aberystwyth

Rwy'n cefnogi'r ffiniau arfaethedig ar gyfer yr etholaeth newydd gan eu bod yn ymddangos fel eu bod yn cynrychioli dosbarthiad teg o bleidleiswyr.

BCW-9914 / [REDACTED] / Powys

Oddi wrth: [REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

30 Hydref

Annwyl Syr,

Dyma air neu ddau i ddangos fy nghefnogaeth i gynigion ffiniau drafft y Comisiynwyr ar gyfer sedd Sir Drefaldwyn newydd ar sail hanes, daearyddiaeth, topograffeg a ffiniau llywodraeth leol yr ardal. Ymddengys i mi fod y cynigion hyn yn welliant aruthrol ar y rhai blaenorol. Dim ond awgrym - gellid galw'r sedd newydd yn Sir Drefaldwyn a'r Bröydd (h.y. bröydd Ceiriog a Llangollen - hen sedd) ond dydw i ddim yn teimlo'n gryf iawn am y mater.

Fel arall, llongyfarchiadau i'r Comisiwn Ffiniau ar ei waith da.

Yn gywir

[REDACTED]

BCW-9915/ [REDACTED] / Llandyrnog

Rwy'n cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud gan y Comisiwn. Rwy'n deall ac yn cydnabod yr angen a'r sail resymegol dros yr arolwg a'r angen am newid. Mae'n siom y bydd Dyffryn Clwyd yn cael ei rannu'n ddau ond rwy'n derbyn y rheswm ehangach dros hyn. Rwy'n byw yn ardal arfaethedig Delyn. Ar y cyfan rwy'n cytuno â'r cynigion.

- Mae Prestatyn, Gronant a phentrefi i'r Dwyrain hyd at ond heb gynnwys Bagillt a'r Fflint yn perthyn yn briodol i'r Delyn arfaethedig. Mae yna lif cymunedol naturiol a chysylltedd trafndiaeth.
- Mae Bagillt a'r Fflint yn perthyn yn fwy naturiol i'r cymunedau mwy diwydiannol i'r Dwyrain ohonynt yng Nglannau Dyfrdwy a Chei Connah. Mae llif cymunedol ar gyfer adwerthu a chyflogaeth yn symud yn fwy naturiol i'r dwyrain tua Chaer a thu hwnt. Felly, credaf na ddylent gael eu cynnwys gyda'r Delyn arfaethedig.
- Mae ardal Llanfair Dyffryn Clwyd yn perthyn yn fwy priodol i etholaeth arfaethedig Delyn gyda'r gymuned wedi'i chysylltu'n helaeth â Rhuthun ar gyfer addysg uwchradd a manwerthu. Felly, rwy'n cynnig bod Llanfair DC yn cael ei gynnwys yn y Delyn arfaethedig fel yr awgryma'r Comisiwn.
- Rwy'n cynnig bod Argoed, New Brighton a Choed-llai yn cael eu cynnwys yn y Delyn arfaethedig gan fod y cysylltiadau cymunedol ar gyfer cyflogaeth, manwerthu ac addysg â thref yr Wyddgrug.
- Mae gan Gorwen a Llandrillo, er eu bod yr un pellter o'r Bala a Rhuthun, gysylltiad cryfach â Rhuthun. Mae llawer o blant yn mynd i'r ysgol yn Rhuthun, mae cymunedau'n defnyddio Rhuthun ar gyfer manwerthu gan fod mwy o ddarpariaeth yno ac mae'r naill a'r llall yn Sir Ddinbych gan leihau rhannu ardaloedd o fewn ffiniau'r Sir.
- Rwy'n cynnig yn gryf y dylid newid enw Delyn i Ddwyrain Clwyd sy'n enw mwy priodol gan mai hanner dwyreiniol dyffryn daearyddol Clwyd ydyw a byddai cymunedau yn ei adnabod yn rhwydd.

BCW-9916/ [REDACTED] / Landrillo-yn-rhos

Nid wyf am i Landrillo-yn-rhos symud i Aberconwy.

BCW-9917/ Clerc Cyngor Tref Rhuthun/ Rhuthun

YMATEB CYNGOR TREF RHUTHUN I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYNIGION CYCHWYNNOL Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Bu i Gyngor Tref Rhuthun ystyried Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru (Y Comisiwn) yn ei cyfarfod cyhoeddus ar 18 Hydref 2021. Mae'r Cyngor Tref yn anghytuno'n gryf iawn â'r cynigion a amlinellwyd mewn perthynas â Rhuthun a Chymru gyfan.

Er ein bod yn cydnabod bod Rheolau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) (y Ddeddf) yn nodi nifer yr etholaethau sydd i'w darparu ar gyfer Cymru, mae gan Gyngor Tref Rhuthun bryderon sylweddol y bydd lleihau nifer yr ASau yng Nghymru o 40 i 32 yn niweidiol iawn i ddemocratiaeth.

O ystyried bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar hyn o bryd gan 6.15% o ASau'r DU (40 allan o 650 o etholaethau), byddai cael gwared ar 20% o ASau Cymru yn lleihau llais a chryfder cynrychioliadol Cymru yn San Steffan hyd yn oed ymhellach.

Mae'r meini prawf y gall y Comisiwn eu hystyried (yn unol â'r Ddeddf) yn cynnwys:

- Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;
- Ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu a oedd yn ddarpar ar 1 Rhagfyr 2020;
- Ffiniau etholaethau presennol;
- Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau; a
- Yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath'

Ar hyn o bryd mae tref Rhuthun o fewn Etholaeth Seneddol Gorllewin Clwyd. Rhuthun yw tref sirol Sir Ddinbych a mae wedi'i leoli yn ne Dyffryn Clwyd. Mae'n dref farchnad fywiog sydd â dylanwad Chymreig cryf gyda dros 40% o siaradwyr Cymraeg. Mae cysylltiadau agos a naturiol rhwng Rhuthun a'r cymunedau gwledig cyfagos, sydd hefyd yn gartref i nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, ac y mae eu trigolion yn aml yn y dref ar gyfer anghenion addysg, cyflogaeth, hamdden a gofal iechyd. Mae pryder sylweddol y bydd y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg yn Rhuthun a'n cymunedau gwledig agos.

Ymddengys bod y cynigion cychwynnol yn cynnwys Rhuthun o fewn etholaeth Delyn, sy'n cwmpasu ardal o Brestatyn yn y Gogledd, i'r Fflint yn y Dwyrain, yn diystyru meini prawf y Comisiwn yn llwyr (fel yr amlinellir uchod). O fewn etholaeth newydd arfaethedig Delyn, mae Rhuthun wedi'i leoli ar gyrion de-orllewinol pellaf yr etholaeth hon, ac felly'n gwrthio'r dref o'i chymunedau gwledig a naturiol cyfagos yn ogystal â sawl rhan o Sir Ddinbych.

Gan fod gan Delyn broffil economaidd gwahanol a llawer llai o siaradwyr Cymraeg, mae pryderon y gallai hyn fod yn niweidiol i Ruthun a'i thrigolion. Ystyrir bod etholaeth arfaethedig Clwyd yn gynnig llawer mwy addas a chytbwys i Ruthun na Delyn.

Er ein bod yn cydnabod paramedrau rhifiadol yr etholaethau arfaethedig, mae gan ardaloedd gwledig ffactorau cynhenid sy'n gofyn am ystyriaeth, ymwybyddiaeth a sensitifrwydd ychwanegol. Gallai ymestyn ardaloedd daearyddol a nifer yr etholwyr ar gyfer etholaethau arfaethedig leihau llais trigolion tra'n cynyddu llwyth gwaith ASau. Gofynnir i fwy o ystyriaeth gael ei rhoi i niferoedd etholaethau a daearyddiaeth etholaethau ag ardaloedd gwledig.

Mae Cyngor Tref Rhuthun yn annog y Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i sefyllfa ddaearyddol Rhuthun a'i berthynas â'r ardal gyfagos ac felly i adleoli Rhuthun o gynnig presennol Delyn i etholaeth arfaethedig Clwyd.

BCW-9918/ [REDACTED] / Aberteifi

Rwyf o blaid newid y ffin gan y bydd yn fwy cynrychiadol o'r boblogaeth. Rwy'n byw mewn ardal â phoblogaeth fach a bydd y newidiadau hyn yn datrys y gwahaniaeth ag ardaloedd â phoblogaeth fwy.

BCW-9919/ [REDACTED] / Llanbedr Pont Steffan

Hen bryd a dylai gael ei dderbyn yn llawn fel mater o degwch ar gyfer ein dyfodol.

BCW-9920/ [REDACTED] / Dinas Powys

Mae Dinas Powys [D.P.] yn gymuned wledig gyda ffermydd anghysbell sy'n gymesur â'i lleoliad ym Mro Morgannwg, tra bod pentref gwledig Saint Andras, wedi'i gysylltu â D.P. drwy ei eglwys a'i fynwent. Mae Ysgol Saint Andras yr Eglwys yng Nghymru yn Ninas Powys yn hwyluso mynediad i ddisgyblion o'r Barri sydd am fynychu ysgol grefyddol. Mae'r ysbyty lleol yn y Barri o fudd sylweddol i breswylwyr D.P., gan roi cyfleusterau meddygol o fewn cyrraedd hawdd iddynt. Mewn ffyrdd eraill, mae'r Barri yn darparu gofal optegol a deintyddol ynghyd â gwneud siopa'n hawdd. Yn ddiweddar rhoddwyd brechlynnau atgyfnerthu Covid yng nghanolfan hamdden Holm View y Barri sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd na theithio i Gaerdydd.

Mae llawer o'r chwaraeon sy'n cael ei chwarae yn D.P. yn gysylltiedig â rhai'r Barri a'r Fro, sy'n meithrin cystadleuaeth ac ysbryd cymunedol lleol.

Mae cyfleusterau cyngor lleol yn effeithlon dros ben ac aed i'r afael â llifogydd diweddar yn D.P. yn ddi-oed.

Mae poblogaeth y Fro o fewn y niferoedd gofynnol fell pam rhoi Dinas Powys wledig mewn lleoliad dinesig! Bydd maint mwy yn anoddach i'w lywodraethu.

BCW- 9921/ Jayne Bryant AS/ Gorllewin Casnewydd

Ymateb i'r Ymgynghoriad – Gorllewin Casnewydd a Chaerffili

Yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, rydym yn rhestru'r nifer o bryderon sydd gennym ynghylch etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, gan gyfiawnhau pam mae'r materion hyn yn berthnasol, a nodi lle maent yn haeddu craffu pellach.

Yn y pen draw, mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn arwydd o'n hanesmwythyd â'r ffiniau arfaethedig, ac yn dadlau y dylai'r Comisiwn Ffiniau ailystyried ei gynlluniau ar gyfer Gorllewin Casnewydd.

Gwneir ein cynnig amgen yn rhan olaf yr ymateb hwn.

Jayne Bryant – Aelod o'r Senedd dros Orllewin Casnewydd

Croesi ardaloedd cynghorau

Mater 1: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cwmpasu dwy ardal gyngor

Mater cychwynnol clir ac amlwg ynghylch etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yw ei bod yn croesi ardaloedd cynghorau, gan rannu wardiau rhwng canolfannau dinesig Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Nid dyma fyddai dewis cyntaf unrhyw un. Yn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd, daw'r holl faterion yn ymwneud â'r cyngor o dan awdurdodaeth Cyngor Dinas Casnewydd (CDC).

Yn bwysicaf oll, i etholwyr, gallai cael Aelod Seneddol sy'n cynrychioli dwy ardal gyngor achosi ansicrwydd ynghylch pwy i gysylltu ag ef pan mae materion a phryderon yn codi.

Mae'n amlwg bod elfen o ddryswch yn bodoli ymhlith poblogaeth Cymru ynghylch pwy sydd â chymhwysedd dros wahanol feysydd polisi. Mae'r llinellau rhwng cyfrifoldebau cynghorau, Senedd Cymru, a Senedd y DU yn parhau i fod yn ansicr, er gwaethaf ymdrechion mynych Llywodraeth Cymru i amlygu ei chymhwysedd

deddfwriaethol. Adlewyrchir y ddealltwriaeth hon yn y llenyddiaeth academiaidd ar lywodraethu Cymru (gweler casgliadau Entwistle et al, 2014, ymhlith eraill).

Mae'r dryswch hwn yn adnabyddus hefyd ymhlith swyddogion cynghorau, cynghorwyr, a seneddwyr, yn deillio o'n gwaith etholaeth o ddydd i ddydd. Yn gyson, rhaid trosglwyddo gwaith achos rhwng ein swyddfeydd, ac mae angen egluro ein meysydd awdurdodaeth i etholwyr. Yn yr etholaeth bresennol, gall hyn weithio'n effeithiol, gyda phob swyddfa seneddol yn gweithio gyda'i gilydd, ond o fewn ffiniau Cyngor Dinas Casnewydd yn unig.

Wrth gyfuno dwy ardal gyngor, byddai etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cymylu llinellau sydd eisoes yn aneglur. Yn hytrach na gweithio ochr yn ochr â'r Aelod o'r Senedd a'r cynghorwyr sy'n cyfateb yn uniongyrchol, byddai'n ofynnol i Aelod Seneddol Gorllewin Casnewydd a Chaerffili weithio fel canolwr ymhlith dim llai na phum haen o gymhwysedd. Yn gyntaf, ei gymhwysedd ei hun o ran Senedd y DU; yn ail, cymwyseddau Aelod o'r Senedd Gorllewin Casnewydd; yn drydydd, cymwyseddau Aelod o'r Senedd Caerffili; yn bedwerydd, cymwyseddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC); ac yn bumed, cymwyseddau CDC.

Yn ymarferol, byddai hyn yn gwneud gweithio ar y cyd ar achosion yn anoddach, yn fwy cymhleth, ac yn llai effeithlon. Mewn meysydd arall, byddai'r cynigion yn rhwystro cysylltiadau sefydledig rhwng cynghorau ac Aelodau Seneddol sefydledig a meysydd gweithio ar y cyd.

Yn fwy na dim, byddai'n ei gwneud yn anoddach i Aelod Seneddol gadw ar y blaen â holl ddatblygiadau'r cynghorau yn ei etholaeth.

Afon Wysg

Mater 2: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili ac etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd yn anwybyddu'r ffiniau naturiol clir ac amlwg sy'n rhannu dinas Casnewydd

Mae sefydlu ffiniau yn dasg anodd, felly mae'n gwneud synnwyr i gydnabod nodweddion naturiol lle bynnag y bo modd. Dibynnwyd ar ffiniau naturiol ers canrifoedd i sefydlu ardaloedd sy'n perthyn i'w gilydd ac ardaloedd sydd ar wahân.

Heddiw, mae'n glir y defnyddir pwyntiau gwahanu naturiol i ddynodi etholaethau ledled y DU. Byddem yn amharod i anwybyddu arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol ac ymarferol ffiniau sydd wedi'u sefydlu'n naturiol.

Yng Nghasnewydd, rydym yn ffodus bod gennym ffin naturiol amlwg ac eglur sy'n rhannu Gorllewin a Dwyrain ein dinas. Mae'r Wysg yn cynrychioli pwynt clir ar gyfer rhannu. Mae'r afon wedi gwasanaethu pobl Casnewydd yn dda fel ffin adnabyddus a gweladwy iawn.

Yn hynny o beth, ymddengys argymhellion y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag ymyl yr afon – gan ddewis anwybyddu a disodli'r Wysg – yn ddim llai na ffars. Nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i Ddwyrain Casnewydd gynnwys tir i'r gorllewin o'r afon – yn wardiau Betws, Malpas, Pillgwenlly, Shaftesbury a Stow Hill. Ar ben hynny, byddai etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cynnwys ychydig yn unig o wardiau gorllewin dinas Casnewydd, ac mae hyn yn ymddangos yr un mor wirion.

Byddai ffiniau newydd yr etholaethau yn dileu eglurder y ffin wirioneddol rhwng y gorllewin a'r dwyrain, a gosod ffin stryd-wrth-stryd yn ei lle, sydd wedi'i diffinio'n wael, yn annaturiol ac yn ddiangen o gymhleth. Byddai hyn yn gweld wardiau a chymunedau sydd wedi bod ynghlwm wrth ei gilydd ers cenedlaethau ar lannau gorllewinol Afon Wysg yn cael eu gwahanu'n ddiangen.

Y peth mwyaf amhriodol fyddai gwahanu'r Gaer oddi wrth Pillgwenlly; a Stow Hill oddi wrth Allt-yr-yn. Byddai etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn darnio strydoedd, yn llythrennol, fesul cymydog. Mae nodi manylion y ffin arfaethedig yn datgelu maint y broblem hon. Er enghraifft, byddai Caerau Road a Stow Hill yn gweld tai sydd ond ychydig fetrau i ffwrdd oddi wrth ei gilydd yn cael eu gwahanu. Mae'r ffin arfaethedig yn torri'n fympwyol drwy randiroedd i'r gorllewin o Coldra Road. Ni fyddai cymdogion ar hyd Barrack Hill yn rhannu'r un AS mwyach. Mae'r ffin arfaethedig yn rhannu Harlequin Drive mewn modd rhyfedd iawn – ac nid gor-ddweud yw hyn – ar hyd lawntiau blaen a ffensys gerddi.

Er ein bod yn cydnabod na ellir cael ffiniau clir bob amser, credwn fod y Comisiwn Ffiniau wedi gwneud camgymeriad amlwg wrth ddewis anwybyddu Afon Wysg, ac mae'n rhaid gwrthdroi hyn cyn gweithredu unrhyw etholaeth newydd.

Mater 3: nid oes llawer sy'n gyffredin rhwng wardiau yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili

Mae'n ymddangos bod etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cyfuno wardiau sydd heb lawer yn gyffredin rhyngddynt o ran buddiannau neu ddemograffeg.

Mae'r wardiau yn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd a gaiff eu cadw – Y Graig, Tŷ-du, Parc Tredegar, Shaftesbury, Y Gaer, Allt-yr-yn, a Maerun – yn amrywiol a gwahanol. Credwn fod hyn yn cyfrannu at gryfderau presennol Gorllewin Casnewydd.

Serch hynny, mae'r amrywiaeth hon yn ddim o gymharu â'r hyn a fyddai'n dod i'r amlwg yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Cymerwch y tair enghraifft hyn.

Allt-yr-yn

Mae ward Allt-yr-yn, i bob pwrpas, yn ward yng nghanol dinas Casnewydd. Yn bennaf, mae'n cynnwys tai adeiledig, ac adeiladau masnachol.

Yn ôl proffil lles wardiau Cyngor Dinas Casnewydd a luniwyd yn 2017, ceir gweithgarwch economaidd sylweddol yn y ward, o gymharu â wardiau eraill yng Nghasnewydd a ledled Cymru.

Mae bron i 69% o'r trigolion rhwng 16 a 74 oed yn economaidd weithgar, ac mae gorynrychiolaeth o ran galwedigaethau â chyflogau uwch a sgiliau uwch.

Mae 12.5% o'r preswylwyr sy'n economaidd weithredol a rhwng 16 a 74 oed yn rheolwyr, yn gyfarwyddwyr, ac yn uwch swyddogion; y cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 9.3%.

Mae 24.3% mewn galwedigaethau proffesiynol; ledled Cymru, y ffigwr cyfatebol yw 15.2%.

Mae'r lefel cymwysterau ymhlith oedolyn yn gymharol uchel. Mae 37.5% o breswylwyr dros 16 oed yn meddu ar gymwysterau lefel 4 neu uwch; mae 19.1% heb unrhyw gymwysterau.

Yn gyffredinol, mae disgyblion mewn ysgolion yn Allt-yr-yn yn perfformio ar lefel uchel iawn yng Nghyfnod Allweddol 3.

Maerun

Mae Maerun yn ward oludog yng Nghasnewydd, ar y ffin rhwng gwlad a thref. Mae'n cynnwys pentrefi, tir amaethyddol, arfordir a rhannau o Wastadeddau Gwent.

Fel Allt-yr-yn, ceir gweithgarwch economaidd sylweddol yma, ac mae gorgynrychiolaeth o ran galwedigaethau sy'n talu'n dda. Y ffigwr cymharol ar gyfer pobl 16 i 74 oed sy'n economaidd weithgar yw 76%.

Yn ôl yr un metrigau cyflogaeth ag Allt-yr-yn, mae Maerun yn cymharu'n ffafriol. Mae dros 15% o breswylwyr rhwng 16 a 74 oed sy'n economaidd weithgar yn rheolwyr, yn gyfarwyddwyr ac yn uwch swyddogion; mae 23.3% mewn galwedigaethau proffesiynol. Unwaith eto, caiff y ddau grŵp eu cynrychioli ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru.

Ceir lefel cymwysterau 4+ ymhlith oedolion o tua 37%, ond o ran nifer y preswylwyr heb unrhyw gymwysterau, mae'r ffigwr ychydig yn is nag yn Allt-yr-yn, sef ychydig dros 16%.

Yn gyffredinol, mae disgyblion mewn ysgolion ym Maerun yn perfformio ar lefel uchel iawn yng Nghyfnod Allweddol 3, gyda phob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn cofnodi cyfraddau cymwysterau sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Casnewydd a Chymru.

Gellir gwahanu Maerun ac Allt-yr-yn yn ôl defnydd tir, ond maent yn rhannu proffil cymharol gydnaws o ran nifer o ddangosyddion cyfoeth ac addysg. Hefyd, maent yn rhannu cysylltiad agos yn ddaearyddol, er bod rhannau o Faerun mewn ardal â chodau post CF.

Cwm Aber

Mewn cyferbyniad, mae Cwm Aber yng Nghaerffili yn gymuned wledig yn y cymoedd. Yn ddaearyddol, fe'i lleolir ymhell i'r gorllewin o ganol dinas Caerdydd.

Mae'n amlwg bod gweithgarwch economaidd yn y ward yn is na'r hyn a geir yn y ddwy ward yng Nghasnewydd, sef 64.7% (ffigyrau 2011). Mae anweithgarwch economaidd yn uwch, gyda dros 40% o fenywod rhwng 16 a 74 oed yn economaidd anweithgar.

O ran grwpiau galwedigaethol, ceir tangynrychiolaeth sylweddol yng Nghwm Aber o ran cyflogaeth broffesiynol. Dim ond 6.7% o breswylwyr economaidd weithgar rhwng 16 a 74 oed sy'n rheolwyr, yn gyfarwyddwyr ac yn uwch swyddogion; mae 9.4% yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol. Mae hyn yn dangos gwahaniaeth clir ac anochel o gymharu â'r ddwy ward yng Nghasnewydd.

Unwaith eto, mae'n anodd cymharu'r lefel cymwysterau ymhlith oedolion rhwng Cwm Aber a Maerun ac Allt-yr-yn. Dim ond 13.6% o drigolion 16 oed neu hŷn sydd â chymhwyster lefel 4+. Mae nifer y preswylwyr heb unrhyw gymwysterau, sef bron i 35%, dros ddwywaith yr hyn a geir ym Maerun.

Mae'n glir bod y tair ward hyn yn cynrychioli cymunedau gwahanol iawn. A dweud y gwir, gwneir anghymwynas â chyfansoddiad diwylliannol a hanesyddol Cymru wrth honni bod cymunedau yn y cymoedd yr un fath â chymunedau yn ein dinasoedd. Ni fyddai unrhyw un yn dadlau bod unrhyw etholaeth yn cynnwys wardiau sydd â phroffil unedig, ond mae'r gwahaniaethau rhwng y wardiau yn yr etholaeth arfaethedig yn sylweddol, o ran y rhannau o Gasnewydd sy'n cael eu cadw, a'r rhannau o Gaerffili sy'n cael eu hychwanegu.

Canolfannau pŵer

Mater 4: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn creu dwy ganolfan bŵer anghydnaws a fyddai'n anodd i Aelod Seneddol eu cydbwysu

Mae'r etholaeth arfaethedig yn creu dwy ganolfan bŵer mewn gwirionedd, ac mae diffyg cydbwysedd rhyngddynt.

Yn 'adran Casnewydd' yr etholaeth arfaethedig, caiff rhai rhannau o ganol y ddinas eu gwahanu a'u gosod yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd, ond cedwir rhannau eraill. Yn hynny o beth, cedwir canolfan bŵer drefol yn Allt-yr-yn a'r cyffiniau yn yr etholaeth arfaethedig, er bod y ganolfan bŵer hon wedi'i gwagio'n sylweddol o gymharu ag etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd.

Mae 'adran Caerffili' yr etholaeth arfaethedig yn cadw holl ardal drefol Caerffili – sef ail ganolfan bŵer.

Pe bai'r etholaeth arfaethedig yn dod i rym, byddai unrhyw Aelod Seneddol yn cael ei rannu'n gyson rhwng y ddwy ganolfan bŵer.

Byddai materion fel ym mhle i leoli swyddfa'r etholaeth, a chynnal cymorthfeydd a digwyddiadau, yn codi bron ar unwaith. Byddai angen ymgymryd yn aml â theithiau hir rhwng y ddwy ganolfan, yn anochel – i etholwyr yn ogystal â'r AS.

Byddai'r perygl o wrthdaro gwleidyddol mewnol rhwng y ddwy ganolfan drefol, yn enwedig o ran cefnogaeth gan yr AS ar ran sefydliadau cymunedol a busnesau, yn cael ei ddwysáu'n aruthrol. Yn y bôn, byddai cynnydd ym muddiannau un o'r canolfannau yn golygu colled i'r llall.

Mae 'adran Casnewydd' ac 'adran Caerffili' ill dwy yn haeddu cynrychiolaeth weithredol ac astud gan unrhyw AS. Byddai cynnwys y ddwy yn yr un etholaeth yn gwneud y dasg hon bron yn amhosibl.

Teithio ar draws yr etholaeth

Mater 5: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn gwneud teithio ar draws yr etholaeth yn feichus ac yn anghyfleus

Mae pellter ymhell dros 20 milltir rhwng pen gogledd-orllewinol yr etholaeth arfaethedig, i'r gogledd o Senghennydd, a'r ymyl dde-ddwyreiniol, wrth Oleudy Gorllewin Wysg. Rhaid teithio rhwng y ddau bwynt mewn car, gan fynd ar hyd cymysgedd o ffyrdd un lôn a ffyrdd B: nid oes llwybr trafnidiaeth gyhoeddus ymarferol rhwng y ddau bwynt hyn yn yr etholaeth arfaethedig.

Mae'n wir i ddweud ei bod yn sefyllfa anymarferol.

Byddai unrhyw Aelod Seneddol yn wynebu anhawster wrth deithio'n eang yn yr etholaeth. Byddai'n rhaid iddo ddefnyddio car fel ei brif ddull teithio; sef dull anghyfrifol, o ystyried maint argyfwng yr hinsawdd.

Mae ffiniau presennol Gorllewin Casnewydd yn ymarferol oherwydd bod modd cyrchu llawer o'r etholaeth ar droed, neu ar fws, yn enwedig yng nghanol y ddinas ac o'i chwmpas. Gellir cyrchu ardaloedd gwledig naill ai ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ar daith fer mewn car.

Mae'r ffiniau arfaethedig yn gwneud hyn yn llawer anoddach. Mae gwasanaethau Newport Bus yn gweithredu yn ardal CDC yn unig, mae opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau'n sylweddol, a daw teithio llesol yn amhosibl.

Cynigion amgen

O'r trosolwg byr o'r pryderon a godir uchod, mae'n amlwg bod etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn anaddas i'r diben yn ymarferol ac yn ddiwylliannol, i unrhyw Aelod Seneddol.

Fel y cyfryw, mae'n gwneud synnwyr i gyflwyno ein cynnig amgen i'r Comisiwn Ffiniau ei ystyried.


Mae'r Comisiwn Ffiniau yn datgan, yn ôl y gyfraith, bod yn rhaid i bob etholaeth newydd a gynigir gynnwys rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr Seneddol (ar 2 Mawrth 2020).

Credwn y dylid cyflawni'r amod hwn yn hawdd trwy gadw'r ffiniau presennol ar gyfer Gorllewin Casnewydd, ac ychwanegu dwy ward o etholaeth bresennol **Islwyn** – sef **Gorllewin Rhisga a Dwyrain Rhisga**.

Byddai'r ddwy ward hyn, â 3,973 a 4,611 o etholwyr yn y drefn honno, yn gosod 75,624 o etholwyr yn etholaeth Gorllewin Casnewydd, sydd o fewn gofyniad y Comisiwn Ffiniau. Mae ychwanegu'r ddwy ward Rhisga yn ddewis naturiol. Yn bwysicaf oll, mae gan Rhisga gysylltiadau cryf eisoes â chymunedau o fewn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Yn benodol, mae'r cysylltiadau â chymuned Tŷ-du yn glir ac yn amlwg, gan fod y wardiau'n llifo bron yn ddi-dor i'w gilydd ar hyd Heol Rhisga.

Defnyddir cyfleusterau yn Rhisga yn aml gan drigolion Tŷ-du, ac i'r gwrthwyneb – mae clybiau chwaraeon a chanolfannau hamdden, cyfleusterau manwerthu, ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n byw yn y ddwy gymuned. Mae hyn yn wrthgyferbyniad llwyr â chynnig presennol y Comisiwn Ffiniau, sy'n bwriadu cyfuno cymunedau yn y cymoedd â wardiau canol y ddinas – lle nad oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol ar y cyd, nac unrhyw beth yn gyffredin rhyngddynt mewn gwirionedd ar hyn o bryd.

Mae map drafft o'n cynnig yn dilyn ar y dudalen nesaf.



BCW-9922/ Jessica Morden AS/ Casnewydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i Arolwg Seneddol 2023 (Cynigion Cychwynnol) y Comisiwn Ffiniau i Gymru i gefnogi etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd.

Mae'r cynigion yn cynnwys symud wardiau Cyngor Sir Fynwy sydd yn etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd (Mill, The Elms, Rogiet, Castell Caldicot, Dewstow, Green Lane, Hafren a West End) i'r etholaeth Sir Fynwy newydd. Mae'r cymunedau hyn wedi bod yn rhan annatod o etholaeth Dwyrain Casnewydd ers blyneddau lawer. Fodd bynnag, derbynïaf â chalon drom y manteision i'r comisiwn o ran bodloni'r cwota etholiadol ag etholaeth gydffiniol ac Awdurdod Lleol yn Sir Fynwy.

Mae'r cynigion ar gyfer etholaeth newydd Dwyrain Casnewydd yn cynnwys wardiau Betws, Caerllion, Malpas, Pillgwenlly, Shaftesbury a Stow Hill – y mae pob un ohonynt ar hyn o bryd yn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Cytunaf ag argymhelliaid y comisiwn y dylai'r wardiau hyn (y mae pob un ohonynt yn rhan o awdurdod lleol Cyngor Dinas Casnewydd) uno â wardiau Cyngor Dinas Casnewydd yn etholaethau presennol ac arfaethedig Dwyrain Casnewydd.

Er enghraifft, mae cynnwys ward Caerllion yn sedd newydd Dwyrain Casnewydd yn gwneud synnwyr logistaidd; yn enwedig hanner deheuol ward Caerllion – gan gynnwys Eglwys y Drindod a Celtic Manor – sydd wedi'i leoli i'r de a'r dwyrain o Afon Wysg (sef y ffin bresennol rhwng dwy sedd Casnewydd) a thafliaid carreg o Ffordd Cas-gwent, sy'n un o'r priffyrdd pwysicaf trwy sedd bresennol Dwyrain Casnewydd.

Ar ben hynny, mae gan Pillgwenlly ac ardaloedd o fewn ward Stow Hill broffil demograffig ac economaidd-gymdeithasol tebyg iawn i ward Victoria (Maendy). Mae nifer o asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn gweithio ar y cyd yn y tair ward – mae dwy ohonynt yn rhan o ardal hyb cymunedol Canolog Cyngor Dinas Casnewydd, ac ardal batrôl Canol Casnewydd Heddlu Gwent – ac mae cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng y cymunedau yn y ddwy ward, sef y ddwy fwyaf amrywiol yng Nghasnewydd o ran ethnigrwydd. Er enghraifft, mae llawer o etholwyr yn ward Victoria yn teithio'r pellter byr i'r eglwysi a'r mosgiau yng nghanol y ddinas a Phillgwenlly i addoli.

Yn yr un modd, mae'n gwneud synnwyr logistaidd i ward Victoria fod yn yr un etholaeth â Chanol Dinas Casnewydd am resymau economaidd. Er enghraifft, mae Uwchgynllun Canol y Ddinas Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnwys ardal Glan yr Afon ar ochr ddwyreiniol yr afon (gan gynnwys ardaloedd Clarence Place a Rodney Parade yn ward Maendy) ochr yn ochr ag ardaloedd yn wardiau Stow Hill a Shaftesbury sydd yng Ngorllewin Casnewydd ar hyn o bryd.

Mae gan wardiau eraill yng Ngorllewin Casnewydd, gan gynnwys wardiau yn sedd newydd Dwyrain Casnewydd (Betws a Malpas) broffil economaidd tebyg a chysylltiadau â wardiau yn sedd bresennol Dwyrain Casnewydd. Yn wir, adeiladwyd yr ystad dai ym Metws yn wreiddiol i ddarparu ar gyfer gweithwyr yng ngwaith dur Llan-wern i'r dwyrain o'r ddinas.

Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau hefyd yn sicrhau bod wardiau Cyngor Dinas Casnewydd sy'n dod o fewn etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd (Alway, Beechwood, Langstone, Llan-wern, Liswerry, Ringland, Sain Silian a Victoria) yn aros yn sedd newydd Dwyrain Casnewydd. Croesawir hyn.

Mae Langstone yn gymuned hirsefydlog yng Nghasnewydd, ac mae'n gartref i nifer o fusnesau sy'n marchnata eu hunain fel rhan o'r ddinas. Mae ward Llan-wern hefyd yn gyfystyr â Chasnewydd, ac yn gartref i rai o gyflogwyr mwyaf a strategol bwysicaf Casnewydd, sef Gwaith Dur Tata a CAF Rail. Mae ystad Glan Llyn, sydd o fewn y ward, ychydig iawn o bellter o Barc Manwerthu Spytty a phoblogaethau cyfagos ward Liswerry. Yn yr un modd, mae Ysgol Uwchradd Llan-wern (sef ysgol uwchradd y dalgylch ar gyfer yr holl ward) wedi'i lleoli o fewn Ringland, sydd ei hun bellter cymharol fyr o ardaloedd Cot Hill a Phentref Llan-wern yn ward Llan-wern. Ymhellach i'r dwyrain, mae pentrefi Underwood a Llanfarthin wedi edrych bob amser i'r gorllewin at Gasnewydd yn hytrach nag i'r dwyrain at Sir Fynwy – ac fel Betws yng Ngorllewin Casnewydd, adeiladwyd ystad Underwood yn y 1960au i ddarparu llety i weithwyr dur yn Llan-wern i raddau helaeth.

Felly, mae'r rhesymeg yn glir dros gadw'r wardiau hyn o fewn un o seddau Casnewydd.

BCW-9923/ [REDACTED] / Ceredigion

Hen bryd i'r newidiadau ffiniau hyn gael eu gwneud ac rwyf o'u plaid yn llwyr.

BCW-9924/ [REDACTED] Plaid Werdd Cymru/ Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 14:58

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Plaid Werdd Cymru Cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Arolwg San Steffan 2023

Amgaeaf y cyflwyniad ffurfiol gan Plaid Werdd Cymru ar gyfer y broses Arolwg Ffiniau a ddaw i ben yn 2023. Rwy'n falch i ddweud y byddwn yn hapus iawn i fynychu unrhyw sesiynau ymchwiliad llafar y mae'r Comisiwn yn dymuno eu cynnal yn 2022, yn ddelfrydol yng Nghanolbarth Cymru, ond byddwn yn hapus i gymryd rhan o bell, yn dibynnu ar y pellter neu'r amgylchiadau

[REDACTED]
Cydgysylltydd Etholiadau Plaid Werdd Cymru.

Labeli Rhesi	Cyfanswm Nifer yr Etholwyr
Aman, Castell-nedd a Chymoedd Abertawe	75931
Castell-nedd Port Talbot	42433
Aberdulais	1712
Allt-wen	2023
Blaengwrach	1491
Bryn-coch - Gogledd	1787
De Bryn-coch	4547
Llangatwg	1365
Creunant	1508
Cwmlllynfell	921
Dyffryn	2447
Glyncorrwg	792
Glyn-nedd	2577
Godre'r graig	1514
Gwaun-Cae-Gurwen	2220
Brynaman Isaf	1040
Onllwyn	935
Pontardawe	4283
Resolfen	2387
Rhos	1997
Blaendulais	1554
Tonna	2072
Trebannws	1092
Ystalyfera	2169
Powys	6340
Aber-craf	1143
Cwm-twrch	1557
Ynyscedwyn	1705
Ystradgynlais	1935
Abertawe	27158
Clydach	5713
Llangyfelach	3946
Llansamlet	11107
Mawr	1438
Pontarddulais	4954
Blaenau Gwent a Chwm Rhymni	71752
Blaenau Gwent	50900
Abertyleri	3074
Badminton	2452
Cendl	2717
Blaenau	3497
Brynmawr	4028
Cwm	3254
Cwmtylleri	3383
Glynebwy - Gogledd	3268
Glynebwy - De	2959

Georgetown	3091
Llanhilleth	3387
Nantyglo	3350
Rasa	2463
Sirhywi	4210
Six Bells	1740
Tredeggar - Canol a Gorllewin	4027
Caerffili	17875
Argoed	2035
Crymlyn	4332
Cwm Darran	1870
Moriah	3128
Tredeggar Newydd	3357
Pontlotyn	1432
Twyn Carno	1721
Merthyr Tudful	2977
Bedlinog	2977
Caerffili	73734
Caerffili	42615
Abercarn	4139
Bedwas, Tretomos a Machen	7902
Crosskeys	2527
Morgan Jones	5636
Rhisga - Dwyrain	4611
Rhisga - Gorllewin	3973
St. James	4267
St. Martins	6582
Ynysddu	2978
Caerdydd	10989
Llys-faen	2942
Pontpennau/Pentref Llanelirwg	8047
Casnewydd	20130
Betws	5656
Graig	5053
Tŷ-du	9421
Caerdydd, Bute	72475
Caerdydd	72475
Adamsdown	5692
Treganna	11457
Cathays	13099
Gabalfa	5922
Penylan	9858
Plasnewydd	12285
Glan yr Afon	9621
Y Sblot - Gorllewin	4541
Caerdydd, Llanisien	72271
Caerdydd	72271
Cyncoed	8475

Y Mynydd Bychan	9611
Llanisien	13492
Llanrhymni	7758
Pentwyn	10783
Rhymni	6536
Y Sblot - Dwyrain	4540
Trowbridge	11076
Caerdydd, Sain Ffagan	75082
Caerdydd	75082
Caerau	7859
Creigiau/Sain Ffagan	4409
Trelái	9576
Y Tyllgoed	9642
Llandaf	7078
Gogledd Llandaf	5992
Pentyrch	2819
Radur	5425
Rhiwbeina	9354
Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	12928
Sir Gaerfyrddin	73530
Sir Gaerfyrddin	67143
Abergwili	1912
Rhydaman	1984
Betws	1825
Tref Caerfyrddin - Gogledd	3691
Tref Caerfyrddin - De	2746
Tref Caerfyrddin - Gorllewin	3601
Cilycwm	1175
Cynwyl Elfed	2468
Cynwyl Gaeo	1351
Garnant	1558
Glanaman	1802
Gorslas	3906
Trefgordd Trelacharn	2161
Llanboidy	1705
Llanddarog	1678
Llandeilo	2307
Llanymddyfri	1963
Llandybie	3277
Llanegwad	2040
Llanfihangel Aberbythych	1503
Llanfihangel-ar-Arth	2196
Llangadog	1629
Llangeler	2772
Llansteffan	1656
Llanybydder	2027
Manordeilo a Salem	1816
Pontaman	2092

Cwarter Bach	2218
Sanclêr	2500
Trelech	1754
Hendy-gwyn ar Daf	1830
Sir Benfro	6387
Amroth	992
Clydau	108
Crymych	2099
Llanbedr Felffre	1284
Saundersfoot	1904
Ceredigion a'r Preseli	75239
Sir Gaerfyrddin	1669
Cenarth	1669
Ceredigion	56151
Aberaeron	1088
Aberporth	1839
Aberteifi - Mwldan	1522
Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch	895
Aberteifi - Teifi	824
Aberystwyth - Bronglais	936
Aberystwyth - Canol	1358
Aberystwyth - Gogledd	1478
Aberystwyth - Penparcau	2084
Aberystwyth - Rheidol	1776
Beulah	1413
Borth	1677
Capel Dewi	1068
Ceulan-y-maes-mawr	1551
Ciliau Aeron	1613
Faenor	1985
Llanbedr Pont Steffan	1660
Llanarth	1222
Llanbadarn Fawr - Padarn	767
Llanbadarn Fawr - Sulien	973
Llandyfriog	1466
Llandysiliogogo	1653
Tref Llandysul	1067
Llanfarian	1193
Llanfihangel Ystrad	1666
Llangeitho	1168
Llangybi	1186
Llanrhystud	1255
Llansantffraed	1935
Llanwenog	1419
Lledrod	1812
Melindwr	1578
Ceinewydd	810
Penbryn	1762

Pen-parc	1933
Tirymynach	1403
Trefeurig	1382
Tregaron	951
Troed-yr-aur	1110
Ystwyth	1673
Sir Benfro	17419
Cilgerran	1594
Dinas Cross	1313
Abergwaun - Gogledd-ddwyrain	1495
Abergwaun - Gogledd-orllewin	1208
Wdig	1509
Llanrhian	1232
Maenclochog	2462
Trefdraeth	878
Scleddau	1158
Solfa	1274
Tyddewi	1521
Llandudoch	1775
Arfordir Conwy	72521
Conwy	55560
Abergele Pensarn	1959
Colwyn	3373
Craig-y-Don	2685
Eirias	2800
Glyn	3088
Gogarth	2795
Bae Cinmel	4607
Llanddulas	1353
Llandrillo yn Rhos	6110
Llysfaen	1906
Marl	3539
Mochdre	1425
Mostyn	2758
Penrhyn	3874
Pentre Mawr	2861
Rhiw	4991
Towyn	1845
Tudno	3591
Sir Ddinbych	16961
Y Rhyl - Dwyrain	3693
Y Rhyl - De-ddwyrain	6253
Y Rhyl - De-orllewin	3732
Y Rhyl - Gorllewin	3283
Cwmbrân a Phont-y-pŵl	71928
Casnewydd	6114
Malpas	6114
Torfaen	65814

Abersychan	5044
Blaenafon	4575
Brynwern	1295
Coed Efa	1859
Croesyceiliog - Gogledd	2745
Croesyceiliog - De	1460
Cwm-ynys-cou	987
Fairwater	3918
Greenmeadow	2028
Llantarnam	4864
Llanyrafon – Dwyrain a Phonthir	1803
Llanyrafon - Gorllewin	1946
Panteg	5828
Pontnewydd	5186
Pontnewynydd	1129
Pont-y-pŵl	1438
Snatchwood	1819
Sain Cadog a Phen-y-garn	1341
St. Dials	3317
Trefddyn	2463
Two Locks	4715
Cwmbrân Uchaf	4207
Waunfelin	1847
Glannau Dyfrdwy	70972
Sir y Fflint	70972
Aston	2508
Bagillt - Dwyrain	1413
Bagillt – Gorllewin	1625
Brynffordd	1789
Mynydd Bwcle	2555
Bwcle Pentrobin	4181
Cei Connah - Canol	2213
Cei Connah - Golftyn	3688
Cei Connah - De	4494
Cei Connah - Gwepra	1647
Ewlo	4327
Castell y Fflint	1426
Y Fflint - Cwnsyllt	2938
Y Fflint - Oakenholt	2538
Y Fflint - Trelawnyd	2710
Maes-glas	1983
Helygain	1427
Penarlâg	1623
Treffynnon - Canol	1465
Treffynnon - Dwyrain	1383
Treffynnon - Gorllewin	1762
Mancot	2516
Mostyn	1458

Llaneurgain	2596
Neuadd Llaneurgain	1398
Queensferry	1248
Saltney Cyffordd yr Wyddgrug	1100
Saltney Stonebridge	2672
Sealand	2026
Shotton – Dwyrain	1219
Shotton – Uchaf	1669
Shotton – Gorllewin	1464
Chwitffordd	1911
Sir Ddinbych - Gogledd	71578
Conwy	9358
Betws yn Rhos	1623
Gele	3997
Llangernyw	1104
Llansannan	1495
Uwchaled	1139
Sir Ddinbych	47222
Bodelwyddan	1612
Dinbych - Canol	1462
Dinbych - Isaf	3483
Dinbych - Uchaf/Henllan	2265
Dyserth	1882
Efenechtyd	1321
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1170
Llandyrnog	1765
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	1496
Prestatyn - Canol	2829
Prestatyn - Dwyrain	3162
Prestatyn - Meliden	1529
Prestatyn - Gogledd	4729
Prestatyn – De-orllewin	2861
Rhuddlan	2913
Y Rhyl - De	2874
Rhuthun	4260
Llanelwy - Dwyrain	1472
Llanelwy - Gorllewin	1290
Trefnant	1503
Tremeirchion	1344
Sir y Fflint	14998
Caerwys	2050
Cilcain	1519
Ffynnongroyw	1474
Gronant	1257
Y Waun	1646
Gwernymynydd	1399
Yr Wyddgrug - De	2201
Yr Wyddgrug - Gorllewin	1956

Trelawnyd a Gwaunysgor	1496
Eifionydd	71289
Conwy	25610
Betws-y-Coed	967
Bryn	1390
Caerhun	1677
Capelulo	1284
Conwy	3295
Crwst	1581
Deganwy	3289
Eglwysbach	1257
Llangywer	850
Llansanffraid	1814
Pandy	1463
Pant-yr-afon/Penmaenan	2167
Pensarn	2274
Trefriw	1026
Conwy Uwch	1276
Gwynedd	45679
Arllechwedd	1091
Bethel	1025
Bontnewydd	865
Cadnant	1514
Clynnog	1189
Cwm-y-Glo	753
Deiniol	920
Deiniolen	1463
Dewi	1301
Dolbenmaen	900
Garth	556
Gerlan	1696
Glyder	1257
Groeslon	1374
Hendre	940
Hirael	1066
Llanberis	1613
Llanllyfni	915
Llanrug	1396
Llanwnda	1507
Marchog	1579
Menai (Bangor)	1548
Menai (Caernarfon)	1724
Ogwen	1697
Peblig (Caernarfon)	1603
Penisarwaun	1365
Pentir	2159
Penygroes	1369
Porthmadog - Tremadog	933

Seiont	2233
Talysarn	1399
Tregarth a Mynydd Llandygai	1628
Waunfawr	1298
Y Felinheli	1803
Gŵyr	70576
Sir Gaerfyrddin	3282
Bynea	3282
Abertawe	67294
Llandeilo Ferwallt	2743
Dynfant	3494
Fairwood	2278
Gorseinon	3340
Gŵyr	2990
Tre-gŵyr	3978
Cilâ - Gogledd	2031
Cilâ - De	1857
Kingsbridge	3506
Casllwchwr Isaf	1795
Mayals	2148
Newton	2894
Ystumllwynarth	3313
Penclawdd	2932
Penllergaer	2553
Pennard	2229
Penyrheol	4621
Sgeti	11304
Casllwchwr Uchaf	2146
West Cross	5142
Llanelli	70484
Sir Gaerfyrddin	70484
Bigyn	4544
Porth Tywyn	3278
Dafen	2456
Elli	2357
Felinfoel	1334
Glanymor	4312
Glyn	1661
Hendy	2697
Hengoed	3352
Cydweli	2818
Llangennech	3954
Llangynnwr	2077
Llangyndeyrn	2905
Llannon	4079
Lliedi	3825
Llwynhendy	3010
Pen-bre	3417

Penygroes	2347
Pontyberem	2154
Saron	3353
Llanismel	2318
Dyffryn y Swistir	2097
Trimsaran	1887
Tycroes	1862
Tyisha	2390
Merthyr Tudful a Gogledd y Rhondda	71935
Merthyr Tudful	36834
Cyfarthfa	5457
Dowlais	5014
Y Gurnos	3477
Ynysowen	2798
Parc	3296
Penydarren	3818
Plymouth	4096
Town	5998
Y Faenor	2880
Rhondda Cynon Taf	35101
Aberaman - Gogledd	3609
Aberaman - De	3541
Aberdâr - Dwyrain	4909
Aberdâr - Gorllewin/Llwydcoed	7404
Cwmbach	3751
Hirwaun	3167
Aberpennar - Dwyrain	2254
Aberpennar - Gorllewin	3123
Pen-y-waun	1973
Rhigos	1370
Sir Fynwy	76683
Sir Fynwy	61425
Caerwent	1699
Castell Caldicot	1768
Castell	1611
Croesonen	1609
Devauden	1228
Llanddewi	1404
Llandidiwg gydag Osbaston	1968
Drybridge	3034
Goetre Fawr	2045
Green Lane	1482
Grofield	1308
Lansdown	1644
Larkfield	1484
Llanbadog	1099
Llangybi Fawr	1477
Llanofer	1781

Llandeilo Crossenny	1527
Mill	2256
Llanfihangel Troddi	985
Overmonnow	1662
Porthysgewin	1885
Priory	1546
Rhaglan	1618
Rogiet	1365
Hafren	1325
Drenwydd Gelli-farch	1850
St. Arvans	1304
St. Christopher's	1756
St. Kingsmark	2346
St. Mary's	1539
The Elms	2523
Thornwell	1961
Tryleg Unedig	2249
Brynbuga	1930
West End	1456
Wyesham	1701
Casnewydd	10481
Caerllion	6603
Langstone	3878
Torfaen	4777
New Inn	4777
Castell-nedd a Phort Talbot	70349
Pen-y-bont ar Ogwr	10904
Corneli	5359
Y Pîl	5545
Castell-nedd Port Talbot	59445
Aberafan	4048
Baglan	5383
Llansawel - Dwyrain	2148
Llansawel - Gorllewin	2033
Bryn a Chwmafan	5220
Cimla	3107
Coedffranc - Canol	2892
Coedffranc - Gogledd	1811
Coedffranc - Gorllewin	3587
Y Cymer	2011
Gwynfi	879
Castell-nedd - Dwyrain	4468
Castell-nedd - Gogledd	2931
Castell-nedd - De	3694
Pelenna	936
Port Talbot	4342
Sandfields - Dwyrain	5038
Sandfields - Gorllewin	4917

Casnewydd	75765
Casnewydd	75765
Allt-yr-yn	7088
Alway	5931
Beechwood	5611
Gaer	6543
Liswerry	9110
Llanwern	3544
Maerun	4897
Pilgwenlli	5174
Ringland	5968
Shaftesbury	3778
St. Julians	6287
Stow Hill	3384
Parc Tredegar	3329
Victoria	5121
Cwm Ogwr a Phorthcawl	72243
Pen-y-bont ar Ogwr	66291
Abercynffig	1868
Betws	1595
Melin Ifan Ddu	1839
Blaengarw	1333
Bryncethin	1261
Bryncoch	1757
Caerau	4795
Cefn Cribwr	1180
Cefn Glas	1360
Llangeinor	887
Llangewydd a Brynhyfryd	1878
Llangynwyd	2351
Maesteg - Dwyrain	3741
Maesteg - Gorllewin	4327
Nant-y-moel	1745
Y Castellnewydd	4287
Drennewydd yn Notais	3035
Notais	2741
Cwm Ogwr	2357
Oldcastle	3783
Penprysg	2474
Pen-y-fai	1853
Pontycymer	1773
Porthcawl – Dwyrain Canol	2580
Porthcawl – Gorllewin Canol	2967
Rest Bay	1990
Sarn	1786
Ynysawdre	2748
Castell-nedd Port Talbot	5952
Margam	2309

Taibach	3643
Arfordir Sir Benfro	69845
Sir Benfro	69845
Burton	1503
Camros	2190
Caeriw	1179
East Williamston	1965
Hwlffordd: Castell	1674
Hwlffordd: Garth	1660
Hwlffordd: Portfield	1765
Hwlffordd: Prendergast	1628
Hwlffordd: Priory	1907
Hundleton	1416
Johnston	2044
Cilgeti/Begeli	1830
Llandyfái	1429
Treletert	1873
Llangwm	1814
Manorbier	1655
Martletwy	1603
Pont Fadlen	1619
Aberdaugleddau: Canol	1578
Aberdaugleddau: Dwyrain	1571
Aberdaugleddau: Hakin	1774
Aberdaugleddau: Hubberston	2004
Aberdaugleddau: Gogledd	2047
Aberdaugleddau: Gorllewin	1523
Arberth	1704
Arberth: Gwledig	1293
Neyland: Dwyrain	1793
Neyland: Gorllewin	1590
Doc Penfro: Canol	1091
Doc Penfro: Llanion	1915
Doc Penfro: Market	1357
Doc Penfro: Pennar	2442
Penfro: Cil-maen	1022
Penfro: St. Mary - Gogledd	1675
Penfro: St. Mary - De	1063
Penfro: St. Michael	2082
Penalun	1398
Rudbaxton	945
Llanismel	1125
Dinbych-y-pysgod: Gogledd	1658
Dinbych-y-pysgod: De	1664
The Havens	1196
Cas-wis	1581
Penarth a'r Barri	76589
Caerdydd	21091

Butetown	7834
Grangetown	13257
Bro Morgannwg	55498
Buttrills	4447
Cadog	7244
Castleland	3442
Cornerswell	4069
Court	3370
Dinas Powys	6388
Dyfan	4170
Gibbonsdown	3827
Llandochoau	1578
Plymouth	4584
St. Augustine's	5318
Stanwell	3365
Sili	3696
Pencoed a Bro Morgannwg	75148
Pen-y-bont ar Ogwr	31222
Bracla	8276
Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr	6574
Coety	3006
Llangrallo Isaf	1160
Felindre	2087
Hendre	3175
Litchard	2080
Morfa	3210
Pendre	1654
Bro Morgannwg	43926
Baruc	6080
Y Bont-faen	5240
Illtyd	6242
Llandŵ/Ewenni	2362
Llanilltud Fawr	7939
Llanbedr-y-fro	1855
Y Rhws	5796
Sain Tathan	2765
Saint-y-brid	2732
Gwenfô	2915
Pontypridd	73002
Rhondda Cynon Taf	73002
Beddau	3172
Brynnar	3616
Pentre'r Eglwys	4424
Gilfach Goch	2437
Graig	1885
Y Ddraenen Wen	3180
Llanharan	2819
Llanhari	3221

Tref Llantrisant	3187
Llanilltud Faerdref	4825
Pont-y-clun	6061
Tref Pontypridd	2208
Y Rhondda	3458
Rhydfelen - Canol/Ilan	3037
Ffynnon Taf	2855
Tonysguboriau	1965
Ton-teg	3183
Tonyrefail - Dwyrain	4433
Tonyrefail - Gorllewin	4896
Trallwng	2824
Treforest	2862
Tyn-y-nant	2454
Senghennydd	72050
Caerffili	72050
Cwm Aber	4655
Aberbargoed	2706
Bargoed	4431
Coed-duon	6330
Cefn Fforest	2845
Gilfach	1534
Hengoed	4055
Llanbradach	3239
Maesycwmer	1811
Nelson	3563
Trecelyn	4892
Pengam	2760
Penmaen	4219
Penyrheol	9021
Pontllanfraith	6343
St. Cattwg	5579
Ystrad Mynach	4067
Eryri a Gogledd Sir Drefaldwyn	73240
Gwynedd	42015
Aberdaron	698
Aberdyfi	907
Abererch	986
Abermaw	1591
Abersoch	519
Y Bala	1413
Botwnnog	734
Bowydd a'r Rhiw	1235
Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltud	1132
Bryn-crug/Llanfihangel	772
Corris/Mawddwy	1023
Cricieth	1280
Diffwys a Maenofferen	779

Dolgellau - Gogledd	953
Dolgellau - De	1072
Dyffryn Ardudwy	1169
Efail-newydd/Buan	1026
Harlech	1516
Llanaelhaearn	1187
Llanbedr	768
Llanbedrog	709
Llandderfel	1135
Llanengan	847
Llangelynnin	1625
Llanuwchllyn	686
Llanystumdwy	1547
Morfa Nefyn	945
Nefyn	1003
Penrhyndeudraeth	1826
Porthmadog - Dwyrain	1178
Porthmadog - Gorrlewin	1329
Pwllheli - Gogledd	1528
Pwllheli - De	1310
Teigl	1355
Trawsfynydd	1088
Tudweiliog	668
Tywyn	2476
Powys	31225
Banwy	847
Aberriw	1102
Caersws	1831
Dolforwyn	1652
Forden	1215
Glantwymyn	1701
Cegidfa	1827
Llanbrynmair	798
Llandrinio	1763
Llandysilio	1441
Llanfair Caereinion	1301
Llanfihangel	895
Llanfyllin	1217
Llansanffraid	1563
Llanwddyn	846
Machynlleth	1701
Meifod	1069
Trefaldwyn	1107
Rhiwcynon	1724
Trewern	1066
Y Trallwng - Castell	962
Y Trallwng - Gungrog	1995
Y Trallwng - Llanerchuddol	1602

Abertawe	74949
Abertawe	74949
Bonymaen	5391
Castell	10312
Y Cocyd	736
Cwmbwrla	5622
Landore	4821
Treforys	12105
Mynyddbach	6625
Penderry	7397
St. Thomas	5514
Townhill	5592
Uplands	10834
Bannau Brycheiniog a De Sir Drefaldwyn	75830
Sir Drefaldwyn	11256
Cantref	1668
Crucornau	1773
Llanelli Hill	3286
Llan-ffwyst Fawr	1971
Llanwenarth Ultra	1128
Castell Caemardy	1430
Powys	64574
Bugeildy	1135
Blaen Hafren	1876
Bronllys	1060
Llanfair-ym-Muallt	1849
Bwlch	800
Yr Ystod	1292
Crucywel	2410
Diserth a Threcoed	1055
Felin-fach	1102
Y Clas-ar-Wy	1901
Gwernyfed	1178
Y Gelli Gandryll	1355
Ceri	1607
Trefyclo	2296
Llanafan Fawr	1141
Llanbadarn Fawr	925
Llandinam	1155
Llandrindod - Dwyrain/Llandrindod - Gorllewin	949
Llandrindod - Gogledd	1517
Llandrindod - De	1726
Llanelwedd	987
Llangatwg	762
Llangors	901
Llangunllo	1071
Llangynidr	865
Llanidloes	2149

Llanwrtyd	1450
Llanllŷr	978
Maescar/Llywel	1405
Nantmel	1243
Y Drenewydd - Canol	2122
Y Drenewydd - Dwyrain	1401
Y Drenewydd Llanllwchaiarn - Gogledd	1796
Y Drenewydd Llanllwchaiarn - Gorllewin	1447
Y Drenewydd – De	1215
Pencraig	1375
Llanandras	2174
Rhaeadr	1589
St. David Within	1263
St. John	2365
St. Mary	2194
Talgarth	1305
Tal-y-bont ar Wysg	1537
Tawe-Uchaf	1763
Aberysgir	888
Y Rhondda Ddeheuol	71578
Merthyr Tudful	5270
Treharris	5270
Rhondda Cynon Taf	66308
Abercynon	4441
Cilfynydd	2110
Cwm Clydach	1987
Y Cymer	3977
Glynrhedynog	3114
Glyncoch	2006
Llwyn-y-pia	1637
Maerdy	2283
Penrhiw-ceibr	4056
Pentre	3902
Pen-y-graig	3929
Porth	4282
Tonypandy	2686
Trealaw	2895
Treherbert	4158
Treorci	5693
Tylorstown	3054
Ynyshir	2380
Ynysybwl	3433
Ystrad	4285
Y Gororau a De Wrecsam	71443
Sir Ddinbych	9895
Corwen	1799
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	2033
Llandrillo	931

Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1830
Llangollen	3302
Powys	1815
Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin	1815
Wrecsam	59733
Bronington	2620
Brynyffynnon	2477
Cartrefle	1545
Cefn	3768
Y Waun - Gogledd	1846
Y Waun – De	1503
Coedpoeth	3482
Dyffryn Ceiriog	1685
Erddig	1444
Esclusham	2013
Gwenfro	1217
Hermitage	1544
Holt	2479
Johnstown	2461
Llangollen - Gwledig	1631
Marchwiel	1830
Mwynglawdd	1870
Offa	1428
Owrtyn	2710
Pant	1528
Penycae	1525
Penycae a Rhiwabon - De	2026
Plas Madog	1169
Ponciau	3521
Queensway	1377
Rhosnesni	2827
Rhiwabon	2078
Smithfield	1376
Whitegate	1594
Wynnstay	1159
Gogledd Wrecsam a'r Wyddgrug	69778
Sir y Fflint	31793
Argoed	2167
Brychdyn - Gogledd-ddwyrain	1723
Brychdyn - De	3325
Bwcle Bistre - Dwyrain	2653
Bwcle Bistre - Gorrlewin	3182
Caergwrle	1225
Higher Kinnerton	1373
Yr Hob	2042
Coed-llai	1627
Llanfynydd	1483
Yr Wyddgrug - Broncoed	2134

Yr Wyddgrug - Dwyrain	1556
New Brighton	2414
Penyffordd	3543
Treuddyn	1346
Wrecsam	37985
Gwaunyterfyn	2177
Parc Borrass	1968
Brymbo	3021
Bryn Cefn	1543
Garden Village	1656
Gresffordd - Dwyrain a Gorllewin	2337
Grosvenor	1698
Gwersyllt - Dwyrain a De	3601
Gwersyllt - Gogledd	1995
Gwersyllt - Gorllewin	2263
Little Acton	1843
Llai	3513
Maesydre	1420
Marford a Hoseley	1824
New Broughton	2842
Yr Orsedd	2643
Stansty	1641
Ynys Môn	52415
Ynys Môn	52415
Aethwy	5175
Bro Aberffraw	3023
Bro Rhosyr	3919
Caergybi	5504
Canolbarth Môn	6537
Llifon	4104
Lligwy	4810
Seiriol	4650
Talybolion	4762
Twrcelyn	5497
Ynys Gybi	4434
Prif Gyfanswm	2312204

BCW-9925/ [REDACTED] / Aberystwyth

Nid wyf yn gweld rheswm da dros symud y ffin y tu allan i sir hanesyddol Ceredigion, neu rannu sir Sir Benfro: yr unig fantais y gallaf feddwl amdani fyddai i'r pleidiau sy'n aflwyddiannus yn yr etholaeth fel arfer drwy gynnwys ardal gyda diwylliant gwahanol iawn, yn enwedig o ran y Gymraeg. Ac os mai dyna sy'n cael ei gynnig, mae hyn yn warthus. Mae ein ASau wedi bod yn drigolion y sir ers cenedlaethau, yn gweithio'n galed ac yn gwbl gynrychioliadol, fel y DYLA eu holl gydweithwyr fod.

BCW-9926/ [REDACTED] / Tredegar

Rydw i am ysgrifennu i gefnogi'ch cynlluniau ar gyfer etholaeth Blaenau Gwent a Rhymni.

A minnau wedi fy magu ym Mhontlotyn ac yn byw ac yn gwasanaethu fel cynghorydd yn Nhredeggar erbyn hyn, rwy'n ymwybodol o'r cysylltiadau cymunedol cryf rhwng Rhymni a Blaenau Gwent. Yn wir, byddai dod â Thredeggar, Glynebwy a Rhymni yn ôl at ei gilydd yn dod ag etholaeth Glynebwy yn ôl, a oedd yn bodoli cyn Blaenau Gwent.

Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn hen drefi/ pentrefi glo, dur neu haearn ac yn rhannu treftadaeth a chymeriad cyffredin. Mae gan yr ardal rwy'n ei chynrychioli yn Nhredeggar lawer yn gyffredin â Chwm Rhymni a byddai'n elwa ar gael yr un AS i adeiladu cysylltiadau rhwng ein cymunedau ymhellach.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Tredeggar a Rhymni hefyd. Mae llawer o bobl yn Nhredeggar yn defnyddio gorsaf Rhymni i deithio i Gaerdydd at ddibenion gwaith a hamdden ac mae Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn cael ei defnyddio'n gyson gan bobl sy'n teithio rhwng Rhymni a'r trefi ym Mlaenau Gwent.

I gloi, fel cynghorydd ym Mlaenau Gwent, rwy'n gwerthfawrogi bod y Comisiwn yn cadw ardal cyngor Blaenau Gwent mewn un etholaeth a fydd yn parhau i'n helpu i ymwneud ag un AS sy'n deall anghenion y fwrdeistref gyfan ac sy'n gallu ein cynrychioli gyda'n gilydd.

BCW-9927/ [REDACTED] / Prestatyn

From: [REDACTED]

Sent: 02 November 2021 15:06

To: BCW <bcw@boundaries.wales>

Subject: Adolygiad Ffiniau, Gogledd Cymru, etholaethau Clwyd

Annwyl Syriaid.

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r etholaethau yn y Gogledd,

Rwy'n gwneud hynny fel unigolyn a anwyd yn y Rhyl, a addysgwyd fel plentyn yn Wrecsam ac sy'n un o drigolion a chyn Faer Prestatyn a darlithydd yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, Kelsterton, Coleg Hyfforddi Athrawon Cartrefle, Wrecsam a hen Goleg Technegol Plas Coch, Wrecsam, sydd i gyd wedi'u huno fel Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, sef Prifysgol Glyndŵr bellach.

Mae buddiannau'r ardal wedi bod yn flaenoriaeth i mi erioed.

Yn wleidyddol, mae angen cydbwysu cynrychiolaeth yr etholaethau amrywiol gydag anghenion a bennir yn haws gan homogenedd y boblogaeth wedi'i gydbwysu gan ddaearyddiaeth, hunaniaeth a nodweddion penodol, er enghraifft mae'r cynnig i roi tref y Rhyl mewn ardal sy'n cynnwys Tywyn a Bae Cinnel yn hynod o ddoeth, gan fod ganddynt lawer o barciau gwyliau a thwristiaeth. Dylai fod yn rhan o etholaeth Gorllewin Clwyd, gan gynrychioli a chydabod y ffin hynafol a arferai fod yn rhan o'r hen Sir Ddinbych.

Yn yr un modd dylai tref Prestatyn fod yn etholaeth Dwyrain Clwyd, gan wneud yn fawr o'r cysylltiadau arfordirol a phoblogaeth Glannau Dyfrdwy, cefnwlad Gwaenysgor a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae gan y dref gysylltiadau hynafol o'i hanes lle mae afon Dyfrdwy yn ymuno â Môr yr Iwerydd, gan gynnwys anheddau oes y cerrig ger Trelawnyd, dyddodion mwynau a arferai gael eu mwyngloddio gan y Rhufeiniaid yng nghyffiniau Meliden a'u cludo i fyny'r afon Dyfrdwy i Gaer, castell tomen a beili hynafol i amddiffyn poblogaeth ddiweddarach rhag ymosodiadau'r Llychlynwyr, ac yn fwy diweddar yr aneddiad agosaf i hen lofa'r Parlwr Du, sydd oll yn amlygu'r gwahaniaethau o ran cloddio, chwarela a masnachu o gymharu â phoblogaeth y Rhyl, sy'n adlewyrchu ei hanes hynafol.

O ran diwallu anghenion orau, byddwn o blaid edrych ar hanes yr ardal, gan gynnwys hanes eciwmenaidd, mynachlogydd hynafol, nodweddion poblogaeth a hunaniaeth naturiol y lleoliad sydd i gyd yn tueddu tuag at gynhwysiant a chasgliad mwy dwyreiniol. Dylai fod yn rhan o etholaeth Dwyrain Clwyd.

Gobeithio bod fy awgrymiadau yn dderbyniol i chi, ac yn eich cynorthwyo yn eich trafodaethau.

Yn gywir

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW-9928/ [REDACTED] / Llanbedr Pont Steffan

Rwy'n credu ei bod yn hen bryd gwneud y newidiadau i ffiniau yng Nghymru fel eu bod yn adlewyrchu lleoliadau a niferoedd poblogaethau presennol yn well.

Rwy'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i etholaethau.

BCW-9929/ Wayne David AS/ Caerffili

Ni allaf bwysleisio digon yr anghrediniaeth a'r angst a fynegwyd gan lawer o fy etholwyr ynghylch cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau.

Heb os, mae llawer o fy etholwyr yn teimlo'n ddig ynghylch cynnig cychwynnol y Comisiwn i rannu etholaeth bresennol Caerffili rhwng pedair etholaeth newydd. Ond mae'r rhan fwyaf o'r ymateb, a rhaid dweud, y rhan fwyaf o'r elyniaeth, yn canolbwyntio ar yr awgrym y dylid cysylltu rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Gellir crynhoi'r prif ddadleuon yn erbyn y cynigion cychwynnol hyn fel a ganlyn:

1. Daearyddiaeth, hanes, trafnidiaeth a chysylltiadau lleol.

Rhwng cymunedau Machen (ym mhen pellaf dwyreiniol etholaeth Caerffili) a phentref Rhiwderyn (ym mhen pellaf gorllewinol Gorllewin Casnewydd) mae ardal fawr o gefn gwlad agored heb lawer o drigolion. Mae'r pellter o 5.3 cilometr (3.3 milltir) rhwng Machen a Rhiwderyn yn darparu rhaniad naturiol rhwng y ddwy ardal ac yn helpu i bennu hunaniaeth ardal Casnewydd, a hunaniaeth etholaeth Caerffili o Fachen i gyfeiriad y gorllewin.

Mae'r rhaniad naturiol hwn yn adlewyrchu'r ffaith y datblygodd tref Caerffili yn gyntaf fel tref farchnad ac, yn ddiweddarach, cafodd Cwm Rhymni yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys Caerffili, ei ddominyddu gan y diwydiant glo. Ar y llaw arall, tyfodd Casnewydd fel porthladd, a heddiw mae'n datblygu fel dinas fodern.

Mae basn Caerffili (a chymunedau cysylltiedig Bedwas, Trethomas a Machen (BTM), a Chwm Aber) yn cyfeiriadu'n ddaearyddol ac yn hanesyddol tuag at ran isaf Cwm Rhymni, o Lanbradach a gan gynnwys Llanbradach i gyfeiriad y gogledd. Ac eto, mae'r cynigion cychwynnol yn gwahanu tref Caerffili oddi wrth ei chefnwlad naturiol gan greu rhaniad cwbl artiffisial rhwng pentref Llanbradach a thref Caerffili. Mae 'cymuned o ddiddordeb' naturiol rhwng Caerffili, BTM a Chwm Aber a rhan isaf Cwm Rhymni, ac yn bendant nid yw hyn yn wir am Ddinas Casnewydd.

Heddiw, mae'r patrymau teithio i'r gwaith i raddau helaeth yn mynd o'r gogledd i'r de yn hytrach nag o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae pobl o Gwm Rhymni, gan gynnwys Caerffili, yn teithio i Gaerdydd ac oddi yno, ac nid Casnewydd. Yn yr un modd, pan mae pobl yn cymdeithasu ac yn 'siopa', maen nhw'n teithio o Gwm Rhymni, gan gynnwys Caerffili, i Gaerdydd ac nid i Gasnewydd. Gwneir y patrymau teithio amlwg hyn yn gymharol hawdd gan y seilwaith trafnidiaeth – mae ffordd yr A469 yn gwasanaethu rhan ganol a rhan isaf Cwm Rhymni (gan gysylltu tref Caerffili â'i chefnwlad) ac atgyfnerthir hyn gan linell reilffordd Cwm Rhymni sy'n cysylltu Cwm Rhymni yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys Caerffili, â Chaerdydd. Cyn hir, bydd llinell Cwm Rhymni yn rhan o'r system 'Metro' ehangach.

Felly, gellir gweld bod cysylltiadau rhagorol rhwng Caerffili a'i chefnwlad a cheir cyferbyniad llwyr â'r cysylltiadau cymedrol rhwng etholaeth Caerffili a Gorllewin

Casnewydd. Er bod cysylltiad ffordd da rhwng Machen a Rhiwderyn, defnydd cymedrol sydd i'r ffordd hon, ac nid oes cysylltiad rheilffordd rhwng Caerffili a Chasnewydd.

2. Y gwrthgynnig.

Mae'r gwrthgynnig amgen a gyflwynaf wedi'i ddangos ar y map atodedig. Byddai hyn yn creu etholaeth Caerffili, ac etholaeth Gorllewin Casnewydd a Threcelyn. Mae cydnabod y cysylltiad amlwg a naturiol rhwng y gefnwlad a Chaerffili, yn hytrach na Gorllewin Casnewydd, yn ganolog i'r gwrthgynnig

Felly, rwy'n cynnig y dylid cysylltu Caerffili, BTM a Chwm Aber â'r cymunedau ymhellach i fyny Cwm Rhymni, ac y dylid cysylltu rhan orllewinol Gorllewin Casnewydd â rhannau dwyreiniol etholaeth bresennol Islwyn. Yn fwy manwl, nodaf isod pam mae'r cynnig hwn yn fwy rhesymegol ac yn debygol iawn o gael mwy o gefnogaeth gyhoeddus na chynnig cychwynnol y Comisiwn.

Hoffwn bwysleisio bod y ddwy etholaeth yn y gwrthgynnig hwn yn cadw o fewn y cwota etholiadol.

i) Fel y nodaf uchod, mae'n llawer mwy priodol i fasn Caerffili, BTM a Chwm Aber gael eu cysylltu â rhannau isaf a chanol Cwm Rhymni. I ailadrodd, dyma gefnwlad naturiol tref Caerffili.

ii) Mae fy ngwrthgynnig ar gyfer etholaeth newydd 'Caerffili' hefyd yn cynnwys cymunedau sydd yn etholaeth seneddol Islwyn ar hyn o bryd, megis Pontllanfraith a'r Coed Duon. Mae'n bwysig nodi, yn y rhan hon o Dde Cymru, bod y cymoedd hollbwysig yn llai amlwg, ac mae'r cysylltiadau rhwng y Coed Duon, Pontllanfraith ac Ystrad Mynach (gan gynnwys Ysbyty Ystrad Fawr) yn rhagorol, gyda ffordd yr A472 yn briffordd sy'n cysylltu'r ardaloedd hyn yng nghanol y cymoedd. Yn ogystal, mae gan y cymunedau ym masn Caerffili lawer mwy yn gyffredin â Phontllanfraith a'r Coed Duon nag sydd ganddyn nhw â Dinas Casnewydd. Yn wir, mae perthynas economaidd-gymdeithasol gryf iawn rhwng y cymunedau yn yr ardal hon yng nghanol y cymoedd, ac mae llawer o etholwyr sy'n byw yn Hengoed ac Ystrad Mynach yn gweithio yn y Coed Duon. Ar ben hynny, bu ward Maesycwmmmer yn rhan o etholaeth seneddol Caerffili tan y ddiweddar iawn.

iii) Yn yr un modd, mae gan y cymunedau yn nwyrain Islwyn, fel Trecelyn a Chrymlyn, gymaint o gysylltiad â Chasnewydd ag sydd ganddynt â chymunedau ymhellach i'r gorllewin fel Ystrad Mynach a Llanbradach. Ar ben hynny, mae gan Risga gysylltiad agos â rhan orllewinol Casnewydd oherwydd ffordd yr A467. Mae'r ffordd hon yn darparu mynediad rhagorol, a ddefnyddir yn helaeth, i'r pentrefi i'r gogledd o Gasnewydd, yng Nghwm Ebwy, yn ogystal â thref Rhisga. Yn wir, cyfeiriadedd economaidd-gymdeithasol tuag at Gasnewydd sydd gan y cymunedau hyn yng nghymoedd dwyrain Gwent

Mae'n bwysig deall bod Afon Sirhywi ac Afon Ebwy yn llifo i Gasnewydd ac mae'r cymunedau ar hyd y ddwy afon hyn hefyd wedi'u cyfeiriadu tuag at y ddinas honno.

Casgliad

I gloi, credaf fod fy ngwrthgynnig yn llawer mwy rhesymegol. Mae'n cydnabod realiti daearyddol, economaidd-gymdeithasol, ac o ran trafnidiaeth, i raddau llawer mwy helaeth na'r cynnig cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau. Credaf yn gryf fod fy ngwrthgynnig yn llawer mwy tebygol o gael derbyniad a chefnogaeth gan y cyhoedd na'r cynnig cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau.

Er eglurder, nodaf y wardiau a fyddai'n ffurfio etholaeth newydd Caerffili ac etholaeth Gorllewin Casnewydd a Threcelyn.

Y gwrthgynnig ar gyfer etholaeth 'Caerffili'

- St James (4,267)
- Bedwas, Trethomas a Machen (7,902)
- Morgan Jones (5,636)
- St. Martins (6,582)
- Penyrheol (9,021)
- Cwm Aber (4,655)
- Llanbradach (3,239)
- Ystrad Mynach (4,067)
- Maesycwmmmer (1,811)
- Hengoed (4,055)
- St Cattwg (5,579)
- Pengam (2,760)
- Cefn Fforest (2,845)
- Y Coed Duon (6,330)
- Pontllanfraith (6,343)

Cyfanswm: 75,092

Y gwrthgynnig ar gyfer etholaeth 'Gorllewin Casnewydd a Threcelyn'

- Maerun (4,897)
- Parc Tredegar (3,329)
- Y Gaer (6,543)
- Y Graig (5,053)
- Allt-yr-yn (7,088)
- Tŷ-du (9,421)
- Dwyrain Rhisga (4,611)
- Gorllewin Rhisga (3,973)
- Crosskeys (2,527)
- Ynysddu (2,978)
- Abercarn (4,139)
- Trecelyn (4,892)
- Crymlyn (4,332)

- Penmaen (4,219)
- Argoed (2,035)

Cyfanswm: 70,037

Gweler yr adran 'dogfennau ategol' i weld map o etholaethau newydd 'Caerffili' a 'Gorllewin Casnewydd a Threcelyn' a amlinellaf yn fy ngwrthgynnig.

Mae pob ward wedi'u cynnwys heb fod angen eu trosglwyddo i etholaethau eraill ac, fel y nodwyd eisoes, mae'r ddwy etholaeth yn y gwrthgynnig yn cadw o fewn y cwota etholiadol.

Rt Hon Alun Cairns AS
Bro Morgannwg



HOUSE OF COMMONS
LLUNDAIN SWIA OAA

2 Tachwedd 2021

Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch ymgynghoriad ar eich Arolwg 2023 o'r Ffiniau Seneddol yng Nghymru. Ysgrifennaf fel preswilydd lleol ac fel Aelod Seneddol etholaeth Bro Morgannwg. Credaf fod y ddau ffactor hyn yn rhoi gwybodaeth fanwl i mi am y gymuned, y cysylltiadau lleol, cysylltiadau cyfathrebu sefydledig, rhwydweithiau a hygyrchedd, a'r ffordd y mae cydgysylltiad yr Aelod Seneddol a'r cysylltiadau a nodir yn darparu llinell glir o gymorth i etholwyr.

Mae etholaeth bresennol Bro Morgannwg yn dod o fewn y paramedrau targed gosodedig o ran nifer yr etholwyr seneddol sy'n ofynnol gan yr arolwg hwn. Mae hyn yn codi'r cwestiwn pam mae'r etholaeth yn newid ac a ellir bodloni gofynion yr arolwg mewn perthynas ag etholaethau eraill heb y newid arfaethedig i Fro Morgannwg.

Rwy'n credu y gellir gwneud hynny, ond canolbwyntiaf fy sylw ar yr anghyfleustra a fydd yn deillio o gynnig cychwynnol y Comisiwn i eithrio Dinas Powys o Fro Morgannwg ac ychwanegu'r pentref at etholaeth newydd De Caerdydd a Phenarth. Yn unol a'r datganiadau a wnaed yng nghyhoeddiad y Comisiwn, bydd y pwyntiau a ganlyn yn ymwneud ag:

- ystyriaethau o ran daearyddiaeth ffisegol
- ffiniau llywodraeth leol
- ffiniau etholaethau presennol
- cysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- anghyfleustra a allai ddeillio o newidiadau i etholaethau

Er y byddai gwasanaethau lleol a ddarperir gan awdurdodau ac elusennau yn parhau i gael eu darparu ar yr un sail, mae'r berthynas deiran - rhwng etholwyr, gwasanaethau lleol a'r Aelod Seneddol - yn rhoi eglurder a chysondeb, yn enwedig o ran y ffordd y mae perthnasoedd yn datblygu dros gyfnod o amser. Cysylltir a mi yn wythnosol gan drigolion Penarth sy'n credu mai fi yw eu AS oherwydd bod eu tref yn dodo fewn ardal Awdurdod Lleol Bro Morgannwg. Mae hyn yn digwydd er bod enw Penarth yn enw etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Mae perygl y gallai'r newidiadau arfaethedig greu mwy o ddryswch.

Fel cymuned, mae Dinas Powys wedi gwrthsefyll cael ei chynnwys fel rhan o Gaerdydd ers amser hir. Mae'n gymuned hollol ar wahan ac mae'n ymfalch'io mewn bod yn bentref. Mae'r Cynghorwyr Cymunedol yn dweud yn rheolaidd body ward yn cynnwys pentrefi a phentrefannau ac nid yw'n cynnwys unrhyw dref! Rwy'n tynnu sylw at hyn er mwyn pwysleisio'r cefndir lle mae diwylliant gwahanol yn deillio o Ddinas Powys, o gymharu a chymdogion y pentref- mae Caerdydd yn ddinas fawr ac mae Penarth yn dref sylweddol. Er bod Penarth wedi'i chynnwys yn ardal Awdurdod Bro Morgannwg, mae'r dref, yn naturiol, yn edrych tuag at Gaerdydd yn gymdeithasol ac yn economaidd ac mae wedi bod yn rhan o un o etholaethau Caerdydd erioed.



Ceir llawer o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn Ninas Powys. Mae'r rhain yn amrywio o'r rhai sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn hyd at redeg y llyfrgell elusennol, gan roi sylw arbennig i blant. Ffocws y grwpiau hyn yw cefnogi preswylwyr, gyda chymorth yr Awdurdod Lleol, sydd â'i ganolfan weinyddol yn y Barri. Ceir cefnogaeth, o ofal cymunedol i wasanaethau meddygol, yn ysbyty'r Barri; mae gwasanaethau cymdeithasol, cymorth addysgol a gofal deintyddol ynghyd â chysylltiadau trafndiaeth y gymuned, oll yn agosach â'r Barri na Chaerdydd.

Mae ymbarél Awdurdod Lleol y Fro yn ganolog i gymaint o weithgarwch cymunedol. Ym mis Rhagfyr 2020 bu llifogydd difrifol yn Ninas Powys. Daeth yr holl wasanaethau cymorth o'r Fro; y Gwasanaeth Tân ac Achub o'r Barri a bagiau tywod o gyfleuster priffyrdd Wenfô sy'n ffinio â Saint Andras yn Ninas Powys.

Pe bai Dinas Powys yn cael ei gynnwys o fewn un o etholaethau Caerdydd, byddai gan yr Aelod Seneddol y cymhlethdod ychwanegol o weithio ar draws y parth elusennol naturiol neu'r ffiniau. Byddai hyn yn rhwystro'r cysylltiadau datblygedig a sefydledig sydd eisoes yn bodoli. Mae rhai gwasanaethau cymorth a ddarperir gan Fro Morgannwg neu Lywodraeth Cymru wedi'u rhannu rhwng ffocws gwledig a ffocws trefol. Mae rhaglen grant Cymunedau Gwledig Creadigol yn un enghraifft, lle mae Dinas Powys a'i bentrefi / pentrefannau yn gymwys i dderbyn y grant hwn. Mae hyn yn tanlinellu natur wledig a rhwydwaith y ward, nad yw'n cyd-fynd yn naturiol â Chaerdydd. Nid yw ychwanegu cymuned wledig at Gaerdydd yn ffafriol i gyfansoddiad y gymuned a'r rhwydweithiau cymorth a allai gael eu colli.

Mewn perthynas ag ysgolion ac addysg, mae cysylltiadau sefydledig â'r Barri yn gryf. Yn aml, mae plant ysgolion cynradd y mae eu rhieni eisiau iddynt gael addysg eglwysig yn mynychu Ysgol Saint Andras pan mae Ysgol yr Holl Saint yn y Barri yn llawn. Ar ben hynny, mae ymgysylltiad agos ar draws ysgolion rhwng Ysgol Saint Andras ac ysgolion eraill yr Eglwys yng Nghymru yn y Fro wledig a'r Barri. Mae disgyblion Dinas sydd eisiau addysg Gatholig yn mynychu Ysgol Sant Richard Gwyn yn y Barri.

Mae cysylltiadau trafndiaeth yn chwarae rhan fawr o ran cefnogi cysylltiadau lleol. Mae'r briffordd o'r Barri i Gaerdydd yn mynd trwy Ddinas Powys. Mae hyn yn tanlinellu'r cysylltiadau rhwng y ganolfan weinyddol a chefnogaeth. Mae gwasanaethau bysiau trafndiaeth gyhoeddus yn mynd ar hyd y ffordd hon ac mae eu hagosrwydd yn golygu bod mynediad i'r gwasanaethau cymorth y soniais amdanynt uchod wedi'i sefydlu ac yn gyfleus i ddefnyddwyr gwasanaethau a phrif ganolfan yr Awdurdod o ran darparu'r gefnogaeth honno.

Mae gwasanaethau trenau'r un mor bwysig yn ffordd o fyw trigolion Dinas Powys. Mae gwasanaethau'n rhedeg yn rheolaidd rhwng y Barri a Dinas. Nid oes unrhyw fodd o gael mynediad i Benarth trwy wasanaeth trên uniongyrchol. Byddai'n rhaid teithio i Gaerdydd yn gyntaf. Mae cymhlethdod taith o'r fath yn creu rhwystr daearyddol naturiol rhag y dref agosaf nesaf.

Mae cysylltiadau trafndiaeth o'r fath yn bwysig o ran gofal meddygol yn Ysbyty'r Barri, sydd ag uned fân anafiadau, er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn y ganolfan ranbarthol yng Nghaerdydd. Mae'n bwysig cofio bod Ysbyty'r Barri hefyd yn safle gofal gan feddygon teulu y tu allan i oriau. Mae cael mynediad i'r gwasanaethau hyn yn y Barri yn tanlinellu'r cyswllt naturiol a sefydledig.

O ganlyniad i'r rhwydwaith trafndiaeth, mae preswylwyr yn siopa ac yn cymdeithasu'n lleol o amgylch y Barri, er y ceir cyfleusterau yng Nghroes Cwrlwys, sydd i raddau helaeth yn ward Gwenfô, sydd hefyd yn ganolfan. Mae Dinas Powys yn bont naturiol rhwng ward Gwenfô a'r Barri. Mae gan Ddinas gysylltiadau agos â'i gymydog, Gwenfô, sydd hefyd yn etholaeth Bro Morgannwg.

Gwasanaeth pwysig dros ben i'r bobl fwyaf agored i niwed yw Cludiant Cymunedol Green Links. Gwasanaeth bws mini o ddrws i ddrws yw hwn, a weinyddir gan yr Awdurdod Lleol. Mae rheolwyr yr Awdurdod wedi'u lleoli yn y Barri, ac mae'r llwybrau'n dechrau ac yn gorffen yn ward gyfagos Gwenfo.

Mae chwaraeon yn ffactor pwysig ym mywyd y gymuned. Maegan Ddinas Powys bresenoldeb pel-droed cryf ymhlith y boblogaeth iau ac mae'n rhan o Gynghrair Bro Morgannwg. Mae hyn yn wir ar draws grwp oedran eang, o'r plant ieuengaf i oedolion, ac o ganlyniad i strwythur y gynghrair, ceir trosglwyddo rheolaidd rhwng timau sydd wedi'u lleoli yn y Barri. Pan ddaw timau i ben, y Barri yw'r lie naturiol i chwaraewyr ddod o hyd i dim arall.


Credaf y gellir gwneud addasiadau naturiol ymhlith pedair etholaeth arfaethedig Caerdydd i sicrhau body nifer ofynnol o etholwyr yn byw ym mhob un, ac ar yr un pryd, diogelu cyfanrwydd etholaeth Bro Morgannwg. Rwy'n pryderu y byddai ward wledig Dinas Powys yn cael ei 'cholli' fel rhan o grwp o etholaethau dinesig, ac mae'r sefyllfa bresennol yn bodloni'r cysylltiadau cymunedol naturiol a sefydledig yn well.

Mae'r holl ffactorau hyn yn berthnasol i weithgarwch ASau a'u perthynas ag etholwyr. Byddai'n fwy anghyfleus i etholwyr orfod ymdrin ag ASau ac Awdurdodau Lleol sydd â chanolfannau gwahanol. Mae deilliannau'r perthnasoedd rhwng grwpiau elusennol sy'n rhan o rwydwaith naturiol yn fwy na chyfanswm cyfraniad pob un. Bydd yr AS yn gweithredu'n rheolaidd fel cyswllt rhwng y sefydliadau o fewn y rhwydwaith. Byddai symud Dinas Powys yn golygu y byddai arferion gorau ac ati gan sefydliadau sy'n seiliedig ar sylfaen debyg (cysylltiadau gwledig, cymdeithasol ac economaidd ac ati) yn cael eu colli.

Rwy'n cydnabod y bydd gwaith trawsffiniol (o ran awdurdodau lleol) yn berthnasol bob amser i rai ASau ond mae'n well osgoi neu leihau hyn. Byddai symud Dinas Powys i etholaeth arall yn creu mwy o anghyfleustra, fel y nodir hyn yng nghanllawiau datganedig y Comisiwn, nag sydd ei angen. Yn achos Penarth, sy'n edrych yn naturiol tuag at Gaerdydd yn gymdeithasol ac yn economaidd, mae eisoes yn rhan o sefyllfa hirsefydlog.

Diolch i chi am eich sylw.

Yr eiddoch yn gywir,



Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Bro Morgannwg

BCW-9931/ [REDACTED] / Aberpennar

Nid yw newid y ffiniau a rhannu Aberpennar ac Aberdâr yn gwneud unrhyw synnwyr. Byddai ward newydd Pontypridd yn golygu y byddai ardaloedd cwbl wahanol gydag incymau a chefnidiroedd cwbl wahanol mewn un ardal. Mae aelwyd sy'n byw ar goridor yr M4 yn debygol o fod yn wahanol iawn i aelwyd yn y cymoedd. Byddai edrych ar brisiau tai a ffigurau cyflogaeth yn dangos y byddai'r ffiniau arfaethedig newydd o fudd i'r ardaloedd mwy cefnog. Byddai cadw ffiniau Cwm Cynon a ffiniau Merthyr a Rhymni yn gwneud synnwyr gan fod gan yr ardaloedd gefndir ac anghenion tebyg.

BCW-9932/ Fay Jones AS/ Brycheiniog a Sir Faesyfed

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 15:26

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynigion Drafft – Etholaeth Seneddol Brycheiniog a Sir Faesyfed

Noswaith dda,

Ysgrifennaf i fynegi fy nghefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig i etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Ar hyn o bryd, dyma'r etholaeth fwyaf yng Nghymru a Lloegr, ac rwy'n cefnogi ychwanegu naw ward arall sydd yng Nghwm Nedd Uchaf.

Wrth ymestyn yr etholaeth y tu hwnt i Ystradgynlais, mae'r Comisiwn Ffiniau wedi cyflawni amcan y ddeddfwriaeth o gynyddu nifer yr etholwyr heb glymu cymunedau anghydweiddol at ei gilydd. Ceir cysylltiadau clir â'r wardiau newydd arfaethedig. Er enghraifft, mae llawer o blant yn ardal Pontsenni eisoes yn mynychu Ysgol Uwchradd Ystalyfera. Byddai'r cynigion hefyd yn ychwanegu nifer o ardaloedd Cymraeg eu hiaith i'r etholaeth, sy'n adeiladu ar y gymuned Gymraeg ei hiaith yn Ystradgynlais. Yn ogystal, mae'r cynigion yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Bil i gyfyngu ar nifer yr awdurdodau lleol a gwmpesir gan bob etholaeth seneddol. Mae ychwanegu wardiau o Gastell-nedd Port Talbot yn gwneud synnwyr clir - yn enwedig o ystyried y cydweithredu sy'n bodoli rhwng Cyngor Sir Powys ac awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer prosiectau fel y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

Rwyf hefyd yn cefnogi enw newydd yr etholaeth, sef Aberhonddu a Maesyfed.

Yr eiddoch yn gywir,

Fay Jones

Fay Jones AS

Aelod Seneddol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed

BCW-9933/ [REDACTED] / Llandyrnog

From: [REDACTED]

02 November 2021 16:08

To: BCW <bcw@boundaries.wales>

Subject: Etholaethau Seneddol Newydd

Annwyl Syr/ Madam

O ystyried y cynigion ffiniau newydd ar gyfer cyfyngu ar nifer yr etholaethau seneddol, mae gennym bryderon ynghylch y ffiniau lleol arfaethedig. Rydym yn llwyr gefnogi lleihau nifer yr etholaethau.

Rydym yn byw ac yn rhedeg busnes ym mhentref Llandyrnog, Dyffryn Clwyd.

Mae gan bentref Llandyrnog god post Dinbych ac mae wedi'i leoli rhwng Rhuthun a thref sirol Dinbych, ochr Dyffryn Clwyd i Fryniau Clwyd, heb unrhyw beth yn gyffredin â Sir ddiwydiannol y Fflint, y deallaf fod cynnig i'w gysylltu â hi. Rydym mewn ardal ffermio yn bennaf ac yn credu'n gryf y dylem gadw ein cysylltiad agos â threfi eraill yn yr ardal hon. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr cysylltu'r ardal hon ag ardal nad oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â hi.

Diolch yn fawr am eich amser.

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW-9934 / [REDACTED] / Caerffili

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol. Fel un o drigolion tref Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byw yn Nhref Caerffili Nid wyf erioed wedi nodi fy mod yn cyd-fynd â Chasnewydd ar gyfer unrhyw weithgareddau hamdden, siopa neu fusnes, rwyf bob amser wedi ymgysylltu â Chaerdydd a i'r gogledd o Gaerffili. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

O edrych o safbwynt hanesyddol, mae gan Gaerffili fwy o gysylltiad â mannau eraill yng Nghwm Rhymni, yn enwedig o'i hanes glofaol. Hefyd, yn ddaearyddol mae Caerffili wedi'i lleoli ym masn Cwm Rhymni ac mae'r rheilffordd yn rhedeg yn naturiol o ben uchaf Cwm Rhymni i Gaerdydd drwy Gaerffili. Mae gennym gysylltiadau diwylliannol gydag ysgolion, er enghraifft cymryd rhan mewn Eisteddfodau gyda'n gilydd, heb unrhyw gysylltiadau diwylliannol â Chasnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn nhref Caerffili.

Rwy'n deall bod Wayne David AS dros Gaerffili, wedi cyflwyno cynnig amgen manwl ac ymarferol a hoffwn ofyn i'r Comisiwn fabwysiadu hwnnw.

BCW-9935 / [REDACTED] / Castell-nedd

Yn bersonol, rwy'n credu bod hwn yn drefniant gwell i'r etholaeth na'r hen un pan oedden yn rhan o Aberafan. Mae gennym lawer mwy yn gyffredin â Chastell-nedd a Chwm Nedd. Er nad wyf yn pleidleisio i'r Blaid Lafur, ni fyddwn am golli Stephen Kinnock fel ein AS.

BCW-9936 / [REDACTED] / Casnewydd

Rwyf wrth fy modd gyda hyn. Yr un nifer o bleidleiswyr, llai o wleidyddion.

BCW-9937 / [REDACTED] / Abertawe

Cyflwynaf y sylwadau hyn fel Cadeirydd Ward Dynfant, Cilâ, Mayals a Sgeti yn etholaeth Gorllewin Abertawe. Gwnaf y cyflwyniad hwn ar ran aelodau'r ward hon. Rydym wedi trafod manylion newidiadau arfaethedig y comisiwn, a gwrthgynigion, a'r goblygiadau i'n haelodau o fewn yr etholaeth. Ar ôl trafodaethau gofalus, consensws cyffredinol y ward yw cefnogi gwrthgynnig Geraint Davies AS, fel a ganlyn:

Yn y bôn, mae cynnig presennol y CFfG yn torri ôl troed trefol canolog Gorllewin Abertawe yn ei hanner ac yn gosod rhan wledig o Gŵyr ar ben un o'r haneri. Mae hyn yn gwahanu cymunedau trefol yn yr etholaeth bresennol, ac yn uno hanner yr ôl troed trefol ag ardal wledig ddigyswllt yng Ngŵyr.

Mae etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe yn ymestyn tua'r gorllewin o Afon Tawe gydag ôl troed trefol ar hyd yr arfordir sy'n cyrraedd Gŵyr.

Felly, nod y gwrthgynnig isod yw ailgysylltu cysylltiadau lleol, a chyfleustra, adlewyrchu'r ddaearyddiaeth a pharchu ffiniau presennol. I grynhoi, mae hyn yn cynnwys: -

1. Cadw'r pedair ward yn sedd wreiddiol Gŵyr – sef Pontarddulais (4,954), Mawr (1,438), Llangyfelach (3,946) a Phenlle'r-gaer (2,553), sy'n cynnwys 12,891 o etholwyr – o fewn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr, yn hytrach na'u symud i Ganol a Gogledd Abertawe
2. Symud dwy ward a oedd yn wreiddiol yn etholaeth Gorllewin Abertawe – sef Sgeti (11,304) a Mayals (2,148), sy'n cynnwys 13,452 o etholwyr – i ailymuno ag Uplands yng Nghanol a Gogledd Abertawe.
3. Symud Treforys (12,105) o Ganol a Gogledd Abertawe i Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn gyfnewid am Fôn-y-maen (5,391) a St. Thomas (5,514).
4. Byddai hyn yn rhoi 74,653 o etholwyr yn etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr (75,214 – 13,452 o Sgeti/Mayals + 12,891 o Pontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer)
5. A byddai gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 75,560 o etholwyr (76,199 – 13,452 + 1,289 - 12,105 + 5,391 + 5,514)

Byddai gan hyn y goblygiadau canlynol o ran y ffactorau statudol a fydd yn cael eu hystyried:-

Ystyriaethau daearyddol arbennig

Yn wahanol i gynnig presennol y CFfG, nid yw'r gwrthgynnig yn cymryd rhan wledig o etholaeth wledig sefydledig Gŵyr a'i gosod ar ben ardal drefol; nid yw ychwaith yn gwahanu rhan o etholaeth drefol sefydledig Gorllewin Abertawe a'i gosod mewn ardal wledig gyda llinell derfyn yn torri trwy'r ôl troed trefol parhaus mewn ffordd y byddai pobl leol yn ei chael yn anodd ei deall.

Mae'r arfordir ac Afon Tawe yn ffiniau naturiol ar gyfer etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. I'r gorllewin o Afon Tawe, mae wardiau'r Castell, Uplands, Sgeti a Mayals yn llifo yn ddi-dor i'w gilydd ac maent yn gyffiniol yn ddaearyddol ar hyd yr arfordir. Felly, dylent aros yn gysylltiedig â'i gilydd yn yr un etholaeth. Byddai ychwanegu St. Thomas a Bôn-y-maen yn parhau'r tir blaen arfordirol i'r dwyrain o Afon Tawe.

Ffiniau presennol

Felly, mae'r gwrthgynnig yn parchu ffiniau etholaeth bresennol a sefydledig Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn fwy wrth adfer wardiau a gyfnewidiwyd rhyngddynt. Daw pob ward o fewn awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe.

Cysylltiadau lleol

Mae Mayals, yn y bôn, yn rhan o Sgeti ac mae integreiddio agos rhwng Sgeti ac Uplands a'r Castell ar gyfer llwybrau a chysylltiadau gwaith, hamdden, siopa a thrafnidiaeth.

Mae campws Prifysgol Abertawe wedi'i leoli yn Sgeti ac mae'r myfyrwyr yn byw yn bennaf yn wardiau Uplands a'r Castell. Felly, mae myfyrwyr a chymunedau eraill yn croesi ffin Sgeti/Uplands yn ddyddiol ar gyfer gwaith, astudio, hamdden ac addoli.

Mae poblogaeth Fwslimaidd Abertawe wedi'i chrynhof yng Ngorllewin Abertawe, yn Sgeti, Uplands a'r Castell i raddau helaeth, felly mae addolwyr Mosg Abertawe yn cael eu cynrychioli'n bennaf gan un AS. Yn yr un modd, mae cynulleidfaoedd eglwysig yn symud yn ddi-dor ar draws Uplands a Sgeti.

Felly, gallai gwahanu Sgeti oddi wrth Uplands a'r Castell achosi dryswch a thanseilio cysylltiadau lleol ar draws cymunedau sefydledig.

Yn yr un modd, mae cymunedau ym Mhontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer, sydd ar hyn o bryd yng Ngŵyr, yn wledig a lled-wledig, ac nid ydynt yn ystyried eu hunain fel rhan o ganol trefol y ddinas o ran hunaniaeth gymunedol, ond yn hytrach yn edrych tuag at Lanelli, Castell-nedd a Gŵyr.

Anghyfleustra

Mae'n dilyn o'r uchod, byddai cynnig y CFfG heb ei ddiwygio yn creu anghyfleustra wrth rannu cymunedau myfyrwyr, Mwslimiaid a chymunedau eraill, a gellir osgoi hyn.

Achosir anghyfleustra wrth rannu ardal drefol mewn un etholaeth yn ddwy ran, yn ddiangen, a gosod un hanner mewn etholaeth wledig a chysylltu'r hanner arall â wardiau gwledig sydd wedi'u gwahanu oddi wrth yr etholaeth wledig honno.

Felly, mae'r gwrthgynnig hwn yn well o ran cyfleustra.

Cefnogaeth leol o blaid dewis amgen

Bydd y gwrthgynnig yn denu cefnogaeth fwy eang gan gymunedau a grwpiau ffydd, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chanol y ddinas a busnesau, cymuned y brifysgol, ac yn yr un modd, ardaloedd gwledig nad ydynt yn ystyried bod ganddynt gysylltiad agos â'r ddinas.

Amrediad etholwyr statudol

Byddai 74,653 o etholwyr yn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr y gwrthgynnig, a 75,560 o etholwyr yn etholaeth Gogledd a Chanol Abertawe, a byddai'r ddwy etholaeth o fewn amrediad y CFfG o 69,724 – 77,062 o etholwyr.

Gwneir y penderfyniad i gefnogi'r cynnig hwn er budd gorau aelodau ein cymuned.

BCW-9938 / Hefin David AS / Hengoed

Hoffwn wrthwynebu'r cynnig i uno ardal ddeheuol Caerffili â Gorllewin Casnewydd. Mae etholaeth Caerffili yn cael ei rhannu'n bedair ac nid yw'r un o'r cynigion yn dangos cysondeb daearyddol na hanesyddol. Nid yw cynnig i uno Caerffili a Chasnewydd yn gwneud llawer o synnwyr o gwbl. Mae fy nghyd-Aelod yn San Steffan, Wayne David AS, wedi amlinellu ei bryderon penodol ac rwy'n cefnogi'r rhain yn llwyr. Er na fyddaf yn ailadrodd ei gyflwyniad manwl a'i ddadleuon da, byddwn yn tynnu sylw at y ddau bwynt allweddol, yn arbennig; mae datblygiad diwylliannol a hanesyddol y ddwy ardal yn sylweddol wahanol; ac mae patrymau teithio i'r gwaith yn tueddu i fynd, i raddau helaeth, rhwng y gogledd a'r de, gyda'r ardal yn cysylltu'n dda â ffordd yr A470 i Gaerdydd. Mae'r prif lwybr rheilffordd yn mynd yn uniongyrchol trwy'r etholaeth o Rymni i Gaerdydd.

Cefnogaf ei wrthgynnig, sef:

Creu etholaeth 'Caerffili' sy'n cynnwys y wardiau canlynol:

- St. James (4,267)
- Bedwas, Trethomas and Machen (7,902)
- Morgan Jones (5,636)
- St. Martins (6,582)
- Penyrheol (9,021)
- Cwm Aber (4,655)
- Llanbradach (3,239)
- Ystrad Mynach (4,067)
- Maesycwmmmer (1,811)
- Hengoed (4,055)
- St. Cattwg (5,579)
- Pengam (2,760)
- Cefn Fforest (2,845)
- Y Coed Duon (6,330)
- Pontllanfraith (6,343)

Cyfanswm: 75,092

Creu etholaeth 'Gorllewin Casnewydd a Threcelyn' sy'n cynnwys y wardiau canlynol:

- Maerun (4,897)
- Parc Tredegar (3,329)
- Y Gaer (6,543)
- Y Graig (5,053)
- Allt-yr-yn (7,088)
- Tŷ-du (9,421)
- Dwyrain Rhisga (4,611)
- Gorllewin Rhisga (3,973)
- Crosskeys (2,527)
- Ynysddu (2,978)
- Abercarn (4,139)
- Trecelyn (4,892)
- Crymlyn (4,332)
- Penmaen (4,219)
- Argoed (2,035)

Cyfanswm: 70,037

BCW-9939 / [REDACTED] / Wreccsam

Mae Llangollen wedi'i llyncu gan yr etholaeth newydd hon, pan ddylai fod yn Ne Clwyd. Yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol mae wedi'i chysylltu â De Clwyd, a dyna pam rwy'n credu y dylai gael ei chynnwys, nid ei hanwybyddu.

BCW-9940 / [REDACTED] / Wreccsam

Gan Sir y Fflint mae'r faner orau o'r holl siroedd, ac mae ei cholli'n drueni gan ei bod yn hyfryd.

BCW-9941 / [REDACTED] / Bargoed

Fel un o drigolion Bargoed, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Mae'r gwrthgynnig ar gyfer etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr o 76,071 o bleidleiswyr ($75214 + 26,738 - 25,881$) yn deillio o'r newidiadau i gynigion y Comisiwn Ffiniau a restrir isod.

1. Ychwanegu Ucheldir (10,834), Castell (10,312), a Townhill (5592), gan roi 26,738 o bleidleiswyr i etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigir gan y BCW.

2. Tynnu allan Penyrheol (4,621), Casllwchwr Isaf (1,795), Casllwchwr Uchaf (2,146), Gorseinon (3,340), Pontybrenin (3,506) a'r Cocyd (10,473) gan roi 25,881 o bleidleiswyr ar gyfer etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigir gan y BCW.

Mae hyn yn golygu y bydd gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 75,342 o bleidleiswyr ($76199 - 26,738 + 25,881$).

Mae'r gwrthgynnig hwn -

- yn ddaearyddol gydlynol oherwydd mae'n parhau i ddefnyddio Afon Tawe a'r arfordir fel ffiniau naturiol, gydag etholaeth ddiwygiedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn rhedeg ar hyd yr arfordir o'r gorllewin i Afon Tawe drwy Castell, Townhill, Ucheldir, drwy Sgeti a Mayals ac i Benrhyn Gŵyr.
- yn parchu'r ffiniau presennol - gan gadw Dyfnant, De Cilâ a Gogledd Cilâ, yn ogystal â Mayals a Sgeti, yn unedig ag Ucheldir, Townhill a Chastell i Afon Tawe gan gofleidio Penrhyn Gŵyr a chreu etholaeth gydlynol Gogledd Abertawe.
- yn atgyfnerthu cysylltiadau lleol – cymuned, gwaith, hamdden a gwasanaethau – yn yr holl ardaloedd allweddol gan gynnwys ein dwy brifysgol, llety myfyrwyr, Ysbyty Singleton, y Cyngor a gwahanol wasanaethau, datblygiad adfywio allweddol fel canol y ddinas, gan gadw popeth yn gyfleus a hwylus mewn un etholaeth.
- byddai'n cyd-fynd yn dda â chynrychiolaeth etholaethol y Senedd.
- mae'r wardiau hyn i gyd yn cyd-fynd yn naturiol ac wedi eu cysylltu'n agos â'i gilydd.
- mae wardiau Sgeti, Ucheldir a Chastell yn cynnwys poblogaethau Mwslemaidd sylweddol, gan gynnwys y Mosg Canolig, y Mosg Shia, a bwriedir lleoli Canolfan Gymunedol Islamaidd newydd yn Sgeti. Mae'r rhan fwyaf o'r gymuned Fwslemaidd hyd yma wedi cael eu cynrychioli gan un Aelod Seneddol ac un Aelod o'r Senedd. Mae'r wardiau hyn hefyd wedi eu poblogi'n drwm gan grwpiau lleiafrifol eraill a byddai'n drueni pe byddem yn eu rhannu'n ddwy wahanol etholaeth.

- y gwrthgynnig hwn yw'r ateb gorau ar gyfer etholaeth drefol / wledig heb rannu ardal drefol Abertawe i'r gorllewin o Afon Tawe'n ddwy wahanol etholaeth.

- mae amrywiol gymunedau o blaid y gwrthgynnig

Yn ei hanfod mae gan ward Dyfnant ddwy 'ochr' - un sy'n llifo'n fwy naturiol i Gilâ ac ymlaen i Sgeti, Ucheldir a Chanol y Ddinas, a'r llall sydd â mwy o gysylltiadau â Gŵyr. Mae'r cynnig hwn felly'n gwneud mwy o synnwyr i bobl Dyfnant a Chilâ.

Gwrth-gynnig arall posib a ddylai gael ei ystyried yw: yn ei hanfod mae cynnig presennol y BCW yn torri ôl-troed trefol canol Gorllewin Abertawe yn ei hanner gan roi rhan wledig o Benrhyn Gŵyr ar ben un hanner. Mae hyn yn rhannu'r cymunedau trefol yn yr etholaeth bresennol ac yn hytrach yn uno hanner yr ôl-troed trefol ag ardal wledig ddi-gyswllt o Benrhyn Gŵyr.

Mae etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe'n rhedeg tua'r gorllewin o Afon Tawe gydag ôl-troed trefol ar hyd yr arfordir i mewn i Benrhyn Gŵyr.

Mae'r gwrth-gynnig isod felly'n ceisio ailgysylltu cysylltiadau lleol a hwylustod er mwyn adlewyrchu'r ddaearyddiaeth a pharchu'r ffiniau presennol. Yn gryno mae'n cynnwys:-

1. Cadw'r pedair ward yn etholaeth wreiddiol Gŵyr Pontarddulais (4,954), Mawr (1,438), Llangyfelach (3,946) a Phenllergaer (2,553) – sy'n 12891 o bleidleiswyr - yn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn lle eu symud i Ganol a Gogledd Abertawe.
2. Symud dwy ward oedd yn wreiddiol yn etholaeth Gorllewin Abertawe - Sgeti (11,304) a Mayals (2,148) – sy'n 13452 o bleidleiswyr – i ail-ymuno ag Ucheldir yn etholaeth Canol a Gogledd Abertawe.
3. Symud Treforys (12,105) o Ganol a Gogledd Abertawe i Ddwyrain Abertawe a Chastell Nedd yn gyfnewid am Fonymaen (5391) a St.Thomas (5514).
4. Byddai hyn yn rhoi 74653 o bleidleiswyr i etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr (75214 – 13452 o Sgeti / Mayals + 12891 o Bontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phenllergaer).
5. A byddai gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 75,560 o bleidleiswyr (76199 -13452 +1289 -12,105 + 5391+5514).

Byddai gan hyn y goblygiadau canlynol i'r ffactorau statudol fydd yn cael eu hystyried:-

Ystyriaethau daearyddol arbennig

Yn wahanol i gynnig presennol y BCW, nid yw'r gwrth-gynnig yn cymryd rhan wledig o etholaeth wledig sefydledig Gŵyr a'i rhoi ar ben ardal drefol; nid yw ychwaith yn tynnu i ffwrdd rhan o etholaeth drefol sefydledig Gorllewin Abertawe a'i rhoi mewn ardal wledig, gyda llinell ffiniol yn torri drwy ôl-troed trefol parhaus mewn ffordd y byddai pobl leol yn cael trafferth ei ddeall.

Mae'r arfordir ac Afon Tawe'n ffiniau naturiol i etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. I'r gorllewin o Afon Tawe, mae wardiau Castell, Ucheldir, Sgeti a Mayals yn rhedeg yn ddi-dor i'w gilydd ac yn ddaearyddol gydffiniol ar hyd yr arfordir. Felly, dylent barhau i fod wedi eu cysylltu o fewn yr un etholaeth. Byddai ychwanegu St. Thomas a Bonymaen yn parhau llinell yr arfordir i'r dwyrain o Afon Tawe.

Ffiniau presennol

Felly mae'r gwrth-gynnig yn parchu ffiniau etholaethol presennol a sefydledig Gŵyr a Gorllewin Abertawe'n well drwy ddychwelyd y wardiau a gyfnewidir rhyngddynt. Mae'r wardiau i gyd yn dod o fewn awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe.

Cysylltiadau lleol

Yn ei hanfod mae Mayals yn rhan o Sgeti ac mae Sgeti'n integredig iawn ag Ucheldir a Chastell o ran gwaith, hamdden, siopa, llwybrau trafnidiaeth a chysylltiadau. Mae campws Prifysgol Abertawe yn Sgeti a'i phoblogaeth myfyrwyr yn byw'n bennaf yn wardiau Ucheldir a Chastell. Felly mae'r myfyrwyr a chymunedau eraill yn croesi'r ffin rhwng Sgeti / Ucheldir yn ddyddiol ar gyfer gwaith, astudiaeth, hamdden ac i addoli. Mae poblogaeth Fwslemaidd Abertawe wedi'i chanoli'n bennaf yng Ngorllewin Abertawe, yn bennaf yn Sgeti, Ucheldir a Chastell, felly cynrychioli'r addolwyr Mosg Abertawe gan un AS yn bennaf. Felly hefyd, mae'r cynulleidfaoedd eglwysig yn symud nôl a blaen yn ddi-dor rhwng Ucheldir a Sgeti.

Felly gallai gwahanu Sgeti o Ucheldir a Chastell achosi dryswch a thanseilio cysylltiadau lleol ar draws cymunedau sefydledig.

Felly hefyd, mae'r cymunedau ym Mhontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phenllergaer, sydd ar hyn o bryd ym Mhenrhyn Gŵyr, yn wledig a lled-wledig a ddim yn ystyried eu hunain yn rhan o'r canol dinas trefol o ran hunaniaeth gymunedol ond yn gallu edrych tuag at Lanelli, Castell Nedd a Gŵyr.

Anhwylustod

Mae'n dilyn o'r uchod y byddai'r cynnig gan BCW, heb ei ddiwygio, yn creu anhwlustod diangen drwy rannu'r cymunedau myfyrwyr, Mwslemaidd a chymunedau eraill. Byddai'n achosi anhwlustod drwy rannu ardal drefol yn ddiangen yn ei hanner mewn un etholaeth a rhoi hanner mewn etholaeth wledig a chysylltu'r hanner arall â wardiau gwledig wedi eu gwahanu o'r etholaeth wledig honno.

Felly mae'r gwrth-gynnig hwn yn well o ran hwylustod.

Cefnogaeth leol i gynnig amgen

Bydd gan y gwrth-gynnig fwy o gefnogaeth gan gymunedau a grwpiau ffydd, yn enwedig gan rai a gysylltir i ganol y ddinas a busnesau, cymuned y brifysgol, a hefyd y cymunedau gwledig sydd ddim yn ystyried eu hunain i fod â chysylltiad agos â'r ddinas.

Yr ystod etholaethol statudol

Byddai nifer y pleidleiswyr yn etholaeth gwrth-gynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn 74,653 voters a'r nifer yn etholaeth Gogledd a Chanol Abertawe'n 75,560 felly byddai'r ddwy o fewn ystod statudol y BCW o 69,724- 77,062.

BCW-9968/ [REDACTED] / Caerfyrddin

Mi fyddai colli Llangynnwr, Llanismel ac Llangyndeyrn i Lanelli yn ddim yn gwneud synnwyr. Dyw Llangynnwr yn enwedig gyda unrhyw cyswllt gyda Llanelli. Mae Llangynnwr ardal tu allan i Gaerfyrddin a gyda Caerfyrddin y dylid fod. Beth am rhannu wardiau etholiadol er mwyn cael y rhif penodol? Os rydym yn edrych ar adolygiad 2018 fe waethoch dewis i ychwanegu wardiau i'r Ddwyrain o Llanelli. Beth am gwneud yr un peth eto? wy'n hoffi yn fawr mae enw uniaith bydd yn cael ei defnyddio.

BCW-9969/ [REDACTED] / Casnewydd

Yn gyntaf, hoffwn ddatgan fy mod yn cytuno â chynigion y comisiwn ffiniau i sicrhau bod wardiau Cyngor Dinas Casnewydd sy'n dod o fewn etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd (Alway, Beechwood, Langstone, Llanwern, Llyswry, Ringland, Sain Silian a Victoria) yn aros yn sedd newydd Dwyrain Casnewydd. Rwy'n croesawu ac yn cefnogi hyn.

Fodd bynnag, fel preswilydd yng Nghasnewydd a gyda chyflogaeth sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Diwydiant Dur, rwy'n credu y bydd yn anghywir dorri gweithle strategol bwysig fel gwaith dur Tata - sydd wedi'i leoli yn ward Llanwern - o etholaeth Ddwyrain Casnewydd, lle mae llawer o'i weithwyr a'u teuluoedd yn byw. Mae Ysgol Uwchradd Llanwern (sef ysgol uwchradd y dalgylch ar gyfer y ward gyfan) yn dod o fewn Ringland, sydd ei hun yn gymharol agos i ardaloedd Cot Hill a Phentref Llanwern yn ward Llanwern. Ymhellach i'r dwyrain, mae pentrefi Iscoed a Llanfarthyn wedi edrych tua'r gorllewin i Gasnewydd erioed yn hytrach nag i'r dwyrain i Sir Fynwy - ac fel Betws yng Ngorllewin Casnewydd, bwriad pennaf y gwaith o adeiladu ystâd Iscoed yn y 1960au oedd darparu ar gyfer gweithwyr dur yn Llanwern.

Felly, mae ward Llanwern yn gyfystyr â Chasnewydd, ac ynghyd â Tata Steel, mae'n gartref i rai o'r cyflogwyr mwyaf a phwysicaf yn strategol yng Nghasnewydd, er enghraifft, CAF Rail. Nid yw ystad Glan Llyn sy'n dod o fewn y ward yn bell iawn i ffwrdd o Barc Manwerthu Spyty a phoblogaethau cyfagos ward Llyswry. Yn yr un modd, mae Langstone yn faestref hirsefydlog yng Nghasnewydd, ac mae'n gartref i nifer o fusnesau sydd nid yn unig yn marchnata eu hunain fel rhan o'r ddinas ond sydd hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn economi'r Ddinas a bydd yn anghywir eu rhannu rhwng dwy etholaeth.

Yn amlwg, am y rhesymau hyn, byddaf yn annog y pwyllgor i gadw'r wardiau hyn o fewn sedd yng Nghasnewydd.

BCW-9970/ [REDACTED] / Caerfyrddin

Dydy Pontarddulais ac Ystradgynlais gyda unrhyw cysylltiadau gyda Brycheiniog a Sir Faesyfed.

BCW-9971/ [REDACTED] / Caerfyrddin

Mi fydd creu etholaeth mor fawr a Cheredigion a Gogledd Sir Benfro yn gwneud hi yn anodd i ymgymryd â gwaith aelod etholedig. Mi fydd hefyd yn annodd i canfasio.

BCW-9972/ [REDACTED] / Yr Wyddgrug

NID wyf yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i symud Mynydd Isa i Alyn a Glannau Dyfrdwy. Fel un o breswylwyr Mynydd Isa, mae gennym gysylltiadau agos iawn â thref yr Wyddgrug. O siopa i ddefnyddio gwasanaethau, mae'r cysylltiadau hyn yn hirsefydlog a chryf. Byddai'n nonsens llwyr torri'r cysylltiadau hyn. Mae ysgolion ym Mynydd Isa yn yr un clwstr ag ysgolion yn yr Wyddgrug, Sychdyn ac yn y blaen. Yn yr un modd, mae clwstr De Sir y Fflint (tirlun iechyd) yn cynnwys yr Wyddgrug, Mynydd Isa ac i mewn i Fwcle. Drwy symud Mynydd Isa i ffwrdd o Delyn, ofnaf y bydd y cysylltiadau'n lleihau neu'n mynd yn ddryslud.

Nid wyf yn cytuno ag ehangu Delyn ar y ffin orllewinol i mewn i Sir Ddinbych ond eto, ar yr un pryd, torri Mynydd Isa allan o Delyn, a Mynydd Isa'n rhan o Sir y Fflint ac yn bentref ar gyrion yr Wyddgrug.

Rwy'n cynnig bod Mynydd Isa'n aros yn rhan o Delyn.

BCW-9973/ [REDACTED] / Wrecsam

Rwy'n hollol yn y tywyllwch pam ddylai'r ardal hon ddod yn rhan o Alyn a Glannau Dyfrdwy o gofio bod Wrecsam i lawr y ffordd. Nid oes llawer o wasanaethau o gwbl yma o gwbl a dw i'n ofni y byddai'r newid arfaethedig hwn yn gwaethygu'r sefyllfa. Ai newid er mwyn newid yw hyn? Ofnaf mai gwleidyddion yn ceisio gwneud eu hunain yn berthnasol yw hyn, ac nid oes rheswm da o gwbl dros wneud hyn.

BCW-9974/ [REDACTED] / Prestatyn

Annwyl Syr / Fadam.

Mae eich adolygiad ffiniau'n ddiddorol ac, ar gyfer sawl lle, yn ddealladwy.

Fel rhywun wedi fy ngeni a fy magu ym Mhrestatyn, rwyf wedi byw ym Mhrestatyn am bron i 57 o flynyddoedd; felly teimlaf fy mod mewn sefyllfa dda ac yn ddigon cryf fy marn am y mater i roi gwybod i chi nad wyf yn cytuno o gwbl â'r awgrym i newid y ffiniau yn fy ardal. Nid yw'n gwneud synnwyr.

Mae ein tref glan môr Fictorianaidd a'i phentrefi cyfagos fel Gronant, Talacre, Gwespyr, Ffynnongroyw, Trelawnyd, Gwaenysgor a Llanasa, sy'n rhannu ein tref gyda ni, i gyd yn asio'n dda i'w gilydd gyda'n preswylwyr yn rhannu siopa, cymdeithasu a mwynhau natur ein gwahanol ardaloedd fel pobl leol; fel cymdogion, ac felly mae'n gwneud perffaith synnwyr ein bod o fewn yr un etholaeth.

Fodd bynnag, ymhellach i'r dwyrain o Faes Glas, nid yw preswylwyr Bagillt a thref y Fflint yn ystyried Prestatyn fel eu tref leol; maen nhw wedi eu cysylltu i, ac yn cydfynd yn naturiol â Fflint / Glannau Dyfrdwy; i Alyn a Glannau Dyfrdwy. Byddai newid hyn yn gorfodi ardaloedd at ei gilydd nad ydynt erioed yn fy oes i wedi ystyried eu hunain i fod yn perthyn yn naturiol i'w gilydd na bod yn lleol i'w gilydd. Byddai dod â'r trefi hyn a'u cyffiniau at ei gilydd yn annaturiol a chreu llawer mwy o broblemau nag y bydden nhw'n eu datrys i chi.

Hefyd, nid wyf erioed wedi byw yn Delyn na mewn ardal gysylltiedig; nid yw fy nghod post na fy nghod ffôn wedi bod yn gysylltiedig â'r ardal i'r dwyrain o Faes Glas fel yr ydych yn ei gynnig; nid yw ein hysgolion ychwaith erioed wedi cael disgyblion yn dod iddynt o'r ardaloedd hynny; nid ydynt yn ardaloedd sydd wedi gorgyffwrdd o'r blaen. Nid yw ein prif ysbyty a'n meddygfeydd a'n hysgolion yn gwasanaethu preswylwyr yr ardaloedd i'r dwyrain o Faes Glas; nid ydynt erioed wedi gwneud; mae'n ardal gwbl ar wahân / wahanol gyda ffocws trefol ac yn llawer mwy naturiol gysylltiedig â threfi a phentrefi Alyn a Glannau Dyfrdwy.

Nid oes gan Brestatyn unrhyw gysylltiad ag enwau Afonydd Dyfrdwy nac Alyn.

Fodd bynnag, rwyf wedi byw yng Nghlwyd cyn hyn. Rhaid i enw ein hetholaeth, os oes yn rhaid ei newid, adlewyrchu'r ardal yr ydym yn byw ynddi; Dwyrain Clwyd, ie - efallai hyd yn oed Bryniau Clwyd; ond yn sicr nid Delyn; i ni sy'n lleol i Brestatyn nid yw Delyn yn golygu dim i ni o ran ble'r ydym yn byw, o gwbl. Mae angen ail-feddlw am enw'r etholaeth os gwelwch yn dda oherwydd mae'r cysylltiadau â'r enw Delyn yn drefol a gydag ardal gogledd-ddwyrain sy'n llawer pellach i ffwrdd, nid ag ardal glan môr arfordir Gogledd Cymru.

Diolch am roi amser i ddarllen fy marn am hyn.

Yn gywir

[REDACTED]

BCW-9975/ Paul Rogers/ Brymbo

Fel Cynghorydd Sir rwyf wedi gwrandao ar y sylwadau sydd wedi'u gwneud gan drigolion lleol ar y mater yma. Mae corff sylweddol o farn sy'n gwrthwynebu'r cynnig i gynnwys Ward Brymbo yn Alun a Glannau Dyfrdwy.

Mae'r ward yn eistedd o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac mae ganddo gysylltiadau hanesyddol a chryf â'r dref.

Ychydig iawn o gysylltiadau cymdeithasol economaidd sydd gan Brymbo â'r etholaeth newydd.

Nid oes unrhyw ffyrdd na llwybrau trafnidiaeth mawr sy'n cysylltu Brymbo ag Alun a Glannau Dyfrdwy.

Nid oes unrhyw gysylltiadau cludiant cyhoeddus rhwng Brymbo a'r etholaeth newydd arfaethedig.

Byddai trigolion sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus yn cael eu gorfodi i deithio 4 milltir i mewn i Wrecsam ar fws er mwyn teithio'r pellter hwnnw yn y cyfeiriad arall os oedden nhw am fynychu cymhorthfa AS a oedd yn cael ei chynnal mewn pentref cyfagos.

Fel Cynghorydd Sir rwy'n teimlo y byddai rhannu ardal y Cyngor Sir rhwng tair etholaeth yn peri dryswch i'r etholwyr.

Fy nghynnig i yw y dylai wardiau Brymbo a Mwynglawdd gael eu symud o Etholaeth newydd arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy a'u gosod yn Wrecsam.

Dyma farn unfrydol Cyngorwyr Cymuned sy'n cynrychioli Brymbo ac anogwn y comisiwn i ystyried ein sylwadau.

BCW-9976/ [REDACTED] / Caerffili

Fel rhywun a gafodd ei magu yng Ngorllewin Casnewydd ac sydd erbyn hyn yn byw yng Nghaerffili, rwy'n methu â gweld unrhyw gysylltiadau cymunedol rhwng y ddwy ac nid wy'n credu y gallai cynrychiolydd gefnogi anghenion y ddwy ardal yn ddigonol.

BCW-9977/ [REDACTED] / Aberdâr

Mae Cwm Cynon isaf h.y. Abercwmboi ac Aberaman wedi bod yn gysylltiedig yn hanesyddol ERIOED ag Aberdâr ac felly nid i'w cynnwys yn y cynigion newydd.

BCW-9978/ [REDACTED] / Ystrad Meurig

Rwy'n credu bod y newid ffin arfaethedig yn cynrychioli cynrychiolaeth [sic] deg o'r boblogaeth o fewn yr etholaeth ac y bydd yn gwneud y pleidleisio'n fwy cynrychioliadol yn yr ardal. Rwyf yn cefnogi'r newid.

BCW-9979/ [REDACTED] / Wrecsam

Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn gwneud unrhyw synnwyr yn fy marn i.

Rwy'n deall y fethodoleg a'r amcanion cyffredinol, er na fydd etholaethau o'r un maint yn gwneud y System Etholiadol yn decach.

Fodd bynnag, o ran y newidiadau arfaethedig i Wrecsam a De Clwyd, nid yw'r newidiadau wedi'u hystyried yn iawn ac maent yn anwybyddu ffiniau Llywodraeth Leol a chysylltiadau lleol, gan gynnwys cysylltiadau hanesyddol, ffactorau daearyddol a chysylltiadau ffyrdd.

Rwy'n derbyn, rhwng 1974 ac 1997, roedd Cyngor Dosbarth o'r enw Glyndŵr. Nid oes llawer yn debyg rhwng ôl-troed blaenorol Glyndŵr a'r cynigion ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn awgrymu bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gadw ffiniau presennol Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r prif ffyrdd, afonydd a nodweddion topograffigol eraill yn syml:

Mae Afon Dyfrdwy, sy'n ffin i'r Fwrdeistref Sirol ac yn ffin genedlaethol, yn llifo o'r gorllewin i'r dwyrain yn fras drwy ran ddeheuol y Fwrdeistref Sirol bresennol cyn troi i'r gogledd i gyfeiriad Caer.

Mae'r A483 yn ffordd fawr o bwys sy'n cefnogi cymunedau bob ochr i ffin Cymru-Lloegr ac yn rhedeg o Gaer i'r Trallwng, a thu hwnt, o'r Gogledd tua'r De.

Mae'r A5, y cysylltiad trafnidiaeth allweddol arall, yn rhedeg o'r Waun i Gaergybi, yn fras o'r Dwyrain i'r Gorllewin ar ochr Cymru i'r ffin.

Yn olaf, mae elfennau o Fynyddoedd y Berwyn yn rhan ddeheuol ardaloedd Awdurdod Lleol presennol Wrecsam a Sir Ddinbych.

Rwy'n deall y dyhead i gynnal terfyn uchaf ac isaf cymharol gaeth o ran maint pob etholaeth. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu y dylid ystyried dau ffactor wrth edrych ar ffin Wrecsam-Glyndŵr yn benodol.

Wrecsam yw'r unig un o blith y chwe etholaeth arfaethedig yn y Gogledd, sydd yn Sir, yn nhermau Awdurdod Lleol, gyda hyb clir. Mae gan yr etholaethau arfaethedig eraill ddwy dref fach neu fwy sy'n ffocws ar y cyd. Mae'n bwysig cadw cyfanrwydd Wrecsam a'i chefnwlad.

Yn ail, mae'r chwe etholaeth arfaethedig yn y Gogledd eisoes yn cynnwys un etholaeth warchodedig, Ynys Môn, ac un etholaeth arfaethedig gyda phoblogaeth o lai na 70,000 o oedolion. Mae cyfartaledd maint etholaethau ledled y Gogledd yn is nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae Dwyfor-Meirionydd a Sir Drefaldwyn-Glyndŵr wedi'u trin fel etholaethau'r Canolbarth ynghyd â Brycheiniog a Sir Faesyfed a Cheredigion Preseli at y dibenion hyn).

Gellid dadlau bod lle i ymestyn etholaeth arfaethedig Wrecsam rhwng 10,000 a 15,000 i ddod â chyfartaledd maint etholaethau'r Gogledd i lefel debyg i ardaloedd eraill Cymru. Rwy'n derbyn y byddai hyn yn creu'r etholaeth unigol fwyaf yng Nghymru, ond byddai'n gwrthbwysu etholaethau llai Aberconwy ac Ynys Môn.

Yn llawer pwysicach, byddai addasiadau doeth yn adlewyrchu cysylltiadau hanesyddol a phresennol â Wrecsam yn hytrach na'r Trallwng.

Byddai fy awgrymiadau fel a ganlyn:

1. Derbyn yn anfoddog bod dadl dros ystyried alinio Glyn Ceiriog, dwy ward y Waun a Ward Wledig Llangollen â'r A5 ac felly ffurfio rhan o Glyndŵr ynghyd â Chorwen, Llandrillo a Llangollen o Awdurdod Lleol presennol Sir Ddinbych. Gellid cyflwyno dadl hefyd dros ystyried symud Overton a De Maelor, Bronington a Hanmer a Bangor-is-y-Coed i Glyndŵr naill ai oherwydd eu bod mor agor i Afon Dyfrdwy neu gysylltiadau presennol â Swydd Amwythig a Sir Drefaldwyn.

2. Trwy addasu, ac i gadw cyfanrwydd ardal "teithio i'r gwaith" Wrecsam a chysylltiadau diwylliannol a hanesyddol, byddwn wedi awgrymu y dylai wardiau Dwyrain a Gorllewin Cefn, a Gogledd Acrefair, Rhiwabon, Pen-y-Cae a Phen-y-Cae a De Rhiwabon barhau'n rhan o etholaeth Wrecsam.

I gloi, ym mhen arall ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ni allaf weld unrhyw sail resymegol, heblaw hwylustod, i drosglwyddo wardiau Minera a Brymbo i Alun a Glannau Dyfrdwy. Pe bai achos dros drosglwyddo unrhyw ward o Fwrdeistref Gogledd Wrecsam i Alun a Glannau Dyfrdwy, byddai ward yr Orsedd yn llawer mwy rhesymegol er y byddai'n parhau i fod â diffyg cyfanrwydd o ran cysylltiadau hanesyddol a theithio â Wrecsam.

I grynhoi, effaith y newidiadau rwy'n eu cynnig fyddai:

Cadw wardiau presennol De Clwyd yn Wrecsam, gan gynnwys Cefn, Rhiwabon a Phen-y-Cae, cynnydd o tua 10,500.

Cadw Brymbo a Minera, cynnydd o 5000.

Ystyried trosglwyddo wardiau ychwanegol o Wrecsam i Sir Drefaldwyn-Glynŵr ac Alun a Glannau Dyfrdwy:

Yr Orsedd 2643

Overton a De Maelor 2710

Bronington a Hanmer, gan gynnwys Bangor-is-y-Coed 2620.

Gostyngiad o tua 8000.

Effaith net y cynigion fyddai cynnydd o 7,500.

Er y byddai hyn yn gwneud Wrecsam yn etholaeth fawr, byddai ond yn cynyddu maint cyfartalog etholaeth yn y Gogledd o lai na 1500, i tua 72,000.

Gobeithio y byddwch yn ystyried fy nghynigion o ddifrif ar sail y meini prawf sydd wedi'u gosod. Mae'n ymddangos yn fyrbwyl distrywio cyfanrwydd ffiniau etholaeth Llywodraeth Leol a'r Senedd er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhifyddol ac ni fydd sicrhau bod etholaethau'r un maint yn gwneud dim o gwbl i wella cymesuredd canlyniadau mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

Edrychaf ymlaen at gam nesaf yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

3 Tachwedd 2021.



2 Tachwedd 2021

Eich Cyf

Comisiwn Ffiniau Cymrn
Hastings House
Fitzalan Comi
Caerdydd CF24 0BL

Annwyl Feistri

ADOLYGIAD Y COMISIWN FFINIAU 2021 - BRYCHEINIOG A MAESYFED

Rwy'n wirfoddolwr sy'n cynuyd rhan mewn ymgyrchu gwleidyddol yn yr ardal sydd ar hyn o blyd yn F1ycheiniog a Sir Faesyfed. Rwyfwedi bod yn cynuyd rhan weithgar ers llawer o flynyddoedd.

Er ein bod yn etholaeth bellenig, 1ydym ni hefyd yn fach yn nhe1mau nifer etholwyr acer bod gennym ni i gyd1ywfaint o deymgaiwch i'r status quo, mae amser yn symud yn ei flaen.


Wedi astudio'r newidiadau ai-faethedig mae'n bleser mawr gennyfweld mai'r bwriad yw cadw siroedd hynafol B1ycheiniog a Maesyfed yn Hawn. Mae hyn yn bwysig ac yn rhywbeth i'w groesawu.

Mae c1yn deilyngdod i ychwanegu cymunedau i'r de-orllewin o'r ardal. Bydd dilyniant rhwng, dweder, Ystradgynais ac Ystalyfera a Phontardawe a chredaf fod y cynigion hyn yn cyd-fynd yn gysm11s iawn a chylch gwaith y Comisiwn. Bydd yn newid 'ymdeimlad' yr etholaeth, ond ni fydd ar ei cholled o'r he1wydd.

Mae c1yn b1yder gennyf, diwy alw 'B1ycheiniog a Maesyfed' ar yr etholaeth newydd, y gall fod teimlad o fod yn 'ail orau' ymhlith yr ai·daloedd sy'n eistedd yng Nghastell-nedd ai·hyn o blyd. Os oes awgiym y dylai'r enw gael ei estyn i gydnabod y pwynt hwn, nid wyf yn credu y byddai derbyniad gwael i hynny gan y sawl sydd o fewn ffiniau presennol yr etholaeth.

Diolch i'ch tnn am yr holl waith caled a wnaed i ddod a ni i'r pwynt hwn.

Yr eiddoch yn gywir



BCW-9981/ [REDACTED] / Rhualt

Oddi wrth [REDACTED]

Anfonwyd. ac wedd 2021 20:18

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau Ffin Arfaethedig Gogledd Cymru



Rwyf yn ysgrifennu i gefnogi'r newidiadau ffin arfaethedig sy'n effeithio ar DdyffrynClwyd.

Mae cysylltiadau cryf rhwng y Rhyl lie rwy'n gweithio fel meddyg teulu ac ardaloeddcyffiniol Bae Cinnel, Towyn, Abergele a Bodelwyddan, Prestatyn ac i mewn i Sir y Fflint lie mae gennym gleifion cofrestredig.

Credaf y dylai'r rhain i gyd fad o fewn ffiniau'r etholaeth newydd.

Hefyd hoffwn i fwy o ystyriaeth gael ei rhoi i enw'r etholaeth; dylai adlewyrchu Clwydneu Glwydaidd yn ei henw.



Dr James Davies MP

Member of Parliament for Vale of Clwyd/ Dyffryn Clwyd

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Ty Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Trwy e-bost at: bcw@boundaries.wales

2 Tachwedd 2021

Diolch yn fawr i chi am eich gwaith o gynnal arolwg o ffiniau etholaethau Seneddol yng Ngogledd Cymru, i gyd-fynd a'r gofynion a osodwyd arnoch gan Senedd y DU.

Rwyf wedi cael y pleser o gynrychioli etholaeth Dyffryn Clwyd yn San Steffan yn ystod pedair o'r chwe blynedd a hanner diwethaf. Mae'n sedd sydd, mewn sawl ffordd, yn gydlynol o ran ei chyfansoddiad ac mae'r posibilrwydd o'i rhannu yn siom fawr i mi, yn ogystal ag i lawer o bobl eraill. Rwy'n siwr y bydd y Comisiwn wedi astudio'r holl opsiynau i adlewyrchu'r cysylltiadau cryf sy'n bodoli o fewn y sedd hon yng ngogledd Sir Ddinbych, a rhaid i mi bwysleisio y byddai etholaeth sy'n ymestyn dros Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd yn cynnwys yr union nifer angenrheidiol o etholwyr. Hefyd, ceir opsiynau posibl o amgylch ehangu sedd Dyffryn Clwyd i'r dwyrain, fel yr awgrymais yn eich arolwg ffiniau yn 2016.

Fodd bynnag, ar sail cynigion presennol y Comisiwn Ffiniau, rwy'n cydnabod bod dod a'r Rhyl ynghyd a chymunedau arfordirol i'r gorllewin yn syniad teg. Mae cysylltiad arbennig o gryf rhwng y Rhyl, Bae Cinnel a Thywyn, ac maent wedi'u cysylltu'n ffisegol gan ffordd yr AS48. Mae hefyd yn wir fod llawer o debygrwydd yn bodoli rhwng Bodelwyddan ac Abergele, a'r ddwy dref wedi'u lleoli ar ffordd yr ASS. Yn yr un modd, mae cysylltiad cryf rhwng Dinbych a ward Llansannan. I'r gogledd-orllewin o'r etholaeth "Clwyd" arfaethedig, cynigir ar hyn o bryd i rannu Llandrillo-yn-Rhos oddi wrth Fae Colwyn. Bydd hyn yn ddadleuol ond rwy'n cydnabod yr effaith y byddai peidio a gwneud hynny yn ei chael ar gyfanrwydd a maint poblogaeth Aberconwy.

O ran y "Delyn" newydd arfaethedig, yn sicr mae'n wir fod gan Brestatyn, Allt Melyd a Dyserth gysylltiadau cryf ag ardaloedd cyfagos yn Sir y Fflint, gan gynnwys pentrefi mewndirol Gwaenysgor, Trelawnyd a Llanasa, a'r llain arfordirol gan gynnwys Talacre, Gwesbyr a Gronant. Mae'r cymunedau hyn yn edrych i Brestatyn am eu siopa, eu haddysg a'u gofal iechyd. Maegan y brif feddygfa ym Mhrestatyn feddygfa gangen yn Ffynnongroyw, ac mae llawer o'r cymunedau hyn hefyd yn rhannu codau post a/neu godau ardal ffon. Mae ffyrdd yr AS48 a'r AS1S1 yn eu cysylltu. Mae cymunedau Tremeirchion, Cwm a Waen yn cysylltu ag ardaloedd gwledig yn Sir y Fflint a'r Wyddgrug i'r dwyrain, ar hyd ffyrdd yr ASS a'r AS41. Yn olaf, mae gan ward Llandyrnog gysylltiadau cryf a Rhuthun a'i chefnwlad wledig, gan gynnwys Llanbedr DC. Mae'r etholaeth newydd arfaethedig hon yn cynnig y posibilrwydd o greu cysylltiad dichonadwy rhwng cymunedau gwledig a lled-wledig, sydd a buddiant cyffredin mewn twristiaeth - ac eithrio'r cynnig






arfaethedig i gynnwys ardaloedd mwy trefol a diwydiannol yn Aber Dyfrdwy. Byddwn yn cytuno ag awgrymiadau y dylid ailgyflwyno'r ffin ogleddol flaenorol rhwng etholaethau Gorllewin Sir y Fflint a Dwyrain Sir y Fflint, yng nghyffiniau Maesglas/Bagillt, gydag ardaloedd i'r dwyrain yn symud i sedd Alun a Glannau Dyfrdwy. I wrthbwysu hyn yn rhannol, byddai'n gwneud synnwyr i gadw cyfanrwydd hen sedd Delyn ac ardal yr Wyddgrug, trwy gadw New Brighton, Argoed a Choed Llai. Rwyf hefyd yn cefnogi'r cysyniad, o fewn gwrthgynigion y Biaid Geidwadol, o ddod a rhannau eraill o dde Sir Ddinbych ynghyd o fewn y sedd, gan gynnwys Llanfair DC, Corwen a Llandrillo.

Byddwn yn anghytuno a'r enw "Delyn" ar gyfer y sedd a gynigir. Mewn gwirionedd mae'n cwmpasu Bryniau Clwyd yn fras ac mae'n cynnwys aneddiadau mawr Prestatyn, Rhuthun a'r cymunedau cyfagos nad oeddent erioed wedi'u lleoli yn hen ardal Delyn yng Nghlwyd. Lluniwyd yr enw "Delyn" yn y 1970au trwy gyfuno enwau Saesneg Afon Dyfrdwy ac Afon Alun. Roedd Prestatyn a Dyserth wedi'u lleoli yn Arda! Rhuddlan yng Nghlwyd, tra bod Rhuthun a'i hardaloedd gwledig o fewn Ardal Glyndwr yng Nghlwyd. Efallai mai enw mwy priodol ar gyfer y sedd fyddai "Dwyrain Clwyd" neu "Bryniau Clwyd". Er cysondeb yn hyn o beth, pe bai'r Comisiwn yn parhau a'i fwriad eang ar gyfer sedd "Clwyd", efallai y byddai "Gorllewin Clwyd" yn enw gwell ar gyfer yr etholaeth honno.

Diolch yn fawr i chi am roi sylw i'r uchod.

Cofion cynnes,

Yr eiddoch yn gywir,



Dr James Davies MA MB BChir (Cantab)
Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd



BCW-9983/ [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n gwrthwynebu f'ardal yn cael ei newid a'i dosbarthu'n etholaeth Castell-nedd.

BCW-9984/ [REDACTED] / Bethesda

Rwy'n pryderu am Bethesda yn cael ei gwahanu rhag Bangor ac Arfon. Mae Bethesda a Bangor mor agos ac wedi bod felly erioed. Mae pobl Bethesda yn gweithio ym Mangor, maen nhw'n siopa ym Mangor ac yn treulio eu hamser hamdden ym Mangor. Pam torri'r cysylltiad a'r ddolen yma, mae Conwy milltiroedd i ffwrdd wedi'i gwahanu gan fynyddoedd Carneddau!

BCW-9985/ [REDACTED] / Abertawe

Mae'n ardal mor fawr i newid o abertawe i gastell-nedd. A'r trafferth y byddai'n ei achosi drwy newid h.y. y Dreth Gyngor/ eiddo'r cyngor. Yn bersonol nid wy'n gweld unrhyw fanteision yn dod allan o'i symud

BCW-9986/ [REDACTED] / Pont-y-clun

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 20:20

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Sylw gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun

Ysgrifennaf fel cadeirydd Cyngor Cymuned Pont-y-clun mewn ymateb i'r cais am sylwadau ar y cynigion cychwynnol am adolygiadau o'r ffiniau seneddol.

Teimlad Cyngor Cymuned Pont-y-clun yw nad yw Pont-y-clun yn uniaethu â'r ardaloedd Caerdydd, a gynhwysir o fewn ardal Gorllewin Caerdydd, fel y'u cynigir, gan ei bod yn gymuned y cymoedd gyda chysylltiadau cryf â Pontypridd a Chymoedd y Rhondda. Teimlad y Cyngor yw y byddai Pont-y-clun yn cael ei llyncu i mewn i ardal Caerdydd a cholli ei hunaniaeth, fel sydd wedi digwydd i Greigiau a Phentyrch.

Cred y cyngor yw bod ardaloedd eraill, yn agosach at Ddinas Caerdydd, a fyddai'n cael eu gwasanaethu'n well drwy gael eu cynnwys yn rhanbarth Gorllewin Caerdydd.

Cofion

[REDACTED]
Cadeirydd/Chair

Cyngor Cymuned Pontyclun Community Council
[REDACTED]

BCW-9987/ [REDACTED] / Rhuthun

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: [REDACTED] ac wedd 2021 21:40

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Adolygiad Ffiniau Dyffryn Clwyd.

Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf mewn perthynas a'r Adolygiadau Ffiniau arfaethedig ac yn benodol mewn perthynas a'm hardal fy hun, Dyffryn Clwyd, sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynrychioli'n dda iawn gan Dr. James Davies.

Deallaf mai Adolygiadau Ffiniau cychwynnol yw'r rhain ac telly cadwaf fy sylwadau'n gryno.

Rwy'n byw yn Rhewl, sy'n rhan o ward Llandyrnog. Byddai'n well gennyf i sedd Dyffryn Clwyd arcs fel y mae.

Os oes rhaid hollti'r ardal, camgymeriad fyddai enwi'r ardal yn Delyn, pan fo'r sawl sy'n byw yn y Dyffryn yn meddwl amdany'n nhw eu hunain fel Clwydiaid ac yn cyfeirio at yr ardal yn aml fel Clwyd yn hytrach na Sir Ddinbych, wrth roi eu cyfeiriad. Does dim cysylltiadau tebyg hanner cystal a phentrefi/trefi ar ochr ddwyreiniol Bryniau Clwyd ag o fewn y Dyffryn. Mae gan y rhai ohonom ni sy'n byw yma lawer o gysylltiadau cymunedol a busnes o fewn Sir Ddinbych a llai 'dros y brynau'. Byddai Dwyrain Clwyd yn enw mwy addas.

Byddwn yn deall yn llwyr cynnwys Rhuthun, Corwen a Llandrillo o fewn y sedd newydd, and yn bendant nid ardaloedd mwy diwydiannol, sydd ag ychydig iawn yn gyffredin a'r Dyffryn.

Cofion cynnes

[REDACTED]

BCW-9988/ [REDACTED] / Abertawe

Does dim digon o rybudd wedi cael ei roi i bobl gael dweud eu dweud, mae'n cau heddiw a does neb yn gwybod amdano fe! Cywilydd arnoch chi!

BCW-9989/ [REDACTED] / Abertawe

Mae Ward Llansamlet yn rhan o Abertawe ers 1918, mae gennyn ni ganolfan alw'r DVLA, sywddfeydd y gofrestrfa tir, ystad ddiwydiannol fawr iawn, grwpiau eglwys a nifer fawr o ysgolion cynradd ac ysgol uwchradd. Mae'r cynnig wedi cael ei lunio ar fapiau a ffigurau ac nid yw wedi cymryd i ystyriaeth teimladau'r cyhoedd a ffiniau naturiol fel mynyddoedd a thirnodau. Gwrthwynebu'n llwyr y newid hwn i Ward Llansamlet ac mae'n rhan holl-bwysig o Abertawe ac felly aros fel y cyfryw .

BCW-9990 / Linda Muraca / Prestatyn

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 21:59

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynigion am Ffiniau Seneddol Diwygiedig

Rwy'n breswlydd ac yn Gynghorydd Tref o Brestatyn, Sir Ddinbych. Dymunaf roi rhai sylwadau mewn perthynas â'r ffiniau arfaethedig yn f'ardal. (Delyn a Chlwyd)

Wedi gweithio ym Mae Cinmel ers mwy na thri deg o flynyddoedd, rwy'n gyfarwydd â'r ardal. Mae'n ddatblygiad hirgul sy'n uno â Thowyn a'r Rhyl fel ei gilydd. Mae'n gwneud synwyr i'r ardaloedd hyn gael eu cysylltu. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth yn tueddu i fod yn fyrhoedlog ac yn broblemus yn gymdeithasol. Mae Bodolwyddan ac Abergele wedi'u cysylltu ar hyn o bryd hefyd, fel y mae Dinbych a Llansannan. Yng ngoleuni agosatrwydd Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn, ofnaf na fydd trigolion yn fodlon ar y rhaniad afaethedig.

Mae cysylltiadau twristaidd cryf rhwng Prestatyn, Gronant a Thalacre. Mae mynediad da i'r A55 trwy Gwaunysgor, Llanasa a Threlawnyd. Mae'r pentrefi hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad o fywyd gwledig.

Rwy'n gyfarwydd ag ardaloedd y Fflint a Bagillt wedi gweithio yno yn fy ngyrfa gynnar. Yn draddodiadol mae ganddyn nhw gysylltiadau â Phrestatyn a phentrefi cyfagos. Er eu bod yn breswyl mewn rhannau, mae nifer o ardaloedd diwydiannol hefyd. Nid wyf wedi f'argyhoeddi y dylen nhw gael eu cynnwys o fewn y Delyn newydd. Gallai ardaloedd fel Coed-llai, New Brighton ac Argoed aros, a gallai Corwen, Llandrillo a Llanfair DC gael eu hychwanegu hefyd i wneud yr ardal yn llai tameidiog.

Yn olaf am resymau eglurdeb ac unffurfedd, byddai Dwyrain a Gorllewin Clwyd yn enwau mwy ffafriol. Cyn i'r Awdurdodau Unedol gael eu cyflwyno, Clwyd oedd yr enw ar y sir. Yn ôl Wikipedia mae'n Sir gadwedig gyda'r enw'n cael ei gadw am rai swyddogaethau seremonïol penodol.

Linda Muraca
Cynghorydd Tref Dwyrain Prestatyn

BCW-9991/ [REDACTED] / Anhysbys

Newidiadau i Ffiniau Etholaethau yng Ngogledd Cymru.

Gan fy mod i'n un o'r preswylwyr hŷn sydd wedi byw yn yr ardal am y rhan fwyaf o fy mywyd ac rwyf wedi ystyried y meini prawf y mae angen eu cadw mewn golwg, hoffwn gyflwyno'r awgrymiadau canlynol i'w hystyried:-

Dim ond 8 Sir Gogledd Cymru rwyf wedi'u hystyried ac o'r 8 hyn nid wyf wedi gweld unrhyw reswm dros newid ffurfiant:-

Ynys Môn (Arunig)
Dwyfor Meirionnydd
Aberconwy.

Rwyf wedi newid y Clwyd newydd ac rwy'n argymhell galw hwn Gorllewin Clwyd.

Rwy'n credu mai sir Delyn yw'r newid mwyaf a dylid efallai ei alw Gogledd Clwyd.

Rwyf wedi ailstrwythuro Alun a Glannau Dyfrdwy

Rwyf wedi addasu Wrecsam ond dim ond ychydig

Trefaldwyn yr un fath, dim ond ychydig

Rwyf i o'r farn bod yr holl newidiadau yr wyf wedi'u gwneud er lles preswylwyr yr ardaloedd hyn ac fel y dywedais ar y dechrau, gan ystyried y meini prawf y mae'r Comisiwn Ffiniau yn gofyn i rywun weithio oddi mewn iddynt.

Bydd y mapiau canlynol yn dangos y newidiadau.
Mae cod lliw i'r mapiau

Trefaldwyn yw'r Llwyd
Delyn, neu Gogledd Clwyd yw'r Glas
Clwyd, neu Gorllewin Clwyd yw'r Gwyrdd
Alun a Glannau Dyfrdwy yw'r Coch
Wrecsam yw'r Melyn.

DELYN, i'w alw GOGLEDD CLWYD newydd

Bydd hyn yn tynnu'r canlynol o Clwyd,

4, Gorllewin y Rhyl	2383
6, De-orllewin y Rhyl	3732
21, De Y Rhyl	2874
23, Dwyrain y Rhyl	2693
22, De-ddwyrain y Rhyl	6253
9, Rhuddlan	2913
20, Gorllewin Llanellwy	1290
3 Dwyrain Llanellwy	1472
Trefnant	1503
14, Dinbych Uchaf	2265
19, Dinbych Canol	1462
1, Dinbych Isaf	3483

A'r wardiau hyn o Delyn:

13, Gogledd Prestatyn	4729
20 De-orllewin Prestatyn	2861
14, Canol Prestatyn	2829
19, Prestatyn Allt Melyd	1529
4, Diserth	1882
18, Dwyrain Prestatyn	3162
24, Gronant	1257
16, Trelawnyd a Gwaenysgor	1496
Tremeirchion	1344
Llandyrnog	1765
Caerwys	2050
Chwitfordd	1911
Mostyn	1458
8, Gorllewin Treffynnon	1762
9, Maesglas	1983
30, Canol Treffynnon	1465
26, Dwyrain Treffynnon	1383
11, Gorllewin Bagillt	1625
15, Brynffordd	1789

Cyfanswm 69603

Tudalen 1

CLWYD, i'w alw GORLLEWIN CLWYD newydd

7, Rhiw	4991
5, Glyn	3068
10, Eirias	2800
13, Colwyn	3373
11, Llysfaen	1906
12, Llanddulas	1353
16, Pentre Mawr	2861
8, Gele	3997
17, Abergele Pensarn	1959
18, Tywyn	1845
15, Bae Cinmel	4607
2, Bodelwyddan	1612
Betws yn Rhos	1623
Llansannan	1495
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	1496
Efenechdyd	1321
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1830
Ac o Delyn	
3, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1170
5, Rhuthun	4260
Cilcain	1519
Helygain	1427
6, Gwernaffield	1646
28, Gorllewin yr Wyddgrug	1956
23, Dwyrain yr Wyddgrug	1556
27, De Yr Wyddgrug	2201
29, Broncoed yr Wyddgrug	2134
21, Llaneurgain	2596
12, Northop Hall	1398
1, Gwernymynydd	1399
Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	2033
O Alun a Glannau Dyfrdwy	
Treuddyn	1346
Llanfynydd	1483
Gobaith	2042
19, Caergwrle	1225
Cyfanswm o 73527	

Tudalen 2

ALUN A GLANNAU DYFRDWY

O Delyn	
25, Dwyrain Bagillt	1413
10, Coleshill Y Fflint	2938
2, Castell y Fflint	1426
7, Trelawnyd y Fflint	2710
22, Oakenholt y Fflint	2538
 Alun a Glannau Dyfrdwy	
11, Cei Connah Golftyn	3688
14, Canol Cei Connah	2213
13, Cei Connah Gwepra	1647
18, De Cei Connah	4494
2, Aston	2508
12, Gorllewin Shotton	1464
20, Dwyrain Shotton	1219
7, Shotton Uchaf	1669
Sealand	2026
6, Queensferry	1248
 5, Mancot	2516
9, Penarlâg	2623
Gogledd-ddwyrain Brychdyn	1723
3, Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	1100
1, Saltney Stonebridge	2672
Ewlo	4327
17, Bwcle	2555
16, Pentrobin Bwcle	4181
8, New Brighton	2414
Argoed	2167
4, Gorllewin Bistre Bwcle	3182
15, Dwyrain Bistre Bwcle	2653
Pen-y-ffordd	3543
Coed Llai	2627
Kinnerton Uchaf	1373

Cyfanswm 72856

Tudalen 3

WRECSAM

Yn ei gyfanrwydd ac eithrio

75600

Ychwanegol,

Brymbo

3021

Mwynglawdd

1870

o Alun a Glannau Dyfrdwy

Heb

1528

22, Pant

2461

a 13, Johnstown

Cyfanswm 75122

TREFALDWYN

Yn ei gyfanrwydd, 72400

Ychwanegol o Wreccsam,

1528

22, Pant


2461

a 13, Johnstown


Cyfanswm 76352

Tudalen 4

Montgomeryshire and Glyndwr (Maldwyn a Glyndwr)




Clwyd



Delyn

1 : 52,331


0 5 km 10 km





Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)



1 : 29,986
0 2.5 km 5 km




Wrexham (Wrecsam)



Wrexham Town Area

1 : 48,633



- 1 - Brynyffynnon (2,477)
- 2 - New Broughton (2,842)
- 3 - Gresford East and West (2,337)
- 4 - Wynnstay (1,159)
- 5 - Esclusham (2,013)
- 6 - Coedpoeth (3,482)
- 7 - Cartrefle (1,545)
- 8 - Rhosnesni (2,827)
- 9 - Borrass Park (1,968)
- 10 - Offa (1,428)
- 11 - Smithfield (1,376)

- 12 - Whitegate (1,594)
- 13 - Johnstown (2,461)
- 14 - Gwersyllt West (2,263)
- 15 - Bryn Cefn (1,543)
- 16 - Queensway (1,377)
- 17 - Gwersyllt East and South (3,601)

- 18 - Gwersyllt North (1,995)
- 19 - Grosvenor (1,698)
- 20 - Marford and Hoseley (1,824)
- 21 - Maesydre (1,420)
- 22 - Pant (1,528)

- 23 - Siansty (1,641)
- 24 - Erddig (1,444)
- 25 - Acton (2,177)
- 26 - Hermitage (1,544)
- 27 - Garden Village (1,656)
- 28 - Gwenfro (1,217)
- 29 - Little Acton (1,843)

© Crown copyright and database rights [2021] OS [100047875]



*Arolwg 2021 o'r
ffiniau ar gyfer
Etholaethau San
Steffan
Ymateb i'r
Ymgynghoriad
Cyntaf*

Welsh Liberal
Democrats

Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad.....	5
<i>Meini prawf ar gyfer arolygu Etholaethau Seneddol</i>	<i>5</i>
<i>Enwi Etholaethau Seneddol</i>	<i>5</i>
<i>Crynodeb o Gynigion ar Lefel Etholaethau.....</i>	<i>6</i>
Cynigion a dderbynnir.....	8
Ffactorau a ystyriwyd wrth baratoi'r cyflwyniad hwn	9
<i>Cyfanrwydd daearyddol yr etholaethau hanesyddol</i>	<i>9</i>
<i>Cysylltiadau cyffiniol bob amser rhwng rhannau'r etholaethau.....</i>	<i>9</i>
<i>Cydbwyso llwyth gwaith ASau.....</i>	<i>9</i>
<i>Rhyngweithio â Rhanbarthau'r Senedd</i>	<i>9</i>
<i>Mabwysiadu egwyddorion o arolygiadau blaenorol.....</i>	<i>9</i>
Arolwg o Etholaethau unigol.....	10
<i>Aberafan Porthcawl</i>	<i>11</i>
<i>Cyfiawnhad Amlinellol.....</i>	<i>11</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>13</i>
<i>Aberconwy</i>	<i>14</i>
<i>Crynodeb o'r Newidiadau.....</i>	<i>14</i>
<i>Cyfiawnhad Amlinellol.....</i>	<i>14</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>15</i>
<i>Alyn and Deeside – Alun a Glannau Dyfrdwy.....</i>	<i>16</i>
<i>Crynodeb o'r Newidiadau.....</i>	<i>16</i>
<i>Cyfiawnhad Amlinellol.....</i>	<i>16</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>18</i>
<i>Blaenau Gwent and Rhymney – Blaenau Gwent a Rhymni.....</i>	<i>18</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>18</i>
<i>Brecon and Radnor – Aberhonddu a Maesfed</i>	<i>19</i>
<i>Crynodeb o'r Newidiadau.....</i>	<i>19</i>
<i>Cyfiawnhad Amlinellol.....</i>	<i>19</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>20</i>
<i>Bridgend – Pen-y-bont.....</i>	<i>21</i>
<i>Crynodeb o'r Newidiadau.....</i>	<i>21</i>
<i>Cyfiawnhad Amlinellol.....</i>	<i>21</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>22</i>
<i>Caerfyrddin – Carmarthen</i>	<i>22</i>
<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>22</i>
<i>Cardiff Central – Canol Caerdydd.....</i>	<i>23</i>

<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	23
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	23
<i>Enw'r etholaeth</i>	24
Cardiff North – Gogledd Caerdydd	25
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	25
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	26
<i>Enw'r etholaeth</i>	26
Cardiff South and Penarth – De Caerdydd a Phenarth	27
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	27
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	27
<i>Enw'r etholaeth</i>	28
Cardiff West – Gorllewin Caerdydd	29
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	29
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	29
<i>Enw'r etholaeth</i>	30
Ceredigion Preseli	30
Clwyd	31
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	31
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	31
<i>Enw'r etholaeth</i>	32
Delyn	33
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	33
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	33
<i>Enw'r etholaeth</i>	34
Dwyfor Meirionnydd	35
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	35
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	35
<i>Enw'r etholaeth</i>	35
Islwyn (yng Nghynnig y Comisiwn) Caerffili (yn y cynnig hwn)	36
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	36
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	36
<i>Enw'r etholaeth</i>	37
Llanelli	37
<i>Enw'r etholaeth</i>	37
Merthyr Tydfil and Aberdare – Merthyr Tudful ac Aberdâr	38
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	38
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	38
<i>Enw'r etholaeth</i>	39
Mid and South Pembrokeshire – Canol a De Sir Benfro	40
<i>Enw'r etholaeth</i>	40
Monmouthshire – Sir Fynwy	40
<i>Enw'r etholaeth</i>	40
Montgomeryshire and Glyndwr – Maldwyn a Glyndŵr	41

<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	41
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	42
<i>Enw'r etholaeth</i>	42
Newport East – Dwyrain Casnewydd	44
<i>Enw'r etholaeth</i>	44
Newport West and Caerphilly – Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	45
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	45
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	45
<i>Enw'r etholaeth</i>	46
Pontypridd	47
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	47
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	47
<i>Enw'r etholaeth</i>	48
Rhondda	49
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	49
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	49
<i>Enw'r etholaeth</i>	50
Swansea Central and North – Canol a Gogledd Abertawe	51
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	51
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	51
<i>Enw'r etholaeth</i>	52
Swansea East and Neath – Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	53
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	53
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	53
<i>Enw'r etholaeth</i>	54
Swansea West and Gower – Gorllewin Abertawe a Gŵyr	55
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	55
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	55
<i>Enw'r etholaeth</i>	56
Torfaen	56
<i>Enw'r etholaeth</i>	56
Vale of Glamorgan – Bro Morgannwg	57
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	57
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	57
Wrexham – Wrecsam	58
<i>Crynodeb o'r Newidiadau</i>	58
<i>Cyfiawnhad Amlinellol</i>	58
<i>Enw'r etholaeth</i>	59
Ynys Môn	59

<i>Enw'r etholaeth</i>	<i>59</i>
<i>Atodiad 1: Cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Etholaethau</i>	<i>60</i>

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli'r ymateb cychwynnol gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru i gynigion y Comisiwn Ffiniau i Gymru fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol a gyhoeddwyd ar 9 Medi 2021.

Mae'n drueni bod yr arolwg hwn yn methu â mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol y mae'r system etholiadol yn eu cyflwyno o ran nifer fach o etholaethau yn penderfynu canlyniad etholiad, a nifer fawr o seddi â mwyafrifoedd cynhenid sy'n ffafrio un blaid. Byddem wedi croesawu symud i system etholiadol fwy cynrychiadol ar gyfer San Steffan, yn unol â'r gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth leol yn yr Alban.

Mae gennym bryder hefyd am y cwota caeth a'r ystod gyfyngedig o amrywiad o amgylch y cwota a roddir i'r Comisiwn. Credwn y bydd hyn yn arwain at ddiffyg democrataidd mewn rhannau helaeth o gefn gwlad Cymru oherwydd prinder y boblogaeth. Efallai ei bod yn werth nodi bod gyrru o un pen o sedd Ceredigion Preseli i'r llall yn weddol debyg i yrru rhwng San Steffan a Swindon.

Wedi dweud hynny, rydym ni fel plaid yn cydnabod y cyfyngiadau statudol y mae'r Ddeddf wedi'u gosod ar y Comisiwn a'r her benodol a ddaw o'r gostyngiad sylweddol yn nifer y seddi sy'n deillio o hyn. Croesawn y penderfyniad i geisio creu etholaethau sy'n seiliedig ar sedd Seneddol bresennol fel craidd, gan fod hyn yn lleihau effaith y newidiadau ar y cyhoedd a staff a gyflogir gan Aelodau Seneddol. Hefyd, credwn fod ASau a'u staff yn gweithio orau wrth allu ymdrin ag un Awdurdod Lleol yn unig, gan fod hyn yn galluogi gweithwyr achos yn benodol i adeiladu perthnasoedd cryf â staff y cyngor er budd amlwg eu hetholwyr.

Felly, nid ydym yn cytuno â'r holl ffiniau arfaethedig fel y'u cynigir na'r holl enwau a awgrymir, ac rydym yn ymdrin â'r materion hynny ym mhrif ran ein hmateb.

Meini prawf ar gyfer arolygu Etholaethau Seneddol

Nodwn y meini prawf fel y'u diffinnir yn y Ddeddf a gorfodir y Comisiwn i weithio yn unol â'r Ddeddf ar yr achlysur hwn, a byddwn yn parchu'r meini prawf hyn wrth baratoi ein newidiadau arfaethedig ein hunain.

Yn benodol, nodwn y bwriad i greu etholaethau sy'n cynnwys wardiau cyfan o fewn cynghorau yn hytrach na rhai rhannol, a'r angen am gymunedau cyffiniol.

Credwn fod y meini prawf hyn yn gosod heriau sylweddol, yn enwedig yn ninasoedd Caerdydd ac Abertawe lle mae wardiau mawr aml-aelod yn arwain at flociau adeiladu sy'n cynnwys dros 11k o etholwyr o gymharu â'r 1-2k mwy arferol a geir mewn mannau eraill. Nodwn fod hon yn broblem y mae'r Comisiwn wedi'i phrofi yn eu cynigion eu hunain, gan arwain at greu sedd De Caerdydd lle gwahanir Trowbridge oddi wrth weddill y sedd pan mae'r llanw yn uchel, ac mae ein cynigion ein hunain yn cynnig ateb i hyn.

Enwi Etholaethau Seneddol

Er ein bod yn cytuno â'r dull o geisio ailddefnyddio enwau etholaethau hanesyddol, rydym yn cwestiynu'r penderfyniad i seilio dewis iaith yr enw swyddogol bob amser ar ddata poblogaeth. Mewn sawl achos, hyd yn oed o fewn cymuned Gymraeg ei hiaith, yr enw "Saesneg" yw'r un sydd â chydabyddiaeth leol, e.e.

‘Radnorshire’. Yn ein hawgrymiadau ar gyfer enwi, rydym wedi defnyddio enw Saesneg ond byddem yn disgwyl i Gomisiynydd y Gymraeg awgrymu enw Cymraeg sy’n gywir o ran cystrawen, os caiff ein hawgrymiadau eu mabwysiadu.

Crynodeb o Gynigion ar Lefel Etholaethau

Rydym yn derbyn y dybiaeth sylfaenol o 31 etholaeth fel ystyriaeth statudol. Ar y pwynt hwn, rydym yn derbyn y ffiniau fel y’u cynigiwyd ar gyfer 8 etholaeth ac yn cynnig mân newidiadau (symudiad 5 ward neu lai) i 11 etholaeth arall. Mae’r 12 etholaeth sy’n weddill yn destun ad-drefnu mwy sylweddol wrth i ni geisio mynd i’r afael â 3 mater penodol a’u heffaith ganlyniadol .

Er mwyn symleiddio darllen yr ymateb hwn, rydym wedi cyfeirio trwy gydol y ddogfen at enwau’r etholaethau fel y’u cynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Wedi i ni gwblhau ein sylwadau ar y ffiniau daearyddol, cyflwynwn ein sylwadau ar yr enwau arfaethedig.

Mewn perthynas â phob un o gynigion y Comisiwn, mae ein hymateb cryno fel a ganlyn

Rhif	Enw’r etholaeth	Cynnig
1	Aberafan Porthcawl	Newidiadau sylweddol a newid enw
2	Aberconwy	Mân newid a newid enw
3	Alyn and Deeside Alun a Glannau Dyfrdwy	Mân newid
4	Blaenau Gwent and Rhymney Blaenau Gwent a Rhymni	Derbyn
5	Brecon and Radnor Aberhonddu a Maesymfed	Newidiadau sylweddol a newid enw
6	Bridgend Pen-y-bont	Newidiadau sylweddol
7	Caerfyrddin Carmarthen	Derbyn
8	Cardiff Central Canol Caerdydd	Mân newid
9	Cardiff North Gogledd Caerdydd	Mân newid
10	Cardiff South and Penarth Caerdydd a Phenarth	Mân newid
11	Cardiff West Gorllewin Caerdydd	Mân newid
12	Ceredigion Preseli	Derbyn
13	Clwyd	Mân newidiadau a newid enw
14	Delyn	Mân newidiadau
15	Dwyfor Meirionnydd	Mân newid ac enwau amgen

Rhif		Cynnig
16	Islwyn	Newidiadau sylweddol a newid enw
17	Llanelli	Derbyn
18	Merthyr Tydfil and Aberdare Merthyr Tudful ac Aberdâr	Mân newid a newid enw
19	Mid and South Pembrokeshire Canol a De Sir Benfro	Derbyn
20	Monmouthshire Sir Fynwy	Derbyn
21	Montgomeryshire and Glyndwr Maldwyn a Glyndŵr	Newidiadau sylweddol
22	Newport East Dwyrain Casnewydd	Derbyn
23	Newport West and Caerphilly Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	Newidiadau sylweddol a newid enw
24	Pontypridd	Mân newid a newid enw
25	Rhondda	Newidiadau sylweddol a newid enw
26	Swansea Central and North Canol a Gogledd Abertawe	Newidiadau sylweddol a newid enw
27	Swansea East and Neath Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	Newidiadau sylweddol a newid enw
28	Swansea West and Gower Gorllewin Abertawe a Gŵyr	Newidiadau sylweddol
29	Torfaen	Derbyn
30	Vale of Glamorgan Bro Morgannwg	Mân newid
31	Wrexham Wrecsam	Mân newid
32	Ynys Môn	Dynodiad statudol

Cynigion a dderbynnir

Ar y pwynt hwn, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn derbyn cynigion y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer yr etholaethau canlynol gan eu bod yn rhan o'r cynllun cyffredinol.

- Blaenau Gwent and Rhymney – Blaenau Gwent a Rhymni
- Caerfyrddin – Carmarthen
- Ceredigion Preseli
- Llanelli
- Mid and South Pembrokeshire – Canol a De Sir Benfro
- Monmouthshire – Sir Fynwy
- Newport East – Dwyrain Casnewydd
- Torfaen
- Ynys Môn

Efactorau a ystyriwyd wrth baratoi'r cyflwyniad hwn

Wrth baratoi'r cyflwyniad hwn, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi derbyn yr holl ofynion statudol fel y'u nodwyd yn nogfennau cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Yn ogystal, rydym wedi adnabod y nodau canlynol a fydd, lle bo hynny'n bosibl, yn sail i'n cynigion.

Cyfanrwydd Daearyddol yr Etholaethau Hanesyddol

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn ymwybodol o gadw cyfanrwydd yr etholaethau hanesyddol fel y blociau adeiladu ar gyfer y seddi newydd. Wrth fabwysiadu dull gwahanol i'r Comisiwn Ffiniau, rydym wedi gallu creu 16 sedd newydd sy'n cynnwys etholaeth hanesyddol yn gyfan gwbl, ac o ran y gweddill, mae 19 wedi'u rhannu rhwng dwy etholaeth newydd, mae 4 wedi'u rhannu ar draws tair, a dim ond un (Ogwr) sydd wedi'i rhannu rhwng pedair etholaeth.

Cysylltiadau Cyffiniol bob amser rhwng Rhannau'r Etholaethau

Ac eithrio'r nifer fach o ynysoedd lle mae pobl yn byw, ni welwn unrhyw reswm dros gael unrhyw etholaeth lle nad yw'n bosibl cerdded/beicio a gyrru o un ochr i'r llall heb fod angen mynd drwy etholaeth arall i wneud hynny. Rydym yn cydnabod y gall fod llwybrau amgen sy'n gyflymach ond, mewn egwyddor o leiaf, ni fydd gennym unrhyw wardiau ar wahân o fewn cynigion.

Cydbwysu Llwyth Gwaith ASau

Bydd y cynnydd yn nifer yr etholwyr yn faich ychwanegol ar ASau a'u staff, felly credwn fod nifer yr ardaloedd cynghorau gwahanol y mae angen iddynt ryngweithio â nhw yn ystyriaeth bwysig lle bynnag y bo modd. Yn unol â hynny, rydym wedi ceisio lleihau nifer yr ardaloedd cynghorau sy'n croesi ar draws pob etholaeth a, lle mae hynny'n bosibl, rydym wedi osgoi wardiau amddifad.

Rhyngweithio â Rhanbarthau'r Senedd

Er bod nifer yr etholwyr yn ei gwneud yn amhosibl osgoi seddi sy'n croesi ar draws rhanbarthau'r Senedd, mae ein cynigion yn ceisio lleihau nifer yr achosion lle mae hyn yn digwydd.

Mabwysiadu Egwyddorion o Arolygiadau Blaenorol

Er bod newidiadau etholiadol yn ei gwneud yn amhosibl atgynhyrchu ffiniau blaenorol yn llawn, ceir nifer o achosion lle cydnabyddir ei bod yn fwy priodol i gadw cyfuniadau penodol o wardiau mewn un etholaeth. Lle bo modd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein cynigion.

Yn arolwg 2018, derbyniwyd nifer o achosion yn seiliedig ar yr egwyddor, lle y gellid defnyddio nodwedd gadarn (parcdir, priffordd neu afon) i ffurfio ffin trwy newid wardiau o un sedd i sedd arall, roedd hyn yn well na ffiniau a oedd yn torri ar draws canol ystad dai. Unwaith eto, rydym wedi mabwysiadu'r dull hwnnw lle bo hynny'n bosibl.

Arolwg o Etholaethau unigol

Aberafan Porthcawl

Fel rhan o arolwg ehangach o'r seddi o amgylch rhan orllewinol De Cymru, nid ydym yn derbyn y cynnig i uno rhannau o sedd bresennol Aberafan â Phorthcawl. Yn lle hynny, rydym yn awgrymu mai cyfuniad mwy priodol yw seilio etholaeth ar sedd bresennol Aberafan trwy ychwanegu wardiau o ardaloedd Cyngor Abertawe a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Castell-nedd</u>		<u>Pen-y-bont ar</u>		<u>Abertawe</u>	
<u>Port Talbot</u>		<u>Ogwr</u>			
<i>Gogledd Coed-ffranc</i>	1811	<i>Gorllewin</i>	4327	<i>Bôn-y-maen</i>	5391
		<i>Maesteg</i>			
<i>Coed-ffranc Ganol</i>	2892	<i>Dwyrain</i>	3741	<i>St..Thomas</i>	5514
		<i>Maesteg</i>			
<i>Gorllewin Coed-ffranc</i>	3587	<i>Caerau</i>	4795		
<i>Baglan</i>	5383				
<i>Gorllewin Sandfields</i>	4917				
<i>Aberafan</i>	4048				
<i>Dwyrain Sandfields</i>	5038				
<i>Port Talbot</i>	4342				
<i>Tai-bach</i>	3643				
<i>Margam</i>	2309				
<i>Gorllewin Llansawel</i>	2033				
<i>Dwyrain Llansawel</i>	2148				
<i>Y Cymer</i>	2011				
<i>Glyncorrwg</i>	792				
<i>Bryn a Chwmafan</i>	5220				
<i>Gwynfi</i>	879				

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Gogledd Coed-ffranc – 1811, Coed-ffranc Ganol – 2892, Gorllewin Coed-ffranc - 3587, Bôn-y-maen – 5391, St. Thomas – 5514, Gorllewin Maesteg – 4327, Dwyrain Maesteg – 3741, Caerau – 4795

Wardiau i'w Hepgor: Canol Gorllewin Porthcawl – 2967, Pendre – 1654, Canol Dwyrain Porthcawl – 2580, Notais – 2741, Y Pîl – 5545, Corneli – 5359, Rest Bay – 1990, Cefn Glas - 1360 Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr – 6574

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 74,821

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu St. Thomas a Bôn-y-maen o ardal Cyngor Abertawe: Mae'r ddwy ward hyn yn ffurfio rhan fwyaf deheuol Abertawe i'r dwyrain o'r afon. Mae'r ddwy yn gymunedau gwahanol sydd wedi'u ffinio i'r gorllewin gan Afon Tawe. Cysylltir Bôn-y-maen â'r wardiau i'r gogledd gan un ffordd ym mhen dwyreiniol y ffin a rhwydwaith o ffyrdd trwy barciau manwerthu i'r gorllewin. Gwahanir y gweddill gan



barcdir agored sy'n darparu ffin ogleddol gydlynus i'r etholaeth. I'r de, mae St. Thomas yn ymestyn ar hyd Ffordd Fabian ac yn cysylltu â safle newydd y brifysgol a ddaw o fewn ward Gorllewin Coed-ffranc.

Ychwanegu wardiau Coed-ffranc o ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot: ar hyn o bryd, mae tair ward Coed-ffranc yn rhan o etholaeth Aberafan, ac mae eu hychwanegu yn sicrhau bod etholaeth hanesyddol Aberafan yn cael ei chadw fel congrfaen y sedd newydd.


Ychwanegu wardiau Caerau a Dwyrain a Gorllewin Maesteg o ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr:

Mae'r tair ward hyn yn creu ffin gydlynus sy'n cyd-fynd ag esgair ogledd-ddwyreiniol Cwm Afan. Mae cysylltiadau agos rhwng Caerau yn y gogledd a Chroeserw a Chymer ym mhen y dyffryn a chysylltir wardiau Maesteg a Chwmafan trwy Fryn ar hyd ffordd y B4282. Yn ddelfrydol, byddem wedi cyfnerthu'r ffin i'r de o Faesteg wrth gynnwys ward Llangynwyd, ond mae hyn yn mynd â'r etholaeth dros y cwota.

Hepgor Porthcawl a'r wardiau cyfagos: Mae ffin yr etholaeth bresennol (sef y llinell werdd ar y map ar yr ochr chwith) rhwng Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr wedi'i diffinio'n glir gan derfynau nifer o aneddiadau bach o amgylch cyrion Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u gwahanu oddi wrth aneddiadau yn Aberafan gan dir agored a'r gwaith dur.



Mewn cyferbyniad, mae'r ffin arfaethedig (mewn glas ar y map ar yr ochr dde) yn dilyn drysfa o ffensys terfyn yng nghefn tai sy'n cefnu ar ei gilydd mewn ystadau maestrefol. Mae hyn yn creu risg sylweddol o ddatblygiadau mewnlenwi sy'n arwain at eiddo unigol yn croesi ffin yr etholaeth ac yn dod yn eiddo ar wahân mewn perthynas â'r brif etholaeth. O'r herwydd, ni allwn gefnogi'r cynigion a gyflwynir. Felly, rydym yn cynnig hepgor y wardiau hyn ac, wrth wneud hynny, hwyluso cadw ffiniau hanesyddol etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel sail i ffiniau diwygiedig Pen-y-bont.



Enw'r etholaeth

Mae'r etholaeth wedi'i seilio o amgylch sedd hanesyddol Aberafan ond mae hefyd yn cynnwys tua 11k o etholwyr o Abertawe a bron i 16k o Faesteg. Felly, byddem yn awgrymu'r enw "**Aberafan gyda Maesteg a De Ddwyrain Abertawe**" fel dewis amgen yn lle'r disgrifiad syml **Aberafan**.

Aberconwy

O fewn y model rydym wedi'i greu, byddai'n bosibl derbyn cynigion y Comisiwn ar gyfer Aberconwy a pharhau i gynnal cyfanrwydd y model. Fodd bynnag, credwn y gellir gwella'r cynnig wrth symud un ward o sedd Dwyfor y Comisiwn i'r etholaeth hon, a hepgor dwy ward a'u haseinio i Orllewin Clwyd, sydd â'r fantais ychwanegol o leihau ardal un o'r etholaethau mwyaf yn ddaearyddol. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Conwy</u>		<u>Gwynedd</u>	
Gogarth	2795	Bryn	1390
Mostyn	2758	Caerhun	1677
Tudno	3591	Capel Ulo	1284
Deganwy	3289	Conwy	3295
Marl	3539	Pandy	1463
Pensarn	2274	Pant-yr-afon/Penmaenan	2167
Craig-y-Don	2685	Betws-y-Coed	967
Llandrillo yn Rhos	6110	Crwst	1581
Penrhyn	3874	Eglwysbach	1257
Mochdre	1425	Gower	850
		Trefriw	1026
		Llansanffraid	1814
		Uwch Conwy	1276
		Arllechwedd	1091
		Gerlan	1696
		Ogwen	1697
		Tregarth a Mynydd Llandygai	1628
		Deiniol	920
		Dewi	1301
		Garth	556
		Glyder	1257
		Hendre	940
		Hirael	1066
		Marchog	1579
		Menai (Bangor)	1548
		Pentir	2159

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Pentir – 2159

Wardiau i'w Hepgor: Llangernyw – 1104, Uwchaled – 1139

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 69,825


Cyfiawnhad Amlinellol

Cynnwys Pentir: Mae Pentir yn ward ym mhen de orllewinol Bangor. Enwir y ward ar ôl pentref Pentir yng



nghornel dde ddwyreiniol y ward, ond mae mwyafrif y boblogaeth yn byw ym Mhenrhosgarnedd. Mae'r pentref yn rhannu ffin gyffiniol â wardiau Glyder a Dewi ym Mangor ac mae mynediad di-dor i gerddwyr i weddill Bangor i'r gogledd-ddwyrain. Mewn cyferbyniad, mae'r pentref wedi'i wahanu oddi wrth weddill etholaeth Dwyfor Meirionydd gan ffordd yr A55T ac ystad ddiwydiannol. O'r herwydd, byddai'r holl wasanaethau a ddefnyddir yn rheolaidd gan breswylwyr wedi'u lleoli mewn etholaeth arall, gan arwain at ddiffyg eglurder.

Hepgor Llangernyw ac Uwchaled: Mae'r wardiau hyn yn wardiau gwledig ar wahân, â phellteroedd mawr rhwng eu canolfannau poblogaeth a'r pentrefi nesaf yn Aberconwy. Yn hanesyddol, dônt o fewn ffin hen ardal Cyngor Clwyd, ac ar hyn o bryd maent yn etholaeth Gorllewin Clwyd. Wrth ychwanegu Pentir yn y gogledd-orllewin, gellir aildosbarthu'r wardiau hyn i etholaeth Clwyd gan gadw o fewn y cwota a chaniatáu aildosbarthu wardiau mewn mannau eraill.



Enw'r etholaeth

Gallwn dderbyn dewis y Comisiwn, sef "**Aberconwy**", fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon. Fodd bynnag, byddem yn cynnig yr awgrym y gall y Comisiwn ymgynghori ynghylch yr amrywiadau "... gyda Gogledd Arfon", "...gyda Dwyrain Arfon" a "... gyda Bangor" fel ffordd o adlewyrchu'r gymuned sy'n ymuno â'r sedd. Hefyd, gwelwn fod y ffin hon yn agos iawn at ffin etholaeth "**Conwy**" a fu'n bodoli cyn yr ad-drefnu diwethaf, felly gallai hyn hefyd fod yn opsiwn ar gyfer ymgynghori, er ein bod yn cydnabod y gall y Comisiwn ddymuno osgoi enw y gellid ei ddrysus â'r ardal cyngor.

Alyn and Deeside – Alun a Glannau Dyfrdwy

Er ein bod yn derbyn mwyafrif cynnig y Comisiwn Ffiniau, credwn y dylai AS gynrychioli etholaeth sydd, lle bo hynny'n bosibl, yn cynnwys wardiau o'r nifer lleiaf o ardaloedd cynghorau gwahanol, ac yn ddelfrydol, un yn unig.

Yn yr achos hwn, gellir cyflawni hyn trwy hepgor wardiau Mwynglawdd a Brymbo yn ardal Cyngor Wrecsam a chynnwys ward ychwanegol o Sir y Fflint, sef Northop Hall, yn eu lle. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol sydd oll o fewn ardal cyngor Sir y Fflint.

Cei Conna Golftyn	3688	Queensferry	1248	Dwyrain Bistre Bwcle	2653
Canol Cei Conna	2213	Penarlâg	1623	Pentrobin Bwcle	4181
Cei Conna Gwepira	1647	Mancot	2516	Gorllewin Bistre Bwcle	3182
De Cei Conna	4494	Aston	2508	Penyffordd	3543
Sealand	2026	New Brighton	2414	De Brychdyn	3325
Gorllewin Shotton	1464	Ewlo	4327	Higher Kinnerton	1373
Dwyrain Shotton	1219	Mynydd Bwcle	2555	Coed Llai	1627
Shotton Uchaf	1669	Argoed	2167	Yr Hôb	2042
Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	1100	Treuddyn	1346	Caergwrle	1225
Saltney Stonebridge	2672	Northop Hall	1398		
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	1723	Llanfynydd	1483		

Crynodeb o'r Newidiadau



Wardiau i'w Hychwanegu: Northop Hall – 1398

Wardiau i'w Hepgor: Brymbo – 3021, Mwynglawdd – 1870


Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 70,651

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Northop Hall: Ar hyn o bryd, mae pentrefi Llaneurgain a Northop Hall yn etholaeth Delyn, ac maent ar y naill ochr a'r llall i ffordd yr A55 gyda thua milltir rhwng y ddau bentref.




Mewn cyferbyniad, mae ffin ddwyreiniol pentref Northop Hall wedi'i gwahanu oddi wrth Wepra gan 0.25 milltir ar hyd ffordd wledig. Mae cynnwys y ward hon yn caniatáu hepgor y ddwy ward arall gan gadw'r etholaeth o fewn y cwota.



Hepgor Brymbo a Mwynglawdd: Mae'r etholaeth bresennol yn cynnwys wardiau sy'n gyfan gwbl o fewn ardal Cyngor Sir y Fflint ac eithrio'r ddwy ward hyn. Yn unol â'r egwyddor o leihau nifer yr ardaloedd cyngorau sydd wedi'u cynnwys mewn etholaeth, rydym yn cynnig symud y ddwy ward hyn a'u haseinio i Wrecsam.

Ategir y farn hon gan y ffaith bod yr holl ffin ym Mwynglawdd a rhan o'r ffin ym Mrymbo yn dilyn Nant y Ffrith. Mae pwyntiau croesi yn gyfyngedig. Mewn cyferbyniad, byddai defnyddio ffin ddeheuol Mwynglawdd yn arwain at rannu Coedpoeth, ac mewn nifer o fannau ar ffin ddwyreiniol Brymbo, mae pentrefi llai na hanner milltir ar wahân



Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef “**Alyn and Deeside – Alun a Glannau Dyfrdwy**”, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Blaenau Gwent and Rhymney – Blaenau Gwent a Rhymni

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn.



Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef “**Blaenau Gwent and Rhymney – Blaenau Gwent a Rhymni**”, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Brecon and Radnor – Aberhonddu a Maesyfed

Er ein bod yn cytuno â'r cynnig i seilio sedd ar etholaeth hanesyddol Brycheiniog a Sir Faesyfed, rydym yn anghytuno â chyfuno wardiau o ardaloedd cynghorau gwahanol, ac yn wir, Rhanbarth gwahanol yn y Senedd. Credwn y dylai AS, lle bo hynny'n bosibl, gynrychioli etholaeth sy'n cynnwys wardiau o'r nifer lleiaf o ardaloedd cynghorau gwahanol, ac yn ddelfrydol, un yn unig. Yn yr achos hwn, gan fod y sedd arall ym Mhowys eisoes yn croesi ffin rhwng cynghorau, credwn mai'r ateb gorau ar gyfer yr holl etholaeth fyddai hepgor y wardiau yng Nghastell-nedd o'r etholaeth hon a chynnwys wardiau o fewn Powys yn eu lle.

Rhaeadr Gwy	1589	Llangynllo	1071	Llandinam	1155
Bugeildy	1135	Llanidloes	2149	De y Drenewydd	1215
Bronllys	1060	Llanllyr	978	Canol y Drenewydd	2122
Llanfair-ym-Muallt	1849	Nantmel	1243	Y Drenewydd Gogledd	1796
Dyserth a Threcoed	1055	Pencraig	1375	Llanllwchaearn	
Clas-ar-Wy	1901	Llanandras	2174	Y Drenewydd Gorllewin	1447
Gwernyfed	1178	Bwlch	800	Llanllwchaearn	
Y Gelli	1355	Talgarth	1305	Dwyrain y Drenewydd	1401
Trefyclo	2296	Llangors	901	Yr Ystog	1292
Llanafanfawr	1141	Felin-fâch	1102	Ceri	1607
Llanbadarn Fawr	925	St. John	2365	Blaen Hafren	1876
Dwyrain Llandrindod/ Gorllewin Llandrindod	949	Cymuned Talgarth	1537	Caersws	1831
Gogledd Llandrindod	1517	St. David Fewnol	1263	Ynyscedwyn	1705
De Llandrindod	1726	St. Mary	2194	Tawe-Uchaf	1763
Llanelwedd	987	Yscir	888	Aber-craf	1143
Llanwrtyd	1450	Maescar/Llywel	1405		
Crucywel	2410	Cwm-twrch	1557		
Llangynidr	865	Ystradgynlais	1935		
Llangatwg	762				

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Llandinam – 1155, De y Drenewydd – 1215, Llanidloes – 2149, Canol y Drenewydd – 2122, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn – 1796, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn – 1447, Dwyrain y Drenewydd – 1401, Yr Ystog – 1292, Ceri - 1607, Blaen Hafren - 1876, Caersws - 1831

Wardiau i'w Hepgor: Brynman Isaf – 1040, Gwauncaegurwen – 2220, Pontardawe – 4283, Cwmllynfell – 921, Ystalyfera – 2169, Rhos – 1997, Godre'r graig – 1514, Yr Allt-wen – 2023, Trebannws - 1092

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 72,745


Cyfiawnhad Amlinellol

Cynnwys Wardiau sydd yn Sir Drefaldwyn: Roedd y ddau arolwg diweddar nas gweithredwyd yn argymhell y dylid cynnwys wardiau yn y Drenewydd a'r cyffiniau ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, gan

amrywio nifer y wardiau yn unig, yn dibynnu ar y nifer gofynnol o etholwyr. Felly, byddem yn parhau â'r dull hwn ar yr achlysur hwn.

Hepgor Wardiau sydd yn ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot: Mae'r cynigion a amlinellwyd gan y Comisiwn Ffiniau yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys nifer o wardiau sydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn eu model er mwyn creu un o ddwy sedd o fewn Powys, a byddem yn gwrthod hyn am y rhesymau canlynol.

- Byddai hyn yn creu dwy sedd ym Mhowys lle mae'r etholaeth yn ymestyn dros fwy nag un ardal gyngor. Byddem yn fodlon nad yw hyn yn angenrheidiol gan y gellir creu etholaeth sy'n gyfan gwbl o fewn Powys, felly byddwn yn mabwysiadu'r opsiwn hwn.
- Mae'r etholaeth arfaethedig yn ymestyn dros ddwy etholaeth Ranbarthol y Senedd. Er bod hyn yn angenrheidiol yng Ngogledd Cymru, gellir creu modelau i osgoi hyn.
- Mae'r model hwn yn debyg i'r model a gynigiwyd yng nghyflwyniad y Blaid Lafur ar gyfer arolwg 2018 nas gweithredwyd, a rhoddwn bwys i gynigion y Comisiynwyr o'r arolwg hwnnw wrth baratoi ein cyflwyniad.
- Er ein bod yn cydnabod y tebygrwydd i wardiau Ystradgynlais o fewn Powys, mae'r wardiau hynny yn cynnwys tua 15% o'r etholwyr yn unig, ac felly byddai ychwanegu wardiau CNPT yn arwain at golled sylweddol o ran natur wledig yr etholaeth hon, a byddai'n cynrychioli newid yn y ddemograffeg.



Enw'r etholaeth

Yng ngoleuni'r newidiadau, byddem yn argymhell yr enw amgen "**Aberhonddu a Maesyfed gyda De Sir Drefaldwyn**" fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Bridgend – Pen-y-bont

Fel rhan o arolwg ehangach o'r seddi o amgylch rhan orllewinol De Cymru, nid ydym yn derbyn y cynnig i rannu'r etholaeth hanesyddol yn 2 sedd ar wahân. Yn lle hynny, byddem yn argymhell y dylid ei chadw ac ychwanegu nifer o wardiau i'r gogledd o draffordd yr M4 tua chyfeiriad Maesteg. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Bryncoch	1757	Y Castellnewydd	4287	Newton	3035
Sarn	1786	Llangewydd a Brynhyfryd	1878	Y Pîl	5545
Coety	3006	Cefn Cribwr	1180	Corneli	5359
Llangrallo Isaf	1160	Yr Hengastell	3783	Abercynffig	1868
Pen-y-fai	1853	Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr	6574	Ynysawdre	2748
Cefn Glas	1360	Canol Gorllewin Porthcawl	2967	Llangynwyd	2351
Litchard	2080	Canol Dwyrain Porthcawl	2580	Notais	2741
Pendre	1654	Morfa	3210	Rest Bay	1990
Bracla	8276	Betws	1595		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Canol Gorllewin Porthcawl – 2967, Pendre – 1654, Canol Dwyrain Porthcawl – 2580, Notais – 2741, Y Pîl – 5545, Corneli – 5359, Rest Bay – 1990, Cefn Glas – 1360, Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr – 6574, Betws – 1595

Wardiau i'w Hepgor: Gorllewin Maesteg – 4327, Dwyrain Maesteg – 3741, Caerau – 4795, Nant-y-moel – 1745, Melin Ifan Ddu – 1839, Bro Ogwr – 2357, Pontycymer – 1773, Llangeinor – 887, Bryncethin – 1261, Penprysg – 2474, Felindre – 2087, Hendre – 3175, Blaengarw – 1333

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 76,623

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu wardiau Porthcawl: Gweler yr esboniad ar gyfer i newidiadau i Aberafan.

Ychwanegu Betws: Mae mwyafrif poblogaeth ward Betws wedi'i leoli yn y pentref o'r un enw yng ngogledd y ward. Mae'n cysylltu â rhan ogleddol Ynysawdre sy'n gyfagos trwy Ffordd Betws. Mewn cyferbyniad, mae ffordd yr A4064 yn gwahanu'r anheddiad oddi wrth y prif ganolfannau poblogaeth yn ward Llangeinor i'r dwyrain. O'r herwydd, credwn mai dyma'r ward sy'n gweddu orau o'r opsiynau ar hyd y ffin ddwyreiniol sydd â chydlyniant cymunedol a'r nifer priodol o etholwyr i alluogi'r ddwy etholaeth i aros o fewn y cwota.

Hepgor wardiau eraill sydd yn ardal Ogwr: Mae'r wardiau sy'n weddill o etholaeth hanesyddol Ogwr yn ffurfio strwythur cydlynus o amgylch Cwm Garw a dwy fraich Cwm Ogwr. Caiff y rhain eu hepgor er mwyn ffurfio sylfaen sedd sy'n gysylltiedig â'r Rhondda.



Enw'r etholaeth

Yng nghyd-destun y newidiadau ehangach, byddwn yn cadw'r enw presennol "**Pen-y-bont ar Ogwr**" ar gyfer yr etholaeth hon.

Caerfyrddin – Carmarthen

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn a'r canllawiau a osodom arnom ni'n hunain, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan aelodau lleol bod Cyngor Ceredigion yn ystyried gwrthgynigion a fyddai'n atgyfnerthu strwythur etholaeth arfaethedig Ceredigion trwy ychwanegu wardiau sydd yn Sir Gaerfyrddin ar hyd Dyffryn Teifi. Rydym yn cadw'r hawl i wneud sylwadau ar y newidiadau hyn yn y dyfodol.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Caerfyrddin – Carmarthen**", fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Cardiff Central – Canol Caerdydd

O ystyried y materion a nodir yn y cynnig ar gyfer De Caerdydd, mae angen ail-lunio'r holl etholaethau yng Nghaerdydd. Cymhlethir yr ymarfer hwn gan faint y wardiau yn ardal y cyngor. Felly, rydym yn cynnig cadw ffin Canol Caerdydd fel y mae ar hyn o bryd, ond gan ychwanegu nifer o wardiau o etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Pentwyn	10783	Adamsdown	5692	Gabalfa	5922
Cyncoed	8475	Plasnewydd	12285	Y Mynydd Bychan	9611
Penylan	9858	Cathays	13099		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Gabalfa – 5922, Y Mynydd Bychan – 9611

Wardiau i'w Hepgor: Llanrhymni – 7758, Tredelerch – 6536


Nifer Diwygiedig yr Etholwyr :75,725

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd Bychan: Roedd y cofrestrau yn ystod arolwg 2018 yn ddiffygiol oherwydd y newid yn y broses gofrestru a arweiniodd at dangyfrif mewn nifer o wardiau, e.e. Cathays sydd bellach â 6K yn fwy o etholwyr, a Phlasnewydd â 3k yn fwy. Ar ôl ystyried materion yn Ne Caerdydd, mae angen ail-gydbwysu gweddill yr etholaethau, ac roedd y model yng nghynigion diwygiedig 2018, er na ellid ei efelychu'n llawn, yn cynnwys ward Gabalfa o fewn yr etholaeth ddeheuol, ac ailadroddir hyn yn y cynigion presennol. Wrth hepgor Llanrhymni, yr unig ward a all gydbwysu etholaeth Gogledd Caerdydd ac etholaeth Canol Caerdydd yw'r Mynydd Bychan. Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ar y rhan fwyaf o'i hochrau â ffyrdd sylweddol gan gynnwys ffordd ddeuol yr A48, ond ar yr ochr ddwyreiniol, er bod y rheilffordd yn creu rhwystr rhesymegol, mae nifer o bwyntiau croesi sy'n cysylltu'r ward yn gydlynus â ward gyfagos Cyncoed, ac mae gorsafoedd Lefel Uchel y Mynydd Bychan a Lefel Isel y Mynydd Bychan yn gwasanaethu'r ddwy gymuned.

Hepgor Tredelerch: Mae'r ward hon wedi'i hepgor er mwyn creu etholaeth De Caerdydd gwbl hygyrch. Gweler yr esboniad ar gyfer De Caerdydd a Phenarth.

Hepgor Llanrhymni: Wrth hepgor ward Tredelerch o'r etholaeth er mwyn datrys materion yn Ne Caerdydd, nid oes cysylltiad uniongyrchol o Lanrhymni i weddill etholaeth Canol Caerdydd. Mae'r ffin ogleddol yn cynnwys Afon Rhymni ac, yn yr ardal hon, nid oes man i gerbydau groesi. Y cysylltiad a ddefnyddiodd y Comisiwn oedd Ffordd Casnewydd, ond mae'r ffordd hon yn mynd drwy ward Tredelerch, sy'n golygu y byddai hon yn ward ddatgysylltiedig.




Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef “**Cardiff Central – Canol Caerdydd**”, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Cardiff North – Gogledd Caerdydd

O ystyried y materion a nodir yn y cynnig ar gyfer De Caerdydd, mae angen ail-lunio'r holl etholaethau yng Nghaerdydd. Cymhlethir yr ymarfer hwn gan faint y wardiau yn ardal y cyngor. Felly, rydym yn cynnig hepgor dwy ward o gynigion y Comisiwn a'u trosglwyddo i Ganol Caerdydd a chynnwys un ward yn eu lle a gynigiwyd ar gyfer Canol Caerdydd a dwy ward a gynigiwyd ar gyfer Gorllewin Caerdydd. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Llysfaen	2942	Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	12928	Pentyrch	2819
Pontprennau/Yr Hen Laneirwg	8047	Ystum Taf	5992	Llanrhymni	7758
Rhiwbeina	9354	Radyr	5425	Llanisien	13492



Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Llanrhymni – 7758, Radyr – 5425, Pentyrch – 2819

Wardiau i'w Hepgor: Gabalfa – 5922, Y Mynydd Bychan – 9611

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 71,612.

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Llanrhymni: Er bod y ward wedi'i datgysylltu oddi wrth Ganol Caerdydd (gweler uchod), mae'r ffin ogledd-ddwyreiniol yn dilyn canol Ffordd Casnewydd a gellir cyrraedd rhannau o ward Llanelirwg yn hawdd wrth groesi'r ffordd hon. Fel y cyfryw, nid yw'n ddatgysylltiedig yn yr un ffordd ag y mae o etholaeth Canol Caerdydd, gan fod cysylltedd rhwng y ddwy ward.

Ychwanegu Radyr a Phentyrch: Gwrthododd arolwg 2018 y syniad o gynnwys y wardiau hyn mewn etholaeth â mwy o ffocws ar y dwyrain, ond derbyniodd y cysyniad y dylid eu cysylltu â Ffynnon Taf. Yn y model hwn, ceir opsiynau cyfyngedig yn unig i gydbwysu'r wardiau etholiadol ledled Caerdydd, oherwydd y poblogaethau mawr iawn y wardiau. Felly, er mwyn cydbwysu'r model wrth hepgor ward ddatgysylltiedig yn Ne Caerdydd, mae ychwanegu'r ddwy ward hyn â chysylltiadau ffordd da â'r wardiau cyfagos yn y Gogledd yn cynrychioli'r model gorau sydd ar gael o fewn y cwota.

Hepgor Gabalfa a'r Mynydd Bychan: Gweler yr esboniad ar gyfer Canol Caerdydd.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Cardiff North – Gogledd Caerdydd**", fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Cardiff South and Penarth – De Caerdydd a Phenarth

Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan y Comisiwn yn cadw'r etholaeth bresennol o'r un enw, i raddau helaeth, a chytunwn â'r cynnig hwn mewn egwyddor. Fodd bynnag, nodwn yr anghysondeb wrth ddibynnu ar dir islaw'r penllanw i gadw parhad yr etholaeth, a chredwn y gellid datrys hyn wrth ychwanegu ward Tredelerch, gan gadw at y cwota heb fod angen ychwanegu Dinas Powys o Fro Morgannwg. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Bro Morgannwg		Caerdydd	
Y Sili	3696	Y Sblot	9081
Plymouth	4584	Trowbridge	11076
St. Augustine's	5318	Tredelerch	6536
Cornerswell	4069	Grangetown	13257
Stanwell	3365	Butetown	7834
Llandochoau	1578		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Tredelerch – 6536

Wardiau i'w Hepgor: Dinas Powys – 6388

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 70,394

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu ward Tredelerch :

Mae paragraff 2.23 yn nogfen y cynigion yn datgan:

“Cyn belled ag y bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio argymhell etholaethau: • sydd wedi'u ffurfio o wardiau




etholiadol cyfan sy'n agos i'w gilydd • nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig'; hynny yw, lle y byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid teithio trwy etholaeth wahanol”.

Yn yr achos hwn, mae'r etholaeth arfaethedig yn bodloni'r diffiniad hwn o ran y manylion technegol mwyaf cyfyngedig. Fel y dangosir yn y ddelwedd (ar y chwith) mae'r ffin gyffredin rhwng y Sblot a Trowbridge wedi'i lleoli yn gyfan gwbl o fewn Gwastatiroedd Caerdydd, rhwng y penllanw a'r distyll cymedrig. O ganlyniad, nid oes cysylltiad ffisegol rhwng y ddwy ward ar adeg y penllanw, ac nid oes ffordd, trac na hawl tramwy cyhoeddus gan fod Afon Rhymni yn creu rhwystr corfforol.

Wrth ychwanegu ward Tredelerch, caiff y mater hwn ei ddatrys gyda thair ffordd a rheilffordd yn

darparu cysylltiad rhwng y ddwy ward.

Hepgor Dinas Powys: Ym model y Comisiwn, ychwanegwyd ward Dinas Powys ym Mro Morgannwg, sy'n rhan o'r etholaeth hanesyddol â'r un enw, er mwyn sicrhau'r cwota etholiadol. Wrth ychwanegu ward Tredelerch, sydd yn ardal Cyngor Caerdydd, nid oes angen cynnwys Dinas Powys, felly rydym yn cynnig dychwelyd y ward hon, a chadw'r ffin hanesyddol wrth wneud hynny.



Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Cardiff South and Penarth – De Caerdydd a Phenarth**", fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Cardiff West – Gorllewin Caerdydd

Mae'r newidiadau mewn rhannau eraill o Gaerdydd yn gofyn am newidiadau sylweddol i Orllewin Caerdydd. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

		<u>Rhondda Cynon Taf</u>
Treganna	11457	Pont-y-clun 6061
Llandaf	7078	Llanhari 3221
Y Tyllgoed	9642	Llanharan 2819
Trelai	9576	Brynna 3616
Caerau	7859	
Creigiau/Sain Ffagan	4409	
Riverside	9621	

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Llanhari – 3221, Llanharan – 2819, Brynna – 3616

Wardiau i'w Hepgor: Pentyrch – 2819, Radyr – 5425

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 75,359

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu wardiau Llanhari, Llanharan a Brynna: Mae'r tair ward hyn yn cyfuno i greu clwstwr cydlynus o aneddiadau "pentrefi" llai. Maent yn rhan o etholaeth hanesyddol Ogwr ond wedi'u gwahanu oddi wrthi gan dir agored. Roedd y Comisiwn wedi nodi hyn ac wedi'u dosbarthu yn etholaeth estynedig Rhondda a oedd hefyd yn cynnwys Tonyrefail. Rydym yn dadlau, hyd yn oed pe cedwir Tonyrefail yn y cyfluniad hwn yn ein cynlluniau ni (ond nid felly y mae), mae'r ffin, unwaith eto, yn dir agored; ar y llaw arall, yn y gornel dde-ddwyreiniol, mae datblygiadau yn Llanhari a Llanharan yn ffurfio rhan o ôl troed anheddiad Pont-y-clun. Fel y cyfryw, gallem ddadlau y byddai estyniad i'r gorllewin i gynnwys y ddwy ward hyn yn gyfuniad mwy rhesymegol sydd hefyd yn galluogi Gorllewin Caerdydd i ddod o fewn y cwota.

Hepgor Radyr a Phentyrch: Gweler yr esboniad ar gyfer Gogledd Caerdydd.



Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef “**Cardiff West – Gorllewin Caerdydd**”, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Ceredigion Preseli

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn a'r canllawiau a osodom arnom ni'n hunain, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan aelodau lleol bod Cyngor Ceredigion yn ystyried gwrthgynigion a fyddai'n atgyfnerthu strwythur etholaeth arfaethedig Ceredigion trwy ychwanegu wardiau sydd yn Sir Gaerfyrddin ar hyd Dyffryn Teifi. Rydym yn cadw'r hawl i wneud sylwadau ar y newidiadau hyn yn y dyfodol.

Clwyd

Rhown gefnogaeth fras i'r etholaeth a amlinellir yng nghynigion y Comisiwn. Fodd bynnag, byddem yn cynnwys dwy ward y mae'r Comisiwn yn eu gosod ar hyn o bryd yn Aberconwy, ac yn hepgor dwy ward a'u cynnwys yn sedd ddiwygiedig Maldwyn a Glyndŵr. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Conwy</u>		<u>Sir Ddinbych</u>	
Bae Cinmel	4607	Dwyrain y Rhyl	3693
Tywyn	1845	De Ddwyrain y Rhyl	6253
Gele	3997	Rhuddlan	2913
Abergele Pensarn	1959	De y Rhyl	2874
Pentre Mawr	2861	De Orllewin y Rhyl	3732
Llysfaen	1906	Gorllewin y Rhyl	3283
Llanddulas	1353	Dwyrain Llanelwy	1472
Betws yn Rhos	1623	Gorllewin Llanelwy	1290
Llansannan	1495	Bodelwyddan	1612
Rhiw	4991	Dinbych Uchaf/Henllan	2265
Glyn	3088	Dinbych Isaf	3483
Eirias	2800	Canol Dinbych	1462
Colwyn	3373	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	1496
Llangernyw	1104	Trefnant	1503
Uwchaled	1139		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Llangernyw – 1104, Uwchaled – 1139


Wardiau i'w Hepgor: Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern – 1830, Efenechdyd – 132

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 75,472

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu wardiau Llangernyw ac Uwchaled: Gweler yr esboniad ar gyfer Aberconwy.

Hepgor Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern ac Efenechdyd: Mae'r ddwy ward hyn, o'u cyfuno â Rhuthun yn etholaeth arfaethedig Delyn, yn darparu rhwydwaith cydlynus o tua 7k o etholwyr y gellir eu hychwanegu at etholaeth Gogledd Maldwyn a Glyndŵr i gydbwyso hepgor etholwyr ar y ffin ddeheuol.



Enw'r etholaeth

O ystyried bod Sir Clwyd cyn 1995 wedi ymestyn hyd at y ffin â Lloegr, byddem yn argymhell bod yr enw "Gorllewin Clwyd" yn ddisgrifiad mwy priodol ar gyfer yr etholaeth hon.

Delyn

Rhown gefnogaeth fras i'r etholaeth a amlinellir yng nghynigion y Comisiwn. Fodd bynnag, byddem yn trosglwyddo un ward (Rhuthun) i sedd ddiwygiedig Maldwyn a Glyndŵr, ac un ward (Northop Hall) i Alun a Glannau Dyfrdwy. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Sir y Fflint</u>				<u>Sir Ddinbych</u>	
Trelawnyd and Gwaenysgor	1496	Coleshill Y Fflint	2938	Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	2033
Gronant	1257	Oakenholt Y Fflint	2538	Tremeirchion	1344
Ffynongroyw	1474	Northop	2596	Llandyrnog	1765
Chwitfordd	1911	Trelawny Y Fflint	2710	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1170
Mostyn	1458	Castell Y Fflint	1426	Dissert	1882
Maesglas	1983	Broncoed Yr Wyddgrug	2134	De Orllewin Prestatyn	2861
Gorllewin Treffynnon	1762	De Yr Wyddgrug	2201	Gogledd Prestatyn	4729
Brynffordd	1789	Dwyrain Yr Wyddgrug	1556	Dwyrain Prestatyn	3162
Gorllewin Bagillt	1625	Gorllewin Yr Wyddgrug	1956	Canol Prestatyn	2829
Dwyrain Bagillt	1413	Gwernaffield	1646	Prestatyn Allt Melyd	1529
Dwyrain Treffynnon	1383	Gwernymynydd	1399		
Canol Treffynnon	1465	Cilcain	1519		
Helygain	1427	Caerwys	2050		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu:


Wardiau i'w Hepgor: Northop Hall – 1398, Rhuthun – 4260

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 70,416

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor Northop Hall: Gweler yr esboniad ar gyfer Alun a Glannau Dyfrdwy.

Hepgor Rhuthun: Gweler yr esboniad ar gyfer Clwyd.



Enw'r etholaeth

Cytunwn â bwriad y Comisiwn i gadw'r enw blaenorol "**Delyn**" ar gyfer yr etholaeth ddiwygiedig hon.

Dwyfor Meirionnydd

Er y gallwn dderbyn y sedd fel y'i cynigiwyd o fewn ein model data ehangach, byddem yn argymhell trosglwyddo ward Pentir i etholaeth Aberconwy. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Abererch	986	Nefyn	1003	Llanbedr	768
Abersoch	519	Peblig (Caernarfon)	1603	Teigl	1355
Bethel	1025	Penygroes	1369	Bowydd a Rhiw	1235
Bontnewydd	865	Gogledd Pwllheli	1528	Brithdir a Llanfachreth/ Ganllwyd/Llanelltyd	1132
Botwnnog	734	De Pwllheli	1310	Bala	1413
Cadnant	1514	Seiont	2233	Llandderfel	1135
Clynnog	736	Tal-y-sarn	1399	Llanuwchllyn	686
Criccieth	1280	Tudweiliog	668	Corris/Mawddwy	1023
Cwm-y-Glo	753	Y Felinheli	1803	Aberdovey	907
Dolbenmaen	900	Aberdaron	698	Bryn-crug/Llanfihangel	772
Efail Newydd/Buan	1026	Dyffryn Ardudwy	1169	Llangelynin	1625
Groeslon	1374	Harlech	1516	De Dolgellau	1072
Llanaelhaearn	1187	Penrhyndeudraeth	1826	Gogledd Dolgellau	953
Llanbedrog	709	Dwyrain Porthmadog	1178	Abermaw	1591
Llanengan	847	Gorllewin Porthmadog	1329	Tywyn	2476
Llanllyfni	915	Porthmadog-Tremadog	933	Penisarwaun	1365
Llanrug	1396	Waunfawr	1298	Deiniolen	1463
Llanwnda	1507	Trawsfynydd	1088	Llanberis	1613
Llanystumdwy	1547	Diffwys and Maenofferen	779		
Menai (Caernarfon)	1724	Morfa Nefyn	945		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu:

Wardiau i'w Hepgor: Pentir – 2159

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 69,803

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor Pentir: Gweler yr esboniad ar gyfer Aberconwy.

Enw'r etholaeth

Gallwn dderbyn dewis y Comisiwn, sef “**Dwyfor Meirionnydd**”, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon. Fodd bynnag, byddem yn cynnig yr awgrym y gall y Comisiwn ymgynghori ynghylch yr amrywiadau “**...gyda De Arfon**”, “**...gyda Gorllewin Arfon**” a “**...gyda Chaernarfon**” fel ffordd o adlewyrchu'r gymuned sy'n ymuno â'r sedd.

Islwyn (yng nghynnig y Comisiwn) Caerffili (yn y cynnig hwn)

Mae dosbarthiad seddi yn ardal cyngor Caerffili yn cynrychioli un o'r ardaloedd lle ceir y gwahaniaeth barn mwyaf â chynigion y Comisiwn. Er bod y Comisiwn wedi cadw etholaeth hanesyddol Islwyn i raddau helaeth, mae ein model ni'n canolbwyntio ar sedd Caerffili, gydag Islwyn wedi'i rhannu rhwng sedd Blaenau Gwent (yn unol â'r Comisiwn), sedd yng Ngorllewin Casnewydd (10 ward) a Chaerffili (9 ward). Yn yr adran hon, byddwn yn canolbwyntio ar sedd Caerffili sy'n cynnwys holl wardiau'r etholaeth hanesyddol ac eithrio 2, ynghyd â 5 ward o ogledd-ddwyrain sedd hanesyddol Islwyn. Byddai hyn hefyd yn golygu y byddai Nelson yn symud o sedd Merthyr, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn, yn ôl i Gaerffili. Gyda'r newidiadau hyn, byddem yn cynnig dau enw, sef Caerffili neu Caerffili gyda Gogledd Islwyn. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol sydd oll o fewn ardal cyngor Caerffili.

Cwm Aber	4655	Bedwas, Trethomas and Machen	7902	Ystrad Mynach	4067
Penyrheol	9021	St. James	4267	St. Cattwg	5579
Morgan Jones	5636	Maesycwmmwr	1811	Pengam	2760
St. Martins	6582	Hengoed	4055	Cefn Fforest	2845
Llanbradach	3239	Argoed	2035	Y Coed Duon	6330
		Nelson	3563		

Crynodeb o'r Newidiadau


Wardiau i'w Hychwanegu: Nelson – 3563, Cwm Aber – 4655, Bedwas, Trethomas and Machen – 7902, St. James – 4267, Penyrheol – 9021, Morgan Jones – 5636, St. Martins – 6582
 Wardiau i'w Hepgor: Ynysddu – 2978, Crosskeys – 2527, Dwyrain Rhisga – 4611, Gorllewin Rhisga – 3973, Pontllanfraith – 6343, Crymlyn – 4332, Trecelyn – 4892, Abercarn – 4139, Penmaen – 4219

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 74,347

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Nelson: Yng nghynigion y Comisiwn, ychwanegwyd ward Nelson at etholaeth Merthyr fel ward sengl o fewn ardal Cyngor Caerffili. Yn unol â'n hymdrechion i leihau nifer y wardiau amddifad fel hon, gallwn ailfodelu seddi yn yr ardal hon a chynnwys y ward mewn etholaeth sy'n seiliedig ar Gaerffili.
Ychwanegu Cwm Aber, Bedwas, Trethomas and Machen, St. James, Penyrheol, Morgan Jones, St. Martins: Mae ychwanegu'r wardiau hyn yn seiliedig ar yr egwyddor a fabwysiadwyd o ganolbwyntio ar gadw etholaeth Caerffili yn hytrach nag Islwyn yn yr ardal hon er mwyn caniatáu atgyfnerthu pellach mewn ardaloedd eraill.

Hepgor Ynysddu, Crosskeys, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, Pontllanfraith, Crymlyn, Trecelyn, Abercarn, Penmaen: Mae hepgor y wardiau hyn yn seiliedig ar yr egwyddor a fabwysiadwyd o ganolbwyntio ar gadw etholaeth Caerffili yn hytrach nag Islwyn yn yr ardal hon er mwyn caniatáu atgyfnerthu pellach mewn ardaloedd eraill.



Enw'r etholaeth

O ystyried y newid ffocws o ran y cynigion ar gyfer Gwent a roddir yn y cyflwyniad hwn, credwn mai'r enw "**Caerffili**" sy'n cynrychioli'r ffiniau newydd orau. Fodd bynnag, efallai y bydd y Comisiwn yn dymuno ystyried yr enw "**Caerffili gyda Gogledd Islwyn**" hefyd, i adlewyrchu natur y wardiau yng ngogledd y sedd.

Llanelli

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Llanelli**", fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Merthyr Tydfil and Aberdare – Merthyr Tudful ac Aberdâr

Er ein bod ar y cyfan yn cefnogi'r cynnig hwn, byddem yn hepgor ward amddifad Nelson sydd yn ardal cyngor Caerffili ac yn ychwanegu wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman o etholaeth arfaethedig Pontypridd. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Merthyr</u>		<u>RhCT</u>	
<i>Y Faenor</i>	2880	Pen-y-waun	1973
<i>Dowlais</i>	5014	Hirwaun	3167
<i>Y Gurnos</i>	3477	Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed	7404
<i>Y Parc</i>	3296	Dwyrain Aberdâr	4909
<i>Cyfarthfa</i>	5457	Cwmbach	3751
<i>Penydarren</i>	3818	Y Rhigos	1370
<i>Y Dref</i>	5998	Gogledd Aberaman	3609
<i>Plymouth</i>	4096	De Aberaman	3541
<i>Bedlinog</i>	2977		
<i>Bro Merthyr</i>	2798		
<i>Treharris</i>	5270		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Gogledd Aberaman – 3609, De Aberaman – 3541


Wardiau i'w Hepgor: Nelson - 3563

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 74,805

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor ward Nelson: Mae ward Nelson yn ward amddifad sengl yn ardal CBS Caerffili. Byddai cynnwys y ward hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r AS a'i staff ryngweithio â 3 o ardaloedd cyngorau ac, yn ein barn ni, byddai hyn yn lleihau lefel y gwasanaeth i bob etholwr.

Cynnwys wardiau Aberaman: Mae'r ddwy ward hyn yn gwneud pâr cydlynus ar ochr draw Afon Cynon i Gwmbach, a byddai hyn yn atgyfnerthu ffurf ardal Aberdâr yn benodol gan alluogi un AS i ymdrin â materion ar draws yr afon yng Nghwm Cynon uchaf.



Enw'r etholaeth

Er ein bod yn fodlon derbyn yr enw arfaethedig, o ystyried bod y gymhareb rhwng Aberdâr a wardiau eraill yng Nghwm Cynon bellach tua 12:17, byddem yn cynnig yr awgrym amgen “**Merthyr Tudful a Chynon Uchaf**”.

Mid and South Pembrokeshire – Canol a De Sir Benfro

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn a'r canllawiau a osodom arnom ni'n hunain, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan aelodau lleol bod Cyngor Ceredigion yn ystyried gwrthgynigion a fyddai'n atgyfnerthu strwythur etholaeth arfaethedig Ceredigion trwy ychwanegu wardiau sydd yn Sir Gaerfyrddin ar hyd Dyffryn Teifi, â'r effaith ganlyniadol ar yr etholaeth hon. Rydym yn cadw'r hawl i wneud sylwadau ar y newidiadau hyn yn y dyfodol.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Mid and South Pembrokeshire – Canol a De Sir Benfro**" fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Monmouthshire – Sir Fynwy

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Monmouthshire – Sir Fynwy**" fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Montgomeryshire and Glyndwr - Maldwyn a Glyndŵr

O ganlyniad i newidiadau mewn mannau eraill, mae angen ymestyn y rhan sy'n weddill o'r etholaeth hon ymhellach i'r gogledd. Felly, byddem yn ymestyn y sedd cyn belled â Rhuthun a chyrion Wrecsam. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Powys</u>		<u>Wrecsam</u>		<u>Sir Ddinbych</u>	
Rhiwcynon	1724	Ponciau	3521	Llandrillo	931
Dolforwyn	1652	Pen-y-cae a De Rhiwabon	2026	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	
Trefaldwyn	1107	Rhiwabon	2078		1830
Aberriw	1102	Cefn	3768	Efenechdyd	1321
Castell y Trallwng	962	Llangollen Wledig	1631	Rhuthun	4260
Ffordun	1215	Pen-y-cae	1525	Corwen	1799
Trewern	1066	Pant	1528	Llangollen	3302
Llandrinio	1763	Plas Madoc	1169		
Llandysilio	1441	Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley			
Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin			1685		
	1815	Gogledd y Waun	1846		
Llanwddyn	846	De'r Waun	1503		
Llansantffraid	1563	Johnstown	2461		
Llanfyllin	1217	Esclusham	2013		
Cegidfa	1827				
Y Trallwng Gungrog	1995				
Y Trallwng Llannerch Hudol	1602				
Meifod	1069				
Llanfihangel	895				
Banwy	847				
Llanfair Caereinion	1301				
Llanbryn-mair	798				
Machynlleth	1701				
Glantwymyn	1701				

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern – 1830, Efenechdyd – 1321, Rhuthun – 4260, Ponciau - 3521, Pant – 1528, Johnstown – 2461, Esclusham – 2013

Wardiau i'w Hepgor: Llandinam – 1155, De y Drenewydd - 1215, Llanidloes - 2149, Canol y Drenewydd – 2122, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn – 1796, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn – 1447, Dwyrain y Drenewydd – 1401, Yr Ystog – 1292, Ceri – 1607, Blaen Hafren – 1876, Caersws – 1831

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 71,406

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor wardiau Sir Drefaldwyn: Gweler yr esboniad ar gyfer Aberhonddu a Maesymfed.


Ychwanegu Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, Efenechdyd, Rhuthun: Gweler yr esboniad ar gyfer Clwyd.

Ychwanegu Ponciau, Pant, Johnstown: Mae'r tair ward hyn yn cyfuno i ffurfio canolfan boblogaeth gydlynus sy'n seiliedig ar ardal Rhosllannerchrugog. Mae poblogaeth y wardiau hyn wedi'i chrynhoi yn yr ardal lle mae'r tair ward yn cwrdd, ac mae'r ffiniau yn gorgyffwrdd yn sylweddol gyda llawer ohonynt yn mynd i lawr canol stryd â thai ar bob ochr. O ran agosrwydd, mae cysylltiadau cryf â Rhiwabon ac mae canol Rhiwabon o fewn pellter cerdded i'r wardiau deheuol. Nododd y Comisiwn hyn yn eu cynigion drafft terfynol yn 2018, gan osod y 4 ward hyn yn yr un etholaeth, ac rydym yn cynnig ailadrodd hyn yn y cyflwyniad hwn.

Ychwanegu Esclusham: Er mwyn cydbwysu'r cwota yn etholaethau Wrecsam a Glyndŵr, mae angen ychwanegu naill ai ward Mwynglawdd neu ward Esclusham at yr etholaeth hon. Gellir gwneud achosion dros y naill neu'r llall, ond credwn fod mwy o synergedd rhwng Mwynglawdd a wardiau cyfagos yn Wrecsam nag Esclusham. Mae'r ffin yn y cyntaf yn gorwedd o fewn anheddiad, tra bod ffin Esclusham yn dilyn canol Afon Clywedog gydag o leiaf dau gae rhyngddi a'r eiddo agosaf.

Enw'r etholaeth

Gallwn gytuno â'r enw a ddewiswyd gan y Comisiwn, ond byddem yn awgrymu y gallai "**Gogledd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr**" fod yn fwy priodol fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon, o ystyried y newid yng nghyfansoddiad yr etholaeth.




Newport East – Dwyrain Casnewydd

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef "**Newport East – Dwyrain Casnewydd**" fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.



Newport West and Caerphilly- Gorllewin Casnewydd a Chaerffili

Fel y nodwyd yn y disgrifiad ar gyfer Islwyn, ein dewis yw cysylltu Gorllewin Casnewydd â wardiau yn Nyffryn Sirhowi sy'n cynnwys craidd hen sedd Islwyn. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>O Gasnewydd</u>		<u>O Gaerffili</u>	
Allt-yr-yn	7088	Ynysddu	2978
Y Graig	5053	Crosskeys	2527
Y Gaer	6543	Dwyrain Rhisga	4611
Parc Tredegar	3329	Gorllewin Rhisga	3973
Maerun	4897	Pontllanfraith	6343
Tŷ-du	9421	Crymlyn	4332
		Trecelyn	4892
		Abercarn	4139
		Penmaen	4219

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Ynysddu – 2978, Crosskeys – 2527, Dwyrain Rhisga – 4611, Gorllewin Rhisga – 3973, Pontllanfraith – 6343, Crymlyn – 4332, Trecelyn – 4892, Abercarn – 4139, Penmaen – 4219

Wardiau i'w Hepgor: Cwm Aber – 4655, Bedwas, Trethomas a Machen – 7902 , St.

James – 4267, Penyrheol – 9021, Morgan Jones – 5636, St. Martins – 6582

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 75,345

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor Cwm Aber, Bedwas, Trethomas a Machen, St. James , Penyrheol, Morgan Jones, St. Martins:

Gweler yr esboniad ar gyfer Islwyn.

Ychwanegu Ynysddu, Crosskeys, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, Pontllanfraith, Crymlyn, Trecelyn, Abercarn, Penmaen: Mae ychwanegu'r wardiau hyn, yn ogystal â gwneud yr etholaeth yn unol â'r cwota, yn dilyn set gydlynus o ffiniau sy'n seiliedig ar dir uwch, y rhwydwaith priffyrdd ac afon Sirhowi. Yr unig ffin lle mae ffordd yn gwahanu eiddo rhwng dwy etholaeth yw'r ffin rhwng y Coed Duon a Phontllanfraith.



0

Enw'r etholaeth

Ar ôl dilyn Dyffryn Sirhowi a chysylltu ag Islwyn yn hytrach na Chaerffili, byddem yn awgrymu'r enw **"Gorllewin Casnewydd gydag Islwyn"** neu'r dewis amgen **"Gorllewin Casnewydd gyda De Islwyn"** os defnyddir y term Gogledd Islwyn yn enw etholaeth Caerffili.

Pontypridd

Fel rhan o'r ailfodelu ehangach yn hanner gorllewinol y Cymoedd, byddem yn trosglwyddo dwy ward allan o'r etholaeth a gynigiwyd gan y Comisiwn yn ardal Cwm Cynon, a throsglwyddo'r ddwy ward Tonyrefail yn ôl, a ychwanegwyd at y Rhondda gan y Comisiwn. Mae'r ddau newid hyn yn atgyfnerthu ffiniau hanesyddol. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol sydd oll o fewn Rhondda Cynon Taf.

Ton-teg	3183	Y Ddraenen Wen	3180	Cilfynydd	2110
Pentre'r Eglwys	4424	Canol Rhydfelen/Ilan	3037	Glyncoch	2006
Llanilltud Faerdref	4825	Gorllewin Aberpennar	3123	Beddau	3172
Tyn-y-Nant	2454	Ynysybwl	3433	Dwyrain	4433
Graig	1885	Penrhiwceibr	4056	Tonyrefail	
				Gorllewin	4896
Trefforest	2862	Dwyrain Aberpennar	2254	Tonyrefail	
Trallwng	2824	Abercynon	4441	Tref Llantrisant	3187
Tref Pontypridd	2208	Rhondda	3458	Tonysguboriau	1965

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Dwyrain Tonyrefail – 4433, Gorllewin Tonyrefail – 4896


Wardiau i'w Hepgor: Gogledd Aberaman – 3609, De Aberaman – 3541

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 73,416

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor Gogledd Aberaman, De Aberaman: Gweler yr esboniad ar gyfer Merthyr Tudful ac Aberdâr.

Ychwanegu Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail: Y wardiau cyfagos hyn yw'r unig ddwy ward o etholaeth bresennol Pontypridd y mae'r comisiwn yn awgrymu eu hychwanegu at y Rhondda. Fodd bynnag, gyda'r angen i ymestyn sedd Gorllewin Caerdydd i gynnwys 3 ward ymhellach i'r de y mae'r comisiwn hefyd wedi'u gosod yn Rhondda, nid oes angen cadw'r rhain yn y sedd arall. Yn lle hynny, rydym yn cynnig eu cadw â gweddill etholaeth bresennol Pontypridd sydd bellach yn cael ei chadw'n gyfan ac eithrio Ffynnon Taf.



Enw'r etholaeth

Er ein bod yn fodlon ag enw arfaethedig y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth, byddem hefyd yn awgrymu y byddai'r enw "**Pontypridd gyda Chynon Isaf**" yn adlewyrchu presenoldeb wardiau yn sedd hanesyddol Cwm Cynon ac yn adlewyrchu ein newid arfaethedig i enw etholaeth Merthyr.

Rhondda

O ganlyniad i newidiadau i Dde Caerdydd, roedd angen symud nifer o wardiau o sedd arfaethedig Rhondda'r Comisiwn i etholaeth ddiwygiedig Gorllewin Caerdydd, ac yn yr un modd, roedd y newidiadau ar gyfer Pontypridd yn lleihau maint yr etholaeth. I gydbwyso hyn, cynigiwn symud 10 ward allan o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont a chreu etholaeth newydd Rhondda ac Ogwr yn ei lle, gan gydnabod enw hanesyddol Ogwr yn y broses. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Rhondda Cynon Taf</u>		<u>Pen-y-bont ar Ogwr</u>	
Treherbert	4158	Nant-y-moel	1745
Y Maerdy	2283	Melin Ifan Ddu	1839
Pentre	3902	Bro Ogwr	2357
Treorci	5693	Pontycymer	1773
Ystrad	4285	Llangeinor	887
Cwm Clydach	1987	Bryncethin	1261
Glyn Rhedyn	3114	Penprysg	2474
Llwyn-y-pia	1637	Felindre	2087
Tonypandy	2686	Hendre	3175
Trealaw	2895	Blaengarw	1333
Ynyshir	2380		
Tylorstown	3054		
Y Porth	4282		
Pen-y-graig	3929		
Cymer	3977		
Gilfach Goch	2437		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Nant-y-moel – 1745, Melin Ifan Ddu – 1839, Bro Ogwr – 2357, Pontycymer – 1773, Llangeinor – 887, Bryncethin – 1261, Penprysg – 2474, Felindre – 2087, Hendre – 3175, Blaengarw – 1333

Wardiau i'w Hepgor: Dwyrain Tonyrefail – 4433, Gorllewin Tonyrefail – 4896, Llanhari – 3221, Llanharan – 2819, Brynna – 3616


Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 71,630

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail: Gweler yr esboniad ar gyfer Pontypridd.

Hepgor wardiau Llanhari, Llanharan a Brynna: Gweler yr esboniad ar gyfer Gorllewin Caerdydd.

Ychwanegu wardiau o etholaeth hanesyddol Ogwr: Gweler yr esboniad ar gyfer Pen-y-bont.



Enw'r etholaeth

O ystyried ychwanegiad y wardiau sydd ymhellach i'r gorllewin, byddem yn awgrymu y byddai'r enw **"Rhondda gydag Ogwr"** yn cynrychioli'r ffiniau newydd yn well.

Swansea Central and North – Canol a Gogledd Abertawe

Er bod llawer o'n gwrthgynigion yn rhan o ad-drefnu ehangach, mae ein hawgrymiadau amgen ar gyfer Abertawe i'r gorllewin o Afon Tawe yn hunangynhwysol ac yn tynnu ar nifer o egwyddorion a sefydlwyd mewn arolygiadau blaenorol na chawsant eu deddfu wedi hynny. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo 3 ward ganolog Abertawe i sedd arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a 7 ward o'r sedd honno i'r un hon. Yn dilyn y newidiadau, byddem yn cynnig yr enw diwygiedig Gogledd Abertawe. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol sydd oll o fewn ffiniau Cyngor Abertawe.

Llwchwr Uchaf	2146	Llangyfelach	3946	Mynydd-bach	6625
Penyrheol	4621	Mawr	1438	Penderi	7397
Llwchwr Isaf	1795	Penlle'r-gaer	2553	Glandŵr	4821
Pontybrenin	3506	Cwmbwrla	5622	Pontarddulais	4954
Gorseinon	3340	Treforys	12105	Cocyd	10473

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Llwchwr Uchaf – 2146, Cocyd – 10473, Penyrheol – 4621, Llwchwr Isaf – 1795, Pontybrenin – 3506, Gorseinon – 3340

Wardiau i'w Hepgor: Townhill – 5592, Y Castell – 10312, Uplands – 10834

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 75,071

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor Townhill, Y Castell, Uplands: Mae gan y tair ward hyn, sydd yn etholaeth Gorllewin Abertawe ar hyn o bryd, ffin fewnol gymhleth y mae'r ddau gynnig yn ei chydabod trwy ei chadw fel uned sengl. Yng nghynigion y Comisiwn, gosodir y wardiau hyn gyda wardiau gogleddol a gwledig. Byddem yn dadlau bod hyn yn torri'r ffiniau naturiol rhwng wardiau Uplands a Sgeti sy'n gwahanu campws y Brifysgol oddi wrth nifer fawr o fflatiau myfyrwyr sy'n llunio canran uchel o'r etholwyr yn Uplands, fel y gwelwyd yn y cynnydd o 2k o etholwyr rhwng 2018 a'r presennol, wrth i fyfyrwyr a oedd wedi'u heithrio o'r arolwg blaenorol gael eu gosod yn ôl ar y gofrestr. Felly, ein barn ni yw y dylid trosglwyddo'r wardiau hyn i etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Ychwanegu Llwchwr Uchaf, Llwchwr Isaf, Pontybrenin, Gorseinon: Cafodd cyflwyniad gan y Democratiaid Rhyddfrydol a chymunedau lleol bod y 4 ward hyn yn llunio endid cymunedol cydlynus ei dderbyn yn arolwg 2018. Byddem yn dod i'r un casgliad eto, a byddem yn eu cadw fel uned sengl mewn un etholaeth, sef etholaeth Gogledd Abertawe yn yr achos hwn.

Ychwanegu Penyrheol: O ganlyniad, caiff y ward hon ei datgysylltu oddi wrth unrhyw etholaeth arall, ac felly, yn rhesymegol, dylid ei hychwanegu.

Ychwanegu Cocyd: Derbyniodd arolwg 2018 y dystiolaeth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Abertawe a Gŵyr a chyn Aelod Cynulliad dros yr ardal, bod wardiau Cwmbwrla a Chocyd wedi'u cysylltu yn y bôn trwy ystad Gendros. Yn 2018, oherwydd y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr, roedd modd cysylltu'r wardiau hyn â wardiau eraill yng Ngorllewin Abertawe i greu etholaeth gydlynus. Bellach, byddai'r preswylwyr ychwanegol hynny yn mynd â'r etholaeth yn uwch na'r cwota. Yn lle hynny, cynigiwn y dylid ffurfio ffin ddeheuol gydlynus ar gyfer beth sydd, yn ei hanfod, yn etholaeth Gogledd Abertawe.



Enw'r etholaeth

Ar ôl hepgor 3 o wardiau canol y ddinas o'r etholaeth, byddem yn cynnig yr enw symlach **"Swansea North – Gogledd Abertawe"** ar gyfer yr etholaeth ddiwygiedig.

Swansea East and Neath – Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd

Fel rhan o arolwg ehangach o'r seddi o amgylch rhan orllewinol De Cymru, nid ydym yn derbyn y cynnig i rannu etholaeth hanesyddol Castell-nedd yn ddwy, gyda rhannau wedi'u cyfuno â sedd bresennol mewn Rhanbarth Etholiadol y Senedd wahanol. Yn lle hynny, byddem yn cadw'r etholaeth hanesyddol yn gyfan ac yn ychwanegu dwy ward o ogledd-ddwyrain ardal cyngor Abertawe, sy'n gyffiniol â'r ffin. Yn ogystal, mae'r newid hwn yn hwyluso cadw sedd hanesyddol Aberafan fel craidd ar gyfer etholaeth arall.

Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

<u>Castell-nedd Port Talbot</u>		<u>Castell-nedd Port Talbot</u>		<u>Abertawe</u>	
Brynaman Isaf	1040	Glyn-nedd	2577	Clydach	5821
Gwauncaegurwen	2220	Blaengwrach	1491	Llansamlet	11107
Pontardawe	4283	Resolfen	2387		
Cwmllynfell	921	Tonna	2072		
Ystalyfera	2169	Gogledd Castell-nedd	2931		
Rhos	1997	De Castell-nedd	3694		
Y Creunant	1508	Cimla	3107		
Godre'r graig	1514	De Bryn-côch	4547		
Yr Allt-wen	2023	Dyffryn	2447		
Trebannws	1092	Dwyrain Castell-nedd	4468		
Gogledd Bryn-côch	1787	Onllwyn	935		
Aberdulais	1712	Blaendulais	1554		
Llangatwg	1365	Pelenna	936		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Brynaman Isaf – 1040, Gwauncaegurwen – 2220, Pontardawe – 4283, Cwmllynfell – 921, Ystalyfera – 2169, Rhos – 1997, Godre'r graig – 1514, Yr Allt-wen – 2023, Trebannws – 1092

Wardiau i'w Hepgor: Gogledd Coed-ffranc – 1811, Canol Coed-ffranc – 2892, Gorllewin Coed-ffranc – 3587, Bôn-y-maen – 5391, St. Thomas – 5514


Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 73,705

Cyfiawnhad Amlinellol

Hepgor wardiau Coed-ffranc: Gweler yr esboniad ar gyfer Aberafan.

Hepgor St Thomas a Bôn-y-maen: Gweler yr esboniad ar gyfer Aberafan.

Ychwanegu Brynaman Isaf, Gwauncaegurwen, Pontardawe, Cwmllynfell, Ystalyfera, Rhos, Godre'r graig, Yr Allt-wen, Trebannws: Gweler yr esboniad ar gyfer Aberhonddu a Maesyfed.



Enw'r etholaeth

Mae'r newidiadau i'r ffiniau yn golygu bod mwyafrif yr etholaeth yn cynnwys wardiau Castell-nedd, a gan fod y 4 ward Abertawe i'r dwyrain o Afon Tawe wedi'u rhannu rhwng dwy etholaeth yn ein cynnig, byddem yn cynnig yr enw amgen "Castell-nedd gyda Gogledd Ddwyrain Abertawe" ar gyfer yr etholaeth hon.

Swansea West and Gower – Gorrlewin Abertawe a Gŵyr

Er bod llawer o'n gwrthgynigion yn rhan o ad-drefnu ehangach, mae ein hawgrymiadau amgen ar gyfer Abertawe i'r gorllewin o Afon Tawe yn hunangynhwysol ac yn tynnu ar nifer o egwyddorion a sefydlwyd mewn arolygiadau blaenorol na chawsant eu deddfu wedi hynny. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo 3 ward ganolog Abertawe i'r sedd hon a symud 7 ward o'r sedd hon i'r sedd ogleddol.

Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol sydd oll o fewn ffiniau Cyngor Abertawe.

Gŵyr	2990	West Cross	5142	De Cilâ	1857
Pennard	2229	Sgeti	11304	Penclawdd	2932
Newton	2894	Mayals	2148	Townhill	5592
Llandeilo Ferwallt	2743	Fairwood	2278	Y Castell	10312
Ystumllwynarth	3313	Gogledd Cilâ	2031	Uplands	10834
Tre-gŵyr	3978	Dynfant	3494		

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Townhill – 5592, Y Castell – 10312, Uplands - 10834


Wardiau i'w Hepgor: Llwchwr Uchaf – 2146, Cocyd – 10473, Penyrheol – 4621, Llwchwr Isaf – 1795, Pontybrenin – 3506, Gorseinon – 3340

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 76071

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Townhill, Y Castell, Uplands: Gweler yr esboniad ar gyfer Canol a Gogledd Abertawe.

Hepgor Llwchwr Uchaf, Cocyd, Penyrheol, Llwchwr Isaf, Pontybrenin, Gorseinon: Gweler yr esboniad ar gyfer Canol a Gogledd Abertawe.



Enw'r etholaeth

Yn dilyn y newidiadau hyn, ystyriom p'un ai oedd yn briodol defnyddio'r disgrifiydd De Abertawe i adlewyrchu defnydd y Gogledd mewn man arall ond, ar ôl pwysu a mesur, roeddem yn teimlo nad oedd sail ddigonol dros wyro oddi wrth enwau adnabyddadwy presennol, felly cefnogwn fwriad y Comisiwn i ddefnyddio'r enw **"Gorllewin Abertawe a Gŵyr"**.

Torfaen

Yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â'r cynnig hwn.

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef **"Torfaen"**, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Vale of Glamorgan – Bro Morgannwg

Er ein bod yn gyffredinol o blaid cynnig y Comisiwn, mae ein model yn galluogi trosglwyddo ward Dinas Powys i etholaeth Bro Morgannwg, a thrwy hynny, cedwir sedd hanesyddol Bro Morgannwg ar heb ei newid. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Saint y Brid	2732	Llanbedr-y-fro	1855	Baruc	6080
Llandŵ/Ewenni	2362	Y Rhws	5796	Buttrills	4447
Llanilltud Fawr	7939	Gwenfô	2915	Gibbonsdown	3827
Y Bont-faen	5240	Dyfan	4170	Cadoc	7244
Sain Tathan	2765	Illtyd	6242	Y Cwrt	3370
Dinas Powys	6388	Castleland	3442		

Crynodeb o'r Newidiadau


Wardiau i'w Hychwanegu: Dinas Powys – 6388 o etholwyr

Wardiau i'w Hepgor: - dim

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 76,814

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Dinas Powys: Mae newidiadau a nodwyd mewn manau eraill yng Nghaerdydd er mwyn gwneud De Caerdydd yn gwbl gyffiniol ar adeg y penllanw, yn golygu nad oes angen ward Dinas Powys mwyach ar gyfer bodloni'r cwota. Yn unol â hynny, gan ddefnyddio'r egwyddor o gadw ffiniau etholaethau hanesyddol o fewn un sedd newydd, mae'n briodol cadw'r ward o fewn etholaeth Bro Morgannwg.



Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef “**Vale of Glamorgan – Bro Morgannwg**”, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Wrexham - Wreccsam

O ganlyniad i newidiadau ehangach i sedd gyfagos Maldwyn a Glyndŵr, rydym yn trosglwyddo 4 ward o sedd arfaethedig Wreccsam i'r etholaeth honno. Byddai hyn wedyn yn caniatáu trosglwyddo wardiau Mwynglawdd a Brymbo o etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy i'r etholaeth hon, yn unol â'n safbwynt o gyfyngu nifer y cynghorau y byddai'n rhaid i AS ryngweithio â nhw, lle bynnag y bo modd. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n cynnwys y wardiau canlynol.

Yr Orsedd	2643	Erddig	1444	Whitegate	1594
Marford a Hoseley	1824	Offa	1428	Hermitage	1544
Llai	3513	Grosvenor	1698	Smithfield	1376
Dwyrain a Gorllewin		Garden Village	1656	Marchwail	1830
Gresffordd	2337				
Dwyrain a De Gwersyllt	3601	Stansty	1641	Holt	2479
Gogledd Gwersyllt	1995	Parc Borrass	1968	Bronington	2620
Gorllewin Gwersyllt	2263	Acton	2177	Owrtyn	2710
Bryn Cefn	1543	Little Acton	1843	Brymbo	3021
Gwenfro	1217	Rhosnesni	2827	Mwynglawdd	1870
Brychdwn Newydd	2842	Maesydre	1420	Wynnstay	1159
Coedpoeth	3482	Cartrefle	1545	Queensway	1377
Brynyffynnon	2477				

Crynodeb o'r Newidiadau

Wardiau i'w Hychwanegu: Brymbo – 3021, Mwynglawdd – 1870


Wardiau i'w Hepgor: Ponciau – 3521, Pant – 1528, Johnstown – 2461, Esclusham – 2013

Nifer Diwygiedig yr Etholwyr: 70,964

Cyfiawnhad Amlinellol

Ychwanegu Brymbo, Mwynglawdd: Gweler yr esboniad ar gyfer Alun a Glannau Dyfrdwy.

Hepgor Ponciau, Pant, Johnstown ac Esclusham: Gweler yr esboniad ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr.



Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef **“Wrexham - Wrecsam”**, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Ynys Môn

Mae ffiniau'r etholaeth hon wedi'u gwarchod gan statud

Enw'r etholaeth

Cytunwn â dewis y Comisiwn, sef **“Ynys Môn”**, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

Atodiad 1: Cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Etholaethau

Enw'r etholaeth	Nifer yr Etholwyr	Amrywiant o ran Cwota Etholiadol y DU
Alun a Glannau Dyfrdwy	70651	-3.7%
Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn	72745	-0.9%
Pen-y-bont	76623	4.4%
Caerffili	74347	1.3%
De Caerdydd a Phenarth	70394	-4.1%
Gogledd Caerdydd	71612	-2.4%
Gorllewin Caerdydd	75359	2.7%
Canol Caerdydd	75725	3.2%
Sir Gaerfyrddin	71354	-2.8%
Ceredigion a Preseli	76269	3.9%
Aberconwy	69825	-4.9%
Gorllewin Casnewydd ac Islwyn	74345	1.3%
Pontypridd a Chynon Isaf	73416	0.0%
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	76071	3.6%
Dwyfor Meirionnydd	69803	-4.9%
Llanelli	71972	-1.9%
Merthyr Tudful ac Aberdâr	74805	1.9%
Canol a De Sir Benfro	74614	1.7%
Sir Fynwy	72681	-1.0%
Castell-nedd a Gogledd-ddwyrain Abertawe	73705	0.4%
Dwyrain Casnewydd	76159	3.8%
Gogledd Maldwyn a Glyndŵr	71406	-2.7%
Aberafan a De-ddwyrain Abertawe	74821	1.9%
Rhondda ac Ogwr	71630	-2.4%
Gogledd Abertawe	75342	2.7%
Torfaen	70591	-3.8%
Bro Morgannwg	76814	4.7%
Gorllewin Clwyd	75359	2.7%
Wrecsam	70964	-3.3%

BCW-9993/ [REDACTED] / Sir Fynwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 03 Tachwedd 2021 09:39

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau Ffin – Sir Fynwy

Annwyl Feistri.

Ysgrifennaf i gefnogi'r cynigion am etholaeth Seneddol Sir Fynwy sydd â'r un ffiniau â Chyngor Sir Mynwy. Bydd hyn yn cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r sawl sy'n eu cynrychioli gan roi terfyn ar y dryswch sy'n cael ei achosi gan y ffaith bod rhan o'r ffin seneddol yn Nhor-faen a rhan o'r ffin Sirol yn etholaeth Dwyrain Casnewydd.

Cofion.

[REDACTED]

BCW-9994/ [REDACTED] / Castell-newydd Emlyn

Fel preswilydd Ceredigion rwy'n cefnogi etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli gan ei bod yn cynrychioli dosbarthiad teg y boblogaeth i etholaeth

BCW-9995/ [REDACTED] / Castell-newydd Emlyn

Fel preswilydd Ceredigion rwy'n cefnogi etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli.

BCW-9996/ [REDACTED] / Rhondda

Rwy'n 77 mlwydd oed yn ystod fy mywyd rwy wedi gweld sawl newid yn cael eu gwneud i'n siroedd gan uno'n hawdurdodau lleol heb unrhyw ymgynghori â'r etholwyr. Digon rhwch y gorau i ymyrryd â'n treftadaeth drwy newid ein ffiniau'n gyson. Fy nghyfeiriad i yw [REDACTED] Rhondda Morgannwg De Cymru yn gyntaf gwnaethan nhw hollti Morgannwg yn enwau gwahanol yna troi'r Rhondda yn lle di-nod sy'n RCT Digon. Gadewch hi fel y mae collwn ni'n hunaniaeth

BCW-9997/ [REDACTED] / Caerffili

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Castle View, Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yng Nghaerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trên, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf. Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yng Nghaerffili.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw. Rwy'n gobeithio na fydd awgrym y Comisiwn i newid y ffin yn dwyn ffrwyth.

BCW-9998/ [REDACTED] / Aberteifi

Fel preswilydd Ceredigion rwy'n cefnogi etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli.

BCW-9999/ [REDACTED] / Abertawe

I mi mae hyn yn gwbl gywilyddus, rydych chi wedi cadw hyn yn dawel rhag y bobl yn Nwyrain Abertawe yn fwriadol fel ei bod yn gallu cael ei gwthio trwodd heb unrhyw wrthwynebiad. Rwy'n byw yn Abertawe, nid Castell-nedd.

Rwy'n gwrthwynebu achos er bod hyn efallai'n dechrau fel "dim ond am etholiadau seneddol San Steffan" beth sydd i ddweud bod Castell-nedd yn penderfynu gwthio am newidiadu eraill gan gynnwys y dreth gyngor, addysg ac ati. Mae'r penderfyniadau yma'n effeithio ar ddyfodol fy mhlant i ac mae'r goblygiadau ariannol yn arswydus.

Rwy'n gwrthwynebu'n gyfan gwbl!

BCW-10000/ [REDACTED] / Caerffili

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiraf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Castle View, Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yng Nghaerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trên, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf. Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yng Nghaerffili.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw. Rwy'n gobeithio na fydd awgrym y Comisiwn i newid y ffin yn dwyn ffrwyth.

BCW-10001 / [REDACTED] / Hengoed

Fel preswilydd Hengoed, darllenais gynigion cychwynnol y Comisiwn am newid y Ffiniau Etholaethol Seneddol gyda chryn bryder.

Rwyf wedi byw yn Hengoed ers bron i 10 mlynedd. Gallaf ddweud yn ddiffuant yn ystod y cyfnod hwnnw mai mân iawn yw f'ymgysylltiad â Dinas Casnewydd. Ar gyfer gwaith, busnes, siopa gweithgareddau hamdden, â Chaerdydd yn ddieithriad, nid Casnewydd, byddai fy nghyfranogiad tu allan i ardal Caerffili. Ffactor mawr yn hyn fyddai'r cysylltiadau trafnidiaeth, ffyrdd a rheilffyrdd fel ei gilydd. Yn wir, yn achos yr olaf, byddai'n rhaid i mi deithio i mewn i Gaerdydd i fynd i Gasnewydd.

Nid yw'n gwneud unrhyw synwyr o gwbl i wthio mannau fel Hengoed, basn Caerffili, a chymunedau Bedwas, Trethomas a Machen i mewn gyda Chasnewydd. Rwy'n gwneud y sylw hwn yng nghyd-destun y cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol, a daearyddol, gan gynnwys trafnidiaeth, â Chaerdydd, nid Casnewydd, o safbwynt y cymunedau hyn.

Mae cymunedau eraill, sydd o fewn ardal Islwyn ar hyn o bryd, rwy'n gwybod gan ffrindiau sy'n byw yna, sy'n uniaethu'n fwy parod â Chasnewydd na Chaerdydd.

Rwy'n ymwybodol bod gwrth-gynnig wedi cael ei gyflwyno gan Wayne David AS, sy'n cadw integredd y niferoedd ym mhob etholaeth. Wedi edrych ar y gwrth-gynnig yma mae'n amlwg bod hwn yn cymryd i ystyriaeth yn llawer mwy rhesymegol gysylltiadau hanesyddol, diwylliannol, a daearyddol y cymunedau yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerpfili, na chynigion cychwynnol y Comisiwn.

BCW-10002/ [REDACTED] / Prestatyn

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 03 Tachwedd 2021 09:57

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Adolygiad y Comisiwn Ffiniau

Annwyl [REDACTED]

Ysgrifennaf i gadarnhau f'anghytundeb â'r adolygiad o Ffiniau Cymru am y 4 rheswm isod:

- a. Rwy'n byw ym Mhrestatyn, Sir Ddinbych ac yn gyntaf nid wy'n teimlo bod unrhyw angen rhannu Dyffryn Clwyd – daw cryfder o'r llawer ac ers i'r Dyffryn gael ei uno bu llawer o gynnydd i'r rhanbarth. Hefyd mae galw enw cwbl wahanol ar un hanner yn eithaf rhwygol ar adeg mewn hanes pan gredaf yn bersonol fod angen mwy o undod nid mwy o raniad arnon ni o fewn Cymru a'r DU, heb sôn am y ffaith nad oedd Prestatyn a Rhuthun erioed yn hen nosbarth Delyn ac mewn gwirionedd, mae llawer o bobl leol yn dal i gyfeirio at yr ardal fel Clwyd, nid Sir Ddinbych.
- b. Yn ail byddai cynnig y Comisiwn yn torri'r cysylltiadau cryf rhwng trefi ar hyd arfordir y Gogledd lle teimlwn ni i gyd yn rhan o'r arfordir hwnnw, os gyrrwch ar ei hyd fe welwch nad oes llawer, heblaw am farcwyr trefi, yn weladwy i rannu dweder, y Rhyl, Bae Cinnel a Thowyn. Nid yw hynny cyfystyr â dweud nad oes gan ardal ei hunaniaeth ei hun, ond mae bod mor agos efo ffiniau sydd bron yn anweladwy yn golygu bod llawer o wasanaethau lleol yn cael eu rhannu.
- c. I'r gwrthwyneb, mae gwahaniaeth amlwg a gweladwy rhwng de a gorllewin y Fflint a Sir Ddinbych ac ochr y Fflint a Bagillt, sy'n fwy diwydiannol ac yn fy marn i byddai mynd yn ôl i'r hen ffin ym Maes-glas yn gwneud llawer mwy o synwyr.
- d. Nid yw gwahanu Corwen a Llandrillo rhag Rhuthun, fodd bynnag, yn gwneud unrhyw synwyr yn ôl pob golwg. Ydych chi wedi bod? Maen nhw i gyd yn ffurfio rhan brydferth o Sir Ddinbych, dim ond ychydig o filltiroedd oddi wrth ei gilydd, unwaith eto, mae trigolion yn yr ardaloedd yma'n cyfeirio atyn nhw eu hunain fel bod o 'draw fan 'co' ac ar ôl ymweld ag Ysbyty Cymunedol Rhuthun yn ddiweddar rwy'n gallu gweld pam. Mae eu safle wrth galon y Dyffryn yn eu tynnu ynghyd yn naturiol.
- e. Yn yr un modd mae cysylltiadau parhaus rhwng Argoed/Coed-llai/New Brighton a'r Wyddgrug ac eto mae'r cynigion yn eu holli. Maen nhw yn sedd bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy yn barod felly rwy'n methu deall y gwerth / angen i'w rhannu?

Rwy'n deall yr angen i newid ffiniau sydd yno ers cenhedlaeth ond o safbwynt y boblogaeth ei hun mae'r newidiadau i fod o fudd iddyn nhw, mae'n teimlo fod bod y

cysylltiadau rhwng y poblogaethau hynny yn cae eu torri'n ddiangen pan fyddai ateb amgen yn adeiladu ar gryfder ein cysylltiadau cymunedol presennol. Gobeithio y bydd rhywun yn gwrando ar y bobl eu hunain sy'n cael eu heffeithio ac yn ailystyried.

Diolch yn fawr ymlaen llaw.

Cofion cynnes



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Drwy e-bost at:

cffg@ffiniau.cymru

01/01/2021

Annwyl Gomisiynwyr,

Ymateb i ymgynghoriad ar y cynigion cychwynnol ar gyfer Arolwg Seneddol 2023

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion cychwynnol ar gyfer Arolwg Seneddol 2023. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leal Cymru wedi bod yn ymgynghori a ni ynghylch enwau'r wardiau etholiadol dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym wedi cynnig ein hargymhellion ynghyd a nodiadau esboniadol manwl am yr enwau hynny eisoes. Ni fyddwn felly'n rhoi sylw i'r enwau hynny yn y fan hon gan nad yw'n rhan o gylch gorchwyl yr ymgynghoriad hwn. Rhaid nodi, fodd bynnag, nad yw enwau'r wardiau a geir yn y ddogfen ymgynghori o hyd yn cyd-fynd a'r ffurfiau safonol rydym wedi eu hargymhell.

Rhaid nodi hefyd y cynigiwyd ar ddechrau'r broses hon y byddai modd i'r Comisiynydd, yn rhinwedd ei gyfrifoldeb i argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru, a'i arbenigedd yn y maes, gynnig cyngor i chi ar *enwau'r* etholaethau seneddol cyn ichi gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori. Barnwyd gennych nad oedd hynny'n briodol, end wrth edrych ar enwau'r etholaethau seneddol arfaethedig, hoffem dynnu sylw at ambell i enw y byddai hi wedi bod yn fanteisiol i ni eu trafod ymlaen llaw:

Brecon and Radnor (Aberhonddu a Maesyfed)

Ai'r bwriad yw cyfeirio at dref Aberhonddu yma yn hytrach nag at ardal ehangach Brycheiniog? Mae'r cyfuniad *Brycheiniog a Maesyfed* yn un cyfarwydd sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth, wrth gwrs. *Brycheiniog a Sir Faesyfed* sy'n cael ei ddefnyddio yn gyffredin fel enw Cymraeg yr etholaeth bresennol hefyd, er mai'r awgrym yn y ddogfen ymgynghori yw mai dim end un enw Saesneg swyddogol sydd ar yr etholaeth ar hyn o bryd, sef *Brecon and Radnorshire*. Os mai cyfeirio at dref Aberhonddu/Brecon yn hytrach

Comisiynydd y Gymraeg

Welsh Language Commissioner

na'r hen Sir Frycheiniog/Breconshire yw'r bwriad yn yr enw newydd, fodd bynnag, yna mae'r enw yn gywir fel ag y mae yn y Gymraeg.

Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Nader mai *Alun* yw'r ffurf safonol ar gyfer yr enw hwn. Dyma'r ffurf a geir yn y cyfeirlyfr cenedlaethol safonol *Rhestro Enwau L/eoedd* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Er y cydnabyddir bod y ffurf *Alyn* wedi plwyfo byddai'r ymgynghoriad hwn wedi bod yn y gyfle i hyrwyddo defnydd o'r ffurf unigol, *Alun*, a derbyn ymateb cyhoeddus i'r cynnig hwn.

Bridgend (Pen-y-bont)

Dylid nodi mai *Pen-y-bont ar Ogwr* yw ffurf lawn safonol yr anheddiad a dyna'r ffurf y disgwylir ei gweld mewn cyd-destunau swyddogol. Mae'n gymorth hefyd i leoli'r etholaeth, wrth gwrs. A yw'r Comisiwn wedi ystyried mabwysiadu'r ffurf lawn?

Anghysondebau yn y ddogfen ymgynghori

Mae hefyd gwerth tynnu eich sylw at yr anghysondebau sydd yn y ddogfen ymgynghori o ran sut y caiff rhai o'r enwau eu sillafu. Rhaid sicrhau bod *Meirionnydd* yn cael ei sillafu'n gyson a dwy -n- bob tro yn *Dwyfor* a *Meirionnydd*, er enghraifft. Caiff ei sillafu'n gywir telly drwy'r ddogfen i gyd ar wahan i ar dudalen 16, lie mae'n ymddangos y tro cyntaf. Yn yr un modd, mae'r acen gram ar gall yn *Aberdar*, *Glyndwra Gwyrar* dudalen 16, er eu bod yn cael eu sillafu'n gywir yng ngweddill y ddogfen. Rhaid hefyd sicrhau bod *Ynys Mon* yn cael ei sillafu'n gywir bob tro a'r acen gram. Sylwer bod yr acen gram ar gall ar dudalen 15 ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol body Comisiwn yn sicrhau safon a chysodeb yn y materion hyn cyn cyhoeddi'r cynigion terfynol a chyn i'r enwau hyn gael eu rhoi ar y llyfrau statud.

Enwi a Dynodi


Croesawn y datganiad ar dudalen 7 y ddogfen ymgynghori bod y 'Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fed ag enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.' Mae gennym bryder ynghylch y term 'enwau amgen' fodd bynnag, a bod hyn yn rhwystr i wireddu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Dylai fed statws cyfartal i'r enwau yn y ddwy iaith. Nid yw dynodi'r ail ffurf rhwng cromfachau yn awgrymu statws na thriniaeth gyfartal. Nid yw'n eglur ychwaith beth yw meini prawf y Comisiwn dros benderfynu pa iaith ddylai cael blaenoriaeth pan fo dau enw ar etholaeth. Ac nid yw'r polisi hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion safonau'r Gymraeg y mae awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru'n ddarostynedig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i sicrhau nad yw testunau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na thestunau Saesneg ac y dylai testunau Cymraeg ar arwydd gael eu lleoli fel eu bod nhw'n debygol o gael eu darllen yn gyntaf. Byddai eich cynigion cychwynnol chi yn arwain at safon is na'r hyn sydd wedi dod yn ddisgwyliedig gan y cyhoedd yng Nghymru, telly.

Nodwyd ar ddechrau'r ymateb hwn fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi bod yn ymgynghori a ni ar enwau'r wardiau dros y blynyddoedd diwethaf, a dyma gyfle i ni fynegi ein pryder yn fwy cyffredinol ynghylch y broses honno. Er inni ddarparu argymhellion a nodiadau esboniadol manwl gan arbenigwyr ym maes enwau lleoedd, ni chafodd argymhellion y Comisiynydd eu cynrychioli a'u cyfleu yn gywir bob tro yn adroddiadau terfynol y Comisiwn hwnnw i Lywodraeth Cymru. Ni chafodd ein gwrthwynebiad i ambell ffurf ei nodi, ac roedd y geiriad mor amwys mewn rhai manau nes i'r darlennydd dybio ein bod yn cymeradwyo ffurfiau yr oeddem mewn gwirionedd yn eu gwrthwynebu. Mae hwn yn bryder rydym eisoes wedi cael cyfle i'w godi a Shereen Williams a'i thm ac rydym yn mawr obeithio ein bod ni wedi cytuno ar ddatrysiad lie bydd cyfle gennym i adolygu adroddiadau cyn eu cyhoeddi. Buasem yn fwy na pharod i gynnig gwasanaeth ymgynghorol i chithau wrth i chi symud ymlaen i gamau nesaf yr adolygiad er mwyn sicrhau cywirdeb yr adroddiadau terfynol.

Pwysaf arnoch telly i sicrhau cysondeb a safon yn ffurfiau'r enwau yng nghamau nesaf y drafodaeth hon a dyma bwysleisio eto y byddai fy swyddogion yn fwy na pharod i gynnig cefnogaeth bellach i chi yn y maes hwnnw.

Gobeithio y bydd hyn o sylwadau o ddefnydd i chi wrth ichi barhau ag Arolwg Seneddol 2023.

Yn gywir iawn,



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

BCW-10004 / [REDACTED] / Llanbedr Pont Steffan

Os oes rhaid i newidiadau gael eu gwneud, yna mae gan y newidiadau ffin arfaethedig sy'n creu ceredigion- preseli gefnogaeth lawn fy hunan a'm gŵr i fel trigolion am yr 20 mlynedd diwethaf.

BCW-10005 / Plaid Lafur Gorllewin Abertawe (Uplands) /Abertawe

"Ysgrifennaf fel Ysgrifennydd Cangen Uplands o Blaid Lafur Gorllewin Abertawe.

Mae cynnig presennol BCW yn ei hanfod yn torri ôl troed trefol canolog Gorllewin Abertawe yn ei hanner ac yn gosod rhan wledig Gŵyr ar ben un hanner. Mae hyn yn rhannu cymunedau trefol yn yr etholaeth bresennol ac yn hytrach yn uno hanner yr ôl troed trefol ag ardal wledig anghysylltiedig Gŵyr.

Mae etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe yn rhedeg tua'r gorllewin o Afon Tawe gydag yr ôl troed trefol ar hyd yr arfordir sy'n cyrraedd i mewn i'r Gŵyr.

Nod y gwrth-gynnig isod felly yw ailgysylltu cysylltiadau lleol a hwylustod, i adlewyrchu daearyddiaeth a pharchu ffiniau presennol. Yn gryno mae hyn yn cynnwys:-

1. Cadw'r pedwar ward yn sedd wreiddiol Gŵyr – Pontarddulais (4,954), Mawr (1,438), Llangyfelach (3,946) a Phen-llle'r-gaer (2,553), sy'n cynnwys 12891 o etholwyr - o fewn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn hytrach na'u symud i mewn i Abertawe Ganolog a Gogledd
2. Symud dau ward a oedd yn wreiddiol yn etholaeth Gorllewin Abertawe - Sgeti (11,304) a Mayals (2,148) sy'n cynnwys 13452 o etholwyr - i ailymuno ag Uplands yn Abertawe Ganolog a Gogledd
3. Symud Treforys (12,105) o Abertawe Ganolog a Gogledd i mewn i Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn gyfnewid am Fôn-y-maen (5391) a St.Thomas (5514).
4. Byddai hyn yn rhoi 74653 o etholwyr (75214 – 13452 o Sgeti/Mayals + 12891 o Pontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phen-llle'r-gaer) i etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr
5. A byddai gan yr Abertawe Ganolog a Gogledd newydd 75,560 o etholwyr (76199 - 13452 +1289 -12,105 + 5391+5514)

Byddai gan hyn y goblygiadau canlynol am y ffactorau statudol a gaiff eu hystyried:-

Ystyriaethau daearyddol arbennig

Yn wahanol i gynnig presennol BCW, nid yw'r gwrth-gynnig yn cymryd rhan wledig etholaeth wledig sefydledig Gŵyr ac yn ei rhoi ar ben ardal drefol; nid yw ychwaith yn torri i ffwrdd rhan o etholaeth drefol sefydledig Gorllewin Abertawe ac yn ei gosod mewn ardal wledig gyda llinell wahanu sy'n torri trwy yr ôl troed trefol parhaus mewn ffordd y byddai'n anodd i bobl leol ei deall.

Mae'r arfordir ac Afon Tawe yn ffiniau naturiol i etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. I'r gorllewin o Afon Tawe, mae wardiau'r Castell, Uplands, Sgeti a Mayals yn rhedeg yn ddi-dor i mewn i'w gilydd ac yn ddaearyddol gyffiniol ar hyd yr arfordir. Gan hynny, dylent aros yn gysylltiedig â'i gilydd o fewn yr un etholaeth. Byddai ychwanegu St.Thomas a Bôn-y-maen yn parhau'r blaen arfordirol i'r dwyrain o Afon Tawe.

Ffiniau presennol

Mae'r gwrth-gynnig felly yn parchu ffiniau presennol a sefydledig etholaethau Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn fwy drwy adfer wardiau sydd wedi'u cyfnewid rhygddynt. Mae pob ward yn dod o fewn awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe.

Cysylltiadau lleol

Mae Mayals yn y bôn yn rhan o Sgeti ac mae Sgeti yn integredig yn agos ag Uplands a'r Castell ar gyfer gwaith, hamdden, siopa a llwybrau a chysylltiadau trafniadaeth.

Mae campws Prifysgol Abertawe yn Sgeti ac mae ei boblogaeth myfyrwyr yn byw yn wardiau Uplands a'r Castell. Mae myfyrwyr, felly, a chymunedau eraill yn croesi ffin Sgeti/Uplands bob dydd am waith, astudio, hamdden ac addoli.

Mae poblogaeth Fwsmelaidd Abertawe wedi'i chrynhai yng Ngorllewin Abertawe, yn bennaf yn Sgeti, Uplands a'r Castell, felly mae addolwyr Mosg Abertawe yn cael eu cynrychioli'n bennaf gan un AS. Yn yr un modd, mae cynulleidfaoedd eglwysï'n mudo'n rhwydd ar draws Uplands a Sgeti.

Felly, gallai gwahanu Sgeti rhag Uplands a'r Castell beri dryswch a thanseilio cysylltiadau lleol ar draws cymunedau sefydledig.

Yn yr un modd, mae cymunedau i mewn o Bontarddulais, Mawr, Llangyfelach a Phen-lle'r-gaer, sydd yng Ngŵyr ar hyn o bryd, yn wledig ac yn lled-wledig, a ddim yn ystyried eu hunain yn rhan o'r canol dinas trefol o ran hunaniaeth gymunedol ond yn gallu edrych tuag at Lanelli, Castell-nedd a Gŵyr.

Anghyfleustod

Mae'n dilyn o'r uchod y byddai cynnig BCW heb ei ddiwygio yn creu anghyfleustod osgoadwy drwy hollti cymunedau myfyrwyr, Mwslemaidd a chymunedau eraill.

Byddai anghyfleustod yn codi o dorri ardal drefol mewn un etholaeth yn ddwy yn ddiangen, a gosod hanner mewn etholaeth wledig a chysylltu'r hanner arall gyda wardiau gwledig sydd wedi'i gwahanu o'r etholaeth wledig honno.

Felly, mae'r gwrth-gynnig hwn yn well o ran cyfleustod.

Cefnogaeth leol am ddewis amgen

Bydd y gwrth-gynnig yn denu cefnogaeth helaethach gan gymunedau a grwpiau ffydd, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chanol y ddinas a busnesau, cymuned y brifysgol, a llawn cymaint gan gymunedau gwledig nad ydynt yn ystyried eu hunain yn gysylltiedig yn agos â'r ddinas.

Ystod Etholwyr Statudol

Nifer etholwyr yr etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr y gwrth-gynnig fyddai 74,653 ac yn etholaeth Abertawe Ganolog a Gogledd, 75,560, a fyddai ill dau o fewn ystod BCW o 69,724- 77,062.

I gloi, mae'r gwrth-gynnig hwn yn cynnal integredd cymunedol a daearyddol yn fwy effeithiol ar yr un pryd â pharchu ffiniau presennol, felly rwyf yn ei gymeradwyo i

Gomisiwn Ffiniau Cymru.



Ysgrifennydd Cangen Uplands o Blaid Lafur Gorllewin Abertawe

BCW-10006 / [REDACTED] / Llangyndeyrn

From: [REDACTED]

Sent: 03 November 2021 10:23

To: BCW <bcw@boundaries.wales>

Subject: Etholaeth Dinefwr a Dwyrain Caerfyrddin

Mae Cyngor Cymuned Llangyndeyrn yn gwrthwynebu'r cynnig i symud Ward Etholiadol Llangyndeyrn i Etholaeth newydd Llanelli.

mae'r Cyngor o'r farn cryf eu bod yn Gymuned gwledig ac felly byddai yn fwy pwrpasol symud Cymuned Llangyndeyrn i Etholaeth Caerfyrddin.

Ar ran y Cyngor,

[REDACTED]
Clerc Cyngor Cymuned Llangyndeyrn

BCW-10007/ [REDACTED] / Gwaunysgor

Adolygiad o Ffiniau Etholaethau Seneddol y DU

Sylwadau

Cefndir: Rydyn ni'n byw yng Ngwaunysgor ar y ffin rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych, o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eththriadol ac yn falch o Fryniau Clwyd y cyffiniau.

Cefnogaeth: Cefnogwn gynnwys Prestatyn, Alltmelid a Dyserth yn y Cynnig am Etholaeth Delyn, gan Prestatyn yw ein hardal siopa leol a'n cysylltiad rheilffordd. Aeth ein plant i'r ysgol yn yr ardaloedd hyn ac mae ganddyn nhw gysylltiadau cryf yno hefyd (yn wir roedd yn broblem pan ddwedwyd wrthyn ni am aros o fewn ein sir yn ystod y cyfnod clo, ond yna enillodd synwyr cyffredin y dydd)

Amau'r newidiadau hyn: Rydyn ni'n sylwi y byddai Rhuthun yn cael ei gwahanu rhag Llanfair Dyffryn Clwyd, Corwen a Llandrillo, ond fel aelod o U3A Rhuthun rwy'n gwybod bod perthynas naturiol o fewn yr ardal yma â'r trefi/ardaloedd hyn gan gynnwys cysylltiadau ffordd ac y byddai'n ymddangos yn resyn torri'r cysylltiadau naturiol hyn yn unol â'r cynnig.

Awgrym: Yn olaf hoffen ni roi sylwadau ar yr enw 'Delyn', gan y bydd y rhan helaethaf o'r etholaeth arfaethedig ym Mryniau Clwyd neu o fewn eu golwg, byddai'n briodol y dylai'r enw adlewyrchu hyn.

Diolch yn fawr,

[REDACTED]

BCW-10008/ [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n gwrthwynebu i'r cynnig newydd ar hyn o bryd, gan fod trigolion fel fi heb gael eu hysbysu am oblygiadau'r cyffryw newid. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi cael ei dosbarthu, a dim ond ychydig o funudau'n ôl y ces i wybod am hyn. Mae'n RHAIID i newidiadau o'r fath a allai effeithio ar gyfleusteru, cyllid, dalgylchoedd ysgol ac ati trigolion lleol gael eu seilio ar ymgynghori â thrigolion yr ardaloed perthnasol. Edrychaf ymlaen at eich ymateb ac yn llawn disgwyl derbyn gwybodaeth o sylwedd am sut y bydd y newid hwn yn effeithio arnon ni'r trigolion.

BCW-10009/ [REDACTED] / Pontrhydfendigaid

Mae'r ardal sydd wedi'i marcio nawr yn ymdangos yn rhesymegol ac yn cynrychioli nifer teg o etholwyr.

BCW-10010/ [REDACTED] / Abergele

Rwy'n deall bod y newidiadau hyn yn ofynnol, ond fel preswilydd Gogledd Cymru (wedi fy ngeni a'm magu yng Nghymru), nid wy'n teimlo bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu dosbarthu'n deg ar draws Cymru.

Wrth graffu ar y map, mae'n ymddangos bod ardaloedd mawr iawn yn y gogledd a'r Canolbarth a gaiff eu cynrychioli gan un AS. Fodd bynnag yn ne Cymru, fel ag arfer, mae mwy o ASau. Rwy'n gwerthfawrogi y byddwch chi wedi gweithio hyn allan gan ddefnyddio ffigurau poblogaeth i lywio eich cynnig, ond dyma enghraifft arall eto pan fo'r de yn derbyn triniaeth fwy ffafriol. Mae'n edrych fel tuedd barhaus bod y gogledd a'r canolbarth yn cael eu cynrychioli llawer llai yn Llywodraeth Cymru ac yn senedd y DU.

Fel aelod o'r cyhoedd a gweithiwr y GIG, mae ANGEN cynrychiolaeth deg arnon ni yng ngogledd Cymru, nid yn unig i amddiffyn ein hasedau gwerthfawr wrth fynd i mewn i flynyddoedd ansicr o'n blaen, ond hefyd i ddiogelu gwasanaethau at y dyfodol a sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn bodloni anghenion cymuned y gogledd. Yn llawer rhy aml mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn y de nad ydyn nhw'n cynrychioli anghenion y gogledd.

BCW-10011/ [REDACTED] / Llandysul

Rwy'n credu bod y cynigion yn dderbyniol ac y byddan nhw'n lleihau'r niferoedd yn y cynulliad.

BCW-10012/ [REDACTED] / Aberystwyth

Mae'r newidiadau ffin arfaethedig yn rhoi golwg mwy cytbwys o'r bobl sy'n byw yng Nghymru ac yn fwy cynrychioliadol na beth sydd gennyn ni nawr.

BCW-10013/ [REDACTED] / Castell-newydd Emlyn

Fel preswilydd Ceredigion rwy'n cefnogi etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli.

BCW-10014/ [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn.

BCW-10015/ [REDACTED] Cyngor Cymuned Llangynnwr / Llangynnwr

Cafodd y newid arfaethedig i ffiniau etholiadol ei drafod yng nghyfarfod llawn diweddar ein cyngor, ac mae'r Cynghorwyr wedi fy nghyfarwyddo i ysgrifennu atoch mewn termau cryf i wrthwynebu'r newid hwn.

O dan y cynigion byddai ein Cyngor Cymuned yn dod yn rhan o etholaeth newydd Llanelli, tra rydym ni ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr.

Gan ein bod yn ffinio tref Caerfyrddin nid yw'n gwneud unrhyw synwyr i ni gael ein cynnwys fel rhan o Lanelli pan fo tref weinyddol Llanelli tua 17 filltir i ffwrdd, ac mae Caerfyrddin yn llythrennol drws nesaf i ni.

Rydym ni'n agored i'r awgrym petai unrhyw Gynghorau Cymuned eraill sy'n gyffiniol â ffin newydd Llanelli sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd ond nawr am gael eu cynnwys ac yn hapus i gyfnewid gyda Llangynnwr yna byddai hynny'n iawn.

Fel mae'n sefyll rydym ni'n gwrthwynebu'r bwriad i newid ffiniau etholiadol, a byddem ni'n gofyn i hyn gael ei gofnodi'n briodol.

[REDACTED]

Clerk/Clerk

Cyngor Cymuned Llangynnwr.

BCW-10016/ [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n gwrthwynebu'r newidiadau, sy'n gwneud Llansamlet yn rhan o Gastell-nedd at ddibenion etholaethol.

Mae Llansamlet yn rhan o Abertawe a dylai pob etholiad arall gyd-fynd ag etholiadau cenedlaethol.

Maen nhw'n ardaloedd gwahanol sy'n golygu na fydd gen i lais bellach mewn pwy allaf i ei bleidleisio i fod fy AS lleol. Ni fyddai gan yr ASau yng Nghastell-nedd ddiddordeb yn ardal Abertawe.

BCW-10017/ [REDACTED] / Aberystwyth

Fel preswylydd Ceredigion rwy'n cefnogi etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli.

BCW-10018 / Gareth Davies AS / Dyffryn Clwyd

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

Caerdydd

CF24 0BL

Trwy e-bost at:- bcw@boundaries.wales

3 Tachwedd 2021

Annwyl Syr/Madam,

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am ymgymryd â'r gwaith o arolygu Ffiniau Etholaethau Seneddol y DU yng Nghymru, a deallaf fod angen llawer o waith manwl ar gyfer hyn, felly derbyniwch fy nioch i'ch gweithlu.

Rwyf wedi bod yn falch i gynrychioli etholaeth Dyffryn Clwyd yn Senedd Cymru ers mis Mai eleni, ac wedi bod â diddordeb allweddol yn natblygiad y newidiadau arfaethedig i Ffiniau Seneddol y DU a'r effeithiau y mae'r rhain yn eu cael ar fy ardal i'n benodol. Teimlaf rywfaint o dristwch o weld fy etholaeth yn cael ei diddymu ar lefel Senedd y DU, gan fy mod yn ystyried Dyffryn Clwyd fel fy nghartref, a balchder a braint yw cynrychioli'r ardal, ond hefyd deallaf natur Ffiniau Seneddol ac etholaethau, sydd bob amser yn destun arolygu.

Prif ddiben y llythyr yn rhinwedd fy swydd fel Aelod o Senedd Cymru yw rhoi gwybod i chi fy mod yn cymeradwyo ac yn cefnogi'r sylwadau a wnaed gan Aelod Seneddol Dyffryn Clwyd, Dr James Davies, yn ei lythyr atoch chi (sydd ynghlwm), a byddwn yn ddiolchgar pe gallwch ystyried y sylwadau a wnaed gan Dr Davies gan wybod eu bod yn cael cefnogaeth lawn o safbwynt fy swyddfa innau, a hoffwn eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion terfynol, gan eu bod yn gynrychiolaeth deg o ddaearyddiaeth, hanes a demograffeg ein hardal.

Yr eiddoch yn gywir,

Gareth Davies AS Dyffryn Clwyd

Cc Dr James Davies AS

BCW-10019/ [REDACTED] Cymdeithas Ceidwadwyr Ceredigion / Aberystwyth

Mae Cymdeithas Ceidwadwyr Ceredigion wedi adolygu'r newidiadau arfaethedig i'n hetholaeth yn ofalus, sef iddi ddod yn Geredigion Preseli.

Er ein bod yn cydnabod y daw'r etholaeth yn fawr yn ddaearyddol, gwelwn y cynigion fel yr ateb mwyaf ymarferol i'r gofyniad angenrheidiol i ail-lunio ffiniau etholaethol.

Cydnabyddwn yn anghenraid am hyn er mwyn i'n proses ddemocrataidd gael ei gweld fel bod yn deg i bawb.

Wrth ddod i'r casgliad hwn rydym wedi ystyried effeithiau atebion amgen ar etholaethau cyffiniol, ac wedi ceisio mabwysiadu ymagwedd "Gorllewin Cymru".

Bydd gan atebion sydd efallai'n fwy "cyfleus" i Geredigion, effaith andwyol ar etholaethau cyffiniol.

At ei gilydd, mae Cymdeithas Ceidwadwyr Ceredigion yn cefnogi'r cynnig am ffiniau etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli yn gryf.



Comisiwn Ffiniau i Gymru

Cyf: Etholaeth Seneddol Bro Morgannwg

Annwyl Gomisiynwyr

Rwyf yn ysgrifennu i wrthwynebu'n gryf iawn y cynigion i symud Ward Dinas Powys o Etholaeth Seneddol bresennol Bro Morgannwg i Etholaeth Seneddol De Caerdydd a Phenarth.

Rwyf wedi gwasanaethu fel cynrychiolydd etholedig ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a'i ragflaenydd Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg o fis Mai 1979 nes i mi ymddeol ym mis Mai 2017. Yn y cyfnod hwnnw, rwyf wedi gwasanaethu fel Arweinydd, Maer ac wedi cadeirio llawer o bwyllgorau. Bu i mi wasanaethau ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chadeirio Bwrdd Uned Ddata y Llywodraeth Leol.

Rwyf yn gyfarwydd iawn â'r trefi a'r pentrefi sy'n rhan o gymunedau clos Bro Morgannwg ac yn wir rwyf yn ategu bod Dinas Powys yn rhan annatod o'r gymuned honno yn y Fro. Ymhell cyn i Gaerdydd ddod yn Brifddinas neu hyd yn oed yn borthladd mawr fel rhan o'r chwyldro diwydiannol cafodd Dinas Powys yr anrhydedd o gael ei gynnwys yn is-adran wleidyddol Gymreig yr oesoedd canol o'r enw y Cantref Brenhiniol (Royal Hundred).

Mae ganddo holl nodweddion pentref gwledig sydd wedi tyfu o'r Fryngaer gynnar a chastell Normanaidd ac sy'n gallu ymffrostio mewn nodweddion fel sgwâr pentref, neuaddau pentref a chomin. Felly, mae cymuned o ddiddordeb Dinas Powys yn rhan allweddol o Etholaeth Bro Morgannwg.


Yn y Canllaw i Adolygiadau 2023 a gyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2021 nodir "Rhaid i bob etholaeth arfaethedig gynnwys rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr yn seiliedig ar ffigurau'r etholwyr a ddarparwyd gan yr ONSA ar 5 Ionawr 2021". Yn ôl y ffigurau a gyhoeddwyd ar eich gwefan ar gyfer "Etholaethau Presennol" y rhif a ddangosir ar gyfer y Fro yw 76,811 sy'n golygu ei fod yn cydymffurfio â'ch meini prawf eich hun. Cynigiaf felly nad oes cyfiawnhad nac angen newid.

Gall Dinas Powys hawlio cysylltiad hir â Bro Morgannwg, cymunedau ardal Cyngor Bro Morgannwg gan gynnwys un o'i hawdurdodau blaenorol, Cyngor Dosbarth Gwledig Caerdydd sy'n dyddio'n ôl i 1862. Roedd Ardal Wledig Caerdydd yn cael ei hadnabod i ddechrau fel Cyngor Dosbarth Gwledig Llandaf a Dinas Powys yn benodol ar gyfer yr ardaloedd y tu allan i'r hyn a oedd bryd hynny'n Fwrdeistref Caerdydd.


Yn olaf, mae'n amlwg nad oes gan Ddinas Powys ddim byd yn gyffredin ag ardaloedd trefol dwysedd uchel Butetown, Grangetown, Sblot a Trowbridge sy'n rhan fawr o gadarnle diwydiannol a doc Prifddinas Cymru.

Rwy'n argymhell bod Dinas Powys yn parhau i fod yn rhan annatod o Etholaeth Seneddol Bro Morgannwg a body bobl yn parhau i fwynhau'r berthynas agos a chymunedau'r Fro maen nhw wedi'u mwynhau ers dros ganrif a hanner.

Yn gywir,



Cyflwyniad Plaid Cymru i Gomisiwn Ffiniau Cymru yn dilyn cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol Mis Tachwedd 2021



Plaid Cymru
Party of Wales

Rhagair

Ar y cychwyn hoffai Plaid Cymru ailadrodd ein gwrthwynebiad i'r gostyngiad yn nifer yr Aelodau Senedd San Steffan sy'n cael eu dychwelyd o Gymru. Mae'r newid yng ngweddill nifer yr ASau a ddychwelwyd o Loegr a'r rhai o Gymru yn arwydd o'r ffordd y mae Cymru'n cael ei thrin. Dylai unrhyw ostyngiad ddod gydag ailasesiad cyfatebol o'r setliad Datganoli; yn anffodus ar yr un pryd ag y mae Cymru yn gweld nifer ei ASau yn lleihau, rydym yn gweld Llywodraeth yn San Steffan sy'n cymryd pŵer oddi wrth Senedd Cymru.

Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn Ffiniau bŵer dros y cyd-destun gwleidyddol ehangach ac mae ei gylch gwaith wedi'i nodi'n benodol iawn gan ddeddfwriaeth. Yng ngoleuni hyn, dylid llongyfarch y Comisiwn ar lunio set o gynigion cydlynol o dan amodau heriol. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ASau o reidrwydd yn golygu ail-lunio'r map yn sylweddol, ac mae'r ystod dynn o etholwyr a ganiateir bob ochr i'r cyfartaledd yn golygu ei bod yn dasg anorfod i ffurfio etholaethau nad ydynt yn torri ar draws hanesyddol ffiniau a chysylltiadau lleol.


Hoffem gynnig rhai diwygiadau i gynigion y Comisiwn. Ar gyfer nifer o etholaethau, mae'r rhain yn fach iawn, ond mewn eraill rydym yn cynnig trefniadau amgen. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cynigion cychwynnol yn ymuno â phoblogaethau trefol mwy gyda darnau llai o gefnwlad mwy gwledig. Er y gallai fod rhesymeg i'r trefniant hwn o ran cymudo, mae risg y gall poblogaethau mewn ardaloedd gwledig neu ddyffrynnoedd deimlo eu bod wedi'u difreinio rhywfaint trwy gael pŵer pleidleisio poblogaethau mwy trefol yn drech na'u hunaniaethau diwylliannol unigryw. Mewn rhai achosion mae'n ymddangos i ni fod trefniadau amgen a fyddai'n caniatáu uno ardaloedd sy'n debyg yn ddiwylliannol mewn etholaethau sengl, yn hytrach na'u rhannu rhwng seddi sydd wedi'u hangori mewn cytref fawr.

Nodwn fod y cynnydd ym maint etholaeth yn San Steffan yn ei gwneud hi'n anoddach fyth ffitio etholaethau y tu mewn i ardaloedd Awdurdod Lleol.

Cymru²¹¹

Lliwiau sy'n dangos ffiniau arfaethedig.

Enw	Etholwyr
1 – Castell Nedd & Aberafan	70013
2 - Menai	72319
3 - Alun a Glannau Dyfrdwy	76157
4 - Sirhowy	72380
5 – Y Fenni, Brycheiniog a Maesfed	73828
6 - Penybont	76446
7 - Caerfyrddin & Dinefwr	70272
8 – Canol & Dwyrain Caerdydd	75148
9 – Gogledd Caerdydd	72562
10 – Y Barri & De Caerdydd	76876
11 – Gorllewin Caerdydd	75879
12 - Ceredigion Preseli	74063
13 - Llandudno & Colwyn	73751
14 - Delyn	75725
15 - Meirionnydd, Nant Conwy & Dinbych	69848
16 - Caerffili	71422
17 - Llanelli	72306
18 - Aberdar & Merthyr Tudful	73193
19 - Canol & De Sir Benfro	76820
20 - Mynwy & Cwmbran	72742
21 - Maldwyn & Glyndwr	72943
22 – Dwyrain Casnewydd	71066
23 – Gorllewin Casnewydd	71548
24 - Pontypridd	70798
25 - Rhondda	71684
26 – Dwyrain Abertawe	74486
27 - Lliw & Tawe	71937
28 – Gorllewin Abertawe & Gwyr	70640
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	72115
30 - Porthcawl & Bro Morgannwg	75610
31 - Wrecsam	75685



Y De Ddwyrain

- Mynwy a Chwibrân. Mae etholaeth bresennol Mynwy, sy'n bodoli ers 1997, yn cynnwys pedair ward o ardal Cwmbran. Byddai ein cynnig yn uno ardal Cwmbrân yn y sedd sengl hon, wrth golli tiriogaeth yn y Fenni a Severnside.
- Llys Casnewydd. Mae ein hetholaeth arfaethedig yn uno hanner dwyreiniol Casnewydd a'i gefnwlad naturiol yn ardal Severnside
- Llys Casnewydd. Mae ein hetholaeth arfaethedig yn uno gorllewin Casnewydd ag ardal Risca sydd â chysylltiadau cryfach â Chasnewydd na chymunedau ardal Caerffili, sy'n fwy fel 'cymoedd' eu naws, ac sydd ym Morgannwg hanesyddol yn hytrach na Gwent.
- Blaenau Gwent a Phontypwl. Mae hanes a chysylltiadau diwylliannol a rennir yn uno ardaloedd y Cymoedd hyn.
- Sirhowy. Yn cynnwys y Coed Duon a'r gefnwlad yn edrych i'r gogledd i Dredegar.



Y De Ddwyrain

Yn cynnwys Siroedd Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent a rhan o Gaerffili.

-  Sirhowy
-  Blaenau Gwent & Pontypwl
-  Mynwy & Cwmbran
-  Gorllewin Casnewydd
-  Dwyrain Casnewydd
-  Ffiniau Ward
-  Ffiniau Awdurdod Lleol

Enw Etholaeth	enw ward	Etholwyr
4 - Sirhowy	Georgetown	3091
4 - Sirhowy	Sirhowy	4210
4 - Sirhowy	Tredegar Central and West	4027
4 - Sirhowy	Gilfach	1534
4 - Sirhowy	Bargoed	4431
4 - Sirhowy	Aberbargoed	2706
4 - Sirhowy	New Tredegar	3357
4 - Sirhowy	Darren Valley	1870
4 - Sirhowy	Twyn Carno	1721
4 - Sirhowy	Pontlottyn	1432
4 - Sirhowy	Moriah	3128
4 - Sirhowy	Argoed	2035
4 - Sirhowy	Crumlin	4332
4 - Sirhowy	Newbridge	4892
4 - Sirhowy	Abercarn	4139
4 - Sirhowy	Ynysddu	2978
4 - Sirhowy	Pontllanfraith	6343
4 - Sirhowy	Blackwood	6330
4 - Sirhowy	Penmaen	4219
4 - Sirhowy	Cefn Fforest	2845
4 - Sirhowy	Pengam	2760
4 - Sirhowy Cyfanswm		72380

Enw Etholaeth	enw ward	Etholwyr
20 - Mynwy & Cwmbran	Llantilio Crossenny	1527
20 - Mynwy & Cwmbran	Devauden	1228
20 - Mynwy & Cwmbran	Dixton with Osbaston	1968
20 - Mynwy & Cwmbran	Drybridge	3034
20 - Mynwy & Cwmbran	Goetre Fawr	2045
20 - Mynwy & Cwmbran	Larkfield	1484
20 - Mynwy & Cwmbran	Llanbadoc	1099
20 - Mynwy & Cwmbran	Llangybi Fawr	1477
20 - Mynwy & Cwmbran	Mitchel Troy	985
20 - Mynwy & Cwmbran	Overmonnow	1662
20 - Mynwy & Cwmbran	Raglan	1618
20 - Mynwy & Cwmbran	St. Arvans	1304
20 - Mynwy & Cwmbran	St. Christopher's	1756
20 - Mynwy & Cwmbran	St. Kingsmark	2346
20 - Mynwy & Cwmbran	St. Mary's	1539
20 - Mynwy & Cwmbran	Thornwell	1961
20 - Mynwy & Cwmbran	Trellech United	2249
20 - Mynwy & Cwmbran	Usk	1930
20 - Mynwy & Cwmbran	Wyesham	1701
20 - Mynwy & Cwmbran	Llanover	1781
20 - Mynwy & Cwmbran	Two Locks	4715
20 - Mynwy & Cwmbran	Coed Eva	1859
20 - Mynwy & Cwmbran	Fairwater	3918
20 - Mynwy & Cwmbran	Greenmeadow	2028
20 - Mynwy & Cwmbran	Upper Cwmbran	4207
20 - Mynwy & Cwmbran	Pontnewydd	5186
20 - Mynwy & Cwmbran	Croesyceiliog North	2745
20 - Mynwy & Cwmbran	Croesyceiliog South	1460
20 - Mynwy & Cwmbran	Llanyrafon East and Ponthir	1803
20 - Mynwy & Cwmbran	Llanyrafon West	1946
20 - Mynwy & Cwmbran	Llantarnam	4864
20 - Mynwy & Cwmbran	St Dials	3317
20 - Mynwy & Cwmbran Cyfanswm		72742

Enw Etholaeth ²⁴⁵	enw ward	Etholwyr
22 - Dwyrain Casnewydd	Langstone	3878
22 - Dwyrain Casnewydd	Llanwern	3544
22 - Dwyrain Casnewydd	Caerleon	6603
22 - Dwyrain Casnewydd	Liswerry	9110
22 - Dwyrain Casnewydd	Victoria	5121
22 - Dwyrain Casnewydd	St. Julians	6287
22 - Dwyrain Casnewydd	Beechwood	5611
22 - Dwyrain Casnewydd	Alway	5931
22 - Dwyrain Casnewydd	Ringland	5968
22 - Dwyrain Casnewydd	Caerwent	1699
22 - Dwyrain Casnewydd	Portskewett	1885
22 - Dwyrain Casnewydd	Shirenewton	1850
22 - Dwyrain Casnewydd	Caldicot Castle	1768
22 - Dwyrain Casnewydd	Green Lane	1482
22 - Dwyrain Casnewydd	Severn	1325
22 - Dwyrain Casnewydd	West End	1456
22 - Dwyrain Casnewydd	Dewstow	1404
22 - Dwyrain Casnewydd	Rogiet	1365
22 - Dwyrain Casnewydd	The Elms	2523
22 - Dwyrain Casnewydd	Mill	2256
22 - Dwyrain Casnewydd Cyfanswm		71066
23 - Gorllewin Casnewydd	Marshfield	4897
23 - Gorllewin Casnewydd	Tredegar Park	3329
23 - Gorllewin Casnewydd	Gaer	6543
23 - Gorllewin Casnewydd	Allt-yr-yn	7088
23 - Gorllewin Casnewydd	Rogerstone	9421
23 - Gorllewin Casnewydd	Graig	5053
23 - Gorllewin Casnewydd	Bettws	5656
23 - Gorllewin Casnewydd	Pillgwenlly	5174
23 - Gorllewin Casnewydd	Stow Hill	3384
23 - Gorllewin Casnewydd	Shaftesbury	3778
23 - Gorllewin Casnewydd	Malpas	6114
23 - Gorllewin Casnewydd	Risca East	4611
23 - Gorllewin Casnewydd	Risca West	3973
23 - Gorllewin Casnewydd	Crosskeys	2527
23 - Gorllewin Casnewydd Cyfanswm		71548

Enw Etholaeth	enw ward	Etholwyr
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Blaenavon	4575
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Pontnewynydd	1129
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Abersychan	5044
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Snatchwood	1819
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Trevethin	2463
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	New Inn	4777
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Cwmyniscoy	987
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Wainfelin	1847
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Pontypwl	1438
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Brynwern	1295
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	St. Cadocs and Penygarn	1341
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Panteg	5828
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Rassau	2463
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Beaufort	2717
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Brynmaur	4028
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Nantyglo	3350
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Badminton	2452
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Ebbw Vale North	3268
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Ebbw Vale South	2959
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Cwm	3254
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Blaina	3497
29 - Blaenau Gwent & Pontypwl	Cwmtillery	3383
'Dwyrain Clwyd a Delyn' pe bai 'Clwyd' yn aros fel y cynigir er mwyn osgoi dryswch gyda sedd bresennol y Senedd 'Gorllewin Clwyd'.

Awgrymir newid enw 'Alun a Glannau Dyfrdwy' i 'Alun a Dyfrdwy' neu 'Alun a Fflint / Sir y Fflint' gan y byddai'r cyfan yn cael ei gynnwys o dan Awdurdod Sir y Fflint ond nid cael gwared ar yr 'Alun' yn llwyr gan fod rhywfaint yn aros yn Delyn. Newid i wahaniaethu o enw'r Senedd os nad yw'r rhain yn bwriadu dilyn llinellau Seneddol y DU (mae hyn yn cyd-fynd â'm hawgrym i ddilyn lleoliad y Fflint yn A a D). Efallai y byddai newid enw ar gyfer Aberconwy yn cael ei ystyried am yr un rheswm o osgoi dryswch.

Ffiniau

Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi'r newidiadau i 'Clwyd' (mae gan y Rhyl gysylltiadau cryf â threfi arfordirol Tywyn a Bae Cinmel, sy'n gysylltiedig â masnach twristiaeth) 'Delyn'(Cysylltiadau cryf rhwng Prestatyn a

Gronant/Gwaenysgor/Talacre/Llanasa/Trelawnyd gan fod Prestatyn yn ganolbwynt ar gyfer siopa, meddygfeydd, amwynderau) ac 'Alun a Glannau Dyfrdwy' ac eithrio'r sylwadau isod;

Dylid gadael Alun a Glannau Dyfrdwy gyda wardiau o fewn ALI Sir y Fflint.

Nid oes cysylltiadau cryf rhwng y Fflint/Bagillt diwydiannol ac ardal orllewinol fwy gwledig Sir y Fflint/ ardaloedd Sir Ddinbych fel sydd wedi'i gynnig. Ar y ffin â pharth diwydiannol Glannau Dyfrdwy, mae gan yr ardal hon gysylltiadau cryfach ag 'A a D' ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau.

Gadael Argoed, Leesward a New Brighton o fewn 'Delyn' oherwydd eu cysylltiadau agos â'r Wyddgrug a chydbwyso'r newid hwn yn y niferoedd.

Dylid cadw Corwen a Llandrillo a Llanfair DC ochr yn ochr â Rhuthun a'u symud i 'Delyn' ac mae hyn yn cadw'r ardaloedd hyn yn Sir Ddinbych ynghyd â'u canolbwynt naturiol yn Rhuthun sydd â'r brif archfarchnad ac amwynderau.

*Rhannu 'Bae Colwyn' - mae gan ward Llandrillo-yn-Rhos a Rhos on Sea gysylltiadau cryf â Bae Colwyn a'r cyffiniau, dylid ystyried torri'r cysylltiadau hyn yn ofalus.

Cofion gorau,

[REDACTED]
Bodelwyddan
[REDACTED]

Rwyf wedi dadlau'n gyson, â chefnogaeth etholwyr lleol, mewn arolygon ffiniau diweddar, ei bod yn ddymunol cadw sedd seneddol i'r gorllewin o Afon Taf, gan adlewyrchu'r cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth yng ngorllewin Caerdydd.

Mae'r Comisiwn, yn ei gynigion, wedi cefnogi'r dull hwnnw yn ei gynigion diweddaraf, mewn ffurfiau ychydig yn wahanol. Mae'r cynnig drafft diweddaraf yn dychwelyd at ddull blaenorol a gefnogwyd gan y Comisiwn trwy ychwanegu ward Pont-y-clun. Er bod Pont-y-clun y tu allan i ffiniau Dinas a Sir Caerdydd, mae'n adlewyrchu'r datblygiad tai diweddar yng ngogledd-orllewin yr etholaeth sy'n ymestyn i gyfeiriad Pont-y-clun. O ystyried y cyfyngiadau ar waith y Comisiwn, mae'n anodd gweld sut y byddai unrhyw gynnig amgen yn bodloni'r egwyddorion y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu dilyn, heb effeithio'n sylweddol ar gydlyniant cynrychiolaeth seneddol ledled Caerdydd yn gyffredinol.

Felly, rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer Gorllewin Caerdydd, yn ogystal â'r rhai ar gyfer Caerdydd yn gyffredinol.

BCW-10033 / [REDACTED] / Wrecsam

Hoffwn gyflwyno achos dros osod Brymbo yn etholaeth newydd Wrecsam.

Mae ein cysylltiadau â Wrecsam yn gryfach na'n cysylltiadau â Sir y Fflint.

Wedi dweud hynny, mae ein cysylltiadau trafndiaeth yn wael.

Mae gan ein treftadaeth gysylltiadau cryf â Wrecsam a hyd yn oed Sir Ddinbych cyn Sir y Fflint, a byddwn yn bendant yn gwrthwynebu ymuno â Sir y Fflint.

Hoffwn ychwanegu na fyddai rhannu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rhwng 3 Aelod Seneddol yn gwneud synnwyr, oherwydd byddai'n wirioneddol ddryslyd i'r etholwyr.

BCW-10034 / [REDACTED] / Penpedairheol

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Penpedairheol, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw ym Mhenpedairheol ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trên, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw ym Mhenpedairheol.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

Yn gywir,

[REDACTED]

BCW-10035 / [REDACTED] / Bangor

Hoffwn wneud sylwadau ar y ffin arfaethedig rhwng Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd. Byddai'r ffin yn mynd drwy Fangor ac yn rhannu'r ddinas a'i chymunedau cyfagos rhwng y ddwy etholaeth arfaethedig. Mae holli Bangor yn ddau gan ddefnyddio ffin hanesyddol Plwyf Pentir yn annerbyniol ac nid yw'n gwneud synnwyr heddiw.

Byddai canol Bangor gan gynnwys y Brifysgol yn dod yn rhan o Aberconwy tra byddai Penrhosgarnedd, sef ardal breswyl sy'n ehangu ym Mangor, gan gynnwys Ysbyty Gwynedd yn dod yn rhan o Ddwyfor Meirionnydd.

Ar rai strydoedd megis Ffordd Treborth a Ffordd Penrhos, byddai tai ar un ochr i'r stryd yn perthyn i Aberconwy tra byddai tai ar yr ochr arall yn perthyn i Ddwyfor Meirionnydd.

Byddai cymunedau megis Pentir a Rhiwlas ar gyrion Bangor yn ymuno â Dwyfor Meirionnydd. Byddai cymuned fach Glasinfryn sydd lai na 3 milltir o Fangor ar y ffordd i Dre-garth yn Nwyfor Meirionnydd, tra byddai Tre-garth sydd 1.5 milltir ymhellach i lawr yr un ffordd yn Aberconwy. Byddai Tesco Bangor a llawer o siopau eraill Ffordd Caernarfon yn Aberconwy ond byddai Harvey's Grill a'r siop feiciau gyferbyn â Tesco yn Nwyfor Meirionnydd.

Yn fy marn i nid yw penderfyniad sy'n seiliedig ar ffin hanesyddol y plwyf, er mai'r ffin honno yw ffin y cyngor cymuned o hyd, yn ystyried cysylltiadau lleol na ffactorau daearyddol. Mae'r newid i'r ffin i fod i atal unrhyw darfu neu'i leihau gymaint ag y bo modd.

BCW-10036 / [REDACTED] / Casnewydd

3 Tachwedd 2021

Hoffwn wneud sylwadau'n benodol ar ward Llan-wern, lle'r wyf yn byw, ac ar ward gyfagos Langstone.

Roedd yn rhyddhad gweld bod awgrymiadau blaenorol ynghylch ychwanegu'r wardiau hyn at etholaeth Mynwy wedi'u gollwng.

Ar 61 byw yn Nhrefesgob (ger Llan-wern) am dros 20 mlynedd, a byw am gyfnod tebyg cyn hynny ym Mhwllmeurig, canal Cas-gwent a Choed-yr-iarll (sydd i gyd yn Sir Fynwy), gallaf eich sicrhau bod fy nghartrefi blaenorol yn rhai nodweddiadol iawn o "Sir Fynwy" end nad yw hynny'n wir am Lan-wern na Langstone, sy'n faestrefi ar gyrion Casnewydd ac sy'n perthyn yn sicr i etholaeth Dwyrain Casnewydd.

Y prif anheddiad yn Nhrefesgob yw ystad Understood a gafodd ei hadeiladu er mwyn diwallu anghenion gweithwyr yng Nghasnewydd, gan gynnwys gweithwyr gwaith dur Llan-wern a adeiladwyd yn 1960. Yn fwy diweddar mae datblygiad mwy o lawer o dai ar ei hanner yng Nglan Llyn, Casnewydd ar safle hen ffwrneisi chwyth y gwaith dur ac yn aros i Spytty lie mae llawer o gyfleusterau manwerthu dinas Casnewydd erbyn hyn. Mae poblogaeth Casnewydd wedi ehangu ac mae Langstone hefyd wedi darparu llawer o dai preswyl preifat newydd er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Felly, mae'r ddwy ward yn sicr yn perthyn i Gasnewydd, fel y mae Gwastadeddau Gwent a'u bywyd gwyllt a'u tirwedd bwysig ymhellach draw, sy'n ymestyn hyd at Aberoedd Afon Hafren ac Afon Wysg.

Hoffwn ofyn i chi gadw'r ddwy ward hyn, sy'n rhan o Ddinas Casnewydd yng nghydestun llywodraeth leol, yn etholaeth Dwyrain Casnewydd.



Clerc : [REDACTED]

Eich cyf:

2 o Dachwedd, 2021.

Comisiwn Ffiniau Cymru,

Annwyl Syr/Fadam,

Cyhoeddi Cynigion Cychwynnol

Mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Cymuned ar 7fed o Hydref 2021, trafodwyd y mater uchod, a dyma'r sylwadau a dderbyniwyd i'w hanfon atoch cyn 03.11.2021.

1. Dylai egwyddorion pwysicach o ran cael cynrychiolaeth deg i'r etholwyr gael eu hystyried yn hytrach nag obsesiwn efo cysoni ystadegau.
2. Nid yw cael etholaethau 'cyfartal' o ran niferoedd yn golygu bod yr etholwyr yn cael eu trin yn gyfartal ledled y wlad. Yn gyffredinol: dylai nodweddion daearyddol, ac o ganlyniad, rhwyddineb teithio ac ymwneud cymdeithasol (a thraddodiadol) rhai ardaloedd a'i gilydd fod yn ystyriaethau pwysig wrth ad-drefnu'r ffiniau.
3. Yn gysylltiedig â'r ystyriaethau uchod ni ddylid rhoi baich gwaith/pwysau ychwanegol ar aelodau etholedig mewn rhai etholaethau wrth i'r rheiny gael eu ehangu'n ddaearyddol; wrth gwrs dylid tafoli effaith hynny ar yr etholwyr eu hunain hefyd wrth iddynt geisio cael cyswllt personol gyda'r aelod etholedig. Dylid ystyried hyn mewn cymhariaeth â gofynion teithio/ cyfathrebu mewn etholaethau poblog sy'n ddaearyddol fychan ond sydd yn debygol o fod a darpariaethau trafnidiaeth eang a hwylus.
4. Dylid ystyried wardiau ac etholaethau yn ôl maint y boblogaeth sefydlog sy'n trigo ynddynt, h.y. y rhai sy'n gymwys i bleidleisio, ac nid yn ôl nifer yr etholwyr sy'n cofrestru i bleidleisio. Mater i'r unigolyn ar y dydd yw pleidleisio neu beidio.
5. Mae hyn yn berthnasol i etholiadau Senedd Cymru, ac yn enwedig os oedd penderfyniad i gynyddu nifer yr aelodau. Awgrymu na ddylid gosod trefi agos (fel Caernarfon a Bangor) yn yr un etholaeth, er mwyn cyrraedd y niferoedd poblogaeth y byddai angen. Mae hynny o reidrwydd yn creu etholaethau gwledig mawr fel Dwyfor Meirionydd (eto -llunio er mwyn cael y niferoedd).

Yn gywir,

[REDACTED]

Clerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy

BCW-10038 / [REDACTED] Cymdeithas Geidwadol De Caerdydd a Phenarth / Penarth

Foneddigion,

Rwy'n ysgrifennu ar ran Cymdeithas Geidwadol De Caerdydd a Phenarth ynghylch Adolygiad 2023 o Ffiniau Seneddol yng Nghymru.

Er ein bod yn cefnogi penderfyniad y Comisiwn i gadw etholaeth seneddol De Caerdydd a Phenarth, mae gennym rai pryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau presennol. Felly, hoffem gyflwyno cynigion amgen sydd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn well.

Rydym yn pryderu'n benodol am oblygiadau'r ffiniau arfaethedig ar gyfer cymunedau'r Sblot a Trowbridge. Bydd y bwriad i ddileu ward Tredelerch yn golygu na fydd gan y ddwy gymuned mwyach gyswllt dros y tir, ac mai'r unig ffordd o'u cyrraedd fydd dros y dŵr. Mae hynny'n mynd yn groes i ganllawiau'r Comisiwn a dylid ei unioni.

Hoffem gynnig, felly, y dylai cymuned Tredelerch gael ei chadw yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Byddai hynny'n sicrhau bod y cyswllt hollbwysig dros y tir yn nwyrain yr etholaeth yn cael ei gadw.

Rydym yn derbyn y byddai cynnwys ward Tredelerch yn golygu bod poblogaeth yr etholaeth yn fwy na'r cwota. Fodd bynnag, gellir goresgyn yr anhawster hwnnw'n rhwydd. Ar sail y ffiniau presennol, mae poblogaeth etholaeth gyfagos Bro Morgannwg eisoes o fewn y cwota. Felly, nid oes rhaid trosglwyddo ward Dinas Powys i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Hoffem gynnig, felly, bod ward Dinas Powys yn aros yn etholaeth Bro Morgannwg. Fel pentref gwledig, mae ei nodweddion yn debycach i nodweddion cymunedau Gwenfô a Llanbedr-y-fro nag i nodweddion cymunedau trefol De Caerdydd a Phenarth.

Ar wahân i'r newidiadau a awgrymir uchod, rydym yn cefnogi cynigion eraill y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth. Hoffem gynnig etholaeth fwrdeistrefol, felly, sy'n cynnwys y wardiau canlynol: Trowbridge, Tredelerch, Y Sblot, Butetown, Grangetown, Llandochoau, Cornerswell, St Augustine's, Plymouth, Stanwell a Sili.

Diolch am ystyried ein cynigion.

Cofion cynnes,



Dirprwy Gadeirydd (Gwleidyddol)

Cymdeithas Geidwadol De Caerdydd a Phenarth

BCW-10039 / [REDACTED] / Hengoed

Foneddigion,

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â'ch cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ailbennu ffiniau'r etholaethau seneddol, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried yn rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Rwy'n byw ym Mhenpedairheol ger Ystrad Mynach yn etholaeth Caerffili. Yn gyntaf, rwyf braidd yn ypsét ynglŷn â'r bwriad i rannu etholaeth Caerffili, sy'n bodoli ers o leiaf canrif, yn bedwar.

Hoffwn wneud un sylw cyffredinol, sef bod y cymoedd wedi dylanwadu'n drwm ar gymunedau de Cymru. Ar y cyfan, mae'r cymoedd yn ymestyn o'r gogledd i'r de, sy'n golygu bod mwyafrif y prif ffyrdd a'r rheilffyrdd yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw hefyd. Fodd bynnag, rwyf wedi sylwi bod eich cynigion ar gyfer etholaeth Caerffili yn golygu y byddai fy mhentref yn dod yn rhan o etholaeth newydd Islwyn, a fyddai'n ymestyn ar draws y cymoedd ac na fyddai felly'n creu cymuned naturiol o gwbl.

Rwyf hefyd yn deall y byddai rhan ddeheuol etholaeth bresennol Caerffili yn cael ei chysylltu â rhan orllewinol Casnewydd. Unwaith eto, rwy'n teimlo nad yw Caerffili yn 'cyd-fynd' yn naturiol â Chasnewydd a bod gan y dref yn gyffredinol fwy'n gyffredin â Chaerdydd, sy'n agosach ac sy'n fan y mae llawer o'r prif ffyrdd a'r rheilffyrdd yn mynd iddo.

Yn fy marn i, byddai llawer o bobl yn rhan ddwyreiniol etholaeth newydd Islwyn yn ei chael yn haws uniaethu â Chasnewydd nag ag ardaloedd blaenorol etholaeth Caerffili, yr ydych yn bwriadu cysylltu'r bobl hynny â nhw.

Yn olaf, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer etholaeth Caerffili a'r cyffiniau a newid y cynigion fel eu bod yn adlewyrchu'n fwy cywir deimladau a dymuniadau trigolion tebyg i fi.

Yr eiddoch yn gywir

[REDACTED]

BCW-10040 / [REDACTED] / Caerffili

Rwyf am wneud y sylwadau canlynol ynghylch y cynigion cychwynnol ar gyfer ailbennu ffiniau etholaethau.

Fel un o drigolion Caerffili, rwy'n pryderu ac yn teimlo'n ypsét ynglŷn â'r bwriad ar hyn o bryd i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd.

Alla' i ddim deall pam y dylai rhan isaf Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth Gorllewin Casnewydd er mwyn creu Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Mae'n bwysicach cynnwys ardaloedd ymhellach i fyny'r cwm am resymau hanesyddol.

Gan fy mod yn byw yng Nghaerffili, rwy'n ymwneud yn fwy o lawer â gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol yng Nghaerdydd. Rwy'n siopa yng Nghaerdydd. Anaml iawn y byddaf yn mynd i Gasnewydd i wneud unrhyw weithgareddau.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth, o ran bysiau a threnau, yn well o lawer â Chaerdydd na Chasnewydd. O ran gwaith, mae'r trigolion yn teithio'n fwy o lawer i Gaerdydd na Chasnewydd.

Mae yna ardaloedd yn Islwyn a fyddai'n elwa o gael cysylltiadau agosach â Chasnewydd.

Mae ffrindiau a pherthnasau yr wyf wedi siarad â nhw'n cytuno â fi. Hoffwn i chi ailystyried cynnig presennol y Comisiwn Ffiniau.

Mae fy Aelod Seneddol, Wayne David, wedi cyflwyno cynnig amgen manwl a dichonadwy.

BCW-10041 / [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n gwrthwynebu yn gryf y bwriad i gynnwys wardiau gogleddol etholaeth Castell-nedd yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae holl gysylltiadau cymunedol lleol, trefniadau llywodraeth leol, hanes a daearyddiaeth yr ardal hon yn gysylltiedig â Chastell-nedd, ac i raddau llai ag Abertawe. Mae nodweddion cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol yr ardal yn debyg i weddill ardal etholaeth Castell-nedd, ac yn wahanol i ardal etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Yn etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed mae yna fwllch daearyddol, cymdeithasol a hanesyddol mawr yn bodoli eisoes rhwng ardal Ystradgynlais a gweddill yr etholaeth. Hoffwn awgrymu y dylai'r Comisiwn archwilio'r posibilrwydd o gynyddu maint etholaeth bresennol Castell-nedd drwy ei hymestyn i gyfeiriad y gogledd yn hytrach, gan ymgorffori Ystradgynlais a'r wardiau cyfagos sydd yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed.

BCW-10042 / [REDACTED] / Abertawe

Hoffwn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddwyrain Abertawe a'r bwriad i uno'r etholaeth â Chastell-nedd.

Chwarae â rhifau yw unig ddiben yr uno arfaethedig, fel bod modd ailddosbarthu nifer benodol o aelodau'r cyhoedd er mwyn hwyluso gwaith rheoli; nid oes a wnelo â chynrychioli'r bobl yn gywir.

Gallwn ymhelaethu ar y modd y mae economeg gymdeithasol y tair ward yn Abertawe y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt yn wahanol iawn i economeg gymdeithasol yr ardal arfaethedig, ond cafodd y ddadl honno ei hanwybyddu pan gafodd rhannau o Gastell-nedd eu gosod yn Aberafan adeg yr ad-drefnu diwethaf.

Rydym i gyd yn rhifau y mae modelau ystadegol yn eu hadnabod, ac nid oes gennym unrhyw farn wirioneddol a fydd yn dylanwadu ar y cynnig hwn.

Rwyf wedi mynegi fy marn.

Fodd bynnag, nid yw symud pleidleisiau rhwng y ddwy etholaeth dan sylw o fudd i'r naill etholaeth na'r llall.

Byddai'n haws dod â'r ardaloedd a symudwyd i Aberafan yn ôl, oherwydd yn hanesyddol maent yn perthyn i Gastell-nedd.

Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng ardal Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

Unwaith eto, dyma dynnu llinell arall ar fap er mwyn diwallu anghenion pobl eraill yn hytrach na pharchu pleidleisiau'r bobl.

BCW-10043 / Ruth Jones AS / Llundain

Croesawaf y cyfle i roi fy marn ar y cynlluniau drafft presennol. Gweler y ddogfen atodedig ar gyfer fy ymateb i gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau.

Ymateb i'r Ymgynghoriad – Gorllewin Casnewydd a Chaerffili

Yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, hoffwn restru'r nifer o bryderon sydd gennyf ynghylch etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, gan gyfiawnhau pam mae'r materion hyn yn berthnasol, a nodi lle maent yn haeddu craffu pellach.

Yn y pen draw, mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn arwydd o fy anesmwythyd â'r ffiniau arfaethedig, ac mae'n dadlau y dylai'r Comisiwn Ffiniau ailystyried ei gynlluniau ar gyfer Gorllewin Casnewydd.

Gwneir fy nghynnig amgen yn rhan olaf yr ymateb hwn.

Croesi ffiniau cynghorau

Mater 1: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cynnwys dwy ardal gyngor

Mater cychwynnol clir ac amlwg o ran etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yw ei bod yn croesi ardaloedd cynghorau, gan rannu wardiau rhwng canolfannau dinesig Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn bwysicaf oll, i etholwyr, gallai cael AS sy'n cynrychioli dwy ardal gyngor achosi ansicrwydd ynghylch pwy i gysylltu â nhw pan mae materion a phryderon yn codi.

Mae'r sylw hwn yn hysbys iawn hefyd ymhlith swyddogion cynghorau, cynghorwyr a seneddwyr, o'n gwaith etholaeth o ddydd i ddydd. Yn gyson, rhaid trosglwyddo gwaith achos rhwng ein swyddfeydd, ac mae angen i'n meysydd awdurdodaeth fod yn glir i etholwyr. Yn yr etholaeth bresennol, mae hyn yn gallu gweithio'n effeithiol, gyda phob swyddfa seneddol yn gweithio gyda'i gilydd, ond yn gyfan gwbl o fewn ffiniau Cyngor Dinas Casnewydd.

Wrth gyfuno dwy ardal gyngor, byddai etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cymylu llinellau sydd eisoes yn aneglur. Byddai'n ofynnol i AS Gorllewin

Casnewydd a Chaerffili – ymhell o weithio ochr yn ochr â'r Aelod o'r Senedd a Chynghorwyr sy'n cyfateb yn uniongyrchol – yn gweithio fel canolwr rhyngddynt o fewn dim llai na phum haen o gymhwysedd. Yn gyntaf, eu cymhwysedd eu hunain fel aelod o Senedd San Steffan; yn ail, cymwyseddau'r Aelod o'r Senedd dros Orllewin Casnewydd; yn drydydd, cymwyseddau'r Aelod o'r Senedd dros Gaerffili; yn bedwerydd, cymwyseddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; yn bumed, cymwyseddau Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn ymarferol, byddai hyn yn gwneud gweithio ar y cyd ar achosion yn anoddach, yn fwy cymhleth, ac yn llai effeithlon. Mewn man arall, byddai'r cynigion yn rhwystro cysylltiadau sefydledig a meysydd gweithio ar y cyd rhwng cynghorau a'r AS.

Yn fwy na dim, byddai'n ei gwneud yn anoddach i AS wybod y newyddion diweddaraf am holl ddatblygiadau'r cynghorau yn eu hetholaeth.

Afon Wysg

Mater 2: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili ac etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd yn anwybyddu'r ffiniau naturiol clir ac amlwg sy'n rhannu dinas Casnewydd

Ar hyn o bryd, defnyddir pwyntiau gwahanu naturiol yn glir i ddynodi etholaethau ledled y DU. Byddem yn gyndyn o anwybyddu arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol ac ymarferol ffiniau sydd wedi'u sefydlu'n naturiol.

Yng Nghasnewydd, rydym yn lwcus i gael ffin naturiol amlwg a chlir sy'n gwahanu gorllewin a dwyrain ein dinas. Mae'r Afon Wysg yn cynrychioli pwynt clir ar gyfer gwahanu. Mae'r afon wedi gwasanaethu pobl Casnewydd yn dda fel ffin adnabyddus a gweladwy iawn.

Fel y cyfryw, mae argymhellion y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas â glannau'r afon – gan ddewis anwybyddu a disodli'r Wysg – yn ymddangos yn ddim llai na ffars. Nid oes llawer o synnwyr mewn gosod tir sydd i'r gorllewin o'r afon yn etholaeth Dwyrain Casnewydd – sef wardiau Betws, Malpas, Pillgwenlly, Shaftesbury a Stow Hill. Ar ben hynny, mae'n ymddangos yr un mor afresymol i gael etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili sydd ag ond ychydig o'r wardiau yng ngorllewin dinas Casnewydd.

Byddai'r ffiniau etholaethol newydd yn dileu eglurder y ffin wirioneddol rhwng y gorllewin a'r dwyrain, a'i disodli â ffin stryd-wrth-stryd sydd wedi'i diffinio'n wael, yn annaturiol ac yn ddiangen o gymhleth. Byddai hyn yn gweld wardiau a chymunedau a

fu ynghlwm â'i gilydd ers cenedlaethau ar lannau gorllewinol Afon Wysg yn cael eu gwahanu'n ddiangen.

Y peth mwyaf amhriodol fyddai rhannu'r Gaer a Phillgwenlly; a Stow Hill ac Allt-yr-yn. Byddai etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn darnio strydoedd, yn llythrennol, fesul cymydog. Mae gweld manylion y ffin arfaethedig yn datgelu difrifoldeb y mater hwn. Er enghraifft, byddai Caerau Road a Stow Hill yn gweld tai sydd ychydig fetrau oddi wrth ei gilydd yn cael eu gwahanu. Mae'r ffin arfaethedig yn torri'n fympwyol trwy randiroedd i'r gorllewin o Coldra Road. Ni fyddai cymdogion ar hyd Barrack Hill yn rhannu'r un AS mwyach. Mae'r ffin arfaethedig yn gweld rhannu Harlequin Drive – ac nid gor-ddweud yw hyn – mewn ffordd fisâr ar hyd lawntiau blaen a ffensys gerddi.

Rydym yn cydnabod na ellir gosod ffiniau clir bob amser, ond credwn fod y Comisiwn Ffiniau wedi gwneud camgymeriad amlwg wrth ddewis gwrthod Afon Wysg, a rhaid gwrthdroi hyn cyn gweithredu unrhyw etholaeth newydd.

Cymharu wardiau

Mater 3: ychydig iawn sy'n gyffredin rhwng wardiau yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili

Mae'n ymddangos bod etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cyfuno wardiau sydd ag ychydig iawn neu ddim yn gyffredin rhyngddynt a'u demograffeg.

Mae'r wardiau a gaiff eu cadw o etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd – Y Graig, Tŷ-du, Parc Tredegar, Shaftesbury, Y Gaer, Allt-yr-yn, a Maerun – yn amrywiol a gwahanol. Credwn fod hyn yn cyfrannu at gryfderau presennol Casnewydd. Mae'r rhannau o Gasnewydd sy'n cael eu cadw, a'r rhannau o Gaerffili sy'n cael eu hychwanegu, wedi'u nodi.

Canolfannau pŵer

Mater 4: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn creu dwy ganolfan bŵer anghydnaws, a fyddai'n anodd i Aelod Seneddol eu cydbwysu

Mae'r etholaeth arfaethedig yn creu dwy ganolfan bŵer yn weithredol, ac mae'r ddwy wedi'u pwysoli'n wael.

Mae 'rhan Casnewydd' yr etholaeth arfaethedig yn datgysylltu rhai rhannau o ganol y ddinas gan eu gosod yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd, ond mae'n cadw

rhannau eraill. Yn hynny o beth, cedwir canolfan bŵer drefol yn Allt-yr-yn a'r cyffiniau yn yr etholaeth arfaethedig, er ei bod yn un sydd wedi'i gwagio'n sylweddol o gymharu ag etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd.

Mae 'rhan Caerffili' yr etholaeth arfaethedig yn cadw holl ardal drefol Caerffili – sef ail ganolfan bŵer.

Pe bai'r etholaeth arfaethedig yn cael ei gwireddu, byddai unrhyw Aelod Seneddol yn cael ei rannu'n gyson rhwng y ddwy ganolfan bŵer.

Byddai materion megis ym mhle i leoli swyddfa etholaethol, cymorthfeydd a digwyddiadau yn codi bron ar unwaith. Mae'n anrffod y byddai'n rhaid treulio cyfnodau hir ac aml yn teithio rhwng y ddwy ganolfan – i'r etholwyr yn ogystal â'r AS.

Byddai'r perygl o wrthdaro gwleidyddol mewnol rhwng y ddwy ganolfan drefol, yn enwedig o ran cefnogaeth gan yr AS ar ran sefydliadau a busnesau cymunedol, yn cael ei ddwysáu'n aruthrol. Yn y bôn, byddai enillion ar ran un o'r canolfannau yn dod yn golled i'r llall.

Mae 'rhan Casnewydd' a 'rhan Caerffili' ill dwy yn haeddu cynrychiolaeth a chanolbwyntio gweithredol gan unrhyw AS. Byddai cynnwys y ddwy yn yr un etholaeth yn gwneud y dasg hon bron yn amhosibl.

Teithio ar draws yr etholaeth

Mater 5: mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn gwneud teithio ar draws yr etholaeth yn feichus ac yn anghyfleus

O ben gogledd-orllewinol yr etholaeth arfaethedig, i'r gogledd o Senghennydd, hyd at yr ymyl de-ddwyreiniol, ger Goleudy Gorllewin Wysg, mae pellter ymhell dros 20 milltir. Rhaid teithio rhwng y ddau bwynt mewn car, gan fynd ar hyd cymysgedd o ffyrdd un lôn a ffyrdd B: nid oes llwybr trafndiaeth gyhoeddus ymarferol rhwng y ddau bwynt hyn yn yr etholaeth arfaethedig.

Mae hyn, yn sylfaenol, yn sefyllfa anymarferol.

Byddai unrhyw Aelod Seneddol yn wynebu anhawster wrth deithio'n eang yn yr etholaeth. Byddai'n cael ei orfodi i ddefnyddio car fel ei brif ddull trafndiaeth; sef dull anghyfrifol, o ystyried graddfa'r argyfwng hinsawdd.

Mae ffiniau presennol Casnewydd yn ymarferol oherwydd bod modd cyrchu llawer o'r etholaeth ar droed, neu ar fws, yn enwedig yng nghanol y ddinas ac o'i chwmpas.

Gellir cyrchu ardaloedd gwledig naill ai ar drafndiaeth gyhoeddus neu ar daith fer mewn car.

Mae'r ffiniau arfaethedig yn gwneud hyn yn llawer anoddach. Mae gwasanaethau Bws Casnewydd yn cwmpasu ardal Cyngor Dinas Casnewydd yn unig, ac mae opsiynau o ran trafndiaeth gyhoeddus yn lleihau'n sylweddol, a daw teithio llesol yn amhosibl.

Cynigion amgen

Mae'r trosolwg cryno o'r pryderon a godir uchod yn dangos bod etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn anaddas i'r diben yn ymarferol ac yn ddiwylliannol, i unrhyw Aelod Seneddol.

Fel y cyfryw, mae'n gwneud synnwyr i gyflwyno cynnig amgen i'r Comisiwn Ffiniau ei ystyried.

Mae'r Comisiwn Ffiniau yn nodi, yn ôl y gyfraith, bod yn rhaid i bob etholaeth newydd a gynigir gynnwys rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr Seneddol (y nifer ar 2 Mawrth 2020).


Credwn y gellir cyflawni'r amod hwn yn hawdd wrth gadw ffiniau presennol Gorllewin Casnewydd, ac ychwanegu dwy ward o etholaeth bresennol Islwyn – hynny yw, **Gorllewin Rhisga a Dwyrain Rhisga**.

Byddai'r ddwy ward hyn, sy'n cynnwys 3,973 a 4,611 o etholwyr yn y drefn honno, yn rhoi 75,624 o etholwyr yn etholaeth Gorllewin Casnewydd; sydd yn hawdd o fewn gofyniad y Comisiwn Ffiniau.

Mae ychwanegu dwy ward Rhisga yn ddewis naturiol. Yn bwysicaf oll, mae gan Rhisga gysylltiadau cryf eisoes â chymunedau o fewn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Yn benodol, mae'r cysylltiadau â chymuned Tŷ-du yn glir ac yn amlwg, gyda'r wardiau hyn yn cyfuno bron yn ddi-dor ar hyd Risca Road.

Defnyddir cyfleusterau yn Rhisga yn aml gan drigolion Tŷ-du, ac i'r gwrthwyneb – mae clybiau chwaraeon a chanolfannau hamdden, cyfleusterau manwerthu, ac opsiynau trafndiaeth gyhoeddus, yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n byw yn y naill gymuned a'r llall. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â chynnig presennol y Comisiwn Ffiniau, sy'n bwriadu cyfuno cymunedau yn y cymoedd â wardiau yng nghanol y ddinas – lle nad oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol rhyngddynt, ac nad oes unrhyw beth yn gyffredin rhyngddynt yn ymarferol ar hyn o bryd.

Mae map drafft o'r cynnig yn dilyn ar y dudalen nesaf.



Ffigwr 1: Gorllewin Casnewydd – ein Cynnig Amgen

BCW-10044 / [REDACTED] / Abertawe

Rydym yn cael ein cynrychioli'n wael ar hyn o bryd gan ein bod ar gyrion cymunedau trefol a gwledig. Nid yw ein gwrthio i mewn i etholaeth wledig nad oes ganddi boblogaeth leol sylweddol am 20 milltir i gyfeiriad y gogledd yn gwneud unrhyw synnwyr. Yn ogystal â gwahaniaethau daearyddol, mae yna wahaniaethau diwylliannol ac economaidd sylweddol hefyd. Mae'n amlwg ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i'n cysylltu ag Ystradgynlais ac Ystalyfera, sy'n agos yn ddaearyddol ac sy'n rhannu'r un amwynderau lleol â ni, a fyddai'n golygu ei bod yn haws cyfathrebu a rhoi trefn ar faterion lleol.

BCW-10045 / [REDACTED] / Tredegar

Rwy'n byw yn Nhredegar ac yn meddwl bod y cynllun ar gyfer Blaenau Gwent a Rhymni yn syniad da.

Byddai Tredegar rywle yng nghanol yr etholaeth newydd, gyda Glynebwy, Brynmawr ac Abertyleri ar y naill ochr a Rhymni ar yr ochr arall. Mae gan ein hardal ni gysylltiadau da ar hyd y ffordd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus hefyd – mae bysiau yn teithio'n rheolaidd rhwng llawer o'n trefi a'n pentrefi, er enghraifft rhwng Tredegar a Rhymni a rhwng Tredegar a Glynebwy.

Mae gan ein cymunedau lawer yn gyffredin hefyd, oherwydd iddynt fod yn drefi dur ac yn drefi glofaol, felly byddai uno Rhymni â Blaenau Gwent yn gam naturiol.

Byddai'r cynllun yn cadw ein cymunedau gyda'i gilydd ar draws Blaenau'r Cymoedd, felly rwy'n ei gefnogi.

BCW-10046 / [REDACTED] / Abertawe

Rydym wedi bod yn rhan o ward Llansamlet yn Abertawe ers blynyddoedd lawer, ac nid ydym am newid.

BCW-10047 / [REDACTED] / Ystradmeurig

Fel un o drigolion Ceredigion, rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn yn frwd. Byddant yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth leol ac amrywiaethau etholaethol yn well. Diolch.

BCW-10048 / [REDACTED] / Wrecsam

Rwyf o'r farn bod treftadaeth Brymbo yn perthyn i dreftadaeth Wrecsam, ac nad yw ein gwahanu oddi wrth Wrecsam a'n huno â Sir y Fflint yn cyd-fynd â'n treftadaeth.

Mae Brymbo yn gyfystyr â'r diwydiant dur, plwm a glo, ac wrth wahanu Brymbo oddi wrth Wrecsam rydych yn symud yr elfen fwyaf o hanes Wrecsam i Sir y Fflint y mae ganddi ei threftadaeth ddiwydiannol ei hun yng ngogledd y sir honno. Y perygl yw y bydd pentrefi a arferai fod yn Wrecsam yn cymryd blynyddoedd lawer i gael eu cydnabod a'u cefnogi gan arweinwyr y sir, a fyddai'n gam pellach yn ôl i ardal sydd eisoes yn ddifreintiedig.

Os bydd Brymbo yn symud allan o Wrecsam, i ble y byddai plant oedran ysgol uwchradd yn mynd? Yr ysgol agosaf heddiw yw Bryn Alyn yng Ngwersyllt, ond yr ysgol agosaf ar ôl y symud fyddai'r ysgol yn yr Hôb. Byddai'n newid mawr ac yn golygu bod plant mewn teuluoedd ac yn y pentref yn cael eu gwahanu.

Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol

Ymateb swyddogol gan
Y Blaid Lafur

1. Cyflwyniad, Rheolau, Proses a Pholisi

1.1. Datganiad y Blaid Lafur

- 1.1.1. Gwneir y cyflwyniad hwn ar ran Llafur Cymru a Phwyllgor Gweithredol Cenedlaethol y Blaid Lafur. Ymateb cyffredinol ydyw i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru sy'n dilyn proses ymgynghori o fewn y Blaid Lafur yn cynnwys yr holl aelodau Seneddol, aelodau'r Senedd a chynrychiolwyr cyhoeddus etholedig eraill a phleidiau Llafur etholaethau.

1.2. Proses yr Arolwg

- 1.2.1. Mae'r Blaid Lafur yn croesawu Cynigion Cychwynnol y Comisiwn a'r ffordd eglur a chynhwysfawr y maent wedi amlinellu'r cynigion hynny. Er ein bod yn anghytuno â rhai ohonynt, ac mewn rhai achosion, yn gwneud cynigion amgen y credwn eu bod yn cydweddu'n well â'r meini prawf statudol, rydym yn derbyn bod y Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r opsiynau gwahanol ac wedi egluro'r penderfyniadau y maent wedi gwneud. Rydym yn cydnabod bod gan y comisiynau ffiniau rôl hanfodol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod yr holl etholaethau fwy neu lai o faint cyfartal a bod pleidleisiau, felly, o werth cyfartal. Er bod y Blaid Lafur wedi tynnu sylw ers tro at yr anghydraddoldebau yn sgil tangofrestru etholiadol, rydym yn derbyn bod rhaid i'r comisiynau weithio gyda'r data sydd ar gael o dan delerau'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- 1.2.2. Rydym hefyd yn croesawu ymdrechion y Comisiwn i ysgogi ac annog cyfranogiad y cyhoedd yn y broses, ac i ymgynghori â phleidiau gwleidyddol ar eu polisiau a'u gweithdrefnau. Credwn fod gan bleidiau gwleidyddol ran adeiladol i'w chwarae i gynorthwyo'r comisiynau i archwilio opsiynau amgen ac i asesu lefelau cefnogaeth gyhoeddus y gallent ei chael, a bydd y Blaid Lafur felly yn ymgysylltu'n adeiladol â'r broses yng Nghymru fel yn Lloegr a'r Alban.

1.3. **Y Ddeddfwriaeth a'r Meini Prawf Statudol**

1.3.1. Nodwn mai'r arolwg hwn yw'r cyntaf i'w gynnal o dan delerau Deddf Etholaethau Seneddol 2020 sy'n pennu maint Tŷ'r Cyffredin ar 650, ac yn creu etholaeth "warchodedig" ychwanegol, sef Ynys Môn, ond bod y meini prawf y gall y Comisiwn eu hystyried wrth ddewis rhwng cynlluniau gwahanol barhau'n ddigyfnewid, sef:

- Amgylchiadau Daearyddol Arbennig, gan gynnwys maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth
- Ffiniau llywodraeth leol
- Ffiniau etholaethau presennol
- Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- Unrhyw anghyfleustra yn dilyn y newidiadau hynny

1.3.2. Mae'n amlwg na allai'r Comisiwn gydymffurfio'n llawn â phob un o'r meini prawf hyn (neu yn wir unrhyw rai ohonynt mewn rhai manau) ym mhob rhan o Gymru a chadw nifer etholwyr yr etholaethau o fewn yr amrediad caniatol. Mae'n rhaid mai gorchwyl y Comisiwn yw ceisio eu cymhwyso yn eu cyfanrwydd ym mhob ardal gan gydnabod bod rhaid iddynt lunio barn o ran y pwyslais cymharol y dylid rhoi iddynt mewn amgylchiadau lleol penodol. Rydym yn derbyn bod y tarfu ar etholaethau presennol yn debygol o fod yn sylweddol mewn rhai ardaloedd, y gallai fod yn anodd parchu ffiniau awdurdodau lleol, ac y gallai cysylltiadau lleol gael eu torri. Lle mae'r Blaid Lafur yn rhoi cynigion amgen i gynigion y Comisiwn gerbron, gwnawn hynny ar y sail y credwn, ar ôl pwyso a mesur, eu bod yn fwy cyson â'r meini prawf statudol hynny.

1.4. **Amgylchiadau Daearyddol Arbennig**

1.4.1. Nodwn nad yw'r rheol hon wedi'i chymhwyso'n fanwl yn unrhyw rai o'r Cynigion Cychwynnol ond fe'i hadlewyrchir yn ôl pob tebyg yn y rhagdybiaeth yn erbyn cael etholaethau sy'n rhychwantu aberoedd afon mawr, ac yn ffurf etholiadau mewn ardaloedd prin eu poblogaeth a mynyddig. Rydym yn derbyn ac yn cefnogi

ymagwedd o'r fath, ac nid ydym yn gwneud unrhyw wrthwynebiadau i unrhyw rai o'r cynigion sy'n seiliedig ar gymhwyso'r maen prawf hwn.

1.5. Ffiniau Llywodraeth Leol

1.5.1. Nodwn y gall y Comisiwn ystyried ffiniau awdurdodau lleol fel yr oeddent yn Rhagfyr 2020, gan gynnwys, am y tro cyntaf, darpar ffiniau y mae gorchmynion newidiadau etholiadol wedi'u pasio ond nad yw'r newidiadau wedi'u gweithredu eto. Nodwn nad yw'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

1.5.2. Byddem yn dadlau y gallai cydymffurfiaeth â'r maen prawf hwn gael ei fesur mewn llawer o ffyrdd, a bod y rhain yn cynnwys:

- Awdurdod lleol yn cyd-ffinio'n llwyr ag un neu fwy o etholaethau
- Lleihau nifer yr awdurdodau lleol o fewn un etholaeth
- Lleihau nifer yr etholiadau o fewn un awdurdod lleol
- Cadw at ffin awdurdod lleol lle ceir dewis rhwng gwneud hynny neu beidio â gwneud hynny

1.5.3. Mae'r pwys penodol y dylid ei gymhwyso i'r mesurau hyn, fe gredwn, yn fater ansoddol yn rhannol. Er enghraifft, gallai dymunoldeb cyd-ffinio llwyr fod yn ddibynnol ar natur yr awdurdod hwnnw, p'un a yw'n cynnwys cymuned adnabyddadwy a hanesyddol, p'un a oes ganddo hanes o gynrychiolaeth seneddol ar wahân, a ph'un a yw'r awdurdod ei hun a'i ffiniau yn arbennig o eglur o gymharu â'i gymdogion.

1.5.4. Er ei bod yn amlwg yn weinyddol ddymunol i gyfyngu ar yr amrywiant rhwng ffiniau awdurdod lleol a ffiniau seneddol, nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai cymhwyso'r maen prawf hwn yn gwbl fathemategol yw'r ffon fesur fwyaf priodol o hyd. Ni chredwn mai mater o anghyfleustra mwy nag anghyfleustra bach ydyw o angenrheidrwydd os yw'r awdurdod lleol, er enghraifft, wedi'i rannu rhwng pedair

yn hytrach na thair etholaeth os yw meini prawf statudol eraill yn cefnogi'r cyntaf. Ni chredwn ei bod yn debygol o leihau'n ddifrifol hyfywedd unrhyw etholaeth unigol, ac felly y tebygolrwydd y bydd etholwyr yn adnabod ac yn derbyn undeb gynrychioliadol yr etholaeth honno. I'r un graddau, er ei fod yn amlwg yn fater o anghyfleustra i Aelod Seneddol a'r awdurdodau lleol dan sylw os yw etholaeth yn cynnwys rhannau o fwy nag un ardal cyngor, ni chredwn fod hynny ar ei ben ei hun yn debygol o wneud yr etholaeth honno'n llai derbyniol i'w hetholwyr. Nodwn yn hyn o beth y bydd y gofyniad i sicrhau bod etholwyr yr holl etholaethau o fewn pump y cant i'r Cwota Etholiadol yn golygu y bydd llai o hyblygrwydd gan y Comisiwn wrth addasu etholaethau i gyfateb i ffiniau awdurdod lleol nag oedd ganddo yn yr arolwg a gwblhawyd yn fwyaf diweddar.

1.6. Wardiau Etholiadol

- 1.6.1. Nodwn bolisi'r Comisiwn o ddefnyddio wardiau etholiadol fel yr uned leiaf ar gyfer llunio etholaethau a pheidio â rhannu wardiau cynghorau cymuned. Mae'r Blaid Lafur yn cefnogi'r Comisiwn yn hyn o beth ac nid yw'n credu bod unrhyw fantais i'w chael yn unrhyw ran o Gymru drwy wyro oddi wrth y polisi hwnnw.
- 1.6.2. Credwn fod defnyddio wardiau fel sylfeini yn fodd pwysig o wneud y broses yn un drefnus a hygyrch. Er y gallai eu diystyru arwain at ryw faint o anhyblygrwydd, cyfyngu ar opsiynau'r Comisiwn ac amharu ar ei allu i barchu cysylltiadau cymunedol, yna byddai'r broses o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn mynd yn broses fwy cymhleth o lawer ac anhryloyw o bosibl.

1.7. Enwau a Dynodiad Etholaethau

- 1.7.1. Nodwn a chefnogwn bolisi'r Comisiwn ar enwau a dynodiad etholaethau, a'i bolisi o gynnig naill ai enwau Cymraeg neu enwau Saesneg fel y cred yn briodol i'r ardal dan sylw. Credwn, yn gyffredinol, lle mae etholaeth yn ddigyfnewid ar y cyfan, neu lle mae'n amlwg yn olynydd i sedd bresennol, dylid rhagdybio y bydd enw'r sedd honno'n aros yr un peth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, gyda'r newidiadau

mawr sydd eu hangen i etholaethau mewn llawer o achosion, dylai trefniadau newydd gael eu hadlewyrchu yn enwau etholaethau newydd. Bydd ein sylwadau ar y mater hwn yn cael eu cadw'n ôl i raddau helaeth hyd nes yr Ail Gyfnod Ymgynghori.

1.8. Terminoleg a Phroses

- 1.8.1. Trwy gydol cynrychiolaethau'r Blaid Lafur, mae cyfeiriad at Sedd Olynydd yn cyfeirio at y sedd arfaethedig sy'n cynnwys y nifer unigol fwyaf o etholwyr o'r sedd bresennol dan sylw. I'r gwrthwyneb, Sedd Rhagflaenydd yw'r sedd bresennol sy'n darparu'r nifer unigol fwyaf o etholwyr i'r sedd arfaethedig dan sylw.
- 1.8.2. Lle nad yw sedd bresennol yn cyflenwi'r nifer unigol fwyaf o etholwyr i unrhyw sedd arfaethedig, byddem yn cyfeirio at y sedd bresennol honno fel un sydd wedi'i "Diddymu", ac i'r gwrthwyneb, lle nad y cyfraniad unigol mwyaf i sedd arfaethedig yw'r cyfraniad unigol mwyaf o sedd bresennol, cyfeirir at y sedd arfaethedig honno fel un "Newydd".
- 1.8.3. Lle'r ydym yn cyfeirio at Hawl Ddamcaniaethol i seddi, cyfeiriad syml yw hynny at nifer etholwyr yr ardal dan sylw wedi'i rhannu â'r Cwota Etholiadol.
- 1.8.4. Edrychwn ymlaen at gyflwyno ein hachos yn fanwl yn ystod yr Ail Gyfnod Ymgynghori lle bydd gennym gynrychiolaeth yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Bryd hynny hefyd, byddwn yn gwneud sylwadau ar gynrychiolaethau a gwrthgynigion rhai eraill.
- 1.8.5. Am ei gymorth yn llunio ein gwrthgynigion, hoffai'r Blaid Lafur ddiolch i Kevin Larkin a'i wefan boundaryassistant.org.

2. Y Cynigion Cychwynnol

2.1. Patrwm Cyffredinol yr Etholaethau

2.1.1. Wrth i'r Comisiwn lunio'i gynigion, nodwn fod ganddo nifer o heriau lle nad oes unrhyw ateb delfrydol, o bosibl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lleihau torri cysylltiadau gydag etholaethau yng Nghymoedd De Cymru lle gallai un neu fwy o'r cymoedd hynny fod wedi'u cyfuno mewn un sedd, neu lle gallai un cwm fod wedi'i rannu rhwng mwy nag un sedd
- Dod â nifer yr etholwyr yn etholaethau Dinas Caerdydd o fewn pump y cant o'r cwota etholiadol
- Cynyddu nifer etholwyr Aberhonddu a Maesyfed CC
- Cynyddu nifer etholwyr Ceredigion CC
- Cynyddu nifer etholwyr Sir Drefaldwyn CC

2.1.2. Credwn fod y trefniadau a ddewiswyd i ddatrys y materion hyn yn pennu patrwm etholaethau ledled Cymru gyfan, i raddau helaeth.

2.1.3. Derbyniwn yn gyffredinol y Cynigion Cychwynnol y mae'r Comisiwn wedi'u mabwysiadu mewn perthynas â'r etholaethau hyn, er ein bod yn gwneud gwrthgynnig bach mewn perthynas â'r sedd olynnydd i Ceredigion CC.

2.1.4. Er nad yw'n effeithio ar batrwm cyffredinol yr etholaethau a grwpio awdurdodau lleol, dymunwn wneud gwrthgynnig hefyd sy'n effeithio ar Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas Abertawe.

2.1.5. Fel arall, nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiadau i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn, ond yn amlwg byddwn yn ystyried cynigion a wneir gan rai eraill, ac yn gwneud sylwadau arnynt yn ystod yr Ail Gyfnod Ymgynghori.

2.2. Awdurdodau Lleol

- 2.2.1. Nodwn mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n gallu cynnal niferoedd cyfan etholaethau sydd â nifer etholwyr o fewn pump y cant i'r Cwota Etholiadol. Rydym yn cefnogi etholaethau arfaethedig Torfaen CC a Sir Fynwy CC sy'n cyd-ffinio â'u hardaloedd cyngor. Rydym hefyd yn cefnogi dyrannu dwy sedd gyfan i Sir Gaerfyrddin ac nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r ddwy etholaeth, fel y maent wedi'u hamlinellu.
- 2.2.2. Cefnogwn ymhellach cadw awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Ceredigion a Merthyr Tudful yn gyfan o fewn eu hetholaethau priodol.

2.3. De Ddwyrain Cymru

- 2.3.1. Credwn mai cynnwys Cwm Rhymni Uchaf yw'r ffordd resymegol o gynyddu Blaenau Gwent CC, ac felly rydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni CC. Nodwn hefyd y newidiadau mawr sy'n ofynnol yng Nghasnewydd a Chaerffili, ac yn benodol trosglwyddo chwe ward yn Ninas Casnewydd o Orllewin Casnewydd CC i etholaeth newydd Dwyrain Casnewydd BC. Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn ond yn nodi bod y cysylltiad rhwng Casnewydd a Chaerffili yn un lletchwith ac mai dim ond cysylltiadau cyfyngedig a geir yng Ngorllewin Casnewydd a Chaerffili CC, fel y'i cynigiwyd. Nid ydym, fodd bynnag, yn dymuno gwrthwynebu'r cynigion sy'n cadw tref Caerffili mewn un sedd ac yn cadw Islwyn CC yn gyfan ac eithrio un ward.
- 2.3.2. Rydym hefyd yn cefnogi Merthyr Tudful ac Aberdâr CC fel y'i cynigiwyd gan nodi bod cynnwys ward Nelson ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn golygu bod yr etholaeth yn cynnwys rhannau o dri awdurdod lleol gwahanol. Mae'n resyn gennym hefyd fod y cynnig hwn yn arwain at rannu Cwm Cynon gydag Aberdâr ac Aberaman yn cael eu gosod mewn etholaethau gwahanol. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, pe bai Nelson yn cael ei gadw yng Nghaerffili CC, byddai'n cael effeithiau canlyniadol sylweddol a allai arwain at raniad mwy anfoddhaol fyth yng Nghwm Cynon. Nid ydym felly yn dymuno gwneud unrhyw wrthgynnig.

- 2.3.3. Nodwn mai opsiynau cyfyngedig sydd gan y Comisiwn o fewn Dinas Caerdydd lle mae De Caerdydd a Phenarth BC yn rhy fawr ar hyn o bryd tra bod y tair sedd arall i gyd yn rhy fach, gydag ond 60,192 o etholwyr yng Ngogledd Caerdydd. Mae niferoedd etholwyr mawr nodweddiadol wardiau yn y ddinas yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael, ac yn golygu y gallai gwneud yr addasiadau gofynnol o fewn y ddinas arwain at ail-lunio'n llwyr batrwm y seddi yng Nghaerdydd sydd wedi aros yn ddigyfnewid gan mwyaf ers 1983.
- 2.3.4. At ei gilydd, felly, rydym yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol sy'n cadw tair o'r pedair etholaeth yn hollol gyfan ac yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fydd yn symud etholaeth. Credwn fod cynnwys Dinas Powys yn Ne Caerdydd a Phenarth BC yn estyniad rhesymegol i'r trefniadau presennol a bod Dinas Powys ei hun yn troi at Gaerdydd a bod ganddi gysylltiadau trafniadaeth da. Rydym yn derbyn y byddai cynnwys ward Ffynnon Taf yn etholaeth Gogledd Caerdydd BC a Phont-y-Clun yng Ngorllewin Caerdydd BC yn golygu mai dim ond un etholaeth fyddai'n gyfan gwbl o fewn Caerdydd, ac y byddai Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cael ei rhannu rhwng pum etholaeth wahanol. Fodd bynnag, credwn fod yna gysylltiadau, gan gynnwys cysylltiadau ffordd a rheilffordd, rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd a rhwng Pont-y-Clun a gorllewin Caerdydd sy'n gwneud y ddau gynnig yn rhai synhwyrol.
- 2.3.5. Rydym, felly, yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Pontypridd CC a Rhondda CC.
- 2.3.6. Rydym hefyd yn cefnogi etholaeth ddiwygiedig Bro Morgannwg CC, sydd heb ei newid ac eithrio trosglwyddo Dinas Powys.

2.4. De Orllewin Cymru

- 2.4.1. Nodwn fod angen gwneud pob etholaeth yng ngweddill Cymru yn fwy a bod newid mawr yn angenrheidiol felly.

- 2.4.2. Cefnogwn gynigion y Comisiwn ar gyfer dwy sedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont, ac yn arbennig trosglwyddo tref Porthcawl i Aberafan Porthcawl CC. Credwn fod cysylltiadau rhwng Margam, Corneli a'r Pîl sy'n gwneud hwn y lle rhesymegol ar gyfer etholaeth sy'n cynnwys rhannau o fwrdeistrefi sirol Pen-y-bont a Chastell-nedd Port Talbot. Rydym hefyd yn cefnogi etholaeth arfaethedig Pen-y-bont CC a chytunwn, at ei gilydd, mai dyma'r enw priodol ar gyfer yr etholaeth o ystyried mai Pen-y-bont fyddai'r anheddiad mwyaf, ac mai dyna yw enw'r awdurdod lleol yn ogystal.
- 2.4.3. Fel y nodwyd uchod, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn ar gyfer etholaeth Aberhonddu a Maesyfed CC i gynnwys deg ward o etholaeth bresennol Castell-nedd CC yn cynnwys Cwm Tawe Uchaf. Credwn y byddai unrhyw gynnis amgen arall yn arwain at fwy o darfu, a bod yr ardal hon yn ffurfio estyniad naturiol i'r etholaeth bresennol, gan barchu'r cysylltiadau rhwng Ystalyfera ac Ystradgynlais.
- 2.4.4. Rydym yn cefnogi darparu tair sedd gyfan i weddill Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas Abertawe, ond credwn fod y Cynigion Cychwynnol yn anfoddhaol o ran creu trefniant rheiddiol lle mae dwy etholaeth yn cynnwys rhan o ganol Abertawe, ac yn ymestyn cryn bellter ymhellach i gymunedau lle mae ganddynt ychydig iawn o gysylltiadau â nhw.
- 2.4.5. Credwn fod yr angen i leihau nifer y seddi yn y rhan hon o Gymru yn cyfiawnhau creu un etholaeth sy'n cwmpasu Canol Dinas Abertawe yn gyfan gwbl. Dymunwn, felly, gynnig y dylai etholaeth Canol a Gogledd Abertawe BC gynnwys wardiau Bôn-y-maen, St Thomas, Mayals a Sgeti, gyda wardiau Llangyfelach, Mawr, Penllergaer a Phontarddulais yn cael eu cadw yn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr CC. Wedyn, cynigiwn y dylai ward Treforys gael ei throsglwyddo i etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Byddem yn awgrymu ymhellach y dylai etholaeth Canol a Gogledd Abertawe CC gael ei galw'n etholaeth Canol Abertawe BC yn syml.

- 2.4.6. Byddai'r gwrthgynnig yn arwain at gadw etholaeth gyfan Gŵyr CC yn gyflawn ac eithrio ward Clydach, tra byddai Canol Abertawe BC yn cynnwys mwyafrif o etholaethau Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe.
- 2.4.7. Mae rhestr wardiau a map y gwrthgynnig wedi'u hamlinellu isod.
- 2.4.8. Fel y dywedwyd uchod, rydym yn cefnogi etholaethau arfaethedig Caerfyrddin CC a Llanelli CC. Serch hynny, dymunwn wneud gwrthgynnig bach yn Sir Benfro. Mae hwn ar gyfer wardiau Solfach a Thyddewi i'w cynnwys yn etholaeth Canol a De Sir Benfro CC, a Cheredigion Preseli CC i gynnwys ward Maenclochog yn Sir Benfro. Credwn fod y cynnig hwn yn gwella ffurf y ddwy etholaeth gyda rhan Sir Benfro o Ceredigion Preseli CC yn canolbwyntio mwy ar Abergwaun fel ei chanolfan leol, tra'n parchu cysylltiadau Tyddewi gyda Hwlfordd a'r cymunedau arfordirol i'r de ohono.

2.5. Canolbarth a Gogledd Cymru

- 2.5.1. Rydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed CC, a hefyd etholaeth arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr CC. Rydym yn cydnabod eto y byddai'r etholaeth olaf hon yn cynnwys rhannau o dri awdurdod lleol, ond mae'r ardaloedd sy'n cael eu hychwanegu i gyd yn dod o sedd bresennol De Clwyd, a chredwn eu bod yn rhesymegol a chryno, ac yn cydweddu'n dda ag etholaeth Sir Drefaldwyn.
- 2.5.2. Nodwn wedyn y gellir cadw'r cyfan o etholaeth bresennol Wrecsam CC yn gyflawn wrth ychwanegu 11 ward arall sydd hefyd yn Ne Clwyd CC ar hyn o bryd.
- 2.5.3. Yng ngweddill Gogledd Cymru, rydym yn cydnabod bod rhaid cael gostyngiad net o ddwy sedd ac y bydd hyn yn arwain at gryn newid ac etholaethau sy'n cwmpasu ardaloedd mawr iawn. Nodwn fod y Comisiwn yn cynnig bod etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy CC yn cael ei

chadw'n gyflawn gydag ychwanegu dwy ward o Fwrdeistref Sirol Wrecsam a thair ward o Sir y Fflint sydd yn etholaeth Delyn CC ar hyn o bryd, ac rydym yn cefnogi hynny.

- 2.5.4. Rydym yn croesawu cadw tair prif dref y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug o fewn etholaeth Delyn CC, a chredwn fod ychwanegu Prestatyn yn rhesymegol hefyd. Credwn fod cysylltiadau Delyn â Rhuthun a phedair ward wledig Sir Ddinbych sydd wedi'u hychwanegu at y sedd, yn wannach, ond nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthgynnig.
- 2.5.5. Cefnogwn y cynigion ar gyfer y tair sedd sy'n weddill yng Ngogledd Cymru, gan nodi bod etholaethau presennol Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd ill dwy yn cael eu cadw'n gyflawn o fewn eu seddi mwy, a bod etholaeth arfaethedig Clwyd CC yn cynnwys y mwyafrif helaeth y wardiau yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd CC.
- 2.5.6. Mae manylion gwrthgynigion y Blaid Lafur wedi'u hamlinellu isod. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn ystyried yr holl gynigion a wneir gan rai eraill ac yn gwneud sylwadau arnynt yn ystod yr Ail Gyfnod Ymgynghori.


3. Gwrthgynigion

3.1. Mae'r gwrthgynnig ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe fel a ganlyn:

Etholaeth a Nifer yr Etholwyr	Wardiau
Canol Abertawe BC 75,560	Wardiau Dinas a Sir <u>Abertawe</u> : Bôn-y-maen, Y Castell, Cwmbwrla, Glandŵr, Mayals, Mynydd-bach, Penderi, St. Thomas, Sgeti, Townhill, Uplands

Etholaeth a Nifer yr Etholwyr	Wardiau
				Rhondda Cynon Taf	Llwyn-y-pla	1,637
				Rhondda Cynon Taf	Maerdy	2,283
				Rhondda Cynon Taf	Pentre	3,902
				Rhondda Cynon Taf	Pen-y-graig	3,929
				Rhondda Cynon Taf	Pen-y-waun	1,973
				Rhondda Cynon Taf	Porth	4,282
				Rhondda Cynon Taf	Rhigos	1,370
				Rhondda Cynon Taf	Tonypandy	2,686
				Rhondda Cynon Taf	Trealaw	2,895
				Rhondda Cynon Taf	Treherbert	4,158
				Rhondda Cynon Taf	Treorci	5,693
				Rhondda Cynon Taf	Pendyrus	3,054
				Rhondda Cynon Taf	Ynysir	2,380
				Rhondda Cynon Taf	Ystrad	4,285
21	Pontypridd	Pontypridd	72,127	Rhondda Cynon Taf	Gogledd Aberaman	3,609
				Rhondda Cynon Taf	De Aberaman	3,541
				Rhondda Cynon Taf	Abercynon	4,441
				Rhondda Cynon Taf	Beddau	3,172
				Rhondda Cynon Taf	Pentre'r Eglwys	4,424
				Rhondda Cynon Taf	Cliffynydd	2,110
				Rhondda Cynon Taf	Glyncoch	2,006
				Rhondda Cynon Taf	Graig	1,885
				Rhondda Cynon Taf	Y Ddraenen	3,180
					Wen	
				Rhondda Cynon Taf	Tref Llantrisant	3,187
				Rhondda Cynon Taf	Llanilltud Faerdref	4,825
				Rhondda Cynon Taf	Dwyrain Aberpennar	2,254
				Rhondda Cynon Taf	Gorllewin Aberpennar	3,123
				Rhondda Cynon Taf	Penrhiwceiber	4,056
				Rhondda Cynon Taf	Tref Pontypridd	2,208
				Rhondda Cynon Taf	Rhondda	3,458
				Rhondda Cynon Taf	Canol Rhydfelen/Ilan	3,037
				Rhondda Cynon Taf	Ffynnon Taf	2,855
				Rhondda Cynon Taf	Ton-teg	3,183
				Rhondda Cynon Taf	Trailwng	2,824
				Rhondda Cynon Taf	Treforest	2,862
				Rhondda Cynon Taf	Tyn-y-Nant	2,454
				Rhondda Cynon Taf	Ynysbwl	3,433
22	Merthyr & Rhymney	Merthyr Tudful a Rhymni	76,444	Caerffili/Caerphilly	Aberbargoed	2,706
				Caerffili/Caerphilly	Bargoed	4,431
				Caerffili/Caerphilly	Cefn Fforest	2,845
				Caerffili/Caerphilly	Cwm Darran	1,870

				Caerffili/Caerphilly	Gilfach	1,534
				Caerffili/Caerphilly	Moriah	3,128
				Caerffili/Caerphilly	Tredegar Newydd	3,357
				Caerffili/Caerphilly	Pengam	2,760
				Caerffili/Caerphilly	Pontlotyn	1,432
				Caerffili/Caerphilly	St. Cattwg	5,579
				Caerffili/Caerphilly	Twyn Carno	1,721
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Bedlinog	2,977
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Cyfarthfa	5,457
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Dowlais	5,014
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Gurnos	3,477
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Bro Merthyr	2,798
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Parc	3,296
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Penydarren	3,818
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Plymouth	4,096
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Tref	5,998
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Treharris	5,270
				Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil	Y Faenor	2,880
23	Ebbw Vale	Glyn Ebwy	76,847	Blaenau Gwent	Abertyleri	3,074
				Blaenau Gwent	Badminton	2,452
				Blaenau Gwent	Beaufort	2,717
				Blaenau Gwent	Blaina	3,497
				Blaenau Gwent	Brynmawr	4,028
				Blaenau Gwent	Cwm	3,254
				Blaenau Gwent	Cwmtyleri	3,383
				Blaenau Gwent	Gogledd Glynibwy	3,268
				Blaenau Gwent	De Glynibwy	2,959
				Blaenau Gwent	Georgetown	3,091
				Blaenau Gwent	Llanhilleth	3,387
				Blaenau Gwent	Nantyglo	3,350
				Blaenau Gwent	Rassau	2,463
				Blaenau Gwent	Sirhywi	4,210
				Blaenau Gwent	Six Bells	1,740
				Blaenau Gwent	Canol a Gorllewin Tredegar	4,027
				Caerffili/Caerphilly	Abercarn	4,139
				Caerffili/Caerphilly	Argoed	2,035
				Caerffili/Caerphilly	Coed Duon	6,330
				Caerffili/Caerphilly	Crymlyn	4,332
				Caerffili/Caerphilly	Trecelyn	4,892
				Caerffili/Caerphilly	Penmaen	4,219
24	Cardiff West	Gorllewin Caerdydd	73,878	Caerdydd/Cardiff	Caerau	7,859
				Caerdydd/Cardiff	Treganna	11,457
				Caerdydd/Cardiff	Creigiau/Sain Ffagan	4,409
				Caerdydd/Cardiff	Trelái	9,576
				Caerdydd/Cardiff	Tyllgoed	9,642
				Caerdydd/Cardiff	Llandaf	7,078
				Caerdydd/Cardiff	Gogledd Llandaf	5,992
				Caerdydd/Cardiff	Pentyrch	2,819
				Caerdydd/Cardiff	Radyr	5,425
				Caerdydd/Cardiff	Glan yr Afon	9,621
25	Cardiff South	De Caerdydd	71,092	Caerdydd/Cardiff	Adamsdown	5,692
				Caerdydd/Cardiff	Butetown	7,834
				Caerdydd/Cardiff	Grangetown	13,257
				Caerdydd/Cardiff	Llanrhyddi	7,758
				Caerdydd/Cardiff	Penylan	9,858
				Caerdydd/Cardiff	Tredelerch	6,536
				Caerdydd/Cardiff	Sblot	9,081
				Caerdydd/Cardiff	Trowbridge	11,076
26	Mid Cardiff	Canol Caerdydd	73,667	Caerdydd/Cardiff	Cathays	13,099
				Caerdydd/Cardiff	Cyncoed	8,475
				Caerdydd/Cardiff	Gabalfa	5,922
				Caerdydd/Cardiff	Y Mynydd	9,611
				Caerdydd/Cardiff	Bychan	
				Caerdydd/Cardiff	Llanisien	13,492
				Caerdydd/Cardiff	Pentwyn	10,783
				Caerdydd/Cardiff	Plasnewydd	12,285
27	Caerphilly & Cardiff North	Caerffili a Gogledd Caerdydd	70,234	Caerdydd/Cardiff	Llys-faen	2,942
				Caerdydd/Cardiff	Pontprenau/Hen Laneirwg	8,047
				Caerdydd/Cardiff	Rhiwbina	9,354
				Caerdydd/Cardiff	Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	12,928
				Caerffili/Caerphilly	Cwm Aber	4,655
				Caerffili/Caerphilly	Llanbradach	3,239
				Caerffili/Caerphilly	Morgan Jones	5,636
				Caerffili/Caerphilly	Ffos y Gerddinen	3,563
				Caerffili/Caerphilly	Penyrheol	9,021
				Caerffili/Caerphilly	St. James	4,267
				Caerffili/Caerphilly	St. Martins	6,582
28	Newport West & Risca	Gorllewin Casnewydd a Risca	74,598	Caerffili/Caerphilly	Bedwas, Trethomas a Machen	7,902
				Caerffili/Caerphilly	Pont-y-cymer	2,527
				Caerffili/Caerphilly	Hengoed	4,055
				Caerffili/Caerphilly	Maescymer	1,811
				Caerffili/Caerphilly	Pontllanfraith	6,343
				Caerffili/Caerphilly	Dwyrain Rhisga	4,611
				Caerffili/Caerphilly	Gorllewin Rhisga	3,973
				Caerffili/Caerphilly	Ynysdu	2,978
				Caerffili/Caerphilly	Ystrad Mynach	4,067
				Casnewydd/Newport	Allt-yr-yn	7,088
				Casnewydd/Newport	Gaer	6,543
				Casnewydd/Newport	Graig	5,053
				Casnewydd/Newport	Maerun	4,897
				Casnewydd/Newport	Trefgwlwm	9,421
				Casnewydd/Newport	Parc Tredegar	3,329
29	Newport East	Dwyrain Casnewydd	76,159	Casnewydd/Newport	Alway	5,931
				Casnewydd/Newport	Beechwood	5,611
				Casnewydd/Newport	Betws	5,656
				Casnewydd/Newport	Caerllion	6,603

				Casnewydd/Newport	Langstone	3,878
				Casnewydd/Newport	Llyswry	9,110
				Casnewydd/Newport	Llanwern	3,544
				Casnewydd/Newport	Malpas	6,114
				Casnewydd/Newport	Pillgwenlli	5,174
				Casnewydd/Newport	Ringland	5,968
				Casnewydd/Newport	Shaftesbury	3,778
				Casnewydd/Newport	St. Julians	6,287
				Casnewydd/Newport	Stow Hill	3,384
				Casnewydd/Newport	Victoria	5,121
30	Pont-y-pŵl	Pont-y-pŵl	70,591	Torfaen	Abersychan	5,044
				Torfaen	Blaenafon	4,575
				Torfaen	Brynwern	1,295
				Torfaen	Coed Efa	1,859
				Torfaen	Gogledd	2,745
					Croesycellio	
				Torfaen	De Croesycellio	1,460
				Torfaen	Cwmynyscoy	987
				Torfaen	Tyllgoed	3,918
				Torfaen	Greenmeadow	2,028
				Torfaen	Llantarnam	4,864
				Torfaen	Dwyrain Llanyraon a Phonthir	1,803
				Torfaen	Gorllewin	1,946
					Llanyraon	
				Torfaen	New Inn	4,777
				Torfaen	Panteg	5,828
				Torfaen	Pontnewydd	5,186
				Torfaen	Pontnewynydd	1,129
				Torfaen	Pont-y-pŵl	1,438
				Torfaen	Snatchwood	1,819
				Torfaen	St Dials	3,317
				Torfaen	St. Cadocs a Phenygarn	1,341
				Torfaen	Trefethin	2,463
				Torfaen	Two Locks	4,715
				Torfaen	Cwmbrân Uchaf	4,207
				Torfaen	Wainfelin	1,847
31	Monmouth	Mynwy	72,681	Sir Fynwy/Monmouthshire	Caerwent	1,699
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Castell Cil-y-coed	1,768
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Cantref	1,668
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Castell	1,611
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Croesonen	1,609
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Crucornau Fawr	1,773
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Y Dyfawden	1,228
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llanddewi	1,404
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llandidwgi gyda The-osbon	1,968
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Drybridge	3,034
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Goetre Fawr	2,045
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Lôn Werdd	1,482
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Grofield	1,308
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Lansdown	1,644
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Larkfield	1,484
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llanbadoc	1,099
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Bryn Llanelli	3,286
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llanfoist Fawr	1,971
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llangybi Fawr	1,477
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llanofer	1,781
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llantilio Crossenny	1,527
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llanwenarth Ultra	1,128
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Maerdy	1,430
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Melin	2,256
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Llanfihangel Troddi	985
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Overmonnow	1,662
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Porthsgiwed	1,885
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Priordy	1,546
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Raglan	1,618
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Rogiet	1,365
				Sir Fynwy/Monmouthshire	St. Arvans	1,304
				Sir Fynwy/Monmouthshire	St. Christopher's	1,756
				Sir Fynwy/Monmouthshire	St. Kingsmark	2,346
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Santes Fair	1,539
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Hafren	1,325
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Drenewydd Gelli-farch	1,850
				Sir Fynwy/Monmouthshire	The Elms	2,523
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Thornwell	1,961
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Trellech Unedig	2,249
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Brynbuga	1,930
				Sir Fynwy/Monmouthshire	West End	1,456
				Sir Fynwy/Monmouthshire	Wyesham	1,701







BCW-10056 / [REDACTED] / Port Talbot

Mae'r etholaeth arfaethedig yn rhy fawr, a byddai'n well gennyf pe bai fy Aelod Seneddol lleol yn cynrychioli fy ardal leol.

BCW-10057 / [REDACTED] / Caerffili

Rwy'n cynrychioli Llanbradach fel cynghorydd sir. Rwy'n gwrthwynebu'r bwriad i wahanu fy ward oddi wrth weddill ardal basn Caerffili, y mae gan y ward gysylltiad naturiol â hi.

Rwy'n gwrthwynebu'r cynigion yn gyffredinol sy'n rhannu fy ardal yn ddiangen. Mae poblogaeth Cwm Rhymni yn cael ei defnyddio er mwyn ychwanegu at boblogaeth ardaloedd eraill.

Mae'r cysylltiad rhwng cymunedau Cwm Rhymni yn bodoli ers amser maith, a dylid parchu'r cysylltiad hwnnw. Dylai'r etholaeth bresennol ar gyfer San Steffan gynnwys y cwm cyfan yn hytrach na'r rhaniad artiffisial a gynigir.

Caiff yr ardal ei huno gan reilffordd Rhymni sy'n darparu cysylltiad da rhwng y cwm a Chaerdydd.

Mae'r syniad, er enghraifft, y dylai basn Caerffili gael ei uno ag etholaeth Gorllewin Casnewydd, nad oes ganddo fawr ddim cysylltiad â hi, yn anghywir.

Rwy'n pwysu arnoch i ailystyried y cynigion a pharchu integriti Llanbradach a Chwm Rhymni yn ei gyfanrwydd.

Diolch.

BCW-10058 / [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n ysgrifennu ynghylch cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer ward Llansamlet yn Abertawe.

Rwy'n gwrthwynebu ar sail y rhesymau canlynol –

Mae gen i ffrindiau sy'n byw yn Llansamlet ac mae pawb yn ystyried bod y lle yn rhan o Abertawe. Mae'r gymuned mewn penbleth, oherwydd roedd pawb yn ystyried bod Llansamlet yn rhan annatod o Abertawe.

Rwy'n deall y rhesymau dros leihau nifer yr Aelodau Seneddol, ond rhaid bod yna ffordd fwy synhwyrol o ad-drefnu seddi Abertawe.

Mae Llansamlet yn rhan o gymuned ehangach Abertawe; mae'n ganolfan fasnachol sedd bresennol Dwyrain Abertawe. Mae Parc Menter Abertawe wedi'i leoli yn ei gyfanrwydd yn Llansamlet ac mae dros 10,000 o bobl yn gweithio yno. Mae ward Llansamlet yn gartref i ran o'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, y Gofrestrfa Tir a Chanolfan Bensiynau'r DU, mae ganddi dair canolfan alwadau fawr gan gynnwys un ar gyfer Banc HSBC, ac mae pencadlys cwmni yswiriant Admiral yma. Byddai'n hollol anghywir trosglwyddo canolfan fasnachol sy'n rhan annatod o'r economi leol i sedd newydd nad oes gan y ganolfan ddim yn gyffredin â hi.

Mae Llansamlet yn gymuned gydlynus o fewn ffin plwyf Eglwys Sant Samlet. Dylai barhau mewn un ward llywodraeth leol, mewn sedd sydd yn Abertawe.

Pe bai Llansamlet yn rhan o sedd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, byddai mwyafrif poblogaeth yr etholaeth yng Nghastell-nedd, ac yno y byddai ffocws y sedd hefyd felly, gyda rhan Abertawe o'r sedd yn elfen atodol. Byddem yn rhan fach o endid mwy o lawer o faint, ac rydym yn ofni y byddai'r ardal yn dioddef oherwydd ei bod yn rhan fach o ardal nad ydym erioed wedi bod yn rhan ohoni.

Mae'r ysgolion lleol yn gweithredu dan system addysg Abertawe; mae'r plant yn byw yn y gymuned ac yn mynd i'r ysgol yn yr ardal. Ychydig o blant o Llansamlet, os oes rhai o gwbl, sy'n mynd i ysgolion yng Nghastell-nedd.

Mae hanes Llansamlet yn rhan o hanes diwydiannol Abertawe sy'n seiliedig ar ddiwydiannau trwm trin metel, a oedd yn nodweddu rhan isaf Cwm Tawe. Arweiniodd y gwaith o adfywio rhan isaf Cwm Tawe at greu un o Barciau Menter cyntaf y DU ddechrau'r 1980au, sef Parc Menter Llansamlet neu Abertawe y cyfeirir ato yn y sylwadau hyn. Mae'r enw yn dweud y cyfan – nid yw'r ardal wedi bod yn gysylltiedig erioed â Chastell-nedd.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Llansamlet a Chastell-nedd yn wael, ac nid oes gan ran helaeth o ardal Gellifedw yn ward Llansamlet unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth uniongyrchol â Chastell-nedd ers i'r gwasanaeth bws uniongyrchol ddod i ben yn 2018. Byddai hynny'n golygu ei bod yn anodd iawn gweld yr Aelod Seneddol pe bai ei swyddfa yng nghanol tref Castell-nedd.

Mae clybiau chwaraeon yn Llansamlet naill ai'n chwarae mewn cystadlaethau ar gyfer de Cymru neu'n chwarae mewn cystadlaethau yn Abertawe; nid oes unrhyw un ohonynt yn chwarae mewn cystadlaethau yng Nghastell-nedd. Mae'n amlwg bod golygon Llansamlet o safbwynt chwaraeon a diwylliant yn troi at Abertawe.

O ystyried nifer y wardiau sy'n dod o etholaeth bresennol Castell-nedd, Castell-nedd fydd ffocws y sedd a rhaid bod yna siawns y bydd yr Aelod Seneddol yn dewis cael ei swyddfa yng Nghastell-nedd.

Am y rhesymau hyn, rwy'n gwrthwynebu yn gryf y bwriad i gynnwys Llansamlet yn sedd newydd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe; dylai Llansamlet barhau'n rhan o sedd sydd yn Abertawe ac sy'n canolbwyntio ar Abertawe.

BCW-10059 / [REDACTED] / Nelson

Rwy'n siomedig ynglŷn â'r bwriad i rannu etholaeth Caerffili. Rwy'n byw yn Nelson sydd yn un o gorneli'r fwrdeistref sirol, yn agos i ffiniau â Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Byddai'r cynigion presennol yn symud Nelson i mewn i etholaeth Merthyr. Bydd Nelson a Llanfabon ym mhen deheuol etholaeth a fydd yn ymestyn ymhell i mewn i Fannau Brycheiniog. Eto i gyd, rwy'n gallu cerdded yn hawdd o fy nghartref i bencadlys Bwrdeistref Caerffili a siambr y Cyngor yn Ystrad Mynach. Mae gen i fwy o lawer o gysylltiadau â chymunedau eraill yn etholaethau arfaethedig Islwyn neu Bontypridd. Rwyf hefyd yn pryderu am y rhan o Gaerffili a fydd yn cael ei huno â rhan o etholaeth Gorllewin Casnewydd. Mae'r bobl yr wyf yn eu hadnabod o dref Caerffili a'r cymunedau cyfagos yn tueddu i uniaethu'n fwy o lawer â Chaerdydd o safbwynt cyfleoedd gwaith ac o safbwynt gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, yn rhannol oherwydd bod y cysylltiadau trafndiaeth gymaint yn well.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Comisiwn yn adolygu'r cynigion ar gyfer etholaeth bresennol Caerffili ac etholaethau eraill er mwyn adlewyrchu daearyddiaeth gymdeithasol, economaidd a ffisegol y cymoedd yn well.

Mae fy Aelod Seneddol presennol, Wayne David, wedi cyflwyno cynlluniau amgen sy'n haeddu cael eu hystyried yn fy marn i.

Cofion, [REDACTED]

BCW-10060 / [REDACTED] Cangen Lafur Llansamlet / Abertawe

- Mae Llansamlet yn rhan annatod o Abertawe ac mae wedi bod yn rhan o Abertawe ers 1918.
- Canlyniad fformiwla hollol fathemategol yw'r broses o greu'r sedd newydd, ac nid yw'n ystyried hanes, traddodiadau cymunedol na'r cysylltiadau trafndiaeth gwael rhwng llawer o Lansamlet a Chastell-nedd.
- Mae Llansamlet yn rhan o gymuned ehangach Abertawe; mae'n ganolfan fasnachol sedd bresennol Dwyrain Abertawe. Mae Parc Menter Abertawe wedi'i leoli yn ei gyfanrwydd yn Llansamlet ac mae dros 10,000 o bobl yn gweithio yno. Mae ward Llansamlet yn gartref i ran o'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, y Gofrestrfa Tir a Chanolfan Bensiynau'r DU, mae ganddi dair canolfan alwadau fawr gan gynnwys un ar gyfer Banc HSBC, ac mae pencadlys cwmni yswiriant Admiral yma. Byddai'n hollol anghywir trosglwyddo canolfan fasnachol sy'n rhan annatod o'r economi leol i sedd newydd nad oes gan y ganolfan ddim yn gyffredin â hi.
- Mae Llansamlet yn gymuned gydlynus o fewn ffin plwyf Eglwys Sant Samlet. Dylai barhau mewn un ward llywodraeth leol, mewn sedd sydd yn Abertawe. Ni ddylai'r Comisiwn ystyried unrhyw syniadau neu gynigion ynghylch rhannu'r ward a gosod rhan breswyl Llansamlet yn y sedd seneddol newydd, gyda Pharc Menter Abertawe yn cael ei gadw mewn sedd sydd yn Abertawe ac sy'n canolbwyntio ar Abertawe.
- Pe bai Llansamlet yn rhan o sedd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, byddai mwyafrif poblogaeth yr etholaeth yng Nghastell-nedd, ac yno y byddai ffocws y sedd hefyd felly, gyda rhan Abertawe o'r sedd yn elfen atodol. Byddem yn rhan fach o endid mwy o lawer o faint, ac rydym yn ofni y byddai'r ardal yn dioddef oherwydd ei bod yn rhan fach o ardal nad ydym erioed wedi bod yn rhan ohoni.
- Mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned leol sy'n cynnwys llawer o grwpiau yn y sector gwirfoddol sy'n cynorthwyo'r gymuned. Unwaith eto, maent yn rhan o sector gwirfoddol ehangach Abertawe ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad â Chastell-nedd.
- Mae hanes Llansamlet yn rhan o hanes diwydiannol Abertawe sy'n seiliedig ar ddiwydiannau trwm trin metel, a oedd yn nodweddu rhan isaf Cwm Tawe. Arweiniodd y gwaith o adfywio rhan isaf Cwm Tawe at greu un o Barciau Menter cyntaf y DU ddechrau'r 1980au, sef Parc Menter Llansamlet neu Abertawe y cyfeirir ato yn y sylwadau hyn. Mae'r enw yn dweud y cyfan – nid yw'r ardal wedi bod yn gysylltiedig erioed â Chastell-nedd.
- Mae cysylltiadau trafndiaeth rhwng Llansamlet a Chastell-nedd yn wael, ac nid oes gan ran helaeth o ardal Gellifedw yn ward Llansamlet unrhyw gysylltiadau trafndiaeth uniongyrchol â Chastell-nedd ers i'r gwasanaeth bws uniongyrchol ddod i ben yn 2018. Byddai hynny'n golygu ei bod yn anodd iawn gweld yr Aelod Seneddol pe bai ei swyddfa yng nghanol tref Castell-nedd.

- Mae clybiau chwaraeon yn Llansamlet naill ai'n chwarae mewn cystadlaethau ar gyfer de Cymru neu'n chwarae mewn cystadlaethau yn Abertawe; nid oes unrhyw un ohonynt yn chwarae mewn cystadlaethau yng Nghastell-nedd. Mae'n amlwg bod golygon Llansamlet o safbwynt chwaraeon a diwylliant yn troi at Abertawe.

Mae'r wybodaeth uchod yn gyfres gydlynus o resymau pam y dylai Llansamlet barhau'n rhan o sedd seneddol sydd yn Abertawe ac sy'n canolbwyntio ar Abertawe. Mae hanes y ward a'i chysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol yn ymwneud yn gyfan gwbl ag Abertawe, ac maent yn cyfrannu tystiolaeth ynghylch pam y dylai ei dyfodol fod gyda seddi seneddol Abertawe.

BCW-10061 / [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n ysgrifennu ynghylch cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer ward Llansamlet yn Abertawe.

Dan y cynigion a amlinellir yn adroddiad y Comisiwn, disgwylir y bydd y gymuned hon yn rhan o etholaeth newydd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu'r cynnig i osod Llansamlet yn yr etholaeth newydd hon.

Rwy'n gwrthwynebu ar sail y rhesymau canlynol –

- Mae Llansamlet yn rhan annatod o Abertawe ac mae wedi bod yn rhan o Abertawe ers 1918.

Yn hanesyddol afonydd, nentydd, bryniau a mynyddoedd sydd wedi bod yn ffiniau rhwng cymunedau erioed, nid cyfrifiannell sy'n troi'r ffigurau yn rhifau hawdd eu trin.

- Canlyniad fformiwla hollol fathemategol yw'r broses o greu'r sedd newydd, ac nid yw'n ystyried hanes, traddodiadau cymunedol na'r cysylltiadau trafnidiaeth gwael rhwng llawer o Lansamlet a Chastell-nedd.
- Mae Llansamlet yn rhan o gymuned ehangach Abertawe; mae'n ganolfan fasnachol sedd bresennol Dwyrain Abertawe. Mae Parc Menter Abertawe wedi'i leoli yn ei gyfanrwydd yn Llansamlet ac mae dros 10,000 o bobl yn gweithio yno. Mae ward Llansamlet yn gartref i ran o'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, y Gofrestrfa Tir a Chanolfan Bensiynau'r DU, mae ganddi dair canolfan alwadau fawr gan gynnwys un ar gyfer Banc HSBC, ac mae pencadlys cwmni yswiriant Admiral yma. Byddai'n hollol anghywir trosglwyddo canolfan fasnachol sy'n rhan annatod o'r economi leol i sedd newydd nad oes gan y ganolfan ddim yn gyffredin â hi.
- Mae Llansamlet yn gymuned gydlynus o fewn ffin plwyf Eglwys Sant Samlet. Dylai barhau mewn un ward llywodraeth leol, mewn sedd sydd yn Abertawe. Ni ddylai'r Comisiwn ystyried unrhyw syniadau neu gynigion ynghylch rhannu'r ward a gosod rhan breswyl Llansamlet yn y sedd seneddol newydd, gyda Pharc Menter Abertawe yn cael ei gadw mewn sedd sydd yn Abertawe ac sy'n canolbwyntio ar Abertawe.
- Pe bai Llansamlet yn rhan o sedd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, byddai mwyafrif poblogaeth yr etholaeth yng Nghastell-nedd, ac yno y byddai ffocws y sedd hefyd felly, gyda rhan Abertawe o'r sedd yn elfen atodol. Byddem yn rhan fach o endid mwy o lawer o faint, ac rydym yn ofni y byddai'r ardal yn dioddef oherwydd ei bod yn rhan fach o ardal nad ydym erioed wedi bod yn rhan ohoni.
- Mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned leol sy'n cynnwys llawer o grwpiau yn y sector gwirfoddol sy'n cynorthwyo'r gymuned. Unwaith eto, maent yn rhan o

sector gwirfoddol ehangach Abertawe ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad â Chastell-nedd.

- Mae hanes Llansamlet yn rhan o hanes diwydiannol Abertawe sy'n seiliedig ar ddiwydiannau trwm trin metel, a oedd yn nodweddu rhan isaf Cwm Tawe. Arweiniodd y gwaith o adfywio rhan isaf Cwm Tawe at greu un o Barciau Menter cyntaf y DU ddechrau'r 1980au, sef Parc Menter Llansamlet neu Abertawe y cyfeirir ato yn y sylwadau hyn. Mae'r enw yn dweud y cyfan – nid yw'r ardal wedi bod yn gysylltiedig erioed â Chastell-nedd.
- Mae cysylltiadau trafndiaeth rhwng Llansamlet a Chastell-nedd yn wael, ac nid oes gan ran helaeth o ardal Gellifedw yn ward Llansamlet unrhyw gysylltiadau trafndiaeth uniongyrchol â Chastell-nedd ers i'r gwasanaeth bws uniongyrchol ddod i ben yn 2018. Byddai hynny'n golygu ei bod yn anodd iawn gweld yr Aelod Seneddol pe bai ei swyddfa yng nghanol tref Castell-nedd.
- Mae clybiau chwaraeon yn Llansamlet naill ai'n chwarae mewn cystadlaethau ar gyfer de Cymru neu'n chwarae mewn cystadlaethau yn Abertawe; nid oes unrhyw un ohonynt yn chwarae mewn cystadlaethau yng Nghastell-nedd. Mae'n amlwg bod golygon Llansamlet o safbwynt chwaraeon a diwylliant yn troi at Abertawe.

Mae'r wybodaeth uchod yn gyfres gydlynus o resymau pam y dylai Llansamlet barhau'n rhan o sedd seneddol sydd yn Abertawe ac sy'n canolbwyntio ar Abertawe. Mae hanes y ward a'i chysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol yn ymwneud yn gyfan gwbl ag Abertawe, ac maent yn cyfrannu tystiolaeth ynghylch pam y dylai ei dyfodol fod gyda seddi seneddol Abertawe.

BCW-10062 / [REDACTED] / Caerdydd

Rwyf yn croesawu ac yn cefnogi'r cynnig i gadw Etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd yn gyfan, drwy ychwanegu ward etholiadol Ffynnon Taf ati er mwyn creu Etholaeth newydd ac ehangach arfaethedig Gogledd Caerdydd.

Fodd bynnag, ni fydd cydraddoli maint etholaethau yn gwneud Y Cyntaf i'r Felin yn system bleidleisio deg.

Dychmygwch Etholiad Cyffredinol lle:

mae'r DU wedi'i rhannu'n 650 o etholaethau i gyd gyda'r un nifer yn union o etholwyr, fel nad yw'r canlyniad cyffredinol yn cael ei ystumio gan etholaethau o wahanol faint;

dim ond dwy blaid sy'n herio'r etholiad, ac mae'r ddwy blaid yn herio pob sedd, fel na fydd y canlyniad cyffredinol yn cael ei ystumio gan drydydd parti yn rhannu'r bleidlais;

mae nifer yr etholwyr sy'n dod i bleidleisio yn union yr un fath ym mhob etholaeth, fel na fydd y canlyniad cyffredinol yn cael ei ystumio gan nifer wahanol o bobl sy'n pleidleisio;

mae'r ddwy blaid yn cael yr un nifer yn union o bleidleisiau ar draws y DU, ac mae pleidleisiau'r ddwy blaid yn cael eu gwasgaru'n weddol gyfartal ledled y DU.

Gallai Plaid A ennill 649 o seddi, pob un â mwyafrif o un bleidlais, a cholli un sedd i Blaid B o 649 pleidlais.

Fodd bynnag, pe bai'r ffiniau'n cael eu tynnu'n wahanol, gallai Plaid A, yn hytrach, golli 649 o seddi i Blaid B, pob un o un bleidlais, ac ennill un sedd yn unig gyda mwyafrif o 649 o bleidleisiau.

Yn wir, gallai'r naill blaid neu'r llall ennill unrhyw nifer o seddi o un sedd i 649 o seddi yn dibynnu ar sut y tynnir y ffiniau yn unig.

Ac eto, dim ond un canlyniad, 325 o seddi ar gyfer pob plaid, allan o 649 o ganlyniadau gwahanol posibl, sy'n ganlyniad teg.

Fodd bynnag, pe bai'r ddwy ochr, ar hap, ac nid drwy ddyluniad, yn ennill 325 o seddi yr un, ni fyddai'n newid y ffaith na fyddai hyd at bron hanner y pleidleiswyr yn cael eu cynrychioli yn y Senedd gan AS maen nhw wedi helpu i'w ethol.

Yn amlwg, nid yw Y Cyntaf i'r Felin wedi'i gynllunio ar gyfer ethol senedd sy'n adlewyrchu'n gywir "ewyllys y bobl".

Mae'n anaddas i'r diben a dylid ei ddiddymu.

nid yw Y Cyntaf i'r Felin yn ddigon da i ethol arweinydd y Blaid Geidwadol;

nid yw Y Cyntaf i'r Felin yn ddigon da i ethol arweinydd y Blaid Lafur;

ac nid yw Y Cyntaf i'r Felin yn ddigon da i ethol arweinydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin;

Felly ni ddylid derbyn fod Y Cyntaf i'r Felin yn ddigon da ar gyfer ethol ein ASau.

Yn anffodus, felly, teimlaf na fydd y dasg o ail-lunio ffiniau etholaethau, y mae'n ofynnol i chi ei gyflawni ar gyfer Senedd y DU, yn gwneud fawr ddim, os o gwbl, i wneud etholiadau'r DU yn decach, waeth pa mor galed yr ydych yn ceisio.

BCW-10063 / [REDACTED] / Bangor

1) Rwyf yn gwrthwynebu cyfuno Etholaeth Seneddol Arfon ag Etholaeth Seneddol Dwyfor/Meirionnydd. Mae'r etholaeth fwriedig newydd yn rhy fawr o lawer i gael ei chynrychioli mewn modd effeithiol ac effeithlon gan un aelod Seneddol. Mae hyd yn oed y ddwy etholaeth gyfredol yn fawr o ystyried y pwysau sydd ar eu haelodau Seneddol i deithio o un pen eu hetholaeth i'r pen arall, a sicrhau cynrychiolaeth dda ac effeithiol i'r etholwyr, a chynnal cysylltiad ystyrlon â nhw.

2) O ddarllen y cynigion, mae'n amlwg i'r darlennydd craff mai meddylfryd Seisnig sydd y tu ôl iddynt, a phrin yw'r adnabyddiaeth a dealltwriaeth o Ogledd-orllewin Cymru ynddynt. Trinnir Cymru yn yr un modd yn union â phetai'n rhan o Loegr. Ond mae natur gymdeithasegol Cymru, ei hanes a'i thraddodiadau yn wahanol iawn. Er enghraifft, ni roddir ystyriaeth o gwbl i'n "broydd" traddodiadol byw - sef y dalgylchoedd o rwydweithiau cymdeithasol a esblygodd yn "naturiol" - ein hardaloedd, ein cymdogaethau, ein cymunedau sy'n ymweud â'i gilydd yn gymdeithasol. Ni welaf unrhyw ddealltwriaeth o'r ffactorau hyn o gwbl yn y cynigion. Yn hytrach, pennir ffiniau newydd mewn modd mecanistaidd yn ôl niferoedd poblogaeth yn bennaf. O ganlyniad, cynigir hollti ardal Arfon - ardal sy'n endid cymdeithasol, hanesyddol, diwylliannol o gymunedau unigryw a gysylltir ers dwy ganrif a mwy â dyffrynnoedd y diwydiant llechi. Mae Dyffryn Ogwen, Dyffryn Peris a Dyffryn Nantlle, a'r pentrefi cyfagos a gynhwysir o fewn y term "Arfon", yn perthyn i'w gilydd yn gwbl naturiol. Cam "gweinyddol" cibddall fyddai eu gwahanu oddi wrth ei gilydd yn y modd a gynigir. Yn yr un modd, y mae'r cymunedau arfordirol mwy trefol - sef Bangor, Y Felinheli a Charernarfon - wedi datblygu ar eu ffurf fodern yn unswydd i wasanaethu'r tri dyffryn chwarelyddol. Dyna oedd raison d'être eu hesblygiad cyfoes. Ac yn bwysig iawn - gyda'i gilydd, cymunedau Arfon yw calon "Y Fro Gymraeg" unigryw sydd yng Ngogledd-orllewin Cymru. Gyda hyn oll mewn golwg, wrthwynebaf y bwriad i holltir ardal Arfon yn y modd di-ddeall hwn.

3) Yn benodol gwrthwynebaf yn gryf iawn y bwriad i wahanu Dyffryn Ogwen, Bethesda a Bangor oddi wrth ardal Arfon. Mae Bethesda a'r Dyffryn yn perthyn yn gwbl naturiol llawer mwy naturiol i rwydweithiau cymdeithasol Arfon nag i ardal Aberconwy, sy'n cynnwys dalgylchoedd gwahanol iawn a thraddodiad gwahanol iawn i'r hyn a geir yng nghymunedau Arfon. Argymhellaf yn gryf iawn y dylid newid y ffiniau bwriedig er mwyn diogelu a chynnal hunaniaeth hanesyddol ardal Arfon yn gyfan, fel y mae ar hyn o bryd ac fel y bu ers canrifoedd.

4) Yn olaf, gwrthwynebaf y bwriad cyffredinol i leihau nifer aelodau Seneddol Cymru. Mae nifer ein haelodau Seneddol eisoes yn fach, a'u dylanwad yn gymharol ymylol ac yn fythol leiafrifol o dan drefn bresennol Llywodraeth San Steffan. Byddai lleihau eu nifer yn golygu lleihau cynrychiolaeth ddemocrataidd Cymru o fewn yr "Undeb" o

o Wledydd Prydain. Bydd hyn yn sicrhau o beri anfodlonrwydd cynyddol a dadrithiad ymhlith etholwyr yng Nghymru. Byddai'r cynigion newydd yn sicr o bwysleisio ac ategu statws isel anghyfartal Cymru o fewn y Wladwriaeth Brydeinig yng ngolwg llawer o etholwyr yng Nghymru.

[REDACTED]

BCW-10064 / [REDACTED] / Abertawe

Mae'r etholaeth newydd hon yn croesi ffiniau lleol. Mae gan Gyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot flaenoriaethau a dulliau gweithredu gwahanol. Bydd yr AS yn ei chael hi'n anodd cynrychioli'r holl breswylwyr

BCW-10065 / [REDACTED] / Ffos y Gerddinen

Ward Ffos y Gerddinen ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw'r unig ward yng Nghaerffili i'w dyrannu i etholaeth seneddol arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr. Mae hyn yn torri'r cysylltiadau lleol â phob ward arall yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn ogystal â bod o fewn ardal CBS Caerffili, mae Ffos y Gerddinen hefyd yn derbyn gwasanaethau gan Awdurdod Iechyd Aneurin Bevan a Heddlu Gwent. Mae'r ffiniau gweinyddol eraill hyn yn golygu bod Ffos y Gerddinen yn rhannu ei holl wasanaethau llywodraeth leol, addysg, iechyd a'r heddlu gyda wardiau i'r dwyrain, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac nid yw'n rhannu dim o'i wasanaethau â wardiau Merthyr na RhCT i'r gogledd a'r gorllewin.

Mae adroddiad y Cynigion Cychwynnol yn nodi bod Ffos y Gerddinen wedi'i ddyrannu i etholaeth arfaethedig Merthyr ac Aberdâr "i fodloni'r amrediad etholwyr statudol". Ond byddai'n amharu llai ar gysylltiadau lleol i gyfuno wardiau o brif gynghorau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn unig i gyflawni'r nod hwn, yn hytrach na chyfuno wardiau o dri phrif gyngor. Er enghraifft, mae Gogledd Aberaman a De Aberaman yn ddaearyddol agosach o lawer at brif aneddiadau Aberdâr a Merthyr sef Ffos y Gerddinen.

Byddai ailddyrrannu wardiau Aberaman yng ngogledd etholaeth arfaethedig Pontypridd yn amlwg yn lleihau ei maint ond mae Pont-y-clun a Ffynnon Taf i'r de hefyd wedi'u gwahanu oddi wrth eu prif ardal cyngor i fod ynghlwm wrth etholaethau Caerdydd, tra bod etholaethau cyfunol prif gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg sydd yn 351,332 yn ddigon mawr i'w hisrannu'n 5 etholaeth seneddol o'r maint gofynnol heb dorri ar ffiniau RhCT.

Felly, byddwn yn gofyn i'r Comisiwn beidio â rhannu Ffos y Gerddinen o'i brif ardal cyngor ac ystyried sut y gellir cyflawni hyn drwy ailystyried etholaeth arfaethedig Pontypridd a rhannu wardiau yn ardal cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg.

BCW-10066 / [REDACTED] / Bethesda

Annwyl Gomisiwn,

Mae amryw o agweddau rhyfedd ynglyn a'r cynigion cychwynnol. Mae hyn yn cynwys problemau bach a problemau mawr sydd wedi creu map annaturiol. Rwyf yn cydymdeimlo fod cyfyngiadau sydd yn ei gwneud hi'n anodd creu map naturiol, ond rwyf yn credu fod modd creu map mwy addas hyd yn oed gyda'r cyfyngiadau llym sydd ar y Comisiwn.

Fel un o Arfon, yr agwedd mwyaf annaturiol i mi ydi gwahannu ardaloedd Bangor a Dyffryn Ogwen oddi wrth Caernarfon. Yn amlwg, nid yw cadw etholaeth Arfon fel y mae yn bosib. Ond mae ardaloedd yr etholaeth yma yn teimlo fel un cymuned, a hynny am resymau diwylliannol, ieithyddol, a daearyddol.

Mae'n ymddangos i mi fod y Comisiwn wedi penderfynnu ehangu etholaethau presennol Dwyfor Meirionnydd ac Aberconwy, a rhannu Arfon rhwngthynt. Dim ond un opsiwn ydi gweithredu fel hyn, Byddai ehangu Arfon a chreu etholaethau newydd ar gyfer ardaloedd Conwy a Meirion yn opsiwn cydradd dilys.

Byddai 'Arfon fawr' yn etholaeth naturiol am amryw o resymau. Yn un peth, byddai'n cadw'r ardaloedd wnes i son uchod gyda'i gilydd. Byddai ehangu i'r dwyrain yn dod a chymunedau Llanfairfechan a Phenmaenmawr i'r etholaeth; mae hyn yn gwneud synwyr am resymau diwyllianol - ardaloedd chwarel ydi llawer o Arfon, yn debyg i Benmaenmawr. Mae hanes tebyg i'r ardaloedd yma. Ond hefyd, mae'n bwysig nodi byddai Arfon fawr yn eithaf tebyg i hen Sir Gaernarfon. Roedd ardal Dwyfor o fewn etholaeth Caernarfon cyn y ffiniau presennol; mae'n gwbwl naturiol i ddod a Dwyfor i mewn i Arfon.

Wrth gwrs, rwyf yn deall mai natur newid y ffiniau mewn un ardal ydi effeithio'r etholaethau cyfagos. Mae ffiniau synhwyrol posib i etholaethau'r gogledd sy'n parchu cymunedau Arfon, ond hefyd datrys agweddau rhyfedd eraill o'r cynigion cychwynnol.

Rwyf yn awgrymu'r canlynol:

Creu etholaeth arfordirol rhwng afonydd Conwy a Chlwyd,

Cadw Rhyl a Phrestatyn gyda'i gilydd, gyda gogledd Sir y Fflint,

Rhoi'r Wyddgrug gyda Alun Dyfrdwy,

Creu etholaeth i gynwys ardaloedd Meirion, Nant Conwy, Nant Clwyd a gogledd orllwin Sir Drefaldwyn,

Creu etholaeth dwyrain Sir Drefaldwyn a de Sir Wrecsam.

Byddai'r etholaeth arfordirol ddim yn syniad newydd; rwyf yn benthyg y syniad gan argymhellion cynt y Comisiwn na gafwyd ei pasio gan San Steffan. Mae etholaeth o'r fath yn naturiol gan fod y cymunedau arfordirol yma yn debyg i'w gilydd. Byddai'r Afon Clwyd yn ffin ddwyreiniol naturiol, gan ganiatau i Rhyl a Phrestatyn aros gyda'i gilydd.

Byddai'r etholaeth Meirion-Conwy-Clwyd-gogledd Sir Drefaldwyn yn fawr, ond nid yn afresymol; yn sicr o gymharu a rhai etholaethau presennol yr Alban. Mae'n ddaearyddol synhwyrol hefyd, gan ei bod hi wedi'i seilio ar ddyffrnoedd. Ni fyddai Sir y Fflint yn gorfod ehangu i Sir Ddinbych heblaw am ar yr arfordir. Yn ogystal, byddai'n creu etholaeth ar gyfer cymunedau ieithyddol Gymraeg; mae gan ogledd orllewin Sir Drefaldwyn debygrwydd ieithyddol a diwylliannol i Sir Feirionnydd.

Fel y gwelwch, mae manteision mewn cadw Arfon, ac mae'n bosib creu etholaethau synhwyrol ar gyfer gweddill y gogledd drwy wneud hynny.

Os nid ydych yn cytuno gyda unrhywbeth uchod, ac yn anmharod i ddargyfeirio o'r cynigion cychwynnol fwy na gwelliannau cosmetig, mae gen i dal sylwadau ar fan fanylion y cynigion cychwynnol. Er, yn fy marn i, fod achos gref dros wneud newidiadau sylweddol, dyma rai sylwadau ar fan welliannau posib.


1. Pam fod y Comisiwn yn creu map ar sail hen wardiau sydd yn dod i ben ar Fai 2022? Ydi hi ddim yn bosib creu map yn seiliedig ar y wardiau newydd heb effeithio'r llun mawr?


2. Does dim synwyr o gwbwl gwanhannu Penrhosgarnedd oddi wrth gweddil Bangor. Mae Bangor yn un dinas.

3. Beth sy'n mynd ymlaen gyda enwau'r etholaethau? Nid yw'r Felinheli yn ardal Dwyfor nac yn ardal Meirion! Mae "Dwyfor Meirionnydd" yn enw addas ar gyfer yr etholaeth presennol yno, gan mai cyfuniad o hen gynghorau dosbarth Dwyfor a

Meirionnydd. Fel hynny, mae etholaeth Aberconwy yn rhannu ffiniau hen gyngor dosbarth Aberconwy. Os nad yw ffiniau'r dyfodol yn seiliedig ar yr hen gynghorau dosbarth, nid yw'n gwneud synwyr bellach i gadw'r enwau. Enw naturiol etholaeth sy'n seiliedig ar Ddwyfor, Meirion, a rhan fwyaf o Arfon ydi "Gwynedd." Yr un fath a'r sir. Nid yw'r enw "Aberconwy" yn synhwyrol i'r etholaeth newydd yno chwaith. Roedd hi yn synhwyrol ar gyfer yr hen etholaeth oherwydd yr hen gyngor dosbarth, ond byddai'r newidiadau yn newid y sefyllfa yn gyfan gwbl. Mae 'Aberconwy' yn golygu y man lle mae'r Afon Conwy yn cyrraedd y môr. Nid yw hynny yn berthnasol i ardaloedd fel Llangernyw, Bangor, na Dyffryn Ogwen. Byddai'n synhwyrol cael enw sy'n cyfeirio at fwy nac un cornel o'r etholaeth. Byddai 'Conwy a Bangor' yn un opsiwn, gan fod hynny yn cyfeirio at y ddwy ardal mwyaf poblog. Byddai 'Aberconwy ac Aberogwen' yn opsiwn arall os rhaid cyfeirio at yr afonydd.

Diolch am ddarllen fy sylwadau a gobeithiaf y byddwch yn ystyried yr uchod. Hoffwn atodi map posib ar gyfer gogledd Cymru sy'n dangos y ffiniau rwyf wedi dadlau drostynt uchod. Nid yw'r map yn cynwys unrhyw awgrymiadau ar gyfer y de, gan mod i'n llai cyfarwydd gyda fano.





Comisiwn Ffiniau i Gymru
Ty Hastings
Llys Fitzalan CAERDYDD

CF24 DBL

Annwyl Syr,

Newidiadau i Ffiniau Dinas Powys

Pam symud Dinas Powys allan o Fro Morgannwg? "Nid yw wedi torri, telly does dim angen ei drwsio".

Mae Dinas Powys wedi bod yn rhan o waed bywyd Y Barri ers cenedlaethau. Mae gen i deulu a ffrindiau yn byw yno, i gyd wedi eu geni yn y Barri. Mae'r Barri a'r Fro yn faes cyflogaeth i lawer o Ddinas Powys.

Mae ysgolion yn y Barri yn chwarae rhan fawr o fywyd Dinas Powys yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon. Mae pobl hyn yn defnyddio'r Barri i siopa, nid pawb sy'n gyrru a hyd yn oed os ydyn nhw wedi gyrru yn y gorffennol, mae llawer wedi gorfod cael gwared ar eu ceir gyda dechrau henaint, byddai teithio i Gaerdydd yn sicr yn gwneud bywyd yn anodd os nad yn amhosibl i lawer.

Rwy'n mawr obeithio y caiff y Newid Ffiniau hwn ei wrthod - mae'n gam yn 61ac yn newid sydd yn rhy bell.

Yn gywir,

[REDACTED]

BCW-10068/ [REDACTED] / Cardiff



25 Hydref 2021


Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leal Cymru
Ty Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL

Annwyl Foneddigion,

Ysgrifennaf atoch i gyfleu fy ngwrthwynebiadau i gynigion Comisiwn Ffiniau i Gymru i symud ward Dinas Powys, sydd ar hyn o bryd yn etholaeth Seneddol Bro Morgannwg, i etholaeth Seneddol De Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n deall bod Dinas Powys wedi bod yn etholaeth Bro Morgannwg am o leiaf 40 mlynedd ac fel un o drigolion Lecwydd, sydd wedi'i leoli yn ward Dinas Powys, ers dros saith mlynedd, credaf y dylai'r cysylltiadau cymunedol sydd gan Ddinas Powys a rhannau eraill o Fro Morgannwg barhau.

Yn gywir,



BCW-10069 / [REDACTED] / Y Rhyl

Annwyl Syriaid,

Rwyf yn hapus â chanfyddiadau'r comisiwn ffiniau. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau yr hoffwn eu gwneud wrth adolygu'r sefyllfa gyffredinol.

Eich awgrym yw y dylai'r Rhyl, Rhuddlan, Bodelwyddan, Llanelwy, Trefnant a Dinbych/Henllan fod yn rhan o sedd i'r gorllewin, ynghyd ag etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd (ac eithrio Rhuthun, Llanbedr DC, Llanarmon yn lâl, Llandrillo yn Rhos, Llangernyw, Mochdre ac Uwchaled. Yna byddai Prestatyn, Dyserth, Tremeirchion/Cwm/Waen a Llandyrnog yn ymuno â sedd i'r dwyrain, ynghyd ag etholaeth bresennol Delyn (ac eithrio Argoed, Coed-llai a New Brighton), ond gyda Rhuthun, Llanarmon yn lâl a Llanbedr DC o etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd.

Yn fy marn i, mae cysylltiadau cryf rhwng y Rhyl a Bae Cinmel/Tywyn. Er enghraifft, mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a chlybiau wedi'u cysylltu oherwydd pan nad oes cyfleuster mewn un, yn gyffredinol, maen nhw'n edrych i'r llall. Mae gen i glwb cinio, o weld angen i weddwon a merched ddod at ei gilydd fel grŵp, o'r enw clwb cinio merched Prestatyn a'r Rhyl. Ar hyn o bryd, mae gennym 155 o aelodau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i Brestatyn Gronant/Gwaenysgor/Talacre/ Llanasa/ Trelawnyd.

Nid oes cysylltiadau cryf rhwng y Fflint/Bagillt diwydiannol ac ardaloedd Sir y Fflint a Sir Ddinbych i'r de a'r gorllewin. Rhedai hen ffin etholaeth Gorllewin/Dwyrain Sir y Fflint ([1950-1983](#)) drwy Faes-glas, man terfyn naturiol rhwng ardal orllewinol fwy gwledig Sir y Fflint a'r ardal fwy diwydiannol o Faes-glas hyd at y Fflint, sy'n rhedeg ar hyd aber Afon Dyfrdwy. Mae'r ardal o amgylch Maes-glas yn cynrychioli'r pwynt penodol lle mae pobl yn edrych i ardal ffin Glannau Dyfrdwy, Swydd Gaer a Glannau Mersi ar gyfer cyflogaeth, amwynderau a gwasanaethau cyhoeddus, megis yr ysbyty aciwt lleol yng Nghaer. Gellid ailgyflwyno'r ffin hon yn synhwyrol. Byddai'n gwneud synnwyr i gynnwys Corwen a Llandrillo ochr yn ochr â Rhuthun am ei fod yn cadw ardaloedd yn sir Ddinbych gyda'i gilydd. Byddai'n gwneud synnwyr i Argoed/ Coed-llai/New Brighton aros yn yr un sedd â'r Wyddgrug, oherwydd cysylltiadau cymunedol. Byddai hyn hefyd yn dod â'r fantais o gadw'r Alun a Glannau Dyfrdwy presennol yn gyfan (er bod ardaloedd wedi'u hychwanegu ato). Enw gwell ar y sedd i'r dwyrain fyddai "Dwyrain Clwyd" ac nid "Delyn". Ni fu Prestatyn a Rhuthun erioed yn hen ardal Delyn Clwyd (1974 i 1996). Ffurfiwyd Bwrdeistref Delyn drwy uno Bwrdeistref Sirol y Fflint ag ardaloedd trefol Treffynnon a'r Wyddgrug, ac Ardal Wledig Treffynnon. Ffurfiwyd ei enw drwy gyfuno enwau prif afonydd yr ardal: Afon Dyfrdwy a'r Alun. Roedd Prestatyn yn Ardal Rhuddlan, Clwyd a Rhuthun ar un adeg ac roedd ardaloedd gwledig yn Ardal Glyndŵr Clwyd.

Ni ddylid anwybyddu cysylltiadau Cymunedol traddodiadol wrth ystyried ffiniau. Mae'n effeithio ar lwybrau trên sy'n darparu teithio hanfodol. Mae'r parc siopa ym Mhrestatyn a'r bwytai niferus sydd wedi agor yno hefyd yn cael eu rhannu â'r Rhyl, lle rwyf i'n byw erbyn hyn.

Diolch am eich amser

- [REDACTED]

BCW-10070/ [REDACTED] / Castell-nedd

Oddi Wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 03 Tachwedd 2021 20:13

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i'r Cynigion Cychwynnol

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Amgaeaf fy ymateb manwl i'ch cynigion cychwynnol. Rwyf wedi gwneud sylwadau ar:

- 1) enwau sawl etholaeth, yn enwedig lle teimlaf y byddai'n ddefnyddiol cydymffurfio'n well â'r ffordd y mae'r Comisiynau wedi enwi etholaethau o'r blaen;
- 2) cynigion yr wyf yn cytuno â nhw'n llawn, ynghyd â rhesymau dros eu cymeradwyo;
- 3) cynigion yr wyf yn anghytuno â nhw, er yr hoffwn nodi ymlaen llaw fod llawer o fy ngwrthgynigion yn rhai mân, sy'n cynnwys symud niferoedd isel o wardiau, a theimlaf fod y cynigion cychwynnol yn dda iawn ar y cyfan.

Rwyf yn ysgrifennu fel unigolyn preifat sydd wedi byw mewn sawl lleoliad yng Nghymru a thros y ffin dros y blynyddoedd, cyn ail-ymgartrefu yn fy nhref enedigol yng Nghastell-nedd, ac sydd â diddordeb cyffredinol yng Nghymru, mapiau a'r broses adolygu. Fodd bynnag, hoffwn roi fy nghaniatâd i'r Comisiwn roi fy enw i unrhyw un neu'r cyfan o fy nghyfraniadau - nid oes gennyf unrhyw ddymuniad i fod yn ddienw.

Cofion cynnes

[REDACTED]

BCW-10070 / [REDACTED] / Castell-nedd

Enwau Etholaethau

3 Alun a Glannau Dyfrdwy a 14 Delyn

Mae cadw enwau ardaloedd a ddiddymwyd ym 1996 ar gyfer etholaethau nad ydynt bellach yn cydymffurfio â ffiniau'r ardaloedd hynny yn achlysur lle y dylid ystyried newid yr enwau i adlewyrchu daearyddiaeth weinyddol fodern. Mae Delyn yn arbennig o anffodus gan mai neologaeth portmanto ydoedd yn 1974 ar gyfer ardal gyda hyd oes o ddim ond 22 mlynedd. Mae bellach wedi bod yn hirach na hynny ers i'r ardal honno beidio â bod. Dylai'r ddwy etholaeth yn Sir y Fflint yn bennaf ddychwelyd i'r enwau **Dwyrain Sir y Fflint** a **Gorllewin Sir y Fflint** (gydag enwau amgen swyddogol **East Flintshire and West Flintshire** yn y drefn honno) yr oedd ganddynt tan y Trydydd Adolygiad Cyfnodol.

7 Caerfyrddin

Byddwn yn awgrymu cyfnewid yr enw arfaethedig a'r enw amgen swyddogol arfaethedig, fel mai **Caerfyrddin** yw'r enw a'r enw amgen swyddogol yw **Carmarthen**. Byddai hyn yn dychwelyd canlyniadau mwy disgwylledig i'r rhai sy'n gweithio gyda ffynonellau data (e.e. y cyfryngau Saesneg).

13 Clwyd

Mae hwn yn enw hynod gamarweiniol. Mae'r etholaeth yn un o chwech sydd o leiaf yn rhannol gyfrifol am sir gadwedig Clwyd. Mae ffiniau lletchwith yr etholaeth arfaethedig yn ei gwneud yn anodd dod o hyd i enw priodol. Byddwn yn awgrymu adfywio **Dinbych** (gyda dewis amgen swyddogol **Denbigh**), enw'r etholaeth a oedd yn cyfateb yn fwyaf agos i'r ffiniau hyn cyn y Trydydd Adolygiad Cyfnodol.

16 Islwyn

Gan fod hyn bellach yn rhychwantu Afon Rhymni (y ffin sirol hanesyddol rhwng Sir Fynwy a Morgannwg), dylid adlewyrchu'r ddwy gydran yn yr enw. Cynigïaf felly yr enw **Islwyn a Gelligaer** (gyda dewis arall swyddogol, **Islwyn and Gelligaer**).

19 Canolbarth a De Sir Benfro

Dylid galw hwn yn **Penfro** yn unig (gyda dewis arall swyddogol, **Pembroke**). Mae'r ffiniau'n debyg iawn i etholaeth Sir Benfro a fodolai rhwng y Trydydd a'r Pedwerydd Adolygiad Cyfnodol.

21 Sir Drefaldwyn a Glyndŵr

Mae hwn yn enw gwael. Nid yw ardal Glyndŵr wedi bodoli ers 1996, ac mae'r ffiniau arfaethedig yn eithrio'r ddwy dref fwyaf yn yr hen ardal honno, Dinbych a Rhuthun. Byddai'n well galw hyn yn **Maldwyn a De Clwyd** (enw arall **Montgomeryshire and South Clwyd**).

27 Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd

Nid yw'r enw hwn yn dilyn normau enwi etholaethau a ddefnyddir gan y pedwar Comisiwn Ffiniau. Daw dros ddwy ran o dair o'r etholaeth hon o hen ardal Castell-nedd (mewn gwirionedd, mae'n cynnwys yr hen ddosbarth cyfan, ac eithrio un gymuned Llansawel), gyda'r rhan lai yn dod o Abertawe. Mae tri dull safonol o enwi

etholaeth sirol sy'n cymryd rhan gymharol fach o ddinas, ac nid yw'r cynnig hwn wedi dilyn yr un ohonynt:

- 1) Yn syml, er mwyn cadw enw'r etholaeth sirol a pheidio â chyfeirio at y ddinas/tref fawr o gwbl – yn yr achos hwn, byddai hyn yn rhoi'r enw Castell-nedd ar yr etholaeth (dewis arall: Neath). Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys:
 - Cwm Colne (sy'n cynnwys rhan o Huddersfield)
 - Dwyrain Dyfnaint (sy'n cynnwys rhan o Ddinas Caerwysg)
 - Gordon (sy'n cynnwys rhan o Ddinas Aberdeen)
 - Gŵyr (sy'n cynnwys rhan o Fwrdeistref Sirol Abertawe cyn 1974)
 - Canolbarth Swydd Derby (sy'n cynnwys rhan o Ddinas Derby)
 - Gogledd Ddwyrain Swydd Derby (sy'n cynnwys rhan o Chesterfield)
 - De Swydd Gaergrawnt (sy'n cynnwys rhan o Ddinas Caergrawnt)
 - De-orllewin Dyfnaint (sy'n cynnwys rhan o Ddinas Plymouth)
 - Tewkesbury (sy'n cynnwys rhannau o Cheltenham a Chaerloyw)
 - Totnes (sy'n cynnwys rhan o Fwrdeistref Torbay)
- 2) Enw'r Is-adran Sirol a Phwynt Cwmpawd y Ddinas – yn yr achos hwn, byddai hyn yn rhoi'r enw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ar yr etholaeth (dewis arall: Castell-nedd a Dwyrain Abertawe). Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys:
 - Canol Suffolk ac Ipswich North
 - De Houghton a Sunderland
 - Linlithgow a Dwyrain Falkirk
 - Romsey a Southampton North
 - Washington a Gorllewin Sunderland
 - Wyre a Gogledd Preston
- 3) Enw'r Is-adran Sirol ac Enw Ardal y Ddinas. Mae enw hanesyddol da ar y rhan o Abertawe i'r dwyrain o Afon Tawe: Cilfái – dyma enw cwmwd neu arglwyddiaeth hynafol, ac mae'n cynnal cyfredolrwydd drwy bethau fel Gorsaf Drosglwyddo Bryn Cilfái a dynodiad tiriogaethol yr Arglwydd Grenfell o Gilfái. Byddai hyn yn rhoi'r enw Castell-nedd a Chilfái (dewis amgen: Neath and Kilvey). Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys:
 - Penistone a Stocksbridge (yn hytrach na Penistone a Gogledd Sheffield)
 - Wentworth a Dearne (yn hytrach na Wentworth a De-ddwyrain Barnsley)

Fy newis i ar gyfer enw'r etholaeth hon felly yw **Castell-nedd a Chilfái** (gyda dewis arall swyddogol, **Neath and Kilvey**). Ond byddai opsiynau sy'n adlewyrchu naill ai dull normadol arall hefyd yn dderbyniol – Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Neath and Swansea East) neu Gastell-nedd (Neath) ar ei ben ei hun.

28 Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Nid yw etholaeth Gŵyr wedi cynnwys rhannau o Fwrdeistref Sirol Abertawe 1918-1974 dim ond rhwng y Cyntaf a'r Trydydd Adolygiad Cyfnodol. Yn enwedig os caiff rhai o'r wardiau sy'n cael eu cau'n ddiangen rhwng yr etholaeth hon a Chanol a

Gogledd Abertawe eu gwrthdroi, ymddengys nad oes fawr o angen newid yr enw. Byddwn yn cynghori cadw hyn fel **Gŵyr** (gyda dewis arall swyddogol, **Gower**).

26 Canol a Gogledd Abertawe

Unwaith eto, nid yw'r enw braidd yn feichus hwn yn dilyn normau o'r ffordd mae'r comisiynau ffiniau wedi enwi etholaethau canolog gweddilliol dinasoedd/trefi mawr ar ôl i rannau ymylol gael eu trosglwyddo i etholaethau sirol cyfagos. O edrych ar draws y wlad, y norm yw defnyddio enw'r setliad yn unig (e.e. Exeter, Ipswich, Preston) neu efallai atodi Canol yn unig (e.e. Canol Sunderland). Byddwn unwaith eto o blaid y dull normadol, gan enwi'r etholaeth hon yn **Abertawe** (gyda dewis arall swyddogol, **Swansea**).

Ffiniau

Etholaethau lle rwy'n cytuno â'r Cynigion Cychwynnol

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer y saith etholaeth ganlynol (ar wahân i Ynys Môn wrth gwrs, sy'n cael ei diogelu gan y gyfraith):

- 4 Blaenau Gwent a Rhymni
- 12 Preseli Ceredigion
- 19 Canolbarth a De Sir Benfro
- 20 Sir Fynwy
- 22 Dwyrain Casnewydd
- 29 Torfaen
- 30 Bro Morgannwg

I roi sylwadau byr ar y rhain:

4 Blaenau Gwent a Rhymni

Rwy'n cytuno â'r Comisiwn mai ychwanegu wyth ward Caerffili yng nghwm Rhymni uchaf yw'r ffordd orau o ddod ag etholaeth Blaenau Gwent o fewn ystod. Hoffwn gymeradwyo'r Comisiwn yn arbennig am uno tair ward cymuned Bargoed mewn un etholaeth.

12 Ceredigion Preseli a 19 Canolbarth a De Sir Benfro

Mae dull y Comisiwn o greu dwy etholaeth sy'n cwmpasu Ceredigion a Sir Benfro yn synhwyrol ac mae'n gyson â phatrwm etholaethau rhwng y Trydydd a'r Pedwerydd Adolygiad Cyfnodol pan ddefnyddiwyd y trefniant cyffredinol hwn ddiwethaf.

Mae'r ffin arfaethedig yn cyfateb yn dda i ffiniau hanesyddol y tri chantref Dewisland, Cemmaes a Chilgerran yng Ngogledd Sir Benfro, ac mae cadw'r ardaloedd hyn yn gyfan wrth eu hychwanegu at etholaeth Ceredigion yn adlewyrchiad rhagorol o gysylltiadau lleol hirsefydlog ar lawr gwlad.

Rwy'n cytuno'n arbennig â'r Comisiwn i gadw ward Maenclochog yng Nghanolbarth a De Sir Benfro, o ystyried ei chysylltiadau lleol cryf â thref Arberth.

20 Sir Fynwy

Rwy'n cytuno â'r Comisiwn mai gwneud yr etholaeth yn gyd-ffiniol â'r brif ardal yw'r cynllun gorau posibl i Sir Fynwy. Byddwn yn cymeradwyo'n arbennig fod croesfan

ffin â Phowys, gyda'r holl aflonyddwch dilynol i etholaethau lluosog a fyddai'n achosi, wedi'i hosgoi.

22 Dwyrain Casnewydd

Rwy'n credu bod y Comisiwn wedi nodi'r chwe ward orau i'w hychwanegu o Orllewin Casnewydd. Mae'r rhain yn rhan gydlynol o ogledd Casnewydd, gyda ffin naturiol i'r gorllewin o Fetws. Mae hefyd yn gwneud synnwyr i gynnwys ward Stow Hill, sy'n cwmpasu canol y ddinas yn yr etholaeth hon, gan fod ganddi gysylltiadau da â phob rhan o Gasnewydd.

Mae'n braf bod y Comisiwn wedi dileu croesfan ffin yr etholaeth bresennol i Sir Fynwy, gan y byddai cadw hyn yn arwain at ganlyniadau canlyniadol eang i etholaethau lluosog.

29 Torfaen

Rwy'n cytuno â'r Comisiwn mai gwneud yr etholaeth yn gyd-ffiniol â'r brif ardal yw'r cynllun gorau posibl i Dorfaen.

30 Bro Morgannwg

Rwy'n cytuno â'r Comisiwn fod angen dileu ward Dinas Powys er mwyn creu etholaethau digonol ar gyfer Bro Morgannwg a Dinas Caerdydd. Mae gan Ddinas Powys gysylltiadau trafniadaeth rhagorol â Chaerdydd ac mae'n cyd-fynd yn dda â Phenarth, sydd eisoes mewn etholaeth drawsffiniol.

Etholaethau lle rwy'n anghytuno â'r Cynigion Cychwynnol, rhan un: Caerdydd

Yn yr adran hon, byddaf yn trafod y pedair etholaeth ganlynol:

- 8 Canol Caerdydd
- 9 Gogledd Caerdydd
- 10 De Caerdydd a Phenarth
- 11 Gorllewin Caerdydd


Rwy'n sylweddoli bod y Comisiwn wedi ceisio sicrhau'r newid lleiaf yn ei ddull o ymdrin â'r etholaethau hyn. Serch hynny, teimlaf fod y canlyniad yn ddiffygiol iawn mewn dwy ffordd:

- 1) Mae etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth yn fylchog (ar wahân i ar draws aber Afon Rhymni ar hyd y blaendraeth, nad oes mynediad cyhoeddus iddi ar adegau).
- 2) Mae'r groesfan ffin ddwbl i wardiau Rhondda Cynon Taf (Pont-y-clun a Ffynnon Taf) yn achosi effaith gynyddol i etholaethau ym mwrdeistrefi sirol Rhondda Cynon Taf a Chaerffili:
 - a. Mae dileu'r wardiau hyn o etholaeth Pontypridd yn peri i'r etholaeth honno gymryd y ddwy ward yn Aberaman. Mae'r ddwy ward hyn yn faestref fewnol uniongyrchol o Aberdâr, sy'n cael eu gwasanaethu gan fysiau tref Aberdâr yn unig, a gyda chysylltiadau llawer gwannach â Chwm Cynon isaf. Dylai cysylltiadau lleol bennu bod y ddwy ward hyn yn cael eu cadw ynghyd â dwy ward Aberdâr yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr.

- b. Mae hyn yn ei dro yn achosi croesfan ffin ychwanegol, gydag etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr yn cymryd ward Ffos y Gerddinen o fwrdeistref sirol Caerffili. Er y gall wardiau amddifad fod yn dderbyniol lle maen nhw'n datrys problemau, dim ond rhan o gadwyn o broblemau diangen yw hyn.
- c. Mae hyn yn ei dro yn gofyn am symud ward Llanbradach i etholaeth Islwyn, gan dorri'r cysylltiadau lleol cryf rhwng pentref Llanbradach a thref Caerffili, y mae'n union gyfagos iddi ac wedi'i chysylltu â gwasanaethau trên a bws lleol.

Byddai'n llawer gwell osgoi'r gadwyn anffoddhaol hon o ddominos drwy beidio â chroesi'r ffin rhwng Caerdydd a Rhondda Cynon Taf ac yn hytrach cymryd ward yn uniongyrchol o Gasnewydd neu Gaerffili. Felly, byddwn yn awgrymu mai ffordd well o ychwanegu digon o etholwyr i Gaerdydd i gadw pedair etholaeth fyddai drwy ychwanegu ward Maerun yng Nghasnewydd at etholaeth yng Nghaerdydd (yn hytrach na Phont-y-clun a Ffynnon Taf). Mae ward Maerun yn ardal tir isel nodedig a braidd yn hunangynhwysol o gefn gwlad a phentrefi bach rhwng ardaloedd adeiledig Caerdydd a Chasnewydd, sy'n cwmpasu Gwastadeddau Gwynllŵg.

Mae patrwm yr etholaethau yng Nghaerdydd y byddwn yn ei gynnig fel gwelliant i'r cynigion cychwynnol i'w weld ar y map isod:



10 De Caerdydd a Phenarth (rhif 2 ar y map uchod)

Rwy'n cytuno â'r Comisiwn wrth ychwanegu ward Dinas Powys o Fro Morgannwg i godi'r niferoedd yng Nghaerdydd fel bod digon o etholwyr i ffurfio pedair etholaeth gyfreithiol.

Fel y dengys Cynigion Cychwynnol y Comisiwn, mae hyn yn golygu y gall yr etholaeth gadw uchafswm o ddwy o'r pedair ward yn rhan ddwyreiniol y ddinas (Llanrhymni, Tredelerch, Trowbridge, a Sblot), gyda hyn yn arwain at ran nad yw'n gyffiniol. Er mwyn cynnal y cysylltiadau lleol cryf rhwng y wardiau hyn yn nwyrain Caerdydd, byddwn yn argymhell eu symud fel grŵp o bedwar i etholaeth Canol Caerdydd (4 ar y map uchod, i'w hailenwi'n Ddwyrain Caerdydd). Yn hytrach, byddwn yn ychwanegu ward Glanyrafon o Orllewin Caerdydd a ward Cathays o Ganol Caerdydd. Mae ward Glanyrafon i bob pwrpas yn barhad tua'r gogledd o Grangetown, gyda chymuned fawr o leiafrifoedd ethnig. Mae ward Cathays yn cwmpasu canol y ddinas ac mae ganddi gysylltiadau rhagorol â phob rhan o'r ddinas.

Mae gan fy ngwrthgynnig etholaeth o 72,809, o fewn yr amrediad etholiadol.

11 Gorllewin Caerdydd (rhif 3 ar fap uchod)

Fel y nodwyd uchod, mae sgil-ffeithiau cynigion y Comisiwn ar etholaethau Pontypridd, Merthyr Tudful ac Aberdâr, Islwyn, a Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn achosi sawl mater. Mae'r mater lleol yma yn gwahanu Pont-y-clun o Dref Tonysguboriau a Thref Llantrisant, ac mae'n ffurfio ardal drefol gyffiniol o fewn y rhan fwyaf deheuol nodedig o Riondda Cynon Taf, i'r de o'r amrywiaeth o fynyddoedd sy'n ffurfio ymyl y maes glo, gyda'i brif gysylltiadau cyfathrebu yn rhedeg i'r dwyrain-gorllewin ar hyd ffordd yr A473 Pontypridd-Pen-y-bont ar Ogwr a rheilffordd Prif Reilffordd De Cymru. Mae rhannu'r hyn sydd i bob pwrpas yn dref gydlynol fel hon ymhell o fod yn ddelfrydol.

Gan fod etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd yn agos iawn at yr ystod isaf, bydd cyfnewid tair ward yng Nghaerdydd yn dod ag ef o fewn ystod. Cynigiaf felly ei bod yn colli ward Glanyrafon i Dde Caerdydd a Phenarth, ac yn ychwanegu wardiau Gogledd Llandaf a Gabalfa o Ogledd Caerdydd. Fel y nodwyd uchod, mae ward Glanyrafon i bob pwrpas yn barhad tua'r gogledd o Grangetown, gyda chymuned fawr o leiafrifoedd ethnig. Mae wardiau Gogledd Llandaf a Gabalfa wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Gogledd Caerdydd gan rwystrau Rheilffordd Dyffryn Taf a Rhodfa'r Dwyrain yr A48, ond maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â chanol "dinas" Llandaf yng Gorllewin Caerdydd dros Bont Llandaf a Phont Rhodfa'r Gorllewin.

Mae gan fy ngwrthgynnig etholaeth o 70,179, o fewn yr amrediad etholiadol.

9 Gogledd Caerdydd (rhif 4 ar y map uchod)

Nid oes modd gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i ychwanegu ward Ffynnon Taf o Riondda Cynon Taf ynddo'i hun, y tu hwnt i'r ffaith ei bod yn ddiangen i sicrhau patrwm boddhaol a chyfreithiol o etholaethau yng Nghaerdydd. Mae'r ward honno'n ddigon bach na fyddai'r sgil-ffeithiau a grybwyllir uchod sy'n effeithio ar etholaethau lluosog yn cael eu hachosi drwy symud Ffynnon Taf yn unig. Serch hynny, gan nad oes angen y groesfan ffin, nid yw fy ngwrthgynnig yn gwneud hyn.

Yn hytrach, rwy'n cynnig dileu wardiau Gogledd Llandaf a Gabalfa, i'r de o rwystrau Rheilffordd Dyffryn Taf a Rhodfa'r Dwyrain yr A48, o'r etholaeth hon i ddod â Gorllewin Caerdydd o fewn ystod (fel y soniwyd uchod) ac ychwanegu wardiau Cyncoed a Phentwyn o Ganol Caerdydd yn lle hynny. Lleolir y ddwy ward olaf hyn yn gyffredinol ar y tir uchel i'r gogledd o rwystr Rhodfa'r Dwyrain A48 ac i'r gorllewin o Afon Rhymni ac mae ganddynt gysylltiadau cymunedol rhagorol â Llanisien a Phontpennau cyfagos yng Ngogledd Caerdydd.

Er mwyn ffurfio dwy etholaeth o fewn ystod o'r wardiau sy'n weddill heb groesi ffin Rhondda Cynon Taf, rwy'n cynnig cadw'r rhaniad rhwng ward Pontpennau a Hen Laneirwg, ond ei symud i ddilyn y ffin eithaf cryf rhwng y ddwy gymuned, gan ddilyn Afon Rhymni a ffyrdd yr A4232 a'r M4. Byddai hyn yn cadw 5248 o etholwyr o gymuned Pontpennau yng Ngogledd Caerdydd.

Felly, mae gan fy ngwrthgynnig etholaeth o 72,833.

8 Canol Caerdydd, i'w hailenwi'n Ddwyrain Caerdydd (rhif 5 ar y map uchod)

Arweiniodd cynnig cychwynnol isafswm newid y Comisiwn at ychwanegu wardiau at yr etholaeth hon a adawodd Dde Caerdydd a Phenarth cyfagos yn effeithiol mewn dwy ran. Gan fod hyn yn amlwg yn anfoddhaol, mae fy ngwrthgynnig yn ail-lunio'r etholaeth hon yn fwy helaeth i ddod â Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd o fewn ystod heb groesi'r ffin â Rhondda Cynon Taf mewn dau le ar wahân. Fel y nodwyd uchod, mae fy ngwrthgynnig yn osgoi cadwyn o ffiniau anfoddhaol ar draws Rhondda Cynon Taf a Chaerffili drwy osod ward Maerun o Gasnewydd yn uniongyrchol i'r etholaeth hon yn lle hynny.

Mae fy ngwrthgynnig yn cadw craidd Canol Caerdydd presennol yn ardal y Rhath yn y ddinas (wardiau Adamsdown, Plasnewydd a Phen-y-lan). Mae'n symud canol y ddinas i'r gorllewin o ymyl caled Rheilffordd Rhymni (ward Cathays) i Dde Caerdydd a Phenarth, a'r ddwy ward i'r gogledd o Rodfa'r Dwyrain A48 (Cyncoed a Pentwyn) i Ogledd Caerdydd. I hyn mae'n ychwanegu pob un o bedair ward ddwyreiniol Caerdydd (Llanrhymni, Tredelerch, Trowbridge, a Sblot) o Dde Caerdydd a Phenarth, gan gynnal cysylltiadau lleol rhwng y grŵp hwn o bedair ward, ac mae hefyd yn ychwanegu cymuned Yr Hen Laneirwg gyfan (2799 o etholwyr), sydd ar hyn o bryd wedi'i rhannu rhwng Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Er mwyn dod â digon o etholwyr i mewn ar gyfer pedair etholaeth yng Nghaerdydd, mae hefyd yn ychwanegu ward Maerun o Gasnewydd: fel y soniwyd uchod, mae'r ward hon yn ardal tir isel nodedig a braidd yn hunangynhwysol o gefn gwlad a phentrefi bach rhwng ardaloedd adeiledig Caerdydd a Chasnewydd, sy'n cwmpasu Gwastadeddau Gwynllŵg a byddai'n gweddu'n dda mewn etholaeth yng Nghaerdydd.

Dylid ailenwi'r etholaeth ddilynol i Ddwyrain Caerdydd (gydag enw arall, Cardiff East). Byddai hon yn etholaeth gryno a chydlynol gyda ffiniau cryf (Dociau Caerdydd, Rheilffordd Rhymni, yr A48, Afon Rhymni, yr A4232, a'r M4) a chynnal cysylltiadau lleol presennol, yn enwedig rhwng Llanrhymni, Tredelerch, a Trowbridge, y rhan o Gaerdydd i'r dwyrain o Afon Rhymni, a arferai fod yn rhan o Sir Fynwy ac sy'n dal i fod â hunaniaeth unigryw o fewn dinas Caerdydd, hunaniaeth a rennir gyda rhan Casnewydd o Wastadeddau Gwynllŵg yn ward Maerun.

Mae gan fy ngwrthgynnig etholaeth o 69,982, cwpl o gannoedd o etholwyr yn uwch na'r isafswm statudol.

Etholaethau lle rwy'n anghytuno â'r Cynigion Cychwynnol, rhan dau: Gorllewin Gwent


Yn fras, mae'r adran hon yn tacluso cynigion y Comisiwn i gyfrif am beidio â chroesi cyfres o ffiniau o Gaerdydd yn ddiangen drwy Riondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i grŵp Caerffili/Casnewydd. Byddaf yn rhoi sylw i ddwy etholaeth:

- 16 Islwyn
- 23 Gorllewin Casnewydd a Chaerffili

Rwy'n cytuno'n fras â chynigion y Comisiwn. Mae'r cyfluniad arfaethedig yn uno cymunedau ar ddwy ochr canol cwm Rhymni yn ei etholaeth Islwyn, gyda ffocws clir ar drefi Ystrad Mynach, y Coed Duon, a Threcelyn ar hyd coridor yr A472. Mae'r etholaeth ddeheuol sy'n uno tref Caerffili â rhannau gorllewinol o Gasnewydd hefyd yn dda yn y bôn, gyda chyfran y gweithwyr sy'n cymudo i Gaerdydd yn cynyddu wrth agosáu at y brifddinas, gan ffurfio cymuned naturiol o ddiddordeb. Mae gan yr etholaeth hon gysylltedd mewnol da ar hyd ffordd yr A468 hefyd.

Mae fy anghytundeb â'r Comisiwn yn ymwneud â thair ward yn unig: Ffos y Gerddinen, Llanbradach, a Maerun. Fel y soniwyd uchod, anghytunaf â dull y Comisiwn o groesi ffin Caerdydd/Rhondda Cynon Taf ddwywaith, dim ond i rannu Aberaman o Aberdâr, rhoi Nelson fel ward amddifad mewn etholaeth sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o ddwy brif ardal arall, a rhannu Llanbradach o dref Caerffili, pan fyddai symud Maerun i etholaeth Dwyrain Caerdydd yn osgoi'r gadwyn hon o darfu ar gysylltiadau lleol.

Mae fy map arfaethedig fel a ganlyn:



Mae hyn yn sicrhau symud yr etholwyr angenrheidiol o Gasnewydd/Caerffili yn uniongyrchol i Gaerdydd/Bro Morgannwg i alluogi llunio pum etholaeth gyfreithiol yn yr ardal honno heb ei chyfyngu'n ddiangen drwy Rionda Cynon Taf/Merthyr Tudful. Mae'r cysylltiadau lleol arbennig o gryf rhwng tref Llanbradach a Chaerffili yn cael eu cynnal, ac yn hytrach na thair ward amddifad (Ffos y Gerddinen, Ffynnon Taf, Pont-y-clun) dim ond un sydd (Maerun).

Mae gan fy etholaethau arfaethedig etholwyr o fewn ystod fel a ganlyn:


- Gorllewin Casnewydd a Chaerffili (wedi'u labelu fel 7 ar y map uchod): 72,736
- Islwyn a Gelligaer (wedi'u labelu fel 8 ar y map uchod): 71,059

Etholaethau lle rwy'n anghytuno â'r Cynigion Cychwynnol, rhan tri: Sir Gaerfyrddin

Cyn dod i Rionda Cynon Taf a Merthyr Tudful, hoffwn droi'n gyntaf at faterion yn y gorllewin, gan fod y rhain yn ffurfio cadwyn o faterion sy'n ymwneud â ffiniau lletchwith yn hytrach na'r rhai sy'n deillio o Gaerdydd – y gwahaniaeth yw bod y gadwyn hon yn un a achosir gan agosrwydd at y terfyn uchaf yn hytrach na'r isaf.

Yn gyffredinol, unwaith eto, rwy'n cytuno â chynigion cychwynnol y Comisiwn yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n amlwg mai'r dull eang o ehangu etholaeth Llanelli i fod o fewn ystod ac uno gweddill y sir mewn etholaeth arall yw'r ffordd fwyaf greddfoll o sicrhau cyn lleied o newid â phosibl. Fodd bynnag, mae gennyf amheuan ynghylch tair ward.

Mae fy map gwrthgynnig fel a ganlyn:



Mae fy Llanelli arfaethedig (wedi'i labelu yn 22) yn wahanol i gynnig cychwynnol y Comisiwn drwy hepgor ward Llangynnwr yn unig. Y rheswm am hyn yw bod ward Llangynnwr yn rhan o ardal adeiledig tref Caerfyrddin, gan gynnwys gorsaf reilffordd y dref. Hyd yn oed heb y ward hon, mae Llanelli yn dal i fod o fewn ystod gyda 69,895 o etholwyr.

Mae fy Nghaerfyrddin arfaethedig (wedi'i labelu yn 21) yn ychwanegu Llangynnwr yn gyfatebol. Mae hefyd yn ychwanegu dwy ward Castell-nedd Port Talbot yn Ngwaun-Cae-Gurwen a Brynman Isaf (sy'n ffurfio cymuned Gwaun-Cae-Gurwen). Mae hyn yn gyson â'r dull mae'r Comisiwn wedi'i ddangos mewn manau eraill o ran bod yn barod i symud nifer fach o wardiau ar draws ffiniau awdurdodau lleol er mwyn osgoi problemau gyda therfynau'r amrediad etholiadol (mae enghreifftiau'n cynnwys tair ward Sir Ddinbych sydd wedi'u cynnwys yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr arfaethedig, yn ogystal â'r gwahanol wardiau amddifad a grybwyllwyd yn flaenorol yn Ne-ddwyrain Cymru). Y mater yma yw bod peidio â symud dwy ward cymuned Gwaun-Cae-Gurwen i etholaeth Caerfyrddin yn arwain at gynigion cychwynnol y Comisiwn yn dangos cadwyn o ffiniau is-optimaidd ar draws gorllewin Morgannwg nes bod etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i thorri'n ddwy yn llwyr ar hyd llinell lletchwith rhwng tref Pen-y-bont ar Ogwr a'i maestrefi mewnol uniongyrchol mewn ymgais i ddod o hyd i gyfuniad o wardiau sy'n ffitio o bell ffordd o dan y terfyn uchaf, ond nid yw hynny'n bodloni'r meini prawf eraill yn dda.

Mae cymuned Gwaun-Cae-Gurwen yn cydweddu'n ardderchog ag etholaeth Caerfyrddin. Mae'n rhan o ddyffryn Aman, ac mae'r gweddill yn Sir Gaerfyrddin. Fel

yr awgryma enw'r ward Brynaman Isaf, mae'r ffin sirol mewn gwirionedd yn rhannu pentref Brynaman; felly byddai cysylltiadau cymunedol yn cael eu parchu'n well gan y groesfan ffin hon.

Felly, mae gan fy etholaeth arfaethedig yng Nghaerfyrddin etholaeth o 75,943, o fewn yr amrediad etholiadol.

Etholaethau lle rwy'n anghytuno â'r Cynigion Cychwynnol, rhan pedwar: Abertawe, Castell-nedd, Sir Frycheiniog, a Sir Faesyfed

Mae llawer i'w groesawu yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn yn yr ardal hon:

- Mae parchu'r ffin bresennol rhwng etholaethau Brycheiniog a Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn yn cadw pob un o dair o siroedd traddodiadol Powys yn gyfan gwbl o fewn un etholaeth ym mhob achos, gan barchu cysylltiadau lleol hunaniaeth pob sir draddodiadol.
- Cytunaf mai'r lle gorau i etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed groesi ffin sirol Powys yw Castell-nedd Port Talbot yng Nghwm Tawe Uchaf. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad poblogaeth yr etholaeth yn dda, gydag Aberhonddu ac Ystradgynlais yn drefi mwyaf o bell ffordd, gan eistedd ar hyd llwybr bws T6 Traws-Cymru tuag at Gastell-nedd ac Abertawe. Mae Ystradgynlais yn rhan o ardal drefol gyffiniol ar draws y ffin sirol ag Ystalyfera yng Nghastell-nedd Port Talbot.— mae'r groesfan ffin hon yn gwbl ddi-dor. Da iawn i'r Comisiwn am feddwl am y syniad hwn.
- Rwy'n cymeradwyo'r Comisiwn am aduno cymuned y Mwmbwls mewn un etholaeth. Mae dymuniad pobl yn ward Mayals i fod yn etholaeth Gŵyr gyda gweddill cymuned y Mwmbwls yn etholaeth Gŵyr wedi codi dro ar ôl tro mewn adolygiadau blaenorol.
- Mae wardiau Gogledd a De Cilâ a Dynfant hefyd yn addas ar gyfer etholaeth Gŵyr gyda'u teimlad maestrefol allanol a'u cysylltiadau rhagorol â Phenrhyn ac i Dre-gŵyr.
- Rwy'n croesawu dychwelyd cymuned Coedffranc i etholaeth Castell-nedd, fel yr oedd cyn y Trydydd Adolygiad Cyfnodol, ac fel y mae pobl leol wedi galw amdano ym mhob adolygiad dilynol. Mae gan ardal Castell-nedd hunaniaeth gref, wahanol, a chroesawaf ffiniau sy'n debyg iawn i'r ardal cyn 1996 a'r ardal wledig a'r fwrdeistref ddinesig cyn 1974.

Mae nifer o bwyntiau negyddol hefyd, sydd yn gyffredinol yn deillio o geisio dod o hyd i gyfuniadau o wardiau sydd ychydig yn rhy agos i'r terfyn uchaf, yn hytrach na'r cyfuniadau mwy naturiol sydd ar gael ar ôl cynnwys cymuned Gwaun-Cae-Gurwen yng Nghaerfyrddin:

- Etholaeth graidd Abertawe gan gynnwys wardiau gwledig yr holl ffordd allan i eithafion gogleddol yr awdurdod sydd yn etholaeth bresennol Gŵyr. Mae achos da dros gynnwys naill ai Cocyd neu Sgeti yn lle hynny (er y byddai cynnwys y ddau yn anffodus dros y terfyn uchaf), gan fod y ddau yn rhannau annatod o Abertawe'n briodol ac mae ganddynt gysylltiadau llawer cryfach â rhannau eraill o Abertawe drefol nag y mae ardaloedd gwledig anghysbell yn ei wneud.

- Mae hyn hefyd yn cael yr effaith anffodus o roi wardiau Penllergaer a Gorseinon mewn gwahanol etholaethau, er eu bod yn ffurfio un anheddiad parhaus gyda'i gilydd, gan dorri cysylltiadau lleol amlwg.
- Mae rhannu wardiau Clydach a Mawr i wahanol etholaethau yn arbennig o anffodus ac yn amharu'n fawr ar gysylltiadau lleol. Er bod ward Mawr yn cwmpasu ardal wledig fawr (fel y mae ei henw'n awgrymu), mae'r mwyafrif helaeth o'r boblogaeth yn byw yn ward gymunedol Craig Cefn Parc, sy'n uniongyrchol gyffiniol â Chlydach. Dylid cadw Clydach a Mawr yn yr un etholaeth â'i gilydd.
- Mae'n werth nodi hefyd bod Clydach yn ffit eithriadol o wael gyda rhannau dwyreiniol Abertawe a Chastell-nedd. Mae canol Clydach ar lan orllewinol y Tawe. Mae ei brif gysylltiadau cyfathrebu – ffordd yr A4067 a bws X6 – yn rhedeg i'r gogledd-de ar hyd y lan orllewinol, tuag at Dreforys a chanol Abertawe i un cyfeiriad, a Phontardawe ac Ystradgynlais yn y llall.
- Mae symud Coedffranc, ond nid Llansawel yn ôl i Gastell-nedd nid yn unig yn amharu ar gysylltiadau lleol, ond mae'n arwain at gyfuno gormod o etholwyr o Gastell-nedd Port Talbot â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn osgoi ffin lletchwith ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd.

Gellir datrys y materion hyn fel y dangosir ar y map isod:



Mae hyn yn cynrychioli cyfres o newidiadau gweddol fach o gynigion cychwynnol y Comisiwn.

27 Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, i'w hailenwi'n Castell-nedd a Chilfái (rhif 17 ar y map uchod)

O'i gymharu â chynigion cychwynnol y Comisiwn, mae hyn yn ychwanegu'n ôl at Gastell-nedd holl wardiau Coedffranc a Llansawel a symudwyd allan yn 1983, gan ddod â ffin ddeheuol yr etholaeth yn ôl yn unol â ffin ddeheuol hanesyddol ardal

Castell-nedd. Bydd cynnwys Llansawel mewn etholaeth yng Nghastell-nedd hefyd yn galluogi ffin gyda llai o newid rhwng etholaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. I ffitio Llansawel yn ôl i mewn, mae hyn yn golygu bod angen cael gwared ar Glydach, sydd wedi'i leoli i'r gorllewin o Afon Tawe ac sydd wedi'i chysylltu'n wael â gweddill yr etholaeth.

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 74,001, o fewn yr amrediad etholiadol.

26 Canol a Gogledd Abertawe, i'w hailenwi'n Abertawe (wedi'i rifo fel 18 ar y map uchod)

O'i gymharu â chynigion cychwynnol y Comisiwn, nid yw hyn yn ychwanegu unrhyw un o'r wardiau o etholaeth Gŵyr (Penllergaer, Llangyfelach, Pontardulais, a Mawr), ond yn hytrach mae'n cadw Cocyd o Orllewin Abertawe. Mae hyn yn osgoi torri cysylltiadau lleol rhwng Mawr a Clydach a rhwng Penllergaer a Gorseinon fel y nodir uchod. Mae'n benderfyniad cyfartal iawn p'un ai i gynnwys Cocyd neu Sgeti, ond ar y cyfan teimlaf ei bod yn well cynnwys Cocyd, gan ei fod yn dod yr holl ffordd i mewn i Gendros, yn hytrach na Sgeti, sydd wedi'i wahanu i raddau helaeth oddi wrth graidd Abertawe gan Barc Singleton, ac sydd â llawer mwy yn gyffredin â Chilâ a'r Mwmbwls.

Mae etholwyr y gwrthgynnig hwn yn 73,781, o fewn yr amrediad etholiadol.

28 Gorllewin Abertawe a Gŵyr, i'w hailenwi'n Gŵyr (rhif 20 ar y map uchod)

Mae hyn yn golygu llai o newid o Benrhyn Gŵyr presennol na chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'n colli wardiau Clydach a Mawr, ond mae'n ychwanegu Mayals (gan ailddefnyddio cymuned y Mwmbwls mewn un etholaeth), Sgeti, Gogledd a De Cilâ, a Dynfant.

Mae hyn yn amharu llai ar gysylltiadau lleol presennol (e.e. rhwng Gorseinon a Phenllergaer) ac mae'n cymryd un ward yn llai o graidd trefol Abertawe (Cocyd) na chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'n cadw'r nodwedd dda o ailddefnyddio cymuned y Mwmbwls mewn un etholaeth.

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 76,194, o fewn yr amrediad etholiadol.

5 Brycheiniog a Maesyfed (rhif 19 ar y map uchod)

Mae'r gwrthgynnig hwn wedi ailuno Clydach a Mawr, ond nid yw'r ddau ohonynt yn ffitio yn unrhyw un o'r etholaethau blaenorol (o leiaf nid heb groesfan i lawr yr afon o'r Tawe neu groesi'r Lluchwr). Fodd bynnag, mae ganddynt gysylltedd rhagorol tua'r gogledd ar hyd cwm Tawe tuag at Bontardawe ac Ystradgynlais. Mae'r gwrthgynnig hwn felly unwaith eto yn dilyn dull y Comisiwn o symud niferoedd bach o wardiau ar draws ffiniau (tair ward Sir Ddinbych y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cynnwys yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr a'r gwahanol wardiau amddifad yn Ne-ddwyrain Cymru) ac mae'n cynnwys Clydach a Mawr gyda wardiau eraill cwm Tawe yn cael eu hychwanegu at Frycheiniog a Maesyfed. Mae hyn yn golygu bod angen tynnu dwy ward cymuned Gwaun-Cae-Gurwen i etholaeth Caerfyrddin. Mae hyn yn llwyddo i barchu cysylltiadau lleol yn well rhwng cymunedau yng nghwm Tawe, fel y dadleuwyd uchod.

Mae etholwyr y gwrthgynnig hwn yn 76,112, o fewn yr amrediad etholiadol.

Etholaethau lle rwy'n anghytuno â'r Cynigion Cychwynnol, rhan pump: Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr Tudful


Byddaf yn cyflwyno dwy fersiwn o wrthgynnig yma.

Efallai mai'r mater mwyaf arwyddocaol gyda chynigion cychwynnol y Comisiwn yn y De yw Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan yr etholaeth bresennol ffin ogleddol gref ar hyd yr M4, sy'n canolbwyntio ar drefi Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl. Mae cysylltiadau cryf rhwng y ddwy dref (er enghraifft, mae sawl llwybr bws yn eu cysylltu), a dylai'r newid lleiaf bennu nad ydynt wedi'u gwahanu heb reswm cymhellol. Mae natur y cynnig cychwynnol hyd yn oed yn fwy brawychus: mae'r ffin arfaethedig yn rhedeg ar hyd ymyl orllewinol cymuned Pen-y-bont ar Ogwr ei hun, gan osod y dref mewn etholaeth ar wahân i'w maestrefi gorllewinol mewnol agos cefn Glas, Llangewydd a Brynhyfryd, a Bryntirion.

Mae ateb llawer mwy syml, cyhyd â bod Llansawel wedi'i gynnwys yn etholaeth Castell-nedd fel yr amlinellir uchod. Yn syml, bydd dod ag etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr i fyny i faint drwy ychwanegu'r tair ward sy'n ffurfio tref fechan Pencoed (Felindre, Hendre a Phenprysg) yn creu dwy etholaeth ddilys ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot.

Byddai derbyn Rhondda y Comisiwn (bydd fy ail wrthgynnig yn gwrthod hyn), gan ddileu dwy groesfan ffin Caerdydd/Rhondda Cynon Taf a pheidio cymryd Caerffili yn galluogi dwy ward Aberaman i ymuno â thref Aberdâr yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Mae'r ddwy ward hyn yn faestref fewnol uniongyrchol o Aberdâr, sy'n cael eu gwasanaethu gan fysiau tref Aberdâr yn unig, a gyda chysylltiadau llawer gwannach â Chwm Cynon isaf.

Cyflwynir y fersiwn syml hon ar y map isod:



Etholwyr yr etholaethau yn y gwrthgynnig hwn yw:

- Merthyr Tudful ac Aberdâr (wedi'u labelu 12): 74,805
- Pontypridd (wedi'i labelu 14): 73,003
- Rhondda (wedi'i labelu 13): 71,684
- Pen-y-bont ar Ogwr (wedi'i labelu 15): 71,074 [enw amgen: Bridgend]
- Port Talbot a Maesteg (wedi'u labelu 16): 75,925 [enw amgen: Port Talbot and Maesteg]

Mae'r gwrthgynnig cyntaf hwn yn bodloni'n well y newid lleiaf a'r parch at feini prawf ffiniau llywodraeth leol.

Mae fy ail wrthgynnig yn ystyried y problemau gydag etholaeth arfaethedig y Comisiwn yn y Rhondda.


Mae'r tair ward fwyaf deheuol, Llanharan, Brynna, a Llanhari, wedi'u cysylltu'n wael iawn â gweddill yr etholaeth, ac yn uniongyrchol dim ond drwy drac fferm drwy bentref cyfryngol haeddiannol Peterstone-super-Montem sy'n eistedd ar hyd y gadwyn o fynyddoedd sy'n nodi ymyl ddeheuol y maes glo. Mae cysylltiadau Llanharan yn rhedeg i'r dwyrain-gorllewin ar hyd ffordd yr A473 Pontypridd-Pen-y-bont ar Ogwr ac ar hyd Prif Reilffordd De Cymru. Effaith dilyn ffin yr awdurdod lleol yw torri cysylltiadau lleol presennol â Phencoed.

Ar ochr arall y mynydd, mae mater tebyg yn bodoli. Ar hyn o bryd mae ward Gilfach Goch mewn etholaeth drawsffiniol gyda Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae ffin yr

awdurdod lleol yn rhan o bentref Gilfach Goch ei hun. Unwaith eto, mae alinio ffin yr etholaeth â ffin yr awdurdod lleol yn torri cysylltiadau lleol.

Felly, gall cyfnewid rhai wardiau/grwpiau o wardiau rhwng etholaethau gryfhau'r gwrthgynnig blaenorol o safbwynt cysylltiadau lleol, gyda chyfaddawd mewn ffyddlondeb i ffiniau awdurdodau lleol:

- Saith ward hen ardal drefol Ogwr a Garw i'r Rhondda (yn ogystal â chynnwys rhan o Gilfach Goch, mae hyn yn cysylltu eilwaith ag etholaeth y Rhondda rhwng brig Ogwr Fawr a Threorci.
- Y Pîl i Bort Talbot a Maesteg (mae cysylltiad da rhwng y ward hon a Chefn Cribwr ac â Margam).
- Llanharan a Brynna i Ben-y-bont ar Ogwr.
- Llanhari i Bontypridd (dim ond er mwyn y niferoedd yn y cyfluniad blaenorol y bu'n ofynnol yn y grŵp hwn; mae'n eistedd yn fwy naturiol gyda Phont-y-clun, gyda ward Tyla Garw yn y gymuned yn parhau i fod yn agos iawn at orsaf reilffordd Pont-y-clun).



Etholwyr yr etholaethau yn y gwrthgynnig hwn yw:


- Merthyr Tudful ac Aberdâr (wedi'u labelu 12): 74,805
- Pontypridd (wedi'i labelu 14): 76,224
- Rhondda (wedi'i labelu 13): 73,557

- Pen-y-bont ar Ogwr (wedi'i labelu 15): 71,964 [enw amgen: Bridgend]
- Port Talbot a Maesteg (wedi'u labelu 16): 69,941 [enw amgen: Port Talbot and Maesteg]

Mae cyfaddawdau o ran sut i werthuso'r ddau wrthgynnig hyn. Yn bersonol, mae'n well gennyf yr ail fel un sy'n adlewyrchu cysylltiadau lleol yn well. Ond mae'r ddau yn cadw Aberaman fel rhan o Aberdâr, ac mae'r ddau yn cadw etholaeth adnabyddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr heb fawr o newid ar ei ffiniau cryf presennol. Yn hyn o beth, mae'r ddwy fersiwn yn welliannau sylweddol ar gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Etholaethau lle rwy'n anghytuno â'r Cynigion Cychwynnol, rhan chwech: Gogledd Cymru, gan gynnwys Sir Drefaldwyn

Yn y rhanbarth hwn, teimlaf fod y Comisiwn wedi gwro'n sylweddol oddi wrth ansawdd uchel ei ddull gweithredu mewn mannau eraill. Nid yw'n glir ar ba sail y dewisodd y Comisiwn Dwyfor Meirionnydd ac Aberconwy fel yr etholaethau llai na'r angen i adeiladu olynwyr clir iddynt. Yn wir, mae rheswm da dros ddewis Arfon a Dyffryn Clwyd yn lle hynny.



Ar hyn o bryd mae etholaeth Dyffryn Clwyd yn cynnwys pedair o'r pum tref fwyaf yn Sir Ddinbych (Y Rhyl, Prestatyn, Dinbych, a Rhuddlan) ynghyd â dinas Llandudno. Mae Sir Ddinbych yn unigryw ymhlith prif ardaloedd Cymru a allai ffitio'n gyfan gwbl o fewn un etholaeth nad yw wedi cael y driniaeth hon gan y Comisiwn. Yn hytrach,

mae wedi'i rannu dair ffordd. Nid yw cyfyngiadau daearyddol agosrwydd y ffin yn egluro hyn, gan y byddai'n hawdd adeiladu tair etholaeth gyfreithiol yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae rhaniad Arfon hefyd yn wael iawn. Mae'n gosod ward Pentir, sy'n cynnwys Ysbyty Gwynedd, mewn etholaeth wahanol i ddinas Bangor.

Felly, rwy'n cyflwyno gwrthgynnig lle mae pob etholaeth yn y rhanbarth yn wahanol iawn i gynigion cychwynnol y Comisiwn, ond yn dilyn y maen prawf statudol i roi sylw i ffiniau awdurdodau lleol yn llawer agosach:

Gorllewin Sir y Fflint (29 ar y map uchod)

Mae'r etholaeth hon yn ychwanegu at etholaeth bresennol Delyn bedair ward Bwcle ac Ewlo o Alun a Glannau Dyfrdwy. Yn wahanol i gynigion cychwynnol y Comisiwn, mae'n gyfan gwbl o fewn Sir y Fflint ac nid yw'n croesi Bryniau Clwyd i Sir Ddinbych. Mae gan Fwcle ac Ewlo gysylltiadau da â'r Wyddgrug, tref sirol Sir y Fflint, sydd wedi'i lleoli yn yr etholaeth hon. Gan mai Sir y Fflint fu enw'r awdurdod lleol, nid Delyn, ers 1996, rwyf wedi dychwelyd i enw'r etholaeth cyn 1983, Gorllewin Sir y Fflint (dewis arall: West Flintshire).

Mae etholwyr y gwrthgynnig hwn yn 71,616.

Dwyrain Sir y Fflint (30 ar y map uchod)

Mae'r etholaeth hon yn seiliedig ar Alun a Glannau Dyfrdwy, ond mae'n dychwelyd i enw Dwyrain Sir y Fflint (dewis arall: East Flintshire) gan nad yw'r awdurdod lleol wedi cael ei alw'n Alun a Glannau Dyfrdwy ers 1996. Mae'n colli pedair ward Bwcle ac Ewlo i Orllewin Sir y Fflint, ac yn ennill tair ward Gwersyllt a Llai o Wrecsam a Brymbo. Bryn Cefn, Coedpoeth, Gwenfro, Y Mwynglawdd, a Brychdyn Newydd o Dde Clwyd.

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 71,494.

Wrecsam (31 ar y map uchod)

Mae hyn yn cynnwys holl wardiau Wrecsam o etholaethau Wrecsam a De Clwyd, ar wahân i'r rhai yn etholaeth Dwyrain Sir y Fflint uchod. Mae hyn yn cyflawni tair etholaeth dda yn gyfan gwbl o fewn Sir y Fflint a Wrecsam.

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 72,371

Sir Ddinbych (28 ar y map uchod)

Mae hyn yn seiliedig ar etholaeth Dyffryn Clwyd, a ehangwyd i gwmpasu ardal gyfan yr awdurdod lleol, sy'n gyson â dull rhagorol y Comisiwn yn Sir Fynwy, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Cheredigion. Er mwyn cynnal cysylltiadau lleol rhwng ardaloedd anghysbell yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd a thref Rhuthun, rwyf hefyd wedi ychwanegu wardiau Conwy yn Llansannan ac Uwchaled. Gan fod hyn bellach yn cynnwys Sir Ddinbych i gyd, awgrymaf y dylid galw'r etholaeth yn Sir Ddinbych (enw arall: Denbighshire).

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 76,712.

Sir Drefaldwyn a Meirionnydd (25 ar y map uchod)

Mae hyn yn ychwanegu at etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn holl wardiau "rhanbarth" cyngor Gwynedd ym Meirionnydd. Mae hyn yn rhoi ffiniau hynod o lân, gan adlewyrchu dwy sir draddodiadol gyfan, yn hytrach na chreu problemau'n artiffisial y Comisiwn yn y Gogledd Ddwyrain drwy greu etholaeth sydd (yn wahanol i unrhyw ffordd ddosbarthiadol) yn croesi Mynyddoedd y Berwyn. Mae cysylltiadau ffordd ardderchog ledled yr etholaeth hon, gyda ffyrdd dosbarthedig o ansawdd da yn cysylltu'r Trallwng, y Drenewydd, a Machynlleth â Dolgellau, Y Bala, a Blaenau Ffestiniog.

Er mwyn achub y blaen ar unrhyw wrthwynebiad i faint yr etholaeth hon, mae tua 3600 km² mewn arwynebedd tir, sy'n sylweddol is na'r uchafswm cyfreithiol. Mae'n werth nodi bod etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn eisoes yn rhychwantu holl led Cymru rhwng y ffin â Lloegr ac aber afon Dyfi. Nid yw 8 milltir arall o led i lawr i Aberdyfi yn wahaniaeth sylweddol.

Mae Sir Drefaldwyn a Meirionnydd hefyd yn rhannu tafodieithoedd tebyg o'r iaith Gymraeg, gan arddangos deusain ae unigryw yn draddodiadol. Mae economïau'r ddwy sir bellach yn dibynnu'n drwm ar ffermio a thwristiaeth. Mae digon yn gyffredin yn hanesyddol a diwylliannol rhwng y ddwy sir hanesyddol hyn y dylid derbyn y pâr rhifiadol cyfleus hwn.

Awgrymaf yr enw Maldwyn a Meirionnydd (gyda'r enw amgen Montgomeryshire and Meirionnydd).

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 73,621.

Caernarfon (26 ar y map uchod)

Dyma fersiwn estynedig o etholaeth bresennol Arfon, sy'n canolbwyntio ar ddinas Bangor a thref Caernarfon. At hyn mae holl wardiau "ardal" Gwynedd yn Nwyfor yn cael eu hychwanegu, a oedd gynt yn etholaeth Caernarfon nes i'r Pumed Adolygiad Cyfnodol ei symud i Ddwyrfor Meirionnydd yn erbyn protestiadau lleol ar bellenigrwydd Pen Llŷn o Ddolgellau ac mae'r ardal hon yn cael ei chynrychioli'n fwy cyfleus yn etholaeth Caernarfon. Mae'r rhifau presennol yn gweithio'n dda i adfer y cyfleustra hwn.

Nid oes digon o etholwyr yn Arfon a Dwyfor ar gyfer etholaeth gyfan, felly mae hyn hefyd yn ychwanegu o Gonwy wardiau Bryn, Pandy, Betws-y-coed, Crwst, Gŵyr, Eglwysbach, Llangernyw, Trefriw, ac Uwch Conwy. Mae'r rhain yn cynnwys Llanfairfechan, sydd â chysylltiadau da â Bangor ar hyd ffordd yr A55 a rheilffordd Prif Reilffordd Gogledd Cymru a hefyd ardal mewndirol Nant Conwy, rhan hanesyddol o Sir Gaernarfon i raddau helaeth ac sy'n cyd-fynd yn ddiwylliannol dda ag Arfon.

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 73,634.

Conwy (27 ar y map uchod)

Effaith symud rhai wardiau Conwy i Sir Ddinbych a Chaernarfon uchod yw gadael etholaeth yng Nghonwy sy'n cynnwys holl brif drefi arfordirol y fwrdeistref sirol, gan fod yn olynydd i Aberconwy a Gorrlewin Clwyd. Mae hon yn etholaeth gywasgedig,

gydlynol yn gyfan gwbl ym mwrdeistref sirol Conwy sy'n cynrychioli'r fwrdeistref sirol yn well na chynigion cychwynnol braidd yn wasgarog y Comisiwn.

Etholwyr y gwrthgynnig hwn yw 76,980.

BCW-10071 / Y Cyng. Lyndon Jones / Abertawe**Oddi wrth:** Jones, Lyndon [REDACTED]**Anfonwyd:** 03 Tachwedd 2021 22:43**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>**Pwnc:** Etholaeth Seneddol Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Annwyl Syr/iau,

Hoffem gefnogi eich cynigion ar gyfer Etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr, ond hoffem wneud y pwyntiau canlynol:

1. Mae'r etholaeth yn gyfan gwbl o fewn Dinas a Sir Abertawe. Mae ganddi gysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth da iawn a chredwn fod hyn yn creu etholaeth gydlynol iawn.
2. Rydym yn cefnogi'r cynnig i ailgysylltu Cymuned y Mwmbwls. Ar hyn o bryd, mae Newton, Ystumllwynarth a West Cross yn rhan o ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls, ond mae Mayals, er yn rhan o Gyngor Cymuned y Mwmbwls, yn Etholaeth Gorllewin Abertawe. O dan eich cynigion, bydd Cymuned y Mwmbwls wedyn mewn un etholaeth, sy'n hen bryd.
3. Mae cynnwys Dyfnant, Cilâ, Sgeti a'r Cocyd yn etholaeth newydd Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn gwneud synnwyr, oherwydd eu bod yn gymunedau yn eu rhinwedd eu hunain, ond maent hefyd ar gyrion Townhill a'r Uplands, sydd ill dau'n rhan annatod o Abertawe ac mae'r ddwy gymuned yn edrych i Ganol y Ddinas ac yn darparu ffin naturiol ar gyfer etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.
4. Mae trigolion Gŵyr, Y Crwys, Dyfnant a Chilâ Uchaf, yn defnyddio Cilâ a Sgeti fel eu canolfannau siopa lleol.
5. Mae trigolion Waunarlwyydd, sy'n rhan o Ward y Cocyd, yn edrych tuag at Dre-gŵyr, felly dylid eu cynnwys yn Etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Fodd bynnag, un newid y byddem yn ei awgrymu yw galw'r etholaeth newydd yn Gŵyr a Gorllewin Abertawe, oherwydd rhan Gŵyr o'r etholaeth yw'r rhan fwyaf o'r etholaeth newydd (mae gan Benrhyn Gŵyr 58.4% o'r etholaeth o'i gymharu â Gorllewin Abertawe 41.6%).

Yn gywir

Lyndon Jones

Y Cyng. Lyndon Jones MBE**Arweinydd y Grŵp Ceidwadol (Cyngor Dinas a Sir Abertawe)**

BCW-10072/ [REDACTED] / Sir Benfro

Ymateb a gyflwynwyd gan Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Penfro i Gynigion Cychwynnol Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Dyddiad: 29 Hydref 2021

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Penfro yn cydnabod pwysigrwydd yr arolwg hwn fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

1.2 Yn yr un modd ag â wardiau etholiadol a wardiau cymunedol, cytunwn ei bod yn bwysig cynnal arolygon o bryd i'w gilydd. Mae angen i ffiniau gweinyddol adlewyrchu, cyhyd ag y bo'n ymarferol bosibl, bod gan bob ardal nifer deg o etholwyr, gan sicrhau bod 'pwys' pob pleidlais yn gyfwerth ar gyfer pob etholydd. Er mwyn helpu i gyflawni'r tegwch hwn, pennwyd 'cwota etholiadol y Deyrnas Unedig' ar gyfer Arolwg 2023, sef 73,393, â goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (rhaid i bob etholaeth argymelledig fod â dim llai na 69,724 a dim mwy na 77,062 o etholwyr) ar sail nifer yr etholwyr ar 2 Mawrth 2020.

2. Cylch arolygu

2.1 Cytunwn, o ganlyniad i nifer gyfnewidiol yr etholwyr a demograffeg y boblogaeth, fod y ffiniau presennol yn deilwng o'u hail-werthuso. Nodir bod y ddau arolwg diwethaf heb eu cwblhau, sy'n ategu pwysigrwydd yr arolwg hwn ymhellach. Hefyd, nodir y bydd yr arolwg cyfredol wedi'i gwblhau erbyn 1 Gorffennaf 2023, yr adroddiad nesaf i'w gwblhau erbyn 1 Hydref 2031, ac adroddiad bob wyth mlynedd wedi hynny.

3. Data etholwyr ar gyfer arolwg 2023

3.1 Y ffigurau etholiadol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr Arolwg hwn yw'r rhai a gynhwyswyd ar y gofrestr etholiadol ar 2 Mawrth 2020.

3.2 Deallwn yn llawn fod angen defnyddio data sylfaen cyson i gynorthwyo mewn unrhyw arolwg. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigurau hyn eisoes wedi dyddio ac, ar ben hynny, erbyn i adroddiad yr Arolwg gael ei gyflwyno, bydd y ffigurau wedi dyddio tair blynedd.

4. Dosbarthiad etholaethau

4.1 Nodir y bydd maint Tŷ'r Cyffredin yn parhau â 650 sedd, gyda nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru yn gostwng o 40 i 32. Derbynnir y bydd y gostyngiad hwn yn mynnu newid sylfaenol i'r trefniadau presennol ar draws y rhan fwyaf o Gymru. O ganlyniad, ni fydd y ddwy etholaeth Seneddol bresennol yn Sir Benfro, sef Preseli Penfro a Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, yn bodoli mwyach.

5. Sylwadau ar y Cynigion Cychwynnol sy'n effeithio ar Sir Benfro

5.1 Caerfyrddin (Carmarthen)

Rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn ac yn cytuno y byddai'n briodol cyfuno wardiau Sir Gaerfyrddin sy'n rhan o etholaeth bresennol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro â

wardiau presennol Dwyrain Caerfyrddin i greu etholaeth arfaethedig Caerfyrddin (Carmarthen).

5.2 Mae'r etholaeth arfaethedig ganlyniadol, sy'n disgyn yn gyfan gwbl yn ardal prif gyngor Sir Gâr, yn adlewyrchu cysylltiadau lleol ac yn cynnwys wardiau sy'n debyg i'w gilydd yn gymdeithasol ac yn economaidd. Yn gyffredinol, byddai'r wardiau etholiadol yn yr etholaeth hon yn cysylltu eu hunain yn naturiol ag ardal Caerfyrddin.

5.3 Ceredigion Preseli

Yn gyffredinol, mae gennym bryderon yn ymwneud â cholli cysylltiadau lleol a 'hunaniaeth Sir Benfro' o ganlyniad i etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli. Mae'r etholaeth arfaethedig yn cyfuno wardiau Cilgerran, Clydau, Crymych, Dinas Cross, Gogledd Ddwyrain Abergwaun, Gogledd Orllewin Abergwaun, Wdig, Treletert, Llanrhian, Trefdraeth, Tyddewi, Llandudoch, Sceddau a Solfach yn Sir Benfro â'r holl wardiau etholiadol yn Sir Ceredigion.

5.4 Nodwn mai etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli fyddai un o'r etholaethau mwyaf ag arwynebedd o rhwng 2,000km² – 3,000km², gan dderbyn bod hyn ymhell islaw'r maint mwyaf, sef 13,000km².

5.5 Hoffem fynegi pryderon pellach am ei maint, yn enwedig natur linol, estynedig yr etholaeth arfaethedig. I roi rhyw fath o gyd-destun, mae taith o 81 milltir rhwng Ceulan-y-maes-mawr yn y gogledd a Thyddewi yn y de (y ddau bwynt pellaf), sydd ag amser teithio o 2 awr 20 munud - sef amser teithio tebyg i'r daith rhwng Caerdydd a Reading.

5.6 Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni cydraddoldeb etholiadol a chreu etholaethau â nifer etholwyr nad yw'n llai na 69,724 ac nad yw'n fwy na 77,602, teimlwn y byddai daearyddiaeth yr etholaeth arfaethedig yn ei gwneud yn heriol i Aelod Seneddol (AS) etholedig gynrychioli'r trawstoriad hwn o gymunedau'n effeithiol. Derbynnir bod mwyafrif y bobl yn ein cymunedau wedi'u cysylltu'n ddigonol erbyn hyn, ond nid yw hynny'n wir ar gyfer rhai preswylwyr o hyd ac, o ganlyniad, mae hygyrchedd eu AS yn bwysig dros ben. Mae hefyd yn wir y byddai'r AS am fod yn weladwy yn gorfforol ar draws yr etholaeth gyfan.

5.7 Mae'r pwyntiau hyn yn codi pryderon bod yr etholaeth hon wedi'i chynnig er hwylustod gweinyddol i alinio'r cymunedau hyn sydd fel arall yn bell oddi wrth ei gilydd, sydd wedi arwain at gynnig sy'n pwysu'n drwm ar gyflawni cydbwysedd etholiadol ar draul cynrychiolaeth effeithlon ac effeithiol o'r etholwyr hynny.

5.8 Nid ydym yn awgrym gwrthgynnig. Nid oes ateb amlwg yn Sir Benfro, gan fod yr opsiynau sy'n cynnwys Sir Benfro yn gyfyngedig dros ben. Tybed a oes opsiynau y tu allan i'n sir a all hwyluso ateb gwell? Byddem yn croesawu'r cyfle i gael sgwrs am sut y gellid dod o hyd i ateb arall.

5.9 Canol a De Sir Benfro

Er gwaethaf y pryderon yn ymwneud â gwahanu'r wardiau yn Sir Benfro, rydym yn derbyn y cynnig ar gyfer Canol a De Sir Benfro, a fyddai'n cynnwys y wardiau sy'n weddill yn Sir Benfro h.y. y wardiau sy'n weddill o etholaeth bresennol Preseli Penfro nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli, a'r wardiau sy'n weddill o etholaeth bresennol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Gweler 6.0 isod.

5.10 Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y cynnig hwn yn datrys sefyllfa sy'n bodoli ar gyfer ward etholiadol Martletwy ar hyn o bryd. Mae ward Martletwy wedi'i rhannu rhwng dwy etholaeth ar hyn o bryd, ac mae'r cynigion yn arwain at gynnwys y ward gyfan mewn un etholaeth, sef Canol a De Sir Benfro.

6.0 Ffiniau newydd llywodraeth leol

6.1 Hoffem dynnu sylw'r Comisiwn at fater a fyddai'n peri pryder yn ymwneud â ffiniau'r wardiau newydd yn Sir Benfro o ganlyniad i'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol ar gyfer y sir. Byddai'r sefyllfa hon yn ymwneud â ward Cyngor Cymuned Mynachlog-ddu.

6.2 Ar hyn o bryd, mae ward gymunedol Mynachlog-ddu yn rhan o ward etholiadol Maenclochog. O ganlyniad i'r newidiadau i ffiniau wardiau'r prif gyngor, erbyn i'r Arolwg o Ffiniau Seneddol gael ei roi ar waith yn 2023, bydd y ward gymunedol hon wedi dod yn rhan o ward etholiadol Crymymch. Bydd Crymymch yn rhan o etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli, ond bydd Maenclochog yn rhan o etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro.

6.3 Ar hyn o bryd, mae gan ward gymunedol Mynachlog-ddu 413 o etholwyr. Mae gan ward arfaethedig Ceredigion Preseli 76,269 o etholwyr (3.9% uwchlaw cwota etholiadol y DU). Mae gan ward arfaethedig Canol a De Sir Benfro 74,614 o etholwyr (1.7% uwchlaw cwota etholiadol y DU).

6.4 Awgrymir bod y Comisiwn yn ystyried adolygu ei gynnig cychwynnol, gyda golwg ar gynnwys ward etholiadol newydd Crymymch a Mynachlog-ddu, yn ei chyfanrwydd, yn etholaeth Ceredigion Preseli. Byddai hyn yn arwain at 76,682 o etholwyr yn etholaeth Ceredigion Preseli, sydd 4.5% uwchlaw cwota etholiadol y DU. Byddai gan etholaeth Canol a De Sir Benfro 74,201 o etholwyr, sydd 1.1% uwchlaw cwota etholiadol y DU.

BCW-10073 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd 03 Tachwedd 2021 23:50

At: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Seddi Seneddol

Dw i'n gwrthwynebu'n gryf enwi'r sedd newydd yn "Caerfyrddin" yn lle'r dewis amlwg sef 'Carmarthen' y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei adnabod ac yn gwybod ble mae'r ardal. Mae'r gogwydd gwleidyddol a boddio Plaid Cymru yn fy nychryn.

BCW-10074 / [REDACTED] / Brynaman

Annwyl Chwaer,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ynglyn a'r syniad o newid y ffiniau. Rwyf newydd dderbyn Papur Bro y Llais - Cwmtawe ac wedi fy syfrdanu eich bod am roi Brynaman isaf, Gwaun cae Gurwen, Cwmgors a Tairgwaith ynghyd a Chwmllynfell yn Aberhonddu a Maesyfed.

Rwy'n byw mewn ty sydd wedi ei leoli o fewn i Gastell Nedd / Port Talbot ac yn ffinio a Sir Gaerfyrddin. Mae eich syniad i newid y ffiniau yn hollol dwp i'n rhoi i mewn i'r ardal newydd o Frycheiniog a Sir Faesyfed. Nid oes sens yn symud y pentri yma o Gastell Nedd.

Nid oes llawer o wybodaeth wedi dod allan i'n hardal ni ac rwyf yn gwrthod eich cynnig i'n symud o Gastell Nedd.

Nid oes hysbysebion yn dangos eich awgrymiadau wedi bod yn ein papurau lleol o gwbl a theimlaf yn gryf iawn ar y mater yma. Dylai hysbysebion wedi cael eu gosod yn y papurau lleol ac hefyd dogfennau wedi eu gosod mewn llyfrgelloedd sydd yn cynnwys ein hardal ni.

Rwyf yn datgan fy siom enfawr sut y mae y mater yma wedi ei baratoi gan eich Comisiwn. Mae fel dyn dall yn ledio'n wybodaeth, gwnaf fy ngwrthwynebiad atoch i ail ystyried ein pentrefi.

Ble oedd y papuray a'r mapiau i'w gweled.

Teimlaf fel mynd a'ch cynigion i Swyddfa'r Ombwdsman.

Ni does gennyf gyfrifiadur ac rwyf yn [REDACTED] mlwydd oed ac wedi gweithio mewn Llywodraeth Leol.

Gofynnaf i chwi i feddwl unwaith eto ac i newid eich cynllun.

Yr eiddoch yn gywir iawn,



BCW-10075/ [REDACTED] / Llangynnwr

Ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau i Gymru

Etholaethau Caerfyrddin / Llanelli

Ar ôl byw ym mhlwyf Llangynnwr yn etholaeth Caerfyrddin ers dros 60 mlynedd, ro'n i braidd yn ddryslyd o weld y gallwn i fod yn byw yn etholaeth Llanelli cyn bo hir.

Dw i wedi edrych ar fap a cheisio meddwl pam.

Mae Llangynnwr ar gyrion Caerfyrddin. Caiff ffigurau Covid ar gyfer y plwyf eu hadrodd gyda thref Caerfyrddin.

Ro'n i'n meddwl efallai bod yr Afon Tywi wedi cael ei defnyddio fel ffin. Ond na. Mae plwyfi cyfagos Llanarthne a Llanddarog ill dau yn etholaeth Caerfyrddin.

Fe wnes i roi cynnig ar y cod post. Yn destun pryder, roedd teipio fy nghod post yn yr adolygiad yn dangos yn glir ein bod ni yn etholaeth Caerfyrddin, ond dydyn ni ddim. Mae cod post rhai eiddo i'r gorllewin o bentref Capel Dewi, SA32 8AY, yr un peth â'r cod post ar gyfer tai i'r dwyrain o'r pentref, sydd yn etholaeth Caerfyrddin.

Faint o bobl eraill sydd wedi'u cyfeirio at yr etholaeth anghywir?

Os bydd y ffiniau a awgrymir yn parhau, a fyddwn ni bob amser yn cael ein camarwain ynghylch gwybodaeth am San Steffan a Llywodraeth Cymru?

[REDACTED]



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru